



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus

Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau
nesaf

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2018
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 17 Gorffennaf 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu cynigion manylach yn ymwneud â diwygio'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru a sut y dylid goruchwyllo a chydgysylltu gwariant Llywodraeth Cymru ar waith ymchwil ac arloesi. Mae'r papur yn nodi cynigion technegol manylach ar gyfer strwythur y Comisiwn newydd a sut bydd yn gweithredu.
Sut i ymateb	Defnyddiwch yr holiadur yng nghefn y ddogfen i ymateb i'r ymgynghoriad neu llenwch y ffurflen ar-lein. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, byddwn yn dadansoddi ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion.
Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Manylion cyswllt	I gael rhagor o wybodaeth: Tîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Cyfeiriad e-bost: DiwygioPCET@llyw.cymru neu PCETReform@gov.wales
Diogelu data	Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch

cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair

Mae adroddiad yr Athro Ellen Hazelkorn a gyhoeddwyd yn 2016, *"Tuag at 2030 - Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru"*, wedi dechrau sgwrs genedlaethol newydd yng Nghymru am ddyfodol addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mewn ymateb i Adroddiad Hazelkorn, ym mis Mehefin eleni cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar gyfer ymgynghoriad yn nodi ein cynlluniau i greu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd i Gymru. Byddai'r Comisiwn yn disodli'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch presennol yng Nghymru (CCAUC), ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyllid a pherfformiad addysg bellach, dysgu yn y gweithle, a gwaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Drwy gydol yr hydref, ymgynghorwyd yn eang â darparwyr dysgu a dysgwyr o bob oed. Cynhaliwyd tair "sioe deithiol" ar gyfer rhanddeiliaid ynghyd â dwy gynhadledd ar gyfer dysgwyr mewn gwahanol rannau o Gymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc hefyd. Mae'r gefnogaeth gref i'r diwygiadau rydym wedi'u nodi, gan ddarparwyr dysgu, sefydliadau a dysgwyr, wedi bod yn galondid aruthrol inni. Mae yna gytundeb eang bod angen newid ac mai'r Comisiwn arfaethedig fyddai'r ateb i Gymru.

Roedd y Papur Gwyn yn nodi fframwaith bras ar gyfer swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn a sut y gallai weithio gyda gwahanol fathau o ddarparwyr dysgu. Rydym wedi gwrandao'n astud ar adborth pawb y gallai'r diwygiadau hyn effeithio arnynt. Mae'r papur hwn yn datblygu ymhellach rai o'r syniadau yn y Papur Gwyn ac yn rhoi mwy o fanylion technegol o ran sut rydym yn rhagweld y bydd y Comisiwn newydd yn gweithredu.

Un cwestiwn a godwyd yn y Papur Gwyn oedd p'un a ddylai chweched dosbarth ysgolion fod yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn newydd. Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnig y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gyllid chweched dosbarth ysgolion a goruchwyllo'r broses o sicrhau eu hansawdd. Bydd y cyfrifoldeb olaf hwn yn dibynnu i raddau ar ganlyniadau adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o rôl Estyn, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai eleni. Nid sefydlu model darpariaeth trydyddol yng Nghymru yw'r bwriad. Rwyf wedi ymrwymo i gadw economi gymysg o ddarpariaeth sy'n bodloni anghenion gwahanol ardaloedd a dysgwyr. Yn unol â'n nod cenedlaethol ar gyfer ysgolion, ein hamcan yw hyrwyddo gwell ansawdd, herio perfformiad gwael, dathlu a rhannu arferion da, a chodi safonau yn gyffredinol.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu rhoi gerbron ar gyfer ymgynghoriad unwaith eto. Rwy'n benderfynol o greu'r weledigaeth uchelgeisiol hon ar gyfer y dyfodol ynghyd ag ymarferwyr, dysgwyr ac arweinwyr y sector. Dim ond drwy gyd-fenter a chydweithredu y gallwn fod yn siwr o greu ffordd o gyllido, rheoleiddio a sicrhau perfformiad addysg drydyddol, hyfforddiant, a gwaith ymchwil ac arloesi ar gyfer y system gyfan yng Nghymru a fydd yn wirioneddol effeithiol ar gyfer dysgwyr a'r economi ac yn gynaliadwy yn y tymor hirach.

Mae'n bwysig nawr ein bod yn cynnal y momentwm ar gyfer newid. Edrychaf ymlaen at glywed eich barn am y cynigion technegol yn y papur ymgynghori hwn, ac at barhau i weithio mewn partneriaeth i greu'r dyfodol i Gymru y mae pob un ohonom am ei weld.

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Crynodeb

Yn 2016, cyhoeddodd yr Athro Hazelkorn ei hadolygiad o'r gwaith o oruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn nodi dau brif argymhelliad: y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth drosfwaol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO); ac y dylem sefydlu corff hyd braich newydd i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r sector, ei gyfeiriad strategol a'i arweinyddiaeth.

Yn dilyn yr argymhellion hyn, lansiodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn - "*Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Datblygu System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Ddiwygiedig*" - ym Mehefin 2017 yn nodi cynigion lefel uchel ar gyfer diwygio'r sector AHO. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru a fyddai'n gyfrifol am addysg uwch a phellach, dysgu yn y gweithle a dysgu oedolion. Nid oedd y penderfyniad ynghylch cynnwys lleoliadau chweched dosbarth o fewn cylch gwaith y Comisiwn wedi'i wneud.

Roedd yr ymatebion i'r Papur Gwyn yn awgrymu bod darparwyr dysgu, sefydliadau a dysgwyr yn cefnogi ein cynigion diwygio yn gyffredinol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ymatebion hyn wrth fynd ati i ddatblygu ymhellach gynigion y papur ymgynghori technegol hwn.

Rydym yn eich gwahodd i ymateb i'r cynigion manylach, mwy datblygedig hyn sy'n ceisio rhoi mwy o eglurder ar sut y byddai'r corff newydd yn gweithredu.

Bydd y Comisiwn yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, yn gweithredu hyd braich oddi wrth y llywodraeth, ond o fewn fframwaith cynllunio a chyllido strategol a sefydlir gan Weinidogion Cymru. Hwn fydd yr unig gorff fydd yn cyllido ac yn rheoleiddio addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaethau, dysgu yn y gweithle, dysgu oedolion a lleoliadau chweched dosbarth. Bydd hefyd yn gyfrifol am waith ymchwil ac arloesi a gyllidir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cynigion ar gyfer sut i weithredu'r Comisiwn yn cynnwys:

- ffurfio cydberthnasau gwaith effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn, a rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu i sicrhau atebolrwydd, cysondeb a chyfathrebu clir ar bob lefel;
- cynigion i sefydlu cytundebau ar gyfer rheoleiddio a deilliannau rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu/hyfforddiant;
- sefydlu trefniadau sicrwydd ariannol cadarn i warchod buddiannau dysgwyr, cronfeydd cyhoeddus ac enw da'r sector yng Nghymru;
- integreiddio a chryfhau'r systemau cynllunio a chyllido amrywiol ar draws y sector cyfan;
- trefniadau cyson i warchod dysgwyr sy'n astudio mewn sefydliadau AHO;
- dull mwy cydlynol o sicrhau ansawdd, gan gynnwys datblygu asesiad fframwaith ansawdd;
- y gallu i gasglu a dadansoddi data ac ystadegau er mwyn goruchwylio gwaith a pherfformiad, pennu a monitro blaenoriaethau strategol a gweithredol a dosbarthu cyllid yn briodol.

Amlinellir cynigion yma i gynnwys lleoliadau chweched dosbarth o fewn cylch gwaith y Comisiwn. Nid sefydlu system drydyddol yw ein nod, ond sicrhau mwy o gydlyniant a chydabyddiaeth ar draws y sector. Yn unol â'n gweledigaeth genedlaethol, rydym am ganolbwyntio ar ddeilliannau dysgwyr a gwella ansawdd ar draws y system.

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru i helpu i fuddsoddi mewn twf a mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau. Gyda hyn mewn golwg, mae ein papur yn cynnig diwygiadau i'r trefniadau presennol o ran prentisiaethau, er mwyn ymateb yn well i anghenion economi Cymru, cyflogwyr a dysgwyr.

Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â'r cynigion yn y Papur Gwyn i sefydlu Research and Innovation Wales (RIW). Mae'r papur hwn yn gofyn am fwy o sylwadau ar y trefniadau strwythurol ar gyfer y Comisiwn, RIW a'r gymuned ymchwil ac arloesi yn ogystal â chyllido a monitro perfformiad a phrosesau gweithredu.

Pwysleisiodd y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yr angen i sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei ystyried drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynigion hyn. Mae sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y dysgwr yn hollbwysig ac mae cynigion i gryfhau llais y dysgwr a'r gynrychiolaeth a roddir iddynt yn cael eu datblygu ymhellach yn y papur hwn.

Bydd cynyddu'r gallu i ddysgu drwy'r Gymraeg yn rhan annatod o ddyletswyddau'r Comisiwn newydd. Yn unol â strategaeth newydd y Gymraeg, *Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr*, bydd angen i'r Comisiwn newydd gynllunio i ddatblygu'r Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ei holl weithgareddau.

Ochr yn ochr â hyn, mae yna ddatblygiadau eraill i'w gweld yng Nghymru a'r DU. Yng Nghymru, rhoddwyd ystyriaeth i ganfyddiadau adolygiadau annibynnol gan yr Athro Harvey Weingarten, yr Athro Graeme Reid a'r Athro Graham Donaldson wrth ddatblygu ein cynigion. Yn Lloegr, mae nifer o ddiwygiadau yn cael eu gwneud sydd â goblygiadau i Gymru. Mae'r papur hwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar yr angen i ddiwygio deddfwriaeth mewn ymateb i'r rhain, gan gynnwys graddau carlam a dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

Diben y papur ymgynghori hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar gynigion ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru, *"Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Datblygu System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Ddiwygiedig"*, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017:

https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/17062_0-reformed_pcet_system_final-cy.pdf

Roedd y Papur Gwyn yn ymateb i adroddiad annibynnol yr Athro Ellen Hazelkorn yn *"Tuag at 2030 - Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru"*:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/reports/review-of-the-oversight-and-regulation-of-post-compulsory-education-and-training-in-wales/?skip=1&lang=cy>

Roedd Adroddiad Hazelkorn yn cydnabod bod yna sefydliadau amrywiol, amlweddog o fewn sector addysg ôl-orfodol Cymru, sy'n darparu ar gyfer anghenion dysgwyr o 16 oed. Gan gydnabod bod gwahanol rannau o'r system wedi ymateb i heriau ac anghenion dinasyddion a chymdeithas y 21ain ganrif, ac wedi ceisio diwallu'r anghenion hynny, cododd yr adroddiad nifer o gwestiynau hefyd o ran cynllunio a chyllido'r sector ôl-orfodol:

- roedd yna ddryswch o ran rolau a oedd yn gorgyffwrdd, a dyblygu adnoddau, rhwng sefydliadau gwahanol ac ar draws sefydliadau;
- nid oedd y llywodraeth na'r sefydliadau, ar unrhyw lefel, yn meddwl yn ddigon strategol, gan arwain at ddiffyg cydweithredu a diffyg màs critigol;
- mae diffyg gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system ôl-orfodol;
- mae diffyg llwybrau dysgu cydlynol a chyfleoedd addysgol i ddysgwyr yng Nghymru, beth bynnag eu hoed, eu rhyw neu eu doniau penodol, o'r ysgol i addysg bellach ac uwch;
- mae angen gwell cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg ac ymchwil a arweinir gan gyflenwad a darpariaeth addysg ac ymchwil a arweinir gan y galw, gan symud i ffwrdd oddi wrth system a ysgogir gan alw yn y farchnad i gyfuniad o reoleiddio a chyllid sy'n seiliedig ar gystadleuaeth;
- roedd cryn ansicrwydd o fewn y system yn sgil yr holl wahanol adolygiadau a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf, gan greu cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y system a chyllid myfyrwyr.

Un o brif argymhellion adroddiad Hazelkorn oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff strategol hyd braich newydd i oruchwylio cyllid a pherfformiad addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru.

Roedd y Papur Gwyn yn nodi tystiolaeth ynghylch perfformiad y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru ar hyn o bryd, ac amlinellodd yr achos dros newid. Roedd yn cynnwys cynigion lefel uchel, cychwynnol ar gyfer Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru a fyddai'n gyfrifol am addysg uwch a phellach, dysgu yn y gweithle (gan gynnwys prentisiaethau) a dysgu oedolion. Byddai'r Comisiwn hefyd yn gyfrifol am oruchwylio gwaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Byddai'r Comisiwn yn cael cyfrifoldeb am gyllido, cynllunio, sicrwydd ansawdd, perfformiad a risg, a sicrhau deilliannau cryfach i Gymru ar draws y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Tabl Cynnwys

1.	Cefndir	t. 11
2.	Cyd-ddatblygiadau	t. 14
3.	Y Comisiwn	t. 16
4.	Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn	t. 19
5.	Y berthynas rhwng y Comisiwn a Darparwyr Dysgu	t. 23
6.	Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido	t. 33
7.	Diogelu buddiannau dysgwyr	t. 41
8.	Cryfhau llais y dysgwr a'r gynrychiolaeth a roddir iddo	t. 49
9.	Sicrhau a gwella ansawdd	t. 54
10.	Chweched dosbarth	t. 65
11.	Cefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru	t. 72
12.	Ymchwil ac arloesi	t. 81
13.	Sicrwydd ariannol a llywodraethiant	t. 93
14.	Llywodraethiant addysg uwch	t. 105
15.	Cefnogi'r Gymraeg	t. 125
16.	Data, ystadegau ac ymchwil	t. 128
17.	Materion yn ymwneud â chyllid myfyrwyr	t. 131
18.	Atodiad A	t. 139
19.	Rhestr o gwestiynau	t. 145

1. Cefndir

1. Ar 19 Medi 2017, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru "Ffyniant i Bawb", strategaeth genedlaethol newydd Cymru. Mae pedair thema'r strategaeth yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn esbonio sut, drwy weithio mewn ffordd fwy integredig a chydweithredol, gall y llywodraeth a'i phartneriaid gynyddu lles pobl Cymru. Dyma'r pedair thema:

Ffyniannus a Diogel - y nod yw ysgogi economi yng Nghymru sy'n lledaenu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael ag anghyfarfadedd, gan sicrhau ffyniant unigol a chenedlaethol.

Iach ac Egnïol - gwella iechyd a llesiant yng Nghymru i unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i gyd i gyflawni'r uchelgais o sicrhau ffyniant i bawb, a chan gymryd camau amlwg i atal problemau yn hytrach nag ymateb iddynt.

Uchelgeisiol ac yn Dysgu - ennyn brwdfrydedd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, gan eu hysbrydoli â'r uchelgais i fod cystal ag y gallant fod.

Unedig a Chysylltiedig - creu cenedl lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, eu hunaniaeth Gymreig a'u hiaith, a'u lle yn y byd.

2. Mae "*Ffyniant i Bawb*" yn cydnabod pum maes sydd â'r potensial i gyfrannu fwyaf at ffyniant a lles hirdymor.

Blynyddoedd Cynnar: mae profiadau unigolyn yn ystod plentynod yn chwarae rhan allweddol wrth lunio ei ddyfodol, ac yn hollbwysig o ran ei gyfleoedd i fynd ymlaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a llawn.

Tai: mae cartrefi fforddiadwy o ansawdd yn sicrhau ystod o fanteision iechyd, dysgu a ffyniant.

Gofal cymdeithasol: yn chwarae rhan hollbwysig mewn cymunedau cryf, gan sicrhau bod pobl yn gallu bod yn iach ac yn annibynnol am gyfnod hirach, ac mae'n sector economaidd pwysig ynddo'i hun.

Iechyd meddwl: bydd un o bob pedwar yng Nghymru yn profi salwch meddwl ar ryw bwynt yn eu bywydau. Yn aml, gall cael y driniaeth iawn yn gynnar, a dealltwriaeth well o gyflyrau, atal effeithiau andwyol hirdymor.

Sgiliau a chyflogadwyedd: gorau'n byd fydd sgiliau pobl, gorau'n byd fydd eu cyfle i gael cyflogaeth deg, sicr sy'n dod â boddhad; a chryfa'n byd fydd y sylfaen sgiliau yng Nghymru, mwya'n byd fydd y cyfle i ddenu busnesau newydd a datblygu busnesau sydd eisoes yn bodoli er mwyn gwella ffyniant.

3. Gan adeiladu ar y dull gweithredu strategol a amlinellwyd yn *Ffyniant i Bawb*, mae'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017 yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau ein seiliau economaidd a

diogelu dyfodol economi Cymru. Mae'r Cynllun yn cydnabod mor hollbwysig yw meithrin uchelgais, gwella sgiliau a chefnogi dysgu gydol oes i economi lwyddiannus a chynhwysol.

4. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn ymrwymo i gyflwyno "...system gynllunio strategol ar gyfer cyflenwi addysg a sgiliau ar draws addysg ôl-16, gan gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau, pan fo hynny'n bosibl ac yn ymarferol, fod y gwaith hwn yn cynnwys ein sectorau cenedlaethol a sylfaen. Byddwn yn asesu ac yn paru sgiliau ag anghenion yr economi, gan adeiladu ar yr ymrwymiad yn Ffyniant i Bawb i weithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ragweld anghenion sgiliau yn y dyfodol. Bydd gwaith cynllunio a chyflenwi addysg a sgiliau ôl-16 yn cynnwys cysylltiadau cadarn ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r system addysg yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau ehangach."
5. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi hefyd yn tynnu sylw at gynlluniau i ddwyn ynghyd, drwy'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yr holl gyllid ymchwil a reolir gan Lywodraeth Cymru "...er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau Cymreig, gan gynnal y manteision sydd ynghlwm wrth gysylltiadau cenedlaethol a sefydliadol rhwng gwaith ymchwil, arloesedd, gwaith datblygu sgiliau ac addysgu. Byddwn yn gwneud hyn drwy fuddsoddi'n benodol mewn gwaith ymchwil a gwaith arloesi mewn prifysgolion, gan gydnabod rhagoriaeth, gwobrwo cyflawniad a blaenoriaethu masnacheiddio a chamau olaf y raddfa ar gyfer mesur pa mor barod yw technoleg."
6. Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ategu amcanion *Ffyniant i Bawb* a'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* drwy alluogi'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru i fod yn fwy cydlynol a chanolbwyntio'n fwy ar anghenion lleol a rhanbarthol dysgwyr a busnesau. Mae ganddynt y potensial i ysgogi ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, gan dynnu darparwyr addysg a hyfforddiant yn nes, gyda chymorth dulliau cynllunio a chyllido strategol mwy cadarn, systemau perfformiad ac atebolrwydd cryfach, a threfniadau gwella ansawdd a fydd yn galluogi Cymru i feincnodi a dysgu oddi wrth y gorau yn y byd.
7. Daeth 92 o ymatebion i Bapur Gwyn 2017 i law. Ar 5 Rhagfyr, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddatganiad llafar a chyhoeddodd grynodedb o'r ymatebion hynny; mae crynodedau o Ddigwyddiadau Llais y Dysgwyr yn ogystal â'r Ymgynghoriad â Phobl Ifanc hefyd wedi'u cyhoeddi.
8. Croesawodd rhanddeiliaid rôl gynllunio strategol y Comisiwn arfaethedig, ac roeddent hefyd yn cytuno y dylai'r cyllid a roddir i ddarparwyr dysgu gan y Comisiwn fod yn ddibynnol mewn rhyw ffordd ar gytundeb Gweinidogion Cymru i'w gynllun strategol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr y tu allan i'r sector addysg uwch yn cefnogi cyflwyno Cytundebau Deilliannau mewn egwyddor, ond eisiau mwy o fanylion ar eu gweithredu. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys mwy o fanylion ar y dull gweithredu hwn i randdeiliaid eu hystyried.

9. Roedd yr ymatebwyr yn gweld rôl i'r Comisiwn arfaethedig yn helpu dysgwyr i newid eu cwrs a'u darparwr, ac yn gwarchod myfyrwyr lle bo darparwr yn methu. Roedd y mwyafrif hefyd yn cytuno bod ehangu mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn parhau i fod yn broblem yn ogystal â'r diffyg cyfleoedd i astudio'n rhan-amser. Mae'r rhain yn parhau i fod yn egwyddorion hollbwysig wrth ddiwygio cymorth i ddysgwyr, ac maent yn cael sylw pellach isod.
10. O ran ansawdd y ddarpariaeth, roedd mwyafrif llethol y rhanddeiliaid yn gefnogol i roi rôl gwella ansawdd i'r Comisiwn. Fodd bynnag, roedd y farn yn rhanedig ynghylch ai un fframwaith sicrhau ansawdd cyffredin ar gyfer y system AHO oedd y ffordd iawn ymlaen. Mae angen gwneud mwy o waith yn hyn o beth, a bydd yr adolygiad ategol sy'n cael ei gynnal gan yr Athro Harvey Weingarten yn cyfrannu'n fawr at y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn, yn ogystal â gwaith ymgysylltu ag arbenigwyr eraill yn y maes. Mae'r ddogfen hon yn ehangu ar y materion hyn.
11. Roedd p'un a ddylid rhoi'r cyfrifoldeb dros chweched dosbarth i'r Comisiwn arfaethedig yn gwestiwn penodol a holwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylai chweched dosbarth gael eu trin fel rhan o system AHO at ddibenion y diwygiadau arfaethedig hyn. Roedd rhai yn teimlo y dylid cyflwyno'r cyfrifoldeb dros chweched dosbarth yn ddiweddarach, ac na ddylai fod yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn o'r dechrau.
12. Yn ogystal â'r hyn y mae rhanddeiliaid wedi'i ddweud wrthym mewn ymateb i'r Papur Gwyn, mae angen inni ystyried datblygiadau eraill hefyd a'u heffaith ar ein cynigion i ddiwygio AHO.
13. Argymhellodd yr adolygiad diweddar o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei fod yn ehangu ei gylch gwaith addysg uwch i gwmpasu'r sector AHO cyfan. Mae hyn yn gwbl gydnaws â'n cynigion i ddiwygio AHO a bydd y berthynas rhwng y Comisiwn arfaethedig a'r Coleg yn ystyriaeth bwysig wrth inni symud ymlaen.

2. Cyd-ddatblygiadau

14. Bydd cynigion yr ymgynghoriad technegol hwn yn cyd-fynd â deilliannau nifer o gyd-ddatblygiadau ac yn rhoi ystyriaeth i'r rheini. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: yr Adolygiad o Systemau Monitro a Gwella Effeithiolrwydd Addysg Ôl-Orfodol yng Nghymru sy'n cael ei gynnal gan yr Athro Harvey Weingarten; yr Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru sydd wedi'i arwain gan yr Athro Graeme Reid, a'r adolygiad annibynnol o Estyn sy'n cael ei gynnal gan yr Athro Graham Donaldson.
15. Mae'r Athro Harvey Weingarten yn cynnal adolygiad annibynnol¹ o'r systemau i fonitro a gwella effeithiolrwydd addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Dechreuodd yr Athro Weingarten ar y gwaith hwn ym mis Hydref a'r gobaith yw y bydd yr adroddiad ar ei ganfyddiadau ar gael erbyn gwanwyn 2018. Bydd ei waith yn help wrth lunio cytundebau deilliannau yn y dyfodol a allai fod yn rhan o berthynas y Comisiwn arfaethedig â darparwyr.
16. Mae'r Athro Graeme Reid wedi cwblhau'n derfynol ei adolygiad o ymchwil ac arloesi yng Nghymru a ariennir gan y Llywodraeth² ac wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i Weinidogion Cymru. Gofynnwyd i'r Athro Reid ystyried sut gellir cynyddu capasiti a gallu Cymru i wneud gwaith ymchwil ac arloesi, ar lefel unigolion a thrwy gydweithio rhwng academia a diwydiant, a hynny er mwyn cynyddu'r manteision cymdeithasol-economaidd, iechyd a llesiant yng Nghymru. Mae ei waith yn llywio'r ffordd rydym yn meddwl am rôl ac effaith bosibl y Comisiwn arfaethedig.
17. Bydd yr Athro Graham Donaldson yn cynnal adolygiad annibynnol o rôl Estyn³ a bydd yn edrych ar oblygiadau'r diwygiadau helaeth ym maes addysg yng Nghymru yng nghyd-destun rôl Estyn yn y dyfodol. Bydd yr Athro Donaldson yn cyflwyno ei adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Phrif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru ar ôl iddo gasglu a dadansoddi tystiolaeth ar arolygiadau, gwella ansawdd ac atebolrwydd. O wneud hynny, bydd yn helpu Estyn i fireinio a datblygu eu harferion. Rhoddir ystyriaeth i'w gasgliadau yn ein cynigion ar gyfer swyddogaethau asesu a gwella ansawdd y Comisiwn arfaethedig.
18. Mae ein hymgyrch genedlaethol⁴ yn amlinellu sut bydd y system ysgolion yn symud ymlaen yn ystod 2017-21, gan sicrhau y gweithredir y cwricwlwm newydd gan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, rhagoriaeth a thegwch mewn system sy'n gwella ei hun. Mae'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar godi safonau i bawb, lleihau'r bwch cyrhaeddiad a darparu system addysg y gall y genedl gyfan fod yn falch ohoni a bod â hyder ynddi.

¹ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/reviewofmonitoringandimprovingpostcompulsoryed/?lang=cy>

² <http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/review-of-government-funded-research-and-innovation-in-wales-begins/?lang=cy>

³ <http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/drive-to-improve-education-at-heart-of-estyn-review/?lang=cy>

⁴ Cenhadaeth ein Cenedl yw'r cynllun gweithredu ar gyfer addysg yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym Medi 2017: <http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?lang=cy>

Dim ond drwy weithio ar draws ffiniau y gallwn greu Cymru lewyrchus lle mae'r addysg gynharaf, addysg orfodol ac addysg ôl-orfodol yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymdeithas yng Nghymru. Mae ein datganiad polisi ar Ddysgu Oedolion yng Nghymru⁵ yn amlinellu cynigion ar gyfer datblygu dysgu oedolion, gan gynnwys ymgynghori ymhellach i gyflwyno strwythur cyllido a chyflawni i sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cyrraedd y rheini sydd ei angen fwyaf. Bydd ein cynigion ar gyfer diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn rhoi ystyriaeth i ddeilliannau'r ymgynghoriad ar ddysgu oedolion. Drwy edrych ar y system gyfan - gan gynnwys llwybrau a threfniadau pontio mwy llyfn ac effeithiol i ddysgwyr - ein bwriad yw sicrhau bod y Comisiwn arfaethedig yn helpu i greu cyfleoedd dysgu ôl-orfodol i bawb.

⁵ <http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/adult-learning-in-wales/?lang=cy>

3. Y Comisiwn

19. Mae'r cynnig i greu corff statudol newydd Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru ("y Comisiwn") wedi cael cefnogaeth eang iawn drwy ymgynghoriad y Papur Gwyn. Rydym felly yn cynnig symud ymlaen â'r cynigion hyn.
20. Y Comisiwn fydd unig gyllidwr a rheoleiddiwr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Caiff gwaith ymchwil ac arloesi a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ei gynnwys o fewn cylch gwaith y Comisiwn o'r dechrau'n deg, gan ganiatáu am y tro cyntaf ddull o fodloni anghenion dysgwyr ac economi Cymru sy'n gweithredu ar draws systemau.
 - Bydd y Comisiwn yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, yn gweithredu hyd braich oddi wrth y llywodraeth, ond o fewn fframwaith cynllunio a chyllido strategol a sefydlir gan Weinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion yn gyfrifol am benodi Cadeirydd, Prif Weithredwr ac aelodau Bwrdd anweithredol y Comisiwn. Rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn fod â dim mwy na 15 o aelodau a dim llai na 9.
 - Bydd hyd at 15 o aelodau gan y Comisiwn a fydd wedi'u dewis ar sail eu sgiliau a'u profiad ar draws ystod llawn swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn. Byddem yn disgwyl i'r aelodau gynrychioli diwydiant a chyflogwyr, addysg ôl-16, dysgu yn y gweithle, dysgu oedolion, y trydydd sector a'r gymuned ymchwil ac arloesi.
 - Bydd yr aelodaeth yn cynnwys o leiaf ddau i gynrychioli dysgwyr.
 - Caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei ddiddymu yn sgil creu'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am ddyrannu cyllid ar gyfer addysg bellach, addysg uwch, dysgu yn y gweithle, dysgu oedolion yn ogystal â gwaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru.
 - Bydd gofyn i'r Comisiwn greu pwyllgor statudol o'r enw Ymchwil ac Arloesi Cymru a fydd yn dyrannu cyllid ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesi ac a fydd yn hyrwyddo Cymru ar lefel y DU ac yn fyd-eang. Bydd creu Ymchwil ac Arloesi Cymru yn gofalu bod ein system ymchwil ac arloesi yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn ddigon strategol a hyblyg i sicrhau ein gallu cenedlaethol yn y dyfodol i ysgogi darganfyddiadau a thwff, a thrwy hynny feithrin cymysgedd o waith ymchwil a ysgogir gan chwilfrydedd a gwaith ymchwil ac arloesi sy'n ymateb i heriau.
 - Cadeirydd Ymchwil ac Arloesi Cymru ddylai fod yn Is-Gadeirydd y Comisiwn.
 - Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r gyllideb ar gyfer y Comisiwn drwy lythyr grant.
 - Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn lunio cynllun strategol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a fydd yn sail i'r dyraniadau cyllid blynyddol a roddir i'r Comisiwn.
 - Byddai trefniadau yn cael eu gwneud i warchod cydweithio, cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiwn ac eraill y byddai angen iddo weithio gyda nhw er mwyn cyflawni ei swyddogaethau statudol - er enghraifft unrhyw sefydliad a benodir gan y Comisiwn i gynnal asesiad o ansawdd.

Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol

21. Bydd y Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru o ran ei holl swyddogaethau.
22. Bydd o leiaf 9 aelod i'r Comisiwn, a gallai fod hyd at 15. Cânt eu penodi drwy ymarfer penodiadau cyhoeddus gan nodi egwyddorion Nolan.
23. Byddai'r aelodaeth fel a ganlyn:
 - a) Prif Weithredwr, a benodir gan Weinidogion Cymru drwy gystadleuaeth agored. Yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr, bydd hefyd yn aelod o'r Comisiwn, a bydd yn atebol i Gadeirydd y Bwrdd.
 - b) Cadeirydd, a benodir gan Weinidogion Cymru i gadeirio'r Comisiwn.
 - c) aelodau anweithredol eraill a benodir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys o leiaf ddau i gynrychioli dysgwyr.
24. Bydd ysgrifennydd cwmni yn gyfrifol am yr ysgrifenyddiaeth a seilwaith priodol y Comisiwn.
25. Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu nifer o bwyllgorau statudol i ddarparu fframwaith llywodraethiant cryf sy'n adlewyrchu ystod eang y swyddogaethau y byddai'r Comisiwn yn gyfrifol amdanynt. Yn benodol, rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu pwyllgorau statudol ar wahân i ddiogelu anghenion dysgwyr, ac i fynd i'r afael ag anghenion busnesau, cyflogwyr a phrentisiaid yng Nghymru. Byddai'r pwyllgorau hyn yn sicrhau bod yna gynrychiolaeth a sylw digonol ym mhob rhan o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac yn ei gwneud yn bosibl i'r system newydd yng Nghymru fod yn fwy cydlynol a chanolbwyntio'n fwy ar anghenion lleol a rhanbarthol dysgwyr a busnesau, gan gefnogi prosesau cynllunio a chyllido strategol cadarn.
26. Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu'r pwyllgorau statudol canlynol:
 - Pwyllgor Archwilio a Chydymffurfiaeth y byddai ei gylch gwaith yn cynnwys ystyried cyfrifon blynyddol a materion sy'n ymwneud â gweithrediadau mewnol y Comisiwn, yn ymwneud yn benodol â rheoli risg, llywodraethiant corfforaethol, archwilio mewnol, archwilio allanol a chydymffurfiaeth;
 - Pwyllgor Tâl;
 - Pwyllgor Ansawdd i roi cyngor i'r Comisiwn ar asesu ansawdd addysg a hyfforddiant ar draws holl sectorau AHO, a datblygu fframwaith ansawdd;
 - Ymchwil ac Arloesi Cymru (mae swyddogaethau'r pwyllgor hwn wedi'u nodi isod);
 - pwyllgor â chyfrifoldeb dros roi cyngor i'r Comisiwn ar faterion yn ymwneud ag ehangu cyfranogiad.
27. Byddai'r Comisiwn yn derbyn pŵer cyffredinol i greu unrhyw bwyllgorau eraill y mae'n teimlo bod eu hangen.

28. Yn ogystal, mae yna fyrddau cynghori pwysig eisoes sy'n rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth, sgiliau a phrentisiaethau. Sefydlwyd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn fwrdd cynghori annibynnol yn 2008. Ei ddiben yw darparu fforwm effeithiol i gyflogwyr roi mewnbwn strategol a her sylweddol i'r ffordd y caiff polisi cyflogaeth a sgiliau ei lywio yn y dyfodol. Sefydlwyd Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru yn 2017 i gefnogi polisi sgiliau prentisiaeth Llywodraeth Cymru. Caiff y Bwrdd ei arwain gan fusnesau, ac mae cynrychiolwyr byd busnes arno, undebau llafur, cyrff addysg bellach a Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi cyngor ar ehangu prentisiaethau i sectorau newydd o'r economi ac mae'n nodi sectorau lle gall prentisiaethau newydd neu ddiwygiedig wneud gwahaniaeth go iawn i gyflogwyr a chyflogeion. Mae'r Bwrdd yn gweithio'n agos gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wrth lunio Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau ac wrth wneud gwaith ymchwil i'r farchnad lafur.
29. O gofio cylch gwaith arfaethedig y Comisiwn newydd ar gyfer cyllido a sicrhau ansawdd pob rhan o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan gynnwys prentisiaethau, ac ar gyfer meithrin cysylltiadau agosach â chyflogwyr, rydym yn cynnig y dylai swyddogaethau Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru fod yn rhan o'r Comisiwn yn y dyfodol ac y dylid diddymu'r byrddau cynghori presennol. Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol yn statudol i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor sydd â chyfrifoldebau penodol i gynghori ar gyflogaeth, sgiliau a datblygu prentisiaethau.
30. Yn olaf, rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor statudol i roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Cylch gwaith y pwyllgor fyddai rhoi cyngor i alluogi'r Comisiwn i ymgymryd â rôl ragweithiol a strategol wrth gynllunio ar gyfer datblygiad y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws ei holl weithgareddau a chyfrifoldebau.

Cwestiynau

A yw'r fframwaith llywodraethiant arfaethedig yn briodol o ystyried cylch gwaith y Comisiwn newydd?

A ydych chi'n meddwl y dylai fod yna bwyllgor statudol o fewn fframwaith llywodraethiant statudol y Comisiwn i gefnogi'r Gymraeg a'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

A ydych chi'n cytuno y dylid gwneud Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru yn rhan o'r Comisiwn i gryfhau cysylltiadau rhwng y Comisiwn a chyflogwyr?

4. Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

31. Byddai'r Comisiwn newydd yn cael ei osod o dan ddyletswyddau i ddiogelu, neu wneud trefniadau i ddiogelu, darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-orfodol⁶ a gweinyddu unrhyw gyllid a roddir iddo gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth addysg bellach, addysg uwch, dysgu yn y gweithle, dysgu oedolion, ac ymchwil ac arloesi.
32. Rhaid i'r gwaith o ddiwygio'r sector AHO yn llwyddiannus fod yn seiliedig ar berthynas waith effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn a rhwng y Comisiwn a'r holl ddarparwyr dysgu. Byddai hyrwyddo perthynas waith effeithiol yn golygu cael mecanweithiau i sicrhau atebolrwydd a chyfathrebu clir ar bob lefel. Ni phenderfynwyd eto pa bwerau ymyrryd, os o gwbl, y dylai Gweinidogion Cymru eu cael mewn perthynas â'r Comisiwn. Bydd angen ystyried pwerau ymyrryd priodol pe bai'r Comisiwn yn methu ag arfer ei ddyletswyddau neu gyflawni telerau ei gynllun strategol. Mae angen i fecanweithiau sy'n rheoli'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn, a rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu, a chymunedau ymchwil ac arloesi fod yn gydnaws â'i gilydd hefyd.
33. Mae'n hollbwysig sicrhau atebolrwydd am y cyllid y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ddyrannu i'r Comisiwn, yn ogystal ag eglurder ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am waith cynllunio strategol ar gyfer y sector AHO yn gyffredinol. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i ymgynghoriad y Papur Gwyn a fynegodd farn ar hyn yn cytuno y dylai fod gan y Comisiwn rôl yn y gwaith cynllunio strategol ar lefel genedlaethol ar draws y sector AHO. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod y dull gweithredu yn wirioneddol strategol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Nodwyd na ddylai dull y Comisiwn fod yn rhy weithredol ac y dylai osgoi micro-reoli darparwyr dysgu. Dylai cyfnod y cynllun strategol adlewyrchu'r angen i gefnogi dull hirdymor strategol.
34. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd o'r farn y dylai fod gofyn i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw gynllun strategol ac y dylai cyllid fod yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Roedd rhai'n teimlo y gallai hyn helpu i sicrhau atebolrwydd am gyllid cyhoeddus. Fodd bynnag, roeddent hefyd am sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid ynghylch y cynllun strategol, a bod cyfle i roi adborth arno cyn i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo. Roedd cefnogaeth hefyd i'r syniad o ddarparu cyllid ar sail fwy hirdymor, i bara am yr un cyfnod â'r cynllun strategol.
35. Cydnabuwyd mor bwysig oedd hi bod y cynllun strategol yn mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr a busnesau. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid canolbwyntio ar anghenion dysgwyr ac ar flaenoriaethau rhanbarthol wrth gynllunio, a bod angen i ddysgwyr fod yn rhan annatod o'r broses o greu'r cynllun strategol.

⁶ Yng nghyd-destun y ddyletswydd hon, byddai addysg ôl-orfodol yn cynnwys addysg a hyfforddiant a ddarperir gan y chweched dosbarth, addysg bellach, dysgu yn y gweithle, prentisiaethau a dysgu oedolion.

36. Nod ein diwygiadau yw sicrhau bod modd datblygu dull strategol a chydlynol, a bod gan y Comisiwn rôl glir i'w roi ar waith. I sicrhau hyn, rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn yn rhannu'r cyfrifoldeb fel a ganlyn:
- byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bennu cyfeiriad cyffredinol AHO ac ymchwil ac arloesi, yn amodol ar ryddid academiaidd; a
 - byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am lunio ei gynllun strategol ei hun, gan adlewyrchu'r cyfeiriad cyffredinol a sefydlir gan y Llywodraeth, ac am weithio gyda darparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi i droi'r weledigaeth yn realiti.
37. Byddai Llywodraeth Cymru yn llunio polisi trosfwaol, lefel uchel sydd â nifer fach o flaenoriaethau strategol i Gymru. Byddai rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i baratoi a chyhoeddi'r polisi trosfwaol yn gyfle i sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer AHO a'r gwaith ymchwil ac arloesi yn gydnaws â pholisïau perthnasol eraill, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag addysg orfodol a'r economi.
38. Gan y byddai'r Comisiwn yn goruchwyllo'r sector AHO cyfan, byddai'n gallu cynllunio'r ffordd fwyaf effeithiol o weithredu polisi trosfwaol Llywodraeth Cymru. Byddai'r Comisiwn yn cael cryn hyblygrwydd i hyrwyddo cydlyniaeth ar draws AHO a gweithio gyda darparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi mewn ffordd a fyddai'n ystyried eu cryfderau penodol, yn ogystal â'u maint, eu nod, y mathau o gyfleoedd dysgu maent yn eu cynnig a, lle bo'n berthnasol, y mathau o waith ymchwil ac arloesi maent yn ei wneud.
39. Rydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru, yn ail flwyddyn pob tymor Cynulliad, gyhoeddi datganiad trosfwaol o flaenoriaethau polisi, ar sail:
- tystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys y Comisiwn;
 - barn y Comisiwn, dysgwyr, darparwyr dysgu a rhanddeiliaid perthnasol eraill;
 - materion a blaenoriaethau mewn meysydd polisi perthnasol.
40. Byddai'r polisi trosfwaol yn gydnaws â Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi neu'r hyn a fydd yn cyfateb iddynt yn y dyfodol.
41. Byddai'r Comisiwn wedyn o dan ddyletswydd i baratoi cynllun strategol i Gymru, a oedd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn natganiad polisi trosfwaol Gweinidogion Cymru ac yn amlinellu cynigion ar gyfer eu rhoi ar waith. Byddai'r Comisiwn o dan rwymedigaeth i ymgynghori â darparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi, dysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y broses o baratoi ei gynllun strategol.
42. Byddai rhwydd hynt i'r Comisiwn ymgysylltu ac ymgynghori'n anffurfiol â Llywodraeth Cymru drwy'r broses o ddatblygu ei gynllun strategol. Unwaith byddai'r Comisiwn yn cytuno arno, câi'r cynllun strategol ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

43. Byddai gofyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynllun strategol er mwyn helpu i sicrhau:
- cydnawsedd rhwng blaenoriaethau trosfwaol y Llywodraeth a gwaith y Comisiwn;
 - atebolrwydd priodol o ran y cyllid a ddyrennir i'r Comisiwn.
44. Câi gweithdrefnau eu nodi ar gyfer amgylchiadau lle byddai cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i gynllun strategol yn cael ei hatal. Rydym yn cydnabod yr angen, mewn sefyllfa o'r fath, am elfen o sefydlogrwydd cyllid i ddarparwyr dysgu er mwyn gwarchod buddiannau dysgwyr a pharhad eu cyrsiau. Dyma rai opsiynau posibl ar gyfer delio â sefyllfa lle nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cymeradwyo cynllun strategol y Comisiwn:
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyllido'r sector AHO yn uniongyrchol am gyfnod penodedig, yn absenoldeb cynllun strategol cymeradwy;
 - trosglwyddo cyllid craidd i'r Comisiwn, gan ddal yn ôl elfen o'r cyllid hwnnw nes i'r cynllun strategol gael ei gymeradwyo;
 - gofyniad i'r Comisiwn weithio o fewn dirprwyaethau llym a sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw wariant uwchlaw terfynau penodedig neu a ddyrannwyd at ddibenion penodol.
45. Ar ôl i'w gynllun strategol gael ei gymeradwyo, byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am ddyrannu cyfanswm y cyllid i'r darparwyr dysgu a'r cymunedau ymchwil ac arloesi cymwys, ac am fonitro pa mor effeithiol roedd yn cael ei ddefnyddio i weithredu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Byddai'r Comisiwn o dan ddyletswydd i fonitro sut mae ei gynllun strategol yn cael ei weithredu a pha mor effeithiol ydyw, ac i gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Byddai adroddiad blynyddol y Comisiwn yn cael ei gyhoeddi.
46. Er y dylai'r dull hwn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn gynllunio ymlaen llaw yn well a chael golwg cliriach ar y cynllun hirdymor, byddai angen gallu ymateb yn gyflym hefyd i amgylchiadau sy'n newid. Bydd angen adolygu'n barhaus bolisi trosfwaol Llywodraeth Cymru a'i ddiweddaru bob hyn a hyn i roi ystyriaeth i'r newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau, gan gynnwys newidiadau economaidd neu newidiadau i AHO a pholisi ymchwil ac arloesi mewn rhannau eraill o'r DU a allai effeithio'n sylweddol ar Gymru. Yn yr un ffordd, byddai'r Comisiwn o dan ddyletswydd i adolygu'n rheolaidd ei gynllun strategol a, lle bo'n briodol, i ychwanegu ato neu ei ddiwygio yn unol â chyfeiriad polisi trosfwaol a blaenoriaethau'r Llywodraeth.
47. Mae angen ystyried ymhellach pa mor aml y byddai angen llunio cynlluniau strategol, ac efallai na ddylid bod yn rhy anhyblyg. Efallai y byddai'n briodol, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol llunio cynllun strategol pum mlynedd i ddechrau, ac y dylai'r Comisiwn lunio cynllun gweithredol unwaith y bydd Gweinidogion a'r Cynulliad yn cytuno ar y cyllidebau. Fel arall, gellid rhoi rhyddid i'r Comisiwn lunio cynlluniau strategol sy'n cwmpasu pa gyfnod neu gyfnodau bynnag sy'n briodol yn eu barn nhw, a chaniatáu ar gyfer amgylchiadau sy'n newid. Beth bynnag a benderfynir, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun strategol.

48. Dyma rai o fanteision y dull cynllunio strategol uchod:

- gwahaniaethu clir rhwng rolau Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn, gan arwain at eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth, a chan helpu i sicrhau atebolrwydd effeithiol;
- mwy o gyfleoedd cydlynw a sicrhau cynlluniau mwy cydlynus ar draws ystod y ddarpariaeth AHO;
- byddai'n helpu i ddatblygu system sy'n rhoi'r lle canolog i fuddiannau dysgwyr, gan roi digon o ryddid i'r Comisiwn gael gweithio'n effeithiol gyda'r holl ddarparwyr dysgu a rhanddeiliaid eraill.

49. Byddai rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â darparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill ar ei gynllun strategol yn sicrhau bod gan bawb sydd â budd yng ngwaith y Comisiwn lais yn y ffordd mae'n gweithredu a'u bod yn gallu helpu i fonitro ac asesu ei effaith dros amser.

Cwestiynau

A yw'r cyfrifoldebau y bwriedir eu dyrannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn o ran gwaith cynllunio strategol yn briodol?

A yw'r cynigion ar gyfer delio â chyllid yn briodol, pe bai Llywodraeth Cymru yn atal ei chymeradwyaeth i'r cynllun strategol? Pa fesurau diogelu neu dros dro y dylid eu hystyried?

Ar wahân i atal cymeradwyaeth i'r cynllun strategol, pa bwerau ymyrryd y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau ac yn boldoni telerau ei gynllun strategol?

A fyddai cylch pum mlynedd yn gyfnod priodol ar gyfer cynllun strategol y Comisiwn neu a ddylid caniatáu elfen o hyblygrwydd?

5. Y berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu

50. Wrth ystyried sut gallai'r berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu weithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol, byddai angen sicrhau:

- ei bod yn gydnaws â'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn, fel bod yr ymrwymadau a wneir gan ddarparwyr dysgu yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yng nghynllun strategol y Comisiwn, ac felly â'r weledigaeth strategol a bennwyd gan y Gweinidogion;
- ei bod yn diogelu'r cyllid y byddai'r Comisiwn yn ei ddyrannu i ddarparwyr dysgu;
- bod darparwyr dysgu wir yn atebol i'r Comisiwn;
- bod gan y Comisiwn bwerau ymyrryd priodol pe bai darparwr dysgu neu awdurdod lleol yn methu â bodloni telerau Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau. Nid yw'r pwerau hynny wedi'u pennu eto;
- bod buddiannau dysgwyr a'u noddwyr⁷ wedi'u diogelu, yn ogystal ag enw da sector AHO Cymru;
- bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r angen i warchod annibyniaeth sefydliadau a rhyddid academiaidd; a
- ei bod yn hyrwyddo cyfathrebu effeithiol rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu.

51. Roedd y Papur Gwyn yn amlinellu tri model posibl ar gyfer rheoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu:

1. Model Cofrestru Darparwyr
2. Model Cytundeb Deilliannau
3. Model Compact Rhanbarthol

52. Er y byddai manteision i bob un o'r modelau hyn, rydym nawr o'r farn na fyddai unrhyw un yn sicrhau'r holl fanteision y dylid eu disgwyl o berthynas effeithiol rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu. Adlewyrchwyd y casgliad hwn yn y safbwyntiau a'r pryderon a fynegwyd gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

53. Gofynnodd y Papur Gwyn a ddylai'r Comisiwn weithredu system gofrestru er mwyn hwyluso dull hyblyg ond cyson o ymgysylltu â sefydliadau a darparwyr ledled yr ystod lawn o weithgarwch AHO ac, os felly, pa fodel oedd orau gan randdeiliaid. Roedd yn well gan y mwyafrif a ymatebodd y syniad o gofrestru darparwyr unigol at ddibenion rheoleiddio, gan y dylai hyn warchod enw da'r sector AHO yng Nghymru a darparu sail dda ar gyfer atebolrwydd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cofrestru er mwyn darparu un cofnod parhaol o ddarparwyr a'r cymwysterau a gynigir, a hwnnw'n gofnod sydd ar gael i'r cyhoedd, er mwyn sicrhau uniondeb AHO yng Nghymru.

⁷ Gallai'r noddwyr gynnwys, ymhlith eraill, gyflogwyr a ffynonellau preifat neu elusennol sy'n talu costau dysgu dysgwyr unigol. Gallai llywodraethau eraill yn y Deyrnas Unedig hefyd fod yn noddwyr, yn yr ystyr eu bod yn cefnogi costau dysgu myfyrwyr, drwy grantiau neu fenthyciadau ffioedd a chynhaliadau, a'r rheini'n cael cymorth gan y Trysorlys.

54. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai o fudd diffinio'r term "darparwr", i'w gwneud yn glir pa fathau o sefydliadau y rhagwelwyd y byddent yn dod o dan oruchwyliaeth y Comisiwn. Roedd rhywfaint o bryder y gallai system gofrestru gynyddu'r cymhlethdod ar draws y sector AHO, ac y dylid bod yn ofalus i sicrhau nad yw'r baich gweinyddol ar y sector yn cynyddu. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y byddai angen i ba system gofrestru bynnag a ddewisid sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn bodloni'r un safonau o ran priodoldeb a sefydlogrwydd ariannol, ond y gallai fod angen addasu'r broses er mwyn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau'r gwahanol fathau o ddarparwyr. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen i osgoi canfyddiad bod yna hierarchaeth ymhlith darparwyr, ar sail gwahanol ofynion cofrestru ar gyfer gwahanol fathau o ddarparwyr. Awgrymwyd bod angen gwneud y categorïau o ddarparwyr yn gliriach a'u datblygu, a bod angen mwy o wybodaeth am delerau ac amodau cofrestru.
55. O ran y cynnig i gofrestru cytundebau deilliannau unigol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai model o'r fath yn rhoi dylanwad i'r Comisiwn, ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, wrth benderfynu ar ddeilliannau strategol i ddarparwyr. Roeddent hefyd yn cydnabod y byddai angen cryn gydweithredu er mwyn sicrhau bod y sectorau twf yn cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn poeni y gallai'r model hwn arwain at roi gormod o bwyslais ar ysgogwyr economaidd byrdymor ac y gallai amharu ar annibyniaeth sefydliadau. Roeddent hefyd yn teimlo y gallai fod yna risgiau yn ystod y cyfnod trosglwyddo, tra roedd y model cytundeb deilliannau yn cael ei gyflwyno.
56. Roedd yr ymatebwyr i'r Papur Gwyn yn cydnabod y byddai'r cynnig i gofrestru compactau rhanbarthol, wedi'u datblygu gan ystod o ddarparwyr dysgu, yn darparu cyfleoedd i adeiladu ar y partneriaethau rhanbarthol presennol ac yn ymateb i anghenion pob rhanbarth. Fodd bynnag, roedd yna bryderon y gallai materion cymdeithasol, economaidd, ieithyddol a daearyddol fod yn her i weithredu'r model hwn yn effeithiol.
57. Roedd gan rai ymatebwyr bryderon ynghylch unrhyw ffurf ar fodel cofrestru. Dyma rai o'r sylwadau/awgrymiadau:
- defnyddio'r systemau presennol ar gyfer gwaith addysg bellach, felly ni fyddai angen cofrestru;
 - ni fyddai model cofrestru yn hyrwyddo monitro gofalus ar y deilliannau a gyflawnir gan ddarparwyr dysgu;
 - byddai angen ystyriaeth fanwl i nodi'r mathau o faterion a allai atal darparwr rhag cael ei gofrestru;
 - mynegodd ymatebwyr o faes addysg uwch bryder ynghylch y dryswch posibl a allai godi am fod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn rhan o sector y DU. Gallai'r ffaith bod y Comisiwn yng Nghymru yn cofrestru darparwyr ddrysu dysgwyr sy'n edrych ar ddarparwyr ledled y DU, gan y byddai "darparwyr cofrestredig" yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio categori gwahanol o ddarparwyr ar gofrestr Lloegr o ddarparwyr addysg uwch.

58. Er bod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr o blaid gwneud cytundebau deilliannau yn sail i berthynas y Comisiwn â darparwyr dysgu o ran cynllunio strategol, mewn egwyddor, gofynnodd llawer am fwy o eglurder. Darparwyr addysg uwch a fynegodd y pryderon cryfaf ynghylch cytundebau deilliannau, tra roedd busnesau ac UCM yn reit gadarnhaol yn eu cylch. Daeth nifer o awgrymiadau i law ar gyfer sicrhau bod cytundebau deilliannau yn gweithio'n effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dylai deilliannau fod yn fesuradwy, yn realistig ac yn gyraeddadwy;
- byddai angen iddynt fod yn agored i broses graffu annibynnol;
- byddai angen eu teilwra yn ôl y darparwr dysgu penodol, gan roi sylw i natur y darparwr, ei broffil dysgwyr a'i nod/cryfderau penodol.

59. Roedd yr ymatebwyr hefyd o'r farn, os oedd cytundebau deilliannau i gael eu cyflwyno, y dylent weithredu am ddigon o amser i sicrhau mesur o gynllunio hirdymor. Awgrymwyd felly y dylent bara am o leiaf dair blynedd, ac o bosibl bump.

60. Er na fynegodd rhanddeiliaid lawer o gefnogaeth i'r model compact rhanbarthol, roedd yna gefnogaeth i ddefnyddio cytundebau deilliannau i hyrwyddo cydweithredu ar draws y sector AHO. Cynigiodd yr ymatebwyr, felly, herio darparwyr a'i gwneud yn ofynnol iddynt feddwl a gweithio y tu hwnt i'w rhan eu hunain o'r sector, gan y byddai hyn yn helpu i sicrhau mai'r dysgwr sy'n cael y lle canolog yn y system.

61. Dyma rai o'r materion a godwyd yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn:

- ni ddylai'r ddeddfwriaeth fod yn rhy benodol ynghylch natur y cytundebau deilliannau, gan y byddai hynny'n amharu ar hyblygrwydd ac arloesi;
- ni ddylid dibynnu gormod ar ddata recriwtio a chadw. Dylid canolbwyntio, yn hytrach, ar ansawdd y ddarpariaeth;
- pryder y byddai ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch ddatblygu cynlluniau ffioedd a mynediad a chytundebau deilliannau ar yr un pryd yn rhoi baich gweinyddol rhy drwm arnynt;
- roedd darparwyr addysg uwch yn dadlau na ddylid clymu incwm ffioedd dysgu â chytundebau deilliannau.

62. O'r ymatebwyr a fynegodd farn, roedd mwyafrif sylweddol yn cytuno y dylai cymhwysedd i gael cyllid fod yn amodol ar gytundebau deilliannau a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cynllun strategol. Fodd bynnag, roedd rhai yn dal heb benderfynu, ac am gael mwy o eglurhad ynghylch y math o gyllid oedd dan sylw a beth oedd union natur cytundeb deilliannau. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid sicrhau cydbwysedd priodol rhwng darparu sicrwydd ariannol i ddarparwyr a'u dysgwyr, a'r angen i sicrhau cynnydd ystyrlon yn erbyn amcanion y cytunir arnynt. Roedd rhai yn teimlo, felly, na ddylai cyllid ddibynnu'n unig ar gytundeb deilliannau addas, a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau perthnasol y cynllun strategol.

63. Mynegodd rhai ymatebwyr y dylai'r Comisiwn allu cyllido y tu allan i broses cytundeb deilliannau mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys ar gyfer

datblygiadau strategol. Un awgrym a gyflwynwyd oedd model cymysg o gyllid craidd a chyllid sy'n gysylltiedig â deilliannau, gan y gallai hyn helpu i sicrhau sefydlogrwydd, gan sicrhau ar yr un pryd y byddai'r blaenoriaethau trosfwaol yn cael eu gweithredu.

64. O ran y cynnig i gysylltu cyllid â pherfformiad yn erbyn cytundebau deilliannau, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cydnabod yr angen i ddarparwyr fod yn atebol am eu cyllid. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi hyn yn teimlo y byddai'r mesurau perfformiad yn realistig ac yn adlewyrchu cyddestun y darparwr. Fodd bynnag, roedd gan rai bryderon ynghylch dibynnu'n ormodol ar gytundebau deilliannau, yn enwedig pan oedd natur a chynnwys y cytundebau hynny yn dal yn aneglur. Awgrymodd rhai ddefnyddio cytundebau deilliannau ar gyfer prosiectau neu feysydd gwaith penodol yn unig.
65. Un pwynt a wnaed gan ymatebwyr ym maes addysg uwch yn arbennig oedd y dylid defnyddio cymhellion yn hytrach na chosbau i gyflawni'r safonau perfformiad a ddymunir. Roeddent o'r farn y dylai'r Comisiwn sicrhau bod ffrydiau cyllid a ddyrennir at ddibenion penodol (hy cyllid wedi'i neilltuo) yn cael eu creu mewn ffordd sy'n cydnabod gwahanol amcanion ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth AHO. Dylid gadael trefniadau'r cyllid hwnnw i'r Comisiwn benderfynu arnynt, yn hytrach na nodi gofynion mor haearnaidd bod hyblygrwydd i gefnogi gweithgarwch newydd yn cael ei golli.
66. Mae'n amlwg bod yna gefnogaeth i ddull cyson o reoleiddio cyllid cyhoeddus ac atebolrwydd o ran y cyllid hwnnw, er bod yna bryder ynghylch dull cofrestru a fyddai'n creu canfyddiad o hierarchaeth ymhlith darparwyr. Mae yna gefnogaeth hefyd i ddefnyddio cytundebau deilliannau fel dull o reoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu.
67. Datblygwyd model, felly, er mwyn tynnu ynghyd gryfderau'r modelau a gynigir yn y Papur Gwyn a mynd i'r afael â phryderon yr ymatebwyr. Nod y model yw sicrhau cysondeb dull rheoleiddio ac atebolrwydd, gan ganiatáu ar yr un pryd ar gyfer cryn hyblygrwydd o ran y deilliannau a negodir rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu unigol.

Y Model Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau

68. Er mwyn i ddarparwyr dysgu gael cyllid gan y Comisiwn ac, yn achos y rheini sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch, er mwyn i'w cyrsiau ddenu cymorth ariannol i fyfyrwyr, byddai disgwyl iddynt yn gyntaf fodloni cyfres o feini prawf penodedig, gan ddod â nhw o fewn cwrdd goruchwyliaeth reoleiddiol y Comisiwn. Er mwyn cael cyllid, cynigir ei gwneud yn ofynnol iddynt:
- darparu AHO a/neu gynnal gweithgarwch ymchwil ac arloesi neu fod yn rhan o weithgarwch o'r fath;
 - gweithredu yng Nghymru yn unig neu'n bennaf; ac

- o bosibl, bod yn sefydliad elusennol⁸.

69. Os cyflawnant y gofynion hyn, gallent, pe baent yn dewis gwneud hynny, lunio Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau i'r Comisiwn ei gymeradwyo. Byddai cymeradwyaeth i'r Cytundeb yn eu gwneud yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn a/neu sicrhau bod y cyrsiau maent yn eu darparu yn cael cymorth ariannol i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Yr unig gategori o ddarparwr dysgu i gael cyllid cyhoeddus na fyddai'n gorfod llunio Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau fyddai darparwyr dysgu seiliedig ar waith gan eu bod eisoes yn gorfod bodloni gofynion cytundebol trwyadl sy'n cynnwys y mathau o faterion sy'n cael sylw yn y Cytundeb.

Statws elusennol

70. Mae angen ystyried ymhellach p'un a ddylai statws elusennol fod yn un o'r meini prawf penodedig ar gyfer dod â darparwyr dysgu o fewn cwrpas goruchwyliaeth reoleiddiol y Comisiwn. Ar hyn o bryd, mae darparwyr addysg uwch yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru wneud cais i CCAUC i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad. O dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, rhaid i ddarparwr addysg uwch sydd am i'w gynllun ffioedd a mynediad gael ei gymeradwyo fod yn elusen. O ran y sector AHO yn ehangach, y rhesymeg dros gynnwys gofyniad o'r fath yw bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru, wrth ddarparu cyllid cyhoeddus i sicrhau cyfleoedd dysgu a mynediad i'r cyfleoedd hynny, yn defnyddio cyfran sylweddol iawn o arian trethdalwyr. Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn ystyried y dylai darparwyr sy'n elwa ar gymhorthdal ariannol ar ffurf cymorth statudol i fyfyrwyr, neu ar gyllid uniongyrchol, ailfuddsoddi'r cymhorthdal cyllid cyhoeddus a gânt at ddibenion elusennol. Un ffordd o sicrhau na ddefnyddir cyllid cyhoeddus er elw i gyfranddeiliaid sefydliadau sy'n bodoli i wneud elw yw ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr sydd am i Lywodraeth Cymru ddynodi eu cyrsiau a/neu sydd am gael cyllid uniongyrchol gan y Comisiwn fod yn elusennau. Mae yna fanteision ac anfanteision i'r cynnig hwn, gan gynnwys y rheini a restrir isod. Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar y mater hwn.

71. Y manteision

- Mae'n ofynnol i elusennau ailfuddsoddi unrhyw gyllid sydd dros ben yn eu dibenion elusennol ac, felly, gyfrannu at les y cyhoedd yn hytrach na dod ag elw i gyfranddeiliaid;
- Byddai ei gwneud yn ofynnol bod gan ddarparwyr AHO statws elusennol yn sicrhau parhad yn y trefniadau o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â darparwyr addysg uwch yng Nghymru.

72. Yr anfanteision

⁸ Yr eithriad fyddai darparwyr dysgu seiliedig ar waith nad yw'n ofynnol iddynt fod â statws elusennol ar hyn o bryd ac na fydd yn ofynnol iddynt fod yn rhan o Gytundeb Rheoleiddio a Deilliannau. Byddai eu perthynas â'r Comisiwn yn seiliedig ar delerau cytundebol. Efallai y byddai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg hefyd yn eithriad sy'n cael eu hariannu'n unswydd i wneud gwaith ymchwil.

- Gallai gofyniad o'r fath atal darparwyr AHO arloesol nad ydynt yn elusennau rhag ymuno â'r sector AHO a reoleiddir yng Nghymru;
- Gallai gyfyngu ar y dewis o ddarparwyr a chysiau a gynigir i ddysgwyr.

Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau

73. Byddai dwy ran i'r cytundebau hyn:

- Rhan I: gofynion rheoliadol; a
- Rhan II: deilliannau a negodwyd gyda'r Comisiwn y mae'r darparwr dysgu a/neu ymchwil ac arloesi wedi ymrwymo i'w cyflawni.

Rydym yn cynnig gwneud darpariaeth i'r Comisiwn fod yn rhan o Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a'u gorfodi pe bai darparwr neu awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio.

Rhan I: Rheoleiddio

74. Byddai angen i elfen reoliadol y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau gynnwys tystiolaeth eich bod yn bodloni gofynion rheoliadol penodol, ac yn cydymffurfio'n rheolaidd â nhw. Gallai'r rhain gynnwys gofynion sy'n ymwneud â:

- hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd ariannol y darparwr;
- ansawdd yr addysg, yr hyfforddiant, a'r gwaith ymchwil ac arloesi a ddarperir gan neu ar ran y darparwr;
- systemau rheoli a llywodraethiant effeithiol i ddarparu'r addysg a'r hyfforddiant y mae'r cymorth ariannol i fyfyrwyr a/neu'r cyllid uniongyrchol ar ei gyfer, gan gynnwys y rheini a sefydlir mewn dogfennau llywodraethu, lle bo'n berthnasol;
- gofynion rhagnodedig o ran terfynau ffioedd a mynediad teg, lle bo'n berthnasol;
- trefniadau diogelu dysgwyr a gweithdrefnau cwynion dysgwyr priodol.

75. Yn ogystal, byddai angen i ddarparwyr ymrwymo i:

- ddarparu gwybodaeth benodol i'r Comisiwn sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol uchod a rhoi gwybod i'r Comisiwn am newidiadau i wybodaeth o'r fath;
- darparu data penodol i'r Comisiwn ynghylch y cysiau a ddarperir; a
- helpu'r Comisiwn i fonitro cydymffurfiaeth â'r amodau rheoliadol rheolaidd.

76. Byddai cyflawni'r gofynion rheoliadol hyn yn dystiolaeth o hyfywedd y darparwyr a'u haddasrwydd i gael cyllid cyhoeddus, boed yn uniongyrchol drwy gyllid a ddyrennir gan y Comisiwn, neu'n anuniongyrchol drwy ddynodi eu cysiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

77. Er y byddai hyn yn darparu ar gyfer cyllid darparwyr sy'n cynnig addysg a hyfforddiant yn ogystal â gwaith ymchwil ac arloesi, bydd angen addasu'r dull mewn ymateb i nodweddion unigryw rhai mathau o ddarpariaeth ddysgu.
78. Yn achos y chweched dosbarth, er enghraifft, cynigir bod y Comisiwn ac awdurdodau lleol, a fyddai'n cynrychioli'r ysgolion perthnasol yn eu hardal/rhanbarth yn llunio Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau. Eisoedd mae gan awdurdodau lleol ddulliau o sicrhau bod ysgolion yn cael eu rheoleiddio'n iawn a bod yna brosesau i sicrhau hyfywedd ariannol, llywodraethiant da a diogelwch i ddysgwyr. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth reoleiddiol y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ei rhannu â'r Comisiwn ynghylch darpariaeth chweched dosbarth yn eu hardal.
79. Bydd angen ystyried hefyd sut i drefnu Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau gyda darparwyr dysgu oedolion.
80. Serch hynny, gallai darparwyr addysg a hyfforddiant sydd heb statws elusennol ac nad ydynt am gael cyllid cyhoeddus ddod i gytundeb rheoleiddio gyda'r Comisiwn. Gallai darparwyr o'r fath gynnwys lleoliadau chweched dosbarth annibynnol, colegau preifat a darparwyr addysg uwch amgen. Byddai angen i'r darparwyr hyn ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol perthnasol. Yn gyfnewid, byddent yn cael eu cydnabod gan y Comisiwn, eu bod yn bona fide, yn ddarparwyr dysgu hyfyw a'u bod, mewn gwirionedd, yn darparu'r dysgu roeddent yn honni ei ddarparu. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i ddysgwyr a oedd am astudio yn y sefydliadau hynny, gan helpu'r darparwyr, yn eu tro, i ddenu dysgwyr. Ni fyddai darparwyr sy'n dod i gytundeb rheoleiddio yn unig yn gynnwys i gael cyllid cyhoeddus, ac ni fyddai eu cyrsiau addysg uwch yn cael cymorth ariannol i fyfyrwyr.
81. Yn ogystal â'r materion y mae angen eu hystyried o ran darparwyr addysg a hyfforddiant, mae angen rhoi peth ystyriaeth i p'un a ddylai'r Comisiwn gyllido sefydliadau sydd ond yn gwneud gwaith ymchwil ac arloesi. Mae Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg yn enghraifft. Nid elw yw nod y sefydliadau hyn ac maent wedi'u hariannu gan ffioedd aelodaeth diwydiant. Fel rheol, mae Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg yn gwneud gwaith ymchwil a datblygu penodol ar gyfer busnesau a diwydiant, gan gydweithio â'r byd academaidd yn aml. Maent yn ceisio cyllid cyhoeddus fel Horizon 2020 a byddant yn gynnwys i gael cyllid gan Lywodraeth y DU drwy UKRI.

Cwestiynau

Yn adran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, a oes yna faterion eraill y dylid eu cynnwys? Os felly, beth yw'r rheini? A ddylid cael gwared ag unrhyw faterion? Os felly, pa rai?

Rydym yn cydnabod, yng ngoleuni eu rhwymedigaethau cytundebol, na fyddai'n ofynnol i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith fod â statws elusennol er mwyn cael cyllid cyhoeddus. Ond a ddylai fod yn ofynnol i fathau eraill o ddarparwyr dysgu fod â statws elusennol er mwyn cael cyllid o'r fath? Beth fyddai'r manteision a'r anfanteision?

Cwestiynau

A ddylai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau? Os felly, sut gallai fod angen addasu elfen reoleiddio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau i adlewyrchu'r ffaith nad yw Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg yn darparu dysgu?

Os na ddylid eu hariannu o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, ym mha amgylchiadau a thrwy ba fecanweithiau y dylid eu hariannu? Pa fecanwaith/fecanweithiau y gellid ei/eu sefydlu i sicrhau defnydd priodol o unrhyw gyllid cyhoeddus y gallai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg ei gael?

Pe bai darparwyr dysgu nad oedd ganddynt statws elusennol yn gallu dod i gytundeb rheoleiddio, sut y gallai hynny fod yn wahanol i elfen reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau a ddefnyddir ar gyfer darparwyr dysgu eraill?

Rhan II: Deilliannau

82. Byddai ail ran y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yn cynnwys y deilliannau roedd y darparwr dysgu ac ymchwil wedi ymrwymo i'w cyflawni. Byddai hon yn rhan wahanol iawn i elfen reoleiddio'r cytundeb, a byddai'n adlewyrchu natur a ffocws y darparwr dysgu. Y bwriad yw bod y rhan hon o'r cytundeb yn cael ei negodi gyda'r Comisiwn ac yn dangos sut mae'r darparwr yn bwriadu ymateb i gynllun strategol y Comisiwn. Byddai gofyn i ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi gynnwys dysgwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn y broses o lunio eu cytundebau.
83. Yn achos y chweched dosbarth, cynigir y byddai'r Comisiwn yn negodi Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau ag awdurdodau lleol, ac nid ag ysgolion unigol. Bydd angen i awdurdodau lleol drafod â chyrff llywodraethu ysgolion yn eu hardaloedd i sicrhau bod y cyfleoedd dysgu a gynigir ar gyfer dysgwyr ôl-16 ym mhob ysgol yn unol â pholisi trosfwaol Llywodraeth Cymru a chynllun strategol y Comisiwn.
84. Yn achos pob un o'r darparwyr dysgu a'r cymunedau ymchwil ac arloesi, bydd angen ystyried pa mor aml y dylid gwneud cais i gymeradwyo Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau ac a allai Rhan I o'r cytundebau fod yn barhaol, gan ailnegodi Rhan II bob hyn a hyn, fel y bo'n briodol.

Cwestiynau

Ai'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yw'r ffordd orau ymlaen? Beth yw'r manteision a'r anfantaision?

Pa bwerau y gallai'r Comisiwn fod ei angen i sicrhau bod darparwyr dysgu ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau?

Cwestiynau

A oes model arall y dylem ei ystyried (nad yw'n defnyddio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau)? Os felly, beth yw'r model hwnnw a beth fyddai'r manteision?

Pa wybodaeth am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi sydd â Chytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gymeradwywyd y dylai'r Comisiwn ei rhyddhau i'r cyhoedd?

Unwaith caiff ei chymeradwyo, a ddylai rhan reoleiddio'r Cytundeb fod yn barhaol, neu a ddylid ei hailystyried o bryd i'w gilydd? Os felly, pa mor aml y dylid ei hailystyried? Pa mor aml y dylid ailnegodi elfen ddeilliannau'r cytundeb?

Darparu gwybodaeth ac arweiniad

85. Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi sy'n cael cyllid cyhoeddus, rydym yn cynnig rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i baratoi, cyhoeddi a chynnal cofrestr o ddarparwyr sydd â Chytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gymeradwywyd. Rydym hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â phob darparwr sydd â Chytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, yn ogystal â phob darparwr sydd â chontract dysgu seiliedig ar waith.
86. Yn ogystal â'i ddyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi ar gael i'r cyhoedd, byddai cyfrifoldeb ar y Comisiwn hefyd i ddarparu gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer darparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi. Er enghraifft, wrth gyflawni ei gyfrifoldeb dros gynllunio a gweithredu'r polisi trosfwaol ar draws darpariaeth AHO a gwaith ymchwil ac arloesi, byddai'r Comisiwn yn paratoi dogfennau canllaw ar gyfer darparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi ynghylch yr hyn a fyddai'n ofynnol ganddynt. Efallai mai mater i'w gytuno rhwng darparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi a'r Comisiwn fydd natur y dogfennau canllaw a pha mor aml i'w llunio, ar sail beth sydd fwyaf effeithiol.

Materion ychwanegol

87. Dyma rai meysydd eraill i'w hystyried:

- sut gallai'r Comisiwn sicrhau bod y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, a gaiff ei lunio gan ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi, yn bodloni'r gofynion angenrheidiol;
- sut gallai'r Comisiwn sicrhau bod darparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi yn cyflawni elfen ddeilliannau eu Cytundeb yn iawn;
- y trefniadau monitro priodol y byddai angen eu gwneud i sicrhau bod y darparwr yn cyflawni'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau ac i ddeall sut y gallai newidiadau mewn amgylchiadau fod wedi effeithio ar allu'r darparwr i gyflawni ei ymrwymadau o dan y Cytundeb;

- y dystiolaeth i'w defnyddio i fonitro i ba raddau y cyflawnwyd y deilliannau, ac i fesur eu heffaith.

88. Byddai hyn yn golygu rhoi pŵer i'r Comisiwn i osod cosbau, mewn achos o fethiant, er y byddai angen rhoi ystyriaeth i amgylchiadau eithriadol. Lle nad yw'r Comisiwn yn gwbl fodlon ynghylch cynnwys y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, gallai fod yn opsiwn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn benderfynu pa rai o weithgareddau'r darparwr dysgu y byddai'n barod i'w cyllido. Yn ogystal, gellid rhoi pwerau i'r Comisiwn i ganiatáu i elfen o'r cyllid gael ei ddal yn ôl neu ei hawlio'n ôl, lle na chyflawnir y Cytundeb. Byddai hyn yn golygu rhoi'r pŵer i'r Comisiwn ddal cyllid yn ôl i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gallai fod angen ystyried hefyd a ddylid cael ymyriadau pellach. Yn amlwg, byddai angen sefydlu trefniadau monitro i asesu i ba raddau y cydymffurfir â'r Cytundeb.

89. Yn ogystal â darparu ar gyfer ymyriadau mewn sefyllfa o fethiant, gellid grymuso'r Comisiwn i ddefnyddio cyllid cymhelliant i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, neu gallai gytuno i ddarparu rhai o gostau cychwynnol cyrsiau sy'n gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Gallai'r Comisiwn greu cyfleoedd i ddarparwyr dysgu wneud cynigion ar y cyd. Byddai'n rhaid ystyried hefyd p'un a fyddai angen darpariaethau penodol er mwyn cefnogi a hyrwyddo gwaith ymchwil ac arloesi.

Cwestiwn

Rhowch eich barn am y materion a restrwyd yn adran 'Materion ychwanegol' y papur hwn.

6. Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido

90. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru a chymysgedd o gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn cyllido addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.
91. O dan adran 31 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu cyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant (heblaw addysg uwch) sy'n addas ar gyfer gofynion personau sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt yn 19 oed eto. O dan adran 32 o'r Ddeddf honno, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu cyfleusterau rhesymol ar gyfer addysg a hyfforddiant (heblaw addysg uwch) sy'n addas ar gyfer gofynion personau 19 oed a hŷn.
92. Mae adrannau 34, 35 a 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau yn amlinellu'r prif bwerau Gweinidogion Cymru i ddyrannu cyllid ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion a darpariaeth chweched dosbarth. Mae adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn amlinellu pwerau Gweinidogion Cymru i ddyrannu cyllid i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer darpariaeth addysg uwch yng Nghymru.
93. Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am bolisi, strategaeth a chyllid addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan gynnwys nawdd CCAUC.
94. Mae'r rhan fwyaf o gyllid addysg uwch yn mynd drwy CCAUC. Mae newidiadau diweddar yn y ffordd y caiff addysg uwch ei gyllido wedi arwain at newidiadau yng nghyfrifoldebau CCAUC, ac mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar rôl reoliadol y Cyngor o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ynghylch ceisiadau i gymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad, sy'n golygu bod sefydliad yn gallu cael incwm ffioedd dysgu uwch a gefnogir gan y system cyllid i fyfyrwyr statudol. Caiff benthyciadau a/neu grantiau ffioedd dysgu eu talu'n uniongyrchol i sefydliadau drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac ar ran dysgwyr, o dan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.
95. Mae addysg chweched dosbarth yn perthyn i gylch gwaith Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid i ysgolion uwchradd drwy awdurdodau lleol (o dan adran 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000).
96. Mae sefydliadau addysg bellach wedi'u cyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ers 2006. Cyn hynny, awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol yn y lle cyntaf am gyllido sefydliadau addysg bellach. Yna trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru yn 1992, ac i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa) rhwng 2001 a 2006.
97. Ariennir dysgu seiliedig ar waith⁹ gan Lywodraeth Cymru drwy ymarfer tendro a phroses gaffael lawn sy'n cynnwys sefydliadau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector.

⁹ O fis Ebrill 2019, bydd dysgu seiliedig ar waith yn newid i fod yn Brentisiaethau a Cymru'n Gweithio.

98. Caiff Dysgu Oedolion ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, naill ai drwy grant penodol i awdurdodau lleol neu drwy sefydliadau addysg bellach.
99. Er nad oes unrhyw bŵer statudol penodol sy'n ymwneud â chynllunio, caiff gofynion ar gyfer cynllunio (a chyllido) gweithgarwch perthnasol ar gyfer sefydliadau addysg bellach, Dysgu Oedolion a darpariaeth chweched dosbarth eu gweinyddu drwy delerau ac amodau cyllid blynyddol. Mae adran 40 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu systemau ar gyfer casglu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod eu penderfyniadau ynghylch addysg a hyfforddiant yn cael eu gwneud ar sail gadarn.
100. Yn 2014 cyflwynwyd Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 ar gyfer darpariaeth brif-ffrwd sefydliadau addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol. Daeth y fframwaith â chysondeb i'r broses gynllunio a chyllido.
101. Mae'n ofynnol i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith gadw at rwymedigaethau cytundebol sydd wedi'u nodi yng Nghytundeb y Fframwaith a Manyleb y Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith. Yn dilyn tendr cadarn ac agored, caiff fframweithiau eu dyfarnu am gyfnod y tendr. Yn gyffredinol, caiff comisiynau (neu gytundebau) rhaglenni eu dyfarnu i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith bob blwyddyn.
102. Caiff y broses o gynllunio a chyllido addysg uwch ei chyfyngu drwy CCAUC. Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gwneud darpariaeth i grantiau a ryddheir gan Weinidogion Cymru i CCAUC at ddibenion cyllido addysg uwch fod yn ddarostyngedig i rai telerau ac amodau cyffredinol sy'n ymwneud â phob sefydliad addysg uwch, neu bob sefydliad sy'n perthyn i gategori neu ddisgrifiad penodol. Mae Deddf 1992 yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gosod telerau ac amodau grant ar gymorth ariannol gan y Cyngor mewn perthynas â gweithgareddau a gyflawnir gan unrhyw sefydliad neu sefydliadau penodol. Yn yr un modd, mae'r Ddeddf yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gosod telerau ac amodau grant ar arian a delir i'r Cyngor Cyllido sy'n ymwneud â chysiau astudio neu raglenni ymchwil penodol (gan gynnwys manylion cyrsiau neu raglenni a sut y cânt eu cyflwyno, eu goruchwyllo neu eu hasesu), neu ar feini prawf ar gyfer dewis a phenodi staff academiaidd ac ar gyfer derbyn myfyrwyr. Nod y darpariaethau hyn yw gwarchod rhyddid academiaidd sefydliadau addysg uwch.
103. Yn gyffredinol, caiff trefniadau cynllunio a chyllido pob sector eu cefnogi gan y sefydliadau sy'n gweithredu o'u mewn, a byddai angen i'r Comisiwn newydd ystyried y ffordd orau o integreiddio'r systemau lle bo'n briodol.

Yr ymatebion i'r Papur Gwyn

104. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, a'r sioeau teithiol ymhlith rhanddeiliaid, yn awgrymu:

- y dylai'r Comisiwn fod yn hyblyg i ymdrin â gwahanol ddarpariaethau/ systemau gan nad un ffordd oedd yna i fynd ati i gynllunio a chyllido ym mhob sector;
- y dylai'r Comisiwn geisio datblygu system neu ddull cyllido cytbwys a chydlynol mewn addysg uwch ac addysg bellach i wneud prosesau yn symlach;
- y dylai'r Comisiwn sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael cyllid ar draws pob sector;
- y dylai'r Comisiwn sicrhau perthynas gref â'r gofynion o ran sgiliau rhanbarthol, ac â chyflogwyr er mwyn deall anghenion yr economi yng Nghymru;
- y byddai model cyllid tair blynedd, sydd â chysylltiad â chynlluniau strategol, yn fuddiol ac yn llai cymhleth i bawb;
- bod yna gefnogaeth gyffredinol i wneud cyllid yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i gynllun strategol gan y Comisiwn, cyn belled ag yr ymgysylltir â rhanddeiliaid;
- na ddylai cyllid fod yn seiliedig ar Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau;
- bod angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng darparu sicrwydd ariannol i ddarparwyr a'u dysgwyr, a'r angen i sicrhau cynnydd ystyrlon yn erbyn amcanion y cytunir arnynt;
- y gallai cyllido darparwyr cofrestredig fod yn amodol ar ffactorau eraill, ac elfennau y mae'n rhaid eu cyflawni, a allai fod yn sail i broses Cytundeb Deilliannau. Dylai fod gan y Comisiwn y gallu i gyllido y tu allan i broses Cytundeb Deilliannau (ee ar gyfer datblygiadau strategol neu ar gyfer mathau arbennig o ddarpariaeth);
- y byddai model cymysg o gyllid craidd a chyllid sy'n gysylltiedig â deilliannau yn un ffordd o sicrhau sefydlogrwydd, ond hefyd effaith;
- y dylai'r Comisiwn sicrhau bod ffrydiau cyllid wedi'u neilltuo yn cael eu creu er mwyn cydnabod y gwahaniaeth rhwng elfennau gwahanol AHO, ac y dylai'r mecanwaith ar gyfer y cyllid hwnnw gael ei adael i'r Comisiwn benderfynu arno; hefyd, na ddylai gael ei ddiffinio mewn ffordd mor benodol bod hyblygrwydd i gefnogi gweithgarwch newydd yn cael ei golli.

Y dull a gynigir

Y berthynas gynllunio a chyllido rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

105. Fel y nodwyd uchod, mae adrannau 34, 35 a 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (Deddf 2000) yn amlinellu'r prif bwerau i Weinidogion Cymru i ddyrannu cyllid ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion a darpariaeth chweched dosbarth, ac mae adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (Deddf 1992) yn amlinellu'r pwerau i Weinidogion Cymru i ddyrannu cyllid ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer y ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru.
106. Mae adrannau 65 a 66 o Ddeddf 1992 yn darparu'r sail gyfreithiol i CCAUC gyllido addysg uwch brif-ffrwd yng Nghymru. Mae gan CCAUC swyddogaethau hefyd mewn perthynas â chyllido gweithgareddau cymwys

sy'n gysylltiedig â hyfforddiant athrawon a gweithgareddau cysylltiedig a nodir yn adrannau 85 i 91 o Ddeddf Addysg 2005.

107. Bydd swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn adrannau 31, 32, 33, 34, 35 a 36 yn dod i ben ac ni fydd ganddynt ychwaith y pwerau cyllido a amlinellir yn adrannau 34, 35 a 36 o Ddeddf 2000. Yn hytrach, bydd y swyddogaethau hyn, neu swyddogaethau tebyg iawn, yn cael eu rhoi i'r Comisiwn. Ni phenderfynwyd eto a ddylai Gweinidogion Cymru barhau i fod â rôl yn y gwaith o gynllunio, darparu a chyllido addysg a hyfforddiant 16-19 ac ôl-19. Yn yr un modd, cynigir y dylai'r swyddogaethau yn adrannau 65 a 66 o Ddeddf 1992 ac adrannau 85 i 91 o Ddeddf 2005 gael eu rhoi i'r Comisiwn i'r graddau priodol¹⁰.

108. O ganlyniad i hyn, bydd angen rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru gyllido'r Comisiwn.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno y dylai swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 31, 32, 33, 34, 35 a 36 o'r Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ddod i ben, ac y dylai'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hynny neu swyddogaethau tebyg iawn iddynt?

A ydych chi'n credu y dylai Gweinidogion Cymru gadw rôl yn y broses o gynllunio, darparu a chyllido addysg a hyfforddiant 16-19 ac ôl-19? Os felly, beth ddylai'r rôl honno fod?

A ydych chi'n cytuno y dylid creu'r un pwerau, fwy neu lai, ar gyfer y Comisiwn newydd â'r pwerau o dan adrannau 65 a 66 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ynghyd â'r pwerau yn adrannau 86 ac 87 o Ddeddf Addysg 2005?

A ydych chi'n cytuno y dylid disodli adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 â phŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyrannu cyllid i'r Comisiwn ar gyfer pob darpariaeth ôl-16? Oes yna elfennau penodol y dylid ystyried eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys fel rhan o'r pŵer newydd hwn?

109. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio ag adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, sy'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru gan wahaniaethu rhwng y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â dysgwyr 16-19 oed a'r rheini sy'n ymwneud â dysgwyr ôl-19. O ran dysgwyr 16-19 oed, y rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru yw sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer addysg a hyfforddiant; i'r rheini sydd dros 19 oed, darpariaeth resymol sydd wedi'i nodi.

110. Wrth ddyrannu cyllid Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn, mae'n bwysig ystyried a ddylai symiau'r gyllideb fod wedi'u neilltuo ar sail math y ddarpariaeth a gyllidir, neu a ddylid ei rhoi fel un swm i'r Comisiwn gael penderfynu faint i'w ddyrannu i bob math o ddarpariaeth. Rydym yn cynnig

¹⁰ I gael mwy o fanylion am y dyletswyddau a'r pwerau presennol, ewch i to <http://law.gov.wales/publicservices/education/?lang=en#/publicservices/education/?tab=overview&lang=cy>

bod Gweinidogion Cymru yn neilltuo unrhyw grant a gaiff ei dalu i'r Comisiwn gan ddefnyddio telerau ac amodau priodol.

111. Rydym yn cynnig ymhellach y dylai'r broses neilltuo (pan gaiff ei defnyddio) fod ar lefel gymharol uchel, gan sicrhau rhaniad rhwng darpariaeth addysg bellach (i gynnwys sefydliadau addysg bellach, chweched dosbarth awdurdodau lleol, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion) a darpariaeth addysg uwch.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru neilltuo elfennau penodol o fewn cyfanswm y grant sydd ar gael i'r Comisiwn ar sail y math o ddarpariaeth i'w gyllido?

A ydych chi'n cytuno y dylid rhannu'r symiau a neilltuir ar lefel addysg bellach/addysg uwch er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Comisiwn, ond gan gydnabod ein bod yn cynnig y dylai cyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â chyllid addysg bellach gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd? Nid oes cyfatebiaeth mewn perthynas ag addysg uwch.

112. Er bod y cynigion uchod yn amlinellu'r berthynas gynllunio a chyllido gyffredinol rhwng Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn newydd, rydym yn cydnabod y gallai gofynion godi yn ystod y flwyddyn y byddai Gweinidogion Cymru am eu cefnogi. Enghraifft o hyn ym maes addysg uwch fyddai darparu graddau galwedigaethol arbenigol lle mae budd cenedlaethol o gael unigolion cymwys yng Nghymru (megis cyrsiau i seicolegwyr addysg), neu ym maes addysg bellach y ddarpariaeth niwcliar benodol bresennol i gefnogi Wylfa Newydd.

113. Cynigir y dylai unrhyw ofynion sy'n codi yn ystod y flwyddyn gael eu rhannu, yn y lle cyntaf, â'r Comisiwn newydd er mwyn gweld a ellid eu cefnogi drwy fecanweithiau a chyllidebau sydd eisoes yn bod. Os nad oedd y Comisiwn yn gallu cefnogi'r gofynion hyn a fyddai'n codi yn ystod y flwyddyn, cynigir cyflwyno pŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyllido darparwr dysgu AHO yn uniongyrchol (gan gynnwys darparwyr addysg uwch), â chyllideb ychwanegol, er mwyn darparu cwrs neu lwybr penodol am gyfnod penodedig, gan gydnabod y byddai hyn yn cael ei ymgorffori i'r Comisiwn ar ôl cytundeb cyllid uniongyrchol cychwynnol. Rydym yn rhagweld y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ryddhau drwy wneud cais/achos busnes yn hytrach na thrwy ddyraniad uniongyrchol. Nid ydym yn disgwyl i unrhyw ddarpariaeth o'r fath gael ei defnyddio'n aml, dim ond lle mae budd mawr i'r cyhoedd o wneud hynny a lle mae Gweinidogion o'r farn y bydd yn hyrwyddo buddiannau cenedlaethol Cymru.

Cwestiwn

A ydych chi'n cytuno y dylai fod yna bŵer i Weinidogion Cymru gyllido darpariaeth AHO yn uniongyrchol (gan gynnwys addysg uwch), ar ôl rhannu unrhyw gynigion o'r fath i ddechrau â'r Comisiwn, a lle mae budd mawr i'r cyhoedd o wneud hynny?

114. Rydym yn cydnabod bod yna nifer o ffrydiau cyllid ar gyfer rhwydweithiau ôl-16 a weinyddir ar draws gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru, ee Cymunedau am Waith, Cyswllt Ffermio, rhai prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac ati. Caiff penderfyniadau ynghylch a ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y ffrydiau cyllid hyn i'r Comisiwn newydd eu gwneud drwy edrych ar bob achos yn unigol.

Cwestiwn

Rydym yn gwybod bod yna ffrydiau cyllid ychwanegol, ar wahân i gyllid craidd. Os ydych yn derbyn cyllid o'r fath, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am y cyllid rydych yn ei gael?

Y berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu ôl-orfodol

115. Mae'r adborth i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac i ddigwyddiadau i randdeiliaid yn awgrymu y dylai'r Comisiwn gydnabod nad oes un ffordd benodol o fynd ati i gynllunio a chyllido darpariaeth ôl-16. Mae hyn yn awgrymu y dylai'r Comisiwn barhau i weithredu systemau cynllunio a chyllido hyblyg ar draws y sector addysg ôl-orfodol, yn y lle cyntaf o leiaf, tra'n ceisio alinio a chydgrynhoi systemau dros amser efallai. Gellid ystyried bod parhau â methodolegau eraill yn ddigon o gam, ond wrth drosglwyddo pwerau, efallai y byddai Gweinidogion Cymru hefyd am ddiogelu, drwy drefniant pontio, ddyraniadau addysg bellach ar lefel sefydliadau unigol.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn yr hyblygrwydd, yn ystod cyfnod trosglwyddo byr, i weithredu gwahanol fodelau cynllunio a chyllido ar draws pob math o ddarparwr ôl-16, gan hyrwyddo ar yr un pryd brosesau alinio a chydgrynhoi wrth i'r Comisiwn aeddfedu?

A ddylai fod yna drefniadau trosglwyddo i sicrhau bod cyllid craidd i unrhyw sefydliad yn cael ei ddiogelu i ddechrau? Beth fyddai'n gam diogelu rhesymol?

116. Ym mis Ebrill 2017, rhoddwyd yr ardoll brentisiaethau ar waith. Yn Lloegr, mae pob cyflogwr yn defnyddio system talebau digidol i dalu am brentis, yn unol â'r taliadau maent wedi'u gwneud. Bydd pob cyflogwr yn y DU sydd â bil cyflogau blyneddol o fwy na £3 miliwn yn cyfrannu 0.5% bob blwyddyn. Mae cyflogwyr yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut maent yn cael budd (yng Nghymru) yn sgil yr ardoll. Maent o'r farn bod system Lloegr yn haws ei deall a'i defnyddio. Wrth fynd ati i gynllunio a chyllido AHO yng Nghymru yn y dyfodol, efallai y bydd angen ystyried gwybodaeth fanylach ynghylch yr ardoll a dulliau eraill o ddyrannu cyllid ar draws y system.

Cwestiwn

A ydych chi'n cytuno y dylai fod disgwyl i'r Comisiwn adolygu'n rheolaidd wybodaeth am yr ardoll brentisiaethau ac ystyried ffyrdd newydd o ddyrannu cyllid ar draws y system os nad ystyrir bod yr ardoll yn bodloni anghenion cyflogwyr yng Nghymru?

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

117. Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar y pryd dair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sef:

- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer y Gogledd;
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru;
- Partneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi De-ddwyrain Cymru.

118. Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl allweddol yn y gwaith o lunio gwybodaeth ranbarthol gan gyflogwyr. Maent wedi cynyddu'n sylweddol eu ffocws ar gyflogwyr ac wedi datblygu strategaethau cadarn i ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn asesu anghenion yr ardal o ran sgiliau ac, yn benodol, yr anghenion am sgiliau sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith rhanbarthol a sectorau â blaenoriaeth.

119. Mae pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn llunio cynllun cyflogaeth a sgiliau blynyddol, gan nodi'r blaenoriaethau ar gyfer eu hardal nhw ar sail anghenion cyflogwyr. Mae cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol yn nodi'r sectorau economaidd allweddol ac yn cychwyn sbarduno penderfyniadau cynllunio ar gyfer darparwyr yn ogystal â rhoi sail dystiolaeth hollbwysig er mwyn gallu gwneud penderfyniadau o ran buddsoddi mewn sgiliau. Y cynlluniau yw'r dystiolaeth o gyflogaeth a sgiliau ar gyfer y Dinas-ranbarthau a'r Bargeinion Twf, ac mae pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi datblygu cysylltiadau cryf â'u gwahanol strwythurau ar gyfer Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf, sy'n cael ei adlewyrchu yn eu trefniadau llywodraethiant unigol.

120. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau cyflogaeth a sgiliau blynyddol yn dylanwadu ar gytundebau dysgu seiliedig ar waith. Wrth gynllunio darpariaeth addysg bellach, aethpwyd ati i ystyried cynlluniau blynyddol y ddwy flynedd academiaidd ddiwethaf. Mae yna waith ar y gweill i fireinio'r broses ymhellach a'i heffaith ar gyfer 2018/19.

121. Rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn newydd gynnal perthynas gref gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol neu unrhyw gorff rhanbarthol tebyg ac y dylai allu dal yn ôl swm i'w ddefnyddio'n benodol i ymateb i'r argymhellion yn y cynlluniau sgiliau blynyddol. Gellid defnyddio hwn ar gyfer darpariaeth ychwanegol mewn meysydd â blaenoriaeth neu i sicrhau nad oes risg wrth ddatblygu darpariaeth newydd i fodloni anghenion posibl y farchnad lafur yn y dyfodol.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn barhau i gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio arlwy darparwyr dysgu?

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn allu dal yn ôl rhywfaint o'r gyllideb graidd ar gyfer pob sector, i'w ddyrannu ar sail yr argymhellion yn y cynlluniau sgiliau blynyddol?

Rheoli Perfformiad a Risg

122. Rydym o'r farn y dylai'r cynigion uchod ar gyfer cryfhau'r trefniadau cynllunio a chyllido strategol ar gyfer darpariaeth AHO yng Nghymru helpu'n sylweddol i wella'r ffordd y caiff perfformiad a risg eu rheoli ar draws y system. Nodir isod gynigion eraill yn ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd sefydliadau a darparwyr unigol a'r system gyfan. Gyda'i gilydd, dylai'r newidiadau hyn gryfhau atebolrwydd a pherfformiad a sicrhau bod system AHO yng Nghymru yn effeithiol ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Cwestiynau

A ydych o'r farn bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system AHO yn ddigonol ac yn briodol?

Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system AHO yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

7. Diogelu buddiannau dysgwyr

123. Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod bod gwahanol rannau o system AHO wedi tyfu ac ymateb i newidiadau mewn cyllid cyhoeddus ac ym mholisiau'r llywodraeth mewn gwahanol ffyrdd. Mae hyn wedi arwain at drefniadau cymhleth a gwahanol wrth geisio diogelu parhad addysg dysgwyr pan fo cwrs wedi dod i ben neu gampws wedi cau, neu pan fo darparwr dysgu/hyfforddiant wedi methu. Mae'r trefniadau hefyd yn wahanol ar gyfer trosglwyddo dysgwr i gwrs neu ddarparwr arall, lle mae mewn perygl o beidio â chwblhau ei gwrs neu oherwydd materion eraill yn ymwneud â'i gynnydd, ac nid ydynt yn glir i'r dysgwr. Mae'r gwahaniaethau a'r cymhlethdodau hyn yn golygu na allwn fod yn hyderus y bydd pob dysgwr, hyd yn oed o fewn yr un darparwr, yn cael eu diogelu i'r un graddau. Er enghraifft:

- **sefydliadau addysg uwch** - mae trefniadau ar waith i ganiatáu i fyfyrwyr barhau i gael cyllid myfyrwyr os ydynt yn trosglwyddo cwrs neu ddarparwr a, lle bo'n briodol, os yw'r darparwr lle mae'r myfyrwyr yn astudio yn peidio â bod yn rhan o'r sector addysg uwch a reoleiddir. Mae Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru, a sefydlwyd gan CCAUC, yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysg uwch sefydlu trefniadau i ddiogelu myfyrwyr. Lle bydd CCAUC yn amau bod sefydliad addysg uwch a reoleiddir mewn perygl o fethu, bydd yn gwneud cais am ddatganiad ar ei bolisi diogelu myfyrwyr, yn cadarnhau sut y bydd myfyrwyr yn cael cymorth i gwblhau eu cymwysterau. Yn ogystal, mae Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch yn nodi'r disgwyliad bod, ymysg pethau eraill, gynlluniau wrth gefn digonol ar waith i ddiogelu buddiannau academiaidd myfyrwyr os yw rhaglenni astudio yn dod i ben;
- **sefydliadau addysg bellach** - mae Deddf Addysg Dechnegol a Phellach 2017 yn gwneud darpariaeth i system weinyddol arbennig weithredu ochr yn ochr ag ansolfedd arferol er mwyn diogelu dysgwyr os yw coleg addysg bellach neu sefydliad dynodedig (cyrff addysg bellach) yn mynd yn ansolfent. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i ymyrryd mewn amylchiadau eithriadol i warchod buddiannau myfyrwyr a diogelu addysg dysgwyr presennol lle mae yna broblemau difrifol;
- **dysgu seiliedig ar waith** - mae hyn yn cynnwys prentisiaethau, hyfforddeiaethau a rhaglenni Twf Swyddi Cymru. Ar hyn o bryd, mae prentisiaethau yn cael eu darparu drwy gontractau rhwng Llywodraeth Cymru a rhwydwaith o ddarparwyr a gymeradwywyd. O fis Medi 2018, y bwriad yw bod Gradd-brentisiaethau yn cael eu comisiynu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae Contract a Manyleb Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith (bydd fersiwn ddiwygiedig o 2019 ymlaen) ar gael yn:
<http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/workbasedlearning/wbl-contracts-2015-to-2019/?skip=1&lang=cy>; maent yn nodi'r gofynion cytundebol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu cyflawni, gan gynnwys:
 - dod o hyd i gyflogwr arall i brentisiaid sydd wedi'u diswyddo fel y gallant ennill y cymhwyster roeddent yn anelu amdano. Mae hawl gan ddysgwyr o'r fath i gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru am gyfnod penodedig tra chwilir am gyflogaeth arall er mwyn eu galluogi i gyflawni eu prentisiaeth; a
 - recriwtio unrhyw ddysgwyr a symudwyd o ganlyniad i ymarfer tendro dysgu seiliedig ar waith fel y gallant gwblhau eu rhaglen ddysgu.

- **chweched dosbarth ysgolion** - mae trefniadau ar waith i sicrhau bod data am ddisgyblion yn cael eu trosglwyddo wrth iddynt symud o un ysgol i'r llall. O dan Reoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"), pryd bynnag bydd disgybl yn ymuno ag ysgol o ysgol arall yng Nghymru neu Loegr, rhaid i Ffeil Drosglwyddo Gyffredin y disgybl fynd gydag ef/hi. Pan fydd disgybl yn gadael un ysgol am ysgol newydd, rhaid anfon Ffeil Drosglwyddo Gyffredin i'r ysgol newydd. Nid yw'r trefniadau hyn yn berthnasol i drosglwyddo dysgwyr rhwng ysgolion a mathau eraill o ddarparwyr dysgu. Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol, lle ystyrir gosod dysgwr mewn ysgol arall, sefydliad addysg bellach arall, neu unrhyw leoliad addysg neu hyfforddiant arall, fod y pennaeth yn trosglwyddo cofnod addysgol y disgybl i'r unigolyn cyfrifol os bydd yn gofyn amdano, er nad yw hyn yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiad o'r hyn a gyflawnwyd gan y disgybl. Os cofrestrir dysgwr mewn ysgol newydd a gynhelir heb i'w hen ysgol fod ar gael, byddai angen i awdurdod lleol yr ysgol newydd ddarparu'r Ffeil Drosglwyddo Gyffredin. Mae Rheoliadau 2011 hefyd yn nodi'r union wybodaeth y dylai ysgolion ei chadw, sef cofnodion addysgol a chwricwlaidd, a'r amgylchiadau pan ellir datgelu cofnodion o'r fath i rieni ac i'r ysgolion yr ystyrir trosglwyddo'r disgyblion iddynt.

124. I grynhoi, mae yna lawer o elfennau o arfer da ar draws y sector AHO; fodd bynnag, rydym o'r farn bod angen mwy o gysondeb fel y gall dysgwyr ddisgwyl yr un lefel o ddiogelwch, lle bynnag y dewisant astudio a dysgu. Mae'r trefniadau presennol yn amrywio o ran eu cwmpas a'u ffocws, yn hytrach na bod gennym un dull cynhwysfawr sy'n cynnwys trefniadau ymarferol a chymorth i ddysgwyr, o ran eu cynnydd a'u lles. Mae sefydlu'r Comisiwn newydd yn dod â chyfle i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau a chreu system fwy cyfartal a chydlynol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, system lle byddai trefniadau rhagweithiol yn eu lle i'n galluogi i ddelio â sefyllfa lle byddai cwrs neu gampws yn cau, a throsglwyddo dysgwyr o un cwrs neu ddarparwr i un arall, gan sicrhau parhad dysgu.

Cynigion ar gyfer Newid

125. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn awgrymu bod lle i gryfhau'r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr AHO yng Nghymru. Rydym yn cydnabod nad yw un dull penodol yn debygol o fod yn briodol i bawb, ac y dylai fod yn fater i bob darparwr unigol benderfynu pa drefniadau fydd yn diogelu eu dysgwyr nhw yn y ffordd orau. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai'r trefniadau a sefydlir gan ddarparwyr fod yn gydnaws â chyfres gyffredin o egwyddorion, er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y sector AHO. Rydym wedi nodi'r egwyddorion canlynol fel man cychwyn y drafodaeth:

- **canolbwyntio ar y dysgwr** - dylai'r trefniadau sicrhau budd y dysgwr ac ymateb i amgylchiadau personol, nodau a dyheadau pob dysgwr, gan ganolbwyntio ar barhad eu haddysg. Dylai'r dysgwyr fod yn rhan lawn o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau i ddiogelu dysgwyr. Dylai'r

dysgwyr wybod cyn dechrau eu rhaglenni pa fesurau diogelu sydd wedi'u sefydlu;

- **cefnogol** - dylai'r trefniadau ddiogelu lles a iechyd meddwl dysgwyr, a dylid ystyried yn arbennig anghenion penodol dysgwyr o grwpiau gwarchodedig a'r rheini sydd ag anghenion cymorth ychwanegol;
- **prosesau amserol ac effeithiol** - trosglwyddo gwybodaeth dysgwyr i ddarparwr newydd y dysgwr yn amserol. Protocolau rhannu data effeithiol rhwng darparwyr AHO sy'n cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac sydd â sail gyfreithiol gadarn. Rhoi gwybod i ddysgwyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ynghylch cynlluniau i ddirwyn cwrs, canolfan neu gampws i ben;
- **ymwybyddiaeth a hwylustod** - dylai'r wybodaeth fod yn glir, heb jargon, yn hwylus cael gafael arni, yn ddwyieithog ac ar gael ar ystod eang o fformatiau yn ôl anghenion gwahanol ddysgwyr. Dylid hyrwyddo'r trefniadau yn dda ymhlith dysgwyr a staff. Dylid darparu hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer staff addysgu a staff cymorth;
- **dulliau cydweithredol** - dylid datblygu trefniadau a phrosesau i ddiogelu dysgwyr drwy ymgynghori â chyrrff sy'n cynrychioli dysgwyr. Dylai darparwyr AHO fynd ati i gydweithredu a chynllunio mewn ffordd gydlynol, gan ymgynghori â dysgwyr er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr sydd am drosglwyddo i ddarparwr arall ac sydd am ddod o hyd i opsiwn arall lle daw eu cwrs, eu canolfan neu eu campws i ben, ac er mwyn cadw costau'r dysgwyr mor isel â phosibl;
- **hyblygrwydd** - mae gan bob dysgwr anghenion, gofynion ac amgylchiadau gwahanol, a dylai'r trefniadau adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, dylid cydbwysu hyn â chymesuredd ac elfen o hyblygrwydd i ddarparwyr gael defnyddio'u crebwyll proffesiynol;
- **cydymffurfiaeth a monitro** - dylai systemau monitro blynyddol ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau. Dylai fod yna sancsiynau priodol y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael ag achosion penodol neu reolaidd o beidio â chydymffurfio â gofynion y Comisiwn. Dylid defnyddio gwybodaeth fonitro flynyddol i wella ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad dysgwyr. Dylid gwneud trefniadau priodol ar gyfer apelau dysgwyr a'u cysylltu â'r broses datrys cwynion.

Cwestiynau:

A ydych chi'n cytuno y dylai trefniadau diogelu dysgwyr fod yn gydnaws â chyfres gyffredin o egwyddorion, er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y sector AHO?

A ydych chi'n cytuno â'r argymhellion a awgrymwyd? A oes yna egwyddorion y dylid eu hepgor neu egwyddorion ychwanegol y dylid eu cynnwys?

Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr

126. Gan y bydd trefniadau pob darparwr AHO yn wahanol, yn ôl yr hyn sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr orau yn eu barn nhw, mae angen inni ystyried sut i wneud yr wybodaeth hon yn glir i'r dysgwyr presennol ac i ddarpar-ddysgwyr ac yn hawdd iddynt gael gafael arni. Gofynnodd y Papur Gwyn a

fyddai yna fanteision o'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch lunio cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu cytundebau deilliannau. Rydym yn awgrymu y dylai'r cynlluniau fod yn 'Gynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr' i adlewyrchu'r ffaith y dylent gynnwys trefniadau i helpu dysgwyr i symud ymlaen yn eu dysgu sy'n ehangach na diogelu dysgwyr rhag effaith ffactorau allanol fel dirwyn cwrs neu ddarparwr i ben. Mae'r adborth a ddaeth i law drwy'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn awgrymu bod yna gefnogaeth i hyn gan holl ddarparwyr AHO.

127. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu na ddylai fod yn ofynnol i chweched dosbarth ysgolion lunio Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr am y rhesymau canlynol:

- mae'n ymddangos bod yna drefniadau cadarn wedi'u sefydlu eisoes ar gyfer trosglwyddo disgyblion drwy'r Ffeil Drosglwyddo Gyffredin;
- i osgoi baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion o ran rheoli trefniadau gwahanol i ddisgyblion sy'n iau nag 16 oed a disgyblion sy'n hŷn; ac
- i osgoi dryswch posibl i ddysgwyr a rhieni yn sgil trefniadau gwahanol i ddisgyblion sy'n iau nag 16 oed a disgyblion sy'n hŷn.

128. Wedi dweud hynny, er bod y Ffeil Drosglwyddo Gyffredin yn effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion rhwng un ysgol a'r llall, nid yw'n berthnasol i drosglwyddo disgyblion rhwng ysgolion a mathau eraill o ddarparwyr dysgu. Rydym am ymchwilio i ffyrdd o wella ymhellach y mathau hyn o drosglwyddo yn y dyfodol.

129. Rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, ac y dylid datblygu'r broses weithredol gan ymgynghori'n llawn â ddarparwyr AHO a dysgwyr neu gyrff sy'n cynrychioli dysgwyr. Rydym wrthi'n ystyried pa sancsiynau, os o gwbl, ddylai fod ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â Chynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, a hoffem ofyn i'r rhanddeiliaid am eu barn ar hyn.

130. Rydym wedi rhoi ystyriaeth i adborth rhanddeiliaid ynghylch defnyddio dull cymesur nad yw'n creu beichiau ychwanegol i ddarparwyr. Oherwydd hyn, nid ydym yn bwriadu creu gofynion gorfawll; byddai Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr ar ffurf sy'n briodol i'r ddarparwr a'i strwythurau, a gellid eu hymgorffori i ddogfennau eraill lle bo'n briodol (megis llawlyfrau academaidd, siarteri dysgwyr neu strategaethau cymorth i ddysgwyr). Fodd bynnag, rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob ddarparwr lunio fersiwn o'r Cynllun sy'n gryno ac yn hwylus i ddysgwyr ei ddarllen, er mwyn sicrhau eglurder a'i bod yn hawdd ei gymharu ar draws ddarparwyr AHO.

131. Er mai mater i'r Comisiwn fyddai penderfynu ar gynnwys manwl y cynlluniau drwy ymgynghori â ddarparwyr AHO a chyrff sy'n cynrychioli dysgwyr, byddem yn rhagweld y gallai Cynlluniau Diogelu a Chynnydd gynnwys:

- prosesau i'w dilyn pan fo cwrs neu raglen yn dod i ben, pan fo campws yn cau, pan fo is-gontractiwr yn methu, a bod angen trosglwyddo dysgwyr unigol. Gallai hyn gynnwys:

- sefydlu grŵp gorchwyl a chytuno ar gynllun gweithredu i reoli sut caiff dysgwyr eu trosglwyddo neu bwynt cyswllt penodol y gallai dysgwyr ei ddefnyddio i drafod eu hanghenion;
 - trefniadau i'w gwneud yn bosibl trosglwyddo dysgwyr i gwrs/rhaglen arall sy'n cydnabod dysgu a chyflawni blaenorol;
 - chwilio am gyflogwyr eraill ar gyfer dysgu seiliedig ar waith;
 - ymrwymiad i sicrhau bod dysgwyr presennol yn gallu cwblhau eu cwrs/rhaglen;
 - opsiynau ar gyfer cyrsiau eraill gyda'r un darparwr;
 - datblygu cynllun trosglwyddo dysgwyr unigol i sicrhau pontio llyfn;
 - cymorth gyda threfniadau fel cludiant neu ofal plant; a
 - chynngor ac arweiniad ar yrfaedd;
- nodi rolau a chyfrifoldebau staff;
 - trefniadau penodol ar gyfer diogelu lles a iechyd meddwl dysgwyr, gan roi ystyriaeth benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr o grwpiau gwarchodedig neu o gefndiroedd difreintiedig, y gallai unrhyw amharu ar y broses ddysgu effeithio'n anghymesur arnynt (er enghraifft, pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal; dysgwyr sy'n cael cymorth ariannol ychwanegol);
 - trefniadau ar gyfer hyrwyddo'r Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr ymhlith dysgwyr a sicrhau ei fod yn hwylus i'w ddefnyddio ac ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd;
 - trefniadau i sicrhau bod staff darparwyr (gan gynnwys staff addysgu a thimau gwasanaethau i fyfyrwyr) yn cael hyfforddiant a chanllawiau priodol i gefnogi dysgwyr a'u cyfeirio at wybodaeth a chanllawiau ychwanegol;
 - trefniadau ar gyfer cynnwys dysgwyr yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, ac yn y gwaith o werthuso i ba raddau mae'n gweithio'n ymarferol;
 - siartiau llif neu restrau gwirio i sicrhau bod prosesau yn cael eu dilyn mewn ffordd gyson;
 - trefniadau i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion statudol, gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Cydraddoldeb 2010;
 - nodi'n glir gysylltiadau â pholisïau a strategaethau eraill y sefydliad (gan gynnwys y polisi cwynion);
 - trefniadau ar gyfer adolygu'r Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, i sicrhau ei fod yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau i brosesau a strwythurau'r sefydliad, ac i ymgorffori 'gwersi a ddysgwyd' wrth weithredu'r Cynllun.

Cwestiynau:

A ydych chi'n cytuno â'r hyn yr awgrymir ei gynnwys mewn Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr? A oes yna unrhyw beth y dylid ei ychwanegu neu ei hepgor?

Pa sancsiynau, os o gwbl, ddylai fod ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â Chynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr?

Trefniadau ar gyfer delio â chwynion a'u datrys

132. Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod bod yna wahanol drefniadau o fewn y sector AHO ar gyfer delio â chwynion a'u datrys.

- **Sefydliadau addysg uwch** - mae Cod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer delio ag apelau academiaidd a chwynion myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch am ansawdd cyfleoedd dysgu. Mae'r Cod Ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg greu gweithdrefnau ar gyfer delio ag apelau academiaidd a chwynion myfyrwyr ynghylch ansawdd cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hwylus i'w defnyddio, yn amserol ac yn hwyluso'r broses wella. Yn ogystal, mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn darparu gwybodaeth a chanllawiau i aelodau'r cynllun ar ddelio â chwynion ac apelau academiaidd myfyrwyr. Mae'n bosibl y bydd CCAUC yn ystyried cwynion yn erbyn sefydliad addysg uwch mewn meysydd lle mae ganddo bwerau cyllido neu reoleiddio, er enghraifft, cwynion ynghylch gweithdrefnau ariannol neu ansawdd sefydliad. Os bydd dysgwr sy'n astudio mewn sefydliad addysg uwch yn mynd â'i gŵyn drwy broses cwynion mewnol ei ddarparwr, ac na fydd yn fodlon â'r canlyniad, gall gyfeirio ei gŵyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yw'r gweithredwr dynodedig ar gyfer ymdrin â chwynion heb eu datrys gan fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn darparu cynllun annibynnol, tryloyw er mwyn adolygu cwynion ac apelau academiaidd myfyrwyr. Mae dysgwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach a gyda darparwyr addysg uwch amgen sy'n cynnig cyrsiau sy'n cael eu dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr yn gallu anfon eu cwynion i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol hefyd. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni prentisiaethau lefel uwch sy'n arwain at gymwysterau addysg uwch yn gallu cyflwyno cwyn nad yw wedi'i datrys ynglŷn â'u cwrs addysg uwch i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.
- **Sefydliadau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith** - mae gofynion Llywodraeth Cymru ar sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i gael eu gweithdrefnau cwyno eu hunain wedi'u hamlinellu mewn canllawiau, ac ym manyleb y rhaglen dysgu seiliedig ar waith. Yn 2015, canfu adolygiad thematig gan Estyn¹¹ fod gweithdrefnau cwyno mewn sefydliadau addysg bellach yn gweithio'n gyffredinol, a'u bod yn gynhwysfawr ac yn glir, ond bod yna anghysonderau o ran sut roedd gwahanol sefydliadau addysg bellach yn diffinio ac yn delio â chwynion. Yn dilyn yr adolygiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ar sut i ymdrin â chwynion. Ni all dysgwyr addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith gyfeirio cwynion sydd heb eu datrys i gorff annibynnol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion heb eu datrys gan ddysgwyr unigol, ac nid ydynt yn rhan o gylch gwaith Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

¹¹ <https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/pa-mor-dda-y-mae-sefydliadau-addysg-bellach-yn-rheoli-cwynion-gan-ddysgwyr-mai-2015>

- **Chweched dosbarth ysgolion** - mae adran 29 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion meithrin, sefydlu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned leol ac eraill. Wrth sefydlu gweithdrefnau cwyno, rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Mae'r canllawiau presennol yng nghylchlythyr '*Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru 2012*'. Mae'r rhain yn rhoi cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu am sut i sefydlu gweithdrefnau o'r fath ac maent yn cynnwys gweithdrefn gwyno enghreifftiol. Maent hefyd yn amlinellu rôl yr awdurdod lleol mewn perthynas â chwynion, lle bo'n briodol. Er mai cyfrifoldeb statudol y corff llywodraethu yw delio â chwynion, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gweithdrefnau cwyno digonol yn eu hysgolion, a'u bod yn gallu rhoi cyngor a chymorth i gyrff llywodraethu ar ddelio â chwynion. Dylai awdurdod lleol ystyried hefyd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu nad oes gan gorff llywodraethu weithdrefn gwyno, bod ganddo weithdrefn annigonol, nad yw wedi dilyn ei weithdrefn neu nad oes modd gweithredu ei weithdrefn am fod unigolion y mae'r gŵyn yn ymwneud â nhw yn ymchwilio iddi neu'n gwneud penderfyniadau yn ei chylch.

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd rôl o ran cwynion am ysgolion, mewn perthynas ag ambell fater cyfyngedig, gan gynnwys derbyn dysgwyr i ysgolion, eu gwahardd a darparu addysg i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion am yr hyn y mae awdurdod lleol wedi'i wneud yn weinyddol wrth gynnal gweithdrefn gwyno neu adolygu. Ni fyddai hyn yn cynnwys ystyried y materion sy'n ymwneud â thestun y gŵyn.

Cynigion ar gyfer newid

133. Ar sail yr adborth i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, rydym o'r farn y dylai pob darparwr AHO barhau i fod â pholisïau a gweithdrefnau clir ar waith i alluogi dysgwyr i gwyno am eu profiad dysgu. Rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am sicrhau bod gan ddarparwyr AHO weithdrefnau cwyno priodol ar waith a'u bod yn cyfathrebu â dysgwyr yn effeithiol yn eu cylch. Dylai'r Comisiwn hefyd ystyried cwynion yn erbyn sefydliadau sy'n ymwneud yn benodol â'u rôl reoleiddio.
134. Yn ymatebion rhanddeiliaid i'r Papur Gwyn, roedd yna gefnogaeth glir i'r cynnig y dylai fod yna gorff annibynnol ar gael i bob dysgwr AHO i gyfeirio cwynion heb eu datrys, hy cwynion sydd wedi cael sylw drwy brosesau cwyno darparwr, ond lle nad yw'r dysgwr yn fodlon bod y mater wedi'i ddatrys. Nid oes corff annibynnol o'r fath ar gael i bob dysgwr AHO ar hyn o bryd. Mae sawl ffordd bosibl o gyflawni hyn, er enghraifft rhoi rôl ombwdsmon benodol i'r Comisiwn neu sefydlu corff newydd i adolygu cwynion heb eu datrys yng Nghymru. Rydym wedi ystyried adborth gan rhanddeiliaid, yr angen i sicrhau annibyniaeth ddiamheuol, a ffactorau eraill fel y costau, yr amser, a'r adnoddau y byddai eu hangen, a'r gallu y byddai angen ei feithrin er mwyn sefydlu corff newydd i'r diben hwn. O ystyried yr holl ffactorau hyn, nid ydym o'r farn y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gwynion dysgwyr heb eu datrys. Rydym yn cynnig ehangu rôl Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol fel y corff

annibynnol a fydd yn gyfrifol am ddelio â chwynion heb eu datrys ar draws y sector AHO. Bydd angen gwneud trefniadau rhwng Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Comisiwn i sicrhau cyswllt effeithiol wrth ddelio â chwynion sy'n dod o fewn cwrpas rôl statudol y Comisiwn.

135. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig y dylid cynnwys chweched dosbarth ysgolion yn y cynigion ar gyfer datrys cwynion am y rhesymau canlynol:

- mae'n ymddangos bod yna drefniadau cadarn wedi'u sefydlu eisoes ar gyfer cwynion am ysgolion y mae'n rhaid iddynt fod yn gydnaws â chanllawiau Llywodraeth Cymru: Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru 2012;
- mae dysgwyr yn gallu gwneud cais i'r awdurdod lleol ystyried tystiolaeth sy'n awgrymu nad oes gan gorff llywodraethu weithdrefn gwyno, bod ganddo weithdrefn annigonol, nad yw wedi dilyn ei weithdrefn neu nad oes modd gweithredu ei weithdrefn am fod unigolion y mae'r gŵyn yn ymwneud â nhw yn ymchwilio iddi neu'n gwneud penderfyniadau yn ei chylch;
- i osgoi baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion o ran rheoli trefniadau gwahanol i ddisgyblion sy'n iau nag 16 oed a disgyblion sy'n hŷn; ac
- i osgoi dryswch posibl i ddysgwyr a rhieni yn sgil trefniadau gwahanol i ddisgyblion sy'n iau nag 16 oed a disgyblion sy'n hŷn.

Cwestiwn:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r trefniadau presennol ar gyfer datrys cwynion barhau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion?

8. Cryfhau llais y dysgwr a'r gynrychiolaeth a roddir iddo

136. Rydym yn bwriadu sicrhau bod y Comisiwn yn canolbwyntio'n bennaf oll ar anghenion dysgwyr. Rhaid rhoi cyfle i ddysgwyr helpu i lunio cynllun strategol y Comisiwn a rhoi adborth ar effaith gweithgareddau'r Comisiwn. Rydym yn cynnig y dylai fod yna gynrychiolaeth i ddysgwyr ymhlith aelodau'r Comisiwn, ond yn fwy na hynny rydym am weld y Comisiwn, pan ddaw'n weithredol, yn cymryd camau penodol i gynyddu'r gynrychiolaeth a roddir i ddysgwyr a rhoi mwy o lais iddynt dros amser.
137. Mae angen i'r gwelliant yn lefelau boddhad myfyrwyr, eu lefelau cyflawni a'u sgiliau cyflogadwyedd fod ar gael i bob myfyriwr ym mhob darparwr ôl-16 - lle bynnag y bônt. Mae hyn yn cynnwys prifysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a chweched dosbarth ysgolion.
138. Fel rhan o'i strategaeth, byddai disgwyl i'r Comisiwn newydd amlinellu cynlluniau uchelgeisiol a mesuradwy i gryfhau cyfraniad cynrychiolwyr dysgwyr yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae dysgwyr eisoes wedi'u cynrychioli ar rai cyrff llywodraethu darparwyr dysgu, ond mae sefydlu'r Comisiwn yn creu cyfle i ddatblygu strwythurau mwy cynaliadwy i gynrychioli dysgwyr ym mhob darparwr dysgu o fewn cylch gwaith y Comisiwn, gan adeiladu ar yr arferion gorau sydd eisoes yn bodoli. Bydd angen i ddarparwyr dysgu ystyried sut y byddant yn cefnogi ac yn cyllido'r strwythurau hyn, fel bod pob dysgwr, lle bynnag a sut bynnag maent yn astudio, yn cael gwrandawriad ac er mwyn defnyddio profiadau'r dysgwyr i lywio'r ddarpariaeth a mesur ansawdd. Byddai gofyn i'r Comisiwn roi adroddiad yn flynyddol ar y camau a gymerwyd gan ddarparwyr i weithio mewn partneriaeth go iawn â dysgwyr drwy strwythurau cadarn a modelau cyllid cynaliadwy, ac ar effeithiolrwydd yr ymgysylltu hwnnw.
139. Mae darparwyr addysg uwch yng Nghymru, mewn partneriaeth â CCAUC ac UCM Cymru, wedi sefydlu partneriaeth o fewn ein sefydliadau, gan roi'r lle blaenaf i fyfyrwyr yn eu profiad dysgu. Mae'r dull blaengar hwn o greu partneriaeth o fewn y sector ac â CCAUC yn golygu bod pob undeb myfyrwyr yng Nghymru yn llunio adroddiad ansawdd blynyddol erbyn hyn, a bod gan bob darparwr addysg uwch siarter myfyrwyr. Mae Llywydd UCM Cymru yn arsylwi ar Gyngor CCAUC. Mae cydweithredu fel hyn wedi arwain at ddiwylliant o bartneriaeth ystyrlon rhwng sefydliadau, undebau myfyrwyr a myfyrwyr ledled Cymru.
140. O dan Ganllawiau Strategaethau Cynnwys Dysgwyr Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i bob darparwr addysg a hyfforddiant ôl-16 fod â strategaeth ffurfiol i gynnwys dysgwyr, sy'n rhoi'r lle canolog i ddysgwyr wrth wneud penderfyniadau. Ers lansio'r canllawiau yn 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido cyfres o brosiectau UCM Cymru a oedd yn helpu darparwyr i ddatblygu strwythurau i roi llais i ddysgwyr a hyfforddi unigolion i gynrychioli dysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru nawr yn cyfrannu at Wise Wales, sef cyfuniad o sefydliadau o'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch, sy'n ceisio creu partneriaeth ystyrlon rhwng addysgwyr a dysgwyr

ledled Cymru. Mae Wise Wales yn y broses o ddatblygu strategaeth tymor hirach i hyrwyddo llais y dysgwr mewn colegau a phrifysgolion.

141. Yn sgil Rheoliadau Cyngorau Ysgol (Cymru) 2005, fe'i gwnaed yn ofyniad statudol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru greu cyngor ysgol i sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei gynrychioli yn y broses o ddatblygu polisiau a gweithdrefnau'r ysgol. Yn ogystal, anogir ysgolion i ddatblygu modelau holistaidd i helpu pob disgybl i gael cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriad a phenderfyniadau, gan gynnwys gweithio gyda'r Uwch-Dîm Rheoli a Llywodraethwyr i weithredu ac adolygu polisiau allweddol.
142. Fel y mae Canllawiau Strategaethau Cynnwys Dysgwyr Llywodraeth Cymru yn ei nodi: "Involvement in decision-making has proven benefits for learners. As well as making them feel more motivated and engaged in their learning experiences, it can help them to develop important skills which will equip them for their futures as active citizens. This will also help providers to improve their retention and achievement rates, by shaping a generation of learners who will actively work with staff to improve the quality of learning." Mae hyn yn dynodi'n glir bod yna fanteision i greu a meithrin strwythurau i sicrhau llais i'r dysgwr ar draws system addysg Cymru.
143. Os ydym wir yn credu mewn systemau dysgu cyson, rhaid bod yna ofyniad sylfaenol i ddatblygu, cefnogi a chyllido'n ddigonol strwythurau i sicrhau llais i'r dysgwr ar draws y sector ôl-16 cyfan.

Y trefniadau diwygio

144. Ar 9 Hydref 2017, ymrwymodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd i ymgynghori ar gynigion i gryfhau llais a chynrychiolaeth i'r dysgwr ar draws y sector AHO, gan adeiladu ar yr arferion gorau sydd eisoes yn bodoli.
145. Roedd yr adborth i'n sioeau teithiol a'r ymatebion i'n Papur Gwyn yn pwysleisio'r rôl bwysig y dylai llais y dysgwr ei chwarae yn ein gwaith diwygio. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid rhoi'r lle canolog i'r dysgwr, ac roedd y rhan fwyaf o'r farn bod gan drefniadau cyfredol addysg uwch ac addysg bellach rywbeth i'w gynnig fel llinell sylfaen. Roedd cefnogaeth eang i sicrhau cynrychiolaeth i fyfyrwyr ar fyrddau, ac awgrymwyd strwythurau cryfach, mwy ffurfiol ar draws y sector.
146. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd y cynllun strategol wrth fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr a busnesau, ac awgrymwyd y dylid canolbwyntio ar anghenion dysgwyr ac ar flaenoriaethau rhanbarthol wrth gynllunio. Roeddent yn teimlo bod yn rhaid i ddysgwyr fod yn bartner yn y gwaith o greu'r cynllun strategol.
147. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn teimlo bod yn rhaid i ddysgwyr fod yn ganolog i'r fframwaith ansawdd ym mhob rhan o'r system AHO, a bod angen mynd ati i ymgynghori â dysgwyr ynghylch eu profiad wrth wneud penderfyniadau.

148. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn awgrymu bod lle i gryfhau'r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr AHO yng Nghymru. Awgrymwyd y gellid canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr ac y dylai'r trefniadau sicrhau budd y dysgwr, ac ymateb i amgylchiadau personol, nodau a dyheadau pob dysgwr, gan ganolbwyntio ar barhad eu haddysg. Dylai'r dysgwyr gymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau i'w diogelu.

149. Gan roi ystyriaeth i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, rydym wedi datblygu cynigion i gryfhau llais a chynrychiolaeth y dysgwr mewn perthynas â'r cynllun strategol, diogelu'r dysgwr ac asesu ansawdd. Rydym wedi argymhell:

- y dylai'r Comisiwn fod o dan rwymedigaeth i ymgynghori â dysgwyr wrth baratoi ei gynllun strategol;
- y dylai'r Comisiwn gynnwys cyrff sy'n cynrychioli dysgwyr a'r dysgwyr eu hunain yn y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr;
- y dylai'r Comisiwn sicrhau bod cynnwys dysgwyr yn elfen ganolog o'r fframwaith ansawdd. Dylid integreiddio dysgwyr fel partneriaid yn y gwaith o gynllunio a gweithredu prosesau sicrhau a gwella ansawdd;
- y dylai cynnwys dysgwyr fod yn egwyddor sy'n ganolog i'r model asesu ansawdd allanol.

150. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n statudol i asesu unrhyw effaith datblygu cynigion deddfwriaethol ar ddysgwyr. Mae ystod o asesiadau statudol yn cael eu paratoi, gan gynnwys Asesiad Effaith ar Blant a Phobl Ifanc ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ynghyd â'r ymgynghoriad hwn. Bydd yr asesiadau hyn yn helpu i sicrhau bod effaith y diwygiadau ar ddysgwyr o ystod o wahanol gefndiroedd yn cael ei hystyried yn llawn. Byddem yn croesawu'n arbennig gyfraniadau gan randdeiliaid a fydd yn helpu i ddatblygu'r asesiadau hyn, ac a fydd yn sicrhau bod pob effaith yn cael eu hystyried.

151. Rydym yn cydnabod bod cysondeb o ran egwyddorion a gwerthoedd yn bwysig, ond na ddylid gweithredu mewn un dull penodol bob amser efallai. Wrth ddatblygu ein cynigion ymhellach, bydd angen rhoi ystyriaeth i anghenion dysgwyr ar draws y lleoliadau dysgu. Mae yna enghreifftiau da o arferion gorau ar draws y sector AHO, ond gellid sicrhau manteision pellach drwy gryfhau'r trefniadau a dilyn cyfres gyson o egwyddorion a gymeradwywyd wrth gynrychioli dysgwyr ar draws y sector cyfan.

Sut y caiff hyn ei gyflawni

152. Credwn fod sefydlu'r Comisiwn yn gyfle i ymchwilio i ffyrdd o gryfhau cynrychiolaeth i ddysgwyr ar draws AHO.

153. Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i edrych ar yr opsiynau o ran sicrhau cynrychiolaeth fwy cyson i ddysgwyr ar draws y sector.

Cytundebau Deilliannau

154. Gan fod model cytundeb rheoleiddio a deilliannau wedi'i gynnig, awgrymir cynnwys cynrychiolwyr dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu elfen ddeilliannau'r cytundeb, ac y byddai'r Comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys dysgwyr yn y gwaith hwn.
155. Fodd bynnag, ar gyfer y chweched dosbarth, byddai angen i hyn fod yn llai uniongyrchol a byddai'r Comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth gan ysgolion o ran sut maent yn rhoi ystyriaeth i safbwyntiau eu dysgwyr chweched dosbarth. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn hyderus bod y cytundebau deilliannau a negodir gyda'r awdurdodau lleol yn adlewyrchu safbwyntiau a dyheadau dysgwyr.
156. Mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith wedi'u heithrio o ofynion y cytundeb rheoleiddio a deilliannau gan fod yn rhaid iddynt gyflawni rhwymedigaethau cytundebol trwyadl eisoes sy'n cynnwys y mathau o faterion y mae'r cytundeb rheoleiddio a deilliannau yn rhoi sylw iddynt. Cynigir gwneud yr ymrwymiad i gynnwys dysgwyr yn rhan o'r cytundeb rhwng y Comisiwn a'r darparwr dysgu.

Fframwaith cenedlaethol

157. Yn ogystal, cynigir sefydlu fframwaith egwyddorion cenedlaethol newydd (gweler ffigur 1) i sicrhau cysondeb ledled y sector AHO. Byddai hwn yn cael ei lunio drwy ymgynghori â dysgwyr, darparwyr a chyrff sy'n cynrychioli dysgwyr. Cynigir y dylai'r fframwaith hwn sicrhau eglurder o ran themâu a bod yn sail i gyrff cryf, effeithiol a chynaliadwy i gynrychioli dysgwyr, gan ddarparu hyblygrwydd a sicrhau bod cynrychiolaeth effeithiol ar gael i bob dysgwr dan arweiniad y dysgwyr eu hunain.

Ffigur 1

Partneriaeth	Perthynas rhwng y darparwr, y dysgwyr a'r corff a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr yw partneriaeth, lle byddant yn cydweithio i gyd-greu'r amgylchedd a'r profiad addysgol gorau posibl. Mae hon yn berthynas gyfartal sy'n seiliedig ar gydwerthfawrogiad, cydymddiriedaeth a chyd-barch.
Annibynnol	Mae corff annibynnol a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr yn un sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr leisio eu barn ac sy'n gallu sicrhau bod y farn honno yn cael ei chlywed ar y lefelau uchaf.
Atebol	Corff a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr sy'n atebol i'w aelodau o ran yr hyn y mae'n ei ddweud a'i wneud ar eu rhan. Mae yna linellau atebolrwydd clir o ran ei benderfyniadau polisi a'i

	berfformiad.
Cynrychioli	Mae corff a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr yn dilyn mandad ei aelodau drwy ei brosesau democrataidd. Mae'n siarad ar eu rhan ag un llais ar sail gwybodaeth a thystiolaeth, ac mae'n gallu newid pethau i'w aelodau. Caiff ei swyddogion eu hethol drwy etholiadau teg a rhydd.
Cynaliadwy	Mae corff cynaliadwy a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr yn gallu gweithredu'n effeithiol a chyflawni ei ddiben craidd o gynrychioli flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae yna barhad o ran cof, sgiliau, cynlluniau a strwythurau.

Cwestiynau:

A ydych yn cytuno y dylid datblygu egwyddorion a gwerthoedd cyson o ran llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr, ac y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr dysgu weithredu yn unol â'r rhain?

A ydych yn cytuno y dylai cynrychiolwyr dysgwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu elfen ddeilliannau'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau?

A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer sicrhau llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr? A ydych o'r farn y byddai hyn yn gweithio i bob darparwr dysgu?

Os felly, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am sefydlu'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig?

A ddylai'r Comisiwn weithio gyda phob darparwr addysgol yng Nghymru i sicrhau bod digon o adnoddau a chefnogaeth i sefydlu cyrff a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr?

9. Sicrhau a gwella ansawdd

158. Roedd Adroddiad Hazelkorn yn cydnabod bod sicrhau ansawdd yn faes cymhleth yng Nghymru, a bod nifer o gyrff yn ymwneud â'r maes. Cydnabu'r Athro Hazelkorn bod ansawdd a pherfformiad darparwyr AHO yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd ei hadroddiad yn tynnu sylw at nifer o heriau'n ymwneud ag effeithiolrwydd y system ansawdd, gan gynnwys:
- bod sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch yn canolbwyntio ar eu hagendâu eu hunain ac nad oes llawer o dystiolaeth o berthnasau gwaith dilys. Prin, hefyd, yw'r drafodaeth am anghenion dysgwyr, eu llwybrau a throsglwyddo ar draws y system.
 - mae'r system gyfan yn canolbwyntio gormod ar y tymor byr i'r tymor canolig, yn hytrach na darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer dysgwyr;
 - roedd gwahanol rannau o'r system yn beirniadu ansawdd yr addysg a pha mor barod oedd dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf;
 - nododd llawer o randdeiliaid bod angen gwell cydlyniant a chydweithio yn y system drwyddi draw, a bod angen perthynas mwy cadarnhaol rhwng sectorau;
 - o gofio amrywiaeth y system AHO a'i sefydliadau, nid yw cael ffiniau pendant rhwng rhannau o'r system yn ddymunol bellach;
 - mae llawer o ddata'n cael eu casglu, ond nid yw'r data yn cael eu trin a'u trafod mewn ffordd resymegol a thrawslywodraethol.
159. Mae gan ddarparwyr dysgu ym mhob sector AHO ei system ansawdd ei hun, ac mae proses hunanasesu yn cael ei chynnal yn rheolaidd a ddefnyddir fel man cychwyn ar gyfer asesiadau allanol. Mewn llawer o achosion, mae gan ddarparwyr brosesau aeddfed ac effeithiol sy'n asesu'n drwyadl ansawdd yr addysgu a'r dysgu, deilliannau dysgwyr ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth. Yn yr achoson cryfaf, mae dysgwyr yn bartneriaid llawn ym mhob agwedd ar y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd.
160. Fodd bynnag, mae'r trefniadau presennol ar gyfer asesu ansawdd yn allanol yn golygu ei bod yn anodd edrych ar berfformiad y system AHO mewn modd holistaidd. Hynny oherwydd bod y ddeddfwriaeth bresennol yn rhoi'r cyfrifoldeb statudol am ansawdd yng ngwahanol rannau o'r system i wahanol gyrff. Mae CCAUC wedi datblygu Fframwaith Asesu Ansawdd yn unol â'i gylch gwaith statudol ar gyfer ansawdd mewn addysg uwch. O dan y fframwaith hwn, mae darparwyr addysg uwch yn contractio'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch i gynnal adolygiadau ansawdd allanol o'u darpariaeth. Mae gan Estyn gylch gwaith statudol i arolygu pob darpariaeth AHO arall, yn ogystal ag addysg gychwynnol i athrawon. Mae rhai sefydliadau (megis sefydliadau addysg bellach sy'n darparu addysg uwch a phrifysgolion sy'n darparu addysg gychwynnol i athrawon) yn dod o fewn cylch gwaith y ddau gorff. Caiff pob chweched dosbarth eu harolygu gan Estyn fel rhan o arolygiadau ysgolion uwchradd, heb ddyfarniadau ar wahân. Gan fod termau gwahanol yn cael eu defnyddio, rydym wedi mabwysiadu'r term 'asesiad ansawdd allanol' yn y ddogfen hon i gwmpasu'r ystod o drefniadau sicrhau ansawdd allanol a threfniadau arolygu.

161. Mae'n bwysig cydnabod bod y trefniadau presennol wedi hen ennill eu plwyf, a bod darparwyr yn parchu ac yn ymddiried yn yr asiantaethau sy'n cynnal yr asesiadau ansawdd allanol. Nid ydym am golli cryfderau'r trefniadau hyn. Er hynny, os ydym am lwyddo i greu system AHO gynaliadwy, sy'n fwy strategol, mae'n rhaid iddi gael ei hategu gan fframwaith ansawdd cydlynol.
162. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi nifer o agweddau ar y trefniadau ansawdd presennol ond eu bod yn teimlo bod asesiadau ansawdd allanol yn gallu canolbwyntio gormod ar brosesau a/neu fetrigau weithiau. Ceir cefnogaeth i'r syniad o un fframwaith ansawdd â dysgwyr, eu profiadau a'u deilliannau yn ganolog iddi. Mae sefydlu'r Comisiwn yn gyfle i gynllunio'r fframwaith trosfwaol hwn. Bydd wastad angen i ni ddefnyddio data i werthuso safonau a chynnydd, ond gellir defnyddio data mewn modd llawer mwy strategol i fesur effeithlonrwydd y system AHO gyfan (er enghraifft, drwy baru data er mwyn dadansoddi cyrchfannau dysgwyr). Mae angen i ni sicrhau hefyd bod y trefniadau asesu ansawdd yn datblygu yn yr un modd â newidiadau ehangach. Er enghraifft, gwneud y ffiniau rhwng sectorau yn fwy hyblyg gan ddefnyddio strwythurau grŵp addysg uwch ac addysg bellach; sefydliadau addysg bellach yn arwain consortia dysgu seiliedig ar waith' a datblygu graddau-prentisiaeth. Weithiau, mae lleoliadau chweched dosbarth a cholegau'n cydweithio i ehangu'r cynnig cwricwlaidd i ddysgwyr. Rydym am weld yr arfer hwn yn cael ei ymestyn. Byddai model mwy holistaidd ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd yn cwmpasu'r modelau cyflenwi hyn, heb gael ei gyfyngu gan ffiniau sector traddodiadol.
163. Rydym hefyd wedi ystyried y rôl y dylai'r Comisiwn ei chael mewn perthynas â gwella ansawdd. Rydym yn cydnabod bod darparwyr dysgu unigol yn gyfrifol am nodi eu targedau gwella a'u blaenoriaethau eu hunain, sy'n cael eu llywio gan eu cylch cynllunio strategol blynyddol a'u cylch hunanasesu. Er hynny, gallai'r Comisiwn helpu i sicrhau dull gweithredu mwy cydlynol a hybu cydweithio a rhannu arferion gorau rhwng sectorau. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Comisiwn weithredu'n strategol i helpu i wella ansawdd y ddarpariaeth a deiliannau dysgwyr ar draws y system gyfan, a hynny trwy'r mecanweithiau cynllunio y sonnir amdanynt uchod a thrwy roi Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau ar waith gyda darparwyr AHO.
164. Mae yna lawer o enghreifftiau o brosiectau a rhaglenni llwyddiannus i feithrin gallu a sicrhau gwelliant yn y sector AHO. Mae gan y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch raglenni datblygu ar gyfer uwch-arweinwyr. Drwy'r gronfa Buddsoddi mewn Ansawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ystod eang o brosiectau, dysgu proffesiynol ac ymchwil weithredol yn y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Yn fwyaf diweddar, rhoddwyd arian i helpu darparwyr gydymffurfio â'r ddyletswydd Atal ac i wella cefnogaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog. Yn y sector addysg uwch, mae'r Academi Addysg Uwch, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer

Addysg Uwch a'r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch¹² yn gwneud gwaith i wella ansawdd, ac mae rhywfaint o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar themâu penodol. Ar gyfer ysgolion, caiff ystod o fentrau i wella ansawdd eu cyflawni gan y Consortia Addysg Rhanbarthol ond mae eu gwaith ar y chweched dosbarth wedi bod yn gyfyngedig tan yn ddiweddar iawn. Serch hynny, mae rhai o'r mentrau wedi cael eu cysylltu â chyllid tymor byr. Yn ogystal, mae'r gefnogaeth sydd ar gael mewn sectorau gwahanol wedi amrywio yn hytrach na dull gweithredu mwy strategol a chynaliadwy sy'n adlewyrchu'r system AHO ehangach. Mae'r darparwyr dysgu mewn sectorau gwahanol yn wynebu llawer o'r un heriau ac, wrth gwrs, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud ei ffordd drwy rannau gwahanol o'r system; felly mae dadl gref dros gael dull gweithredu mwy strategol a chydgyssylltiedig ar gyfer gwella, sy'n ategu ac yn adeiladu ar rolau darparwyr dysgu unigol.

Ymatebion i'r Papur Gwyn

165. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r Papur Gwyn yn cefnogi dull gweithredu mwy cydgysylltiedig o ymdrin ag ansawdd cyn belled â bod y dull hwnnw'n cynnwys digon o gydnabyddiaeth i gyd-destun yn y sector. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym:

- eu bod yn cydnabod yr angen am ddull mwy cyson o ymdrin ag ansawdd ar draws y system AHO, ac roeddent yn gefnogol yn gyffredinol i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar egwyddorion a rennir;
- rhaid i drefniadau sicrhau ansawdd gael eu teilwra i adlewyrchu cyd-destun y sector, yn hytrach na defnyddio un dull gweithredu i bawb. Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid adeiladu ar gryfderau'r trefniadau presennol ac yn dod a'r trefniadau hynny at ei gilydd mewn ffordd fwy cydlynol, yn hytrach na chyflwyno gofynion hollol newydd;
- mae cymaroldeb cenedlaethol a rhyngwladol yn hanfodol ar gyfer y sector addysg uwch, a rhaid ymgorffori hyn mewn unrhyw fframwaith ansawdd newydd;
- mae rhai cyfleoedd i symleiddio a lleihau biwrocratiaeth;
- mae metrigau yn bwysig, ond rhaid defnyddio'r rhai cywir a'u hystyried yn ôl y cyd-destun. Dylai'r Comisiwn ystyried deilliannau mwy hirdymor, yn enwedig cyflogadwyedd, a dangosyddion ehangu mynediad, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddangosyddion tymor byr yn unig;
- dylai darparwyr dysgu barhau i fod yn gyfrifol am hunanwella a dylent berchnogi eu safonau a'u ansawdd eu hunain, yng nghyd-destun annibyniaeth sefydliadol;
- rhaid i ddysgwyr fod yn ganolog i'r fframwaith ansawdd ar draws pob rhan o'r system AHO, a dylent gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u profiad; a

¹² Yn dilyn adolygiad o asiantaethau yn y sector addysg uwch gan Syr David Bell, bydd yr Academi Addysg Uwch, y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch a'r Uned Herio Cydraddoldeb yn cael eu huno i greu un corff yn y DU o 2018.

- dylai'r Comisiwn gael rôl o ran ysgogi gwelliant mewn ansawdd, gan gynnwys cydgysylltu gweithgareddau ar draws cyrff gwahanol, cefnogi cydweithio, rhannu arfer da rhwng gwahanol rannau o'r system AHO, a helpu i sicrhau ffocws strategol.

Y dull a gynigir

166. Yn amodol ar yr hyn a nodir isod ynghylch lleoliadau chweched dosbarth, rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn gael cyfrifoldeb statudol dros sicrhau a gwella ansawdd ar draws yr holl ddarparwyr AHO sy'n cael eu rheoleiddio ganddo. Byddai dyletswydd statudol yn cael ei gosod ar y Comisiwn i ddatblygu fframwaith ansawdd ar sail egwyddorion cyffredin, ond sydd â digon o hyblygrwydd ar gyfer dulliau gweithredu sector benodol sy'n adlewyrchu cyd-destun, ffyrdd o weithio a lefel annibyniaeth gwahanol ddarparwyr. Byddai'r Comisiwn o dan fandad i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r fframwaith gan gynnwys darparwyr AHO a chyrrff sy'n cynrychioli dysgwyr. Byddai'n ofynnol iddo hefyd sefydlu Pwyllgor Ansawdd statudol.
167. Yn achos y chweched dosbarth, ni phenderfynwyd eto a fyddant yn cael eu cynnwys yn yr agwedd hon ar y cynigion. Mae'r Athro Donaldson yn cynnal adolygiad annibynnol o waith arolygu ysgolion Estyn ac mae disgwyl iddo gyflwyno ei adroddiad ym mis Mai 2018¹³. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried y cynigion sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw cyn penderfynu p'un a ddylid cynnwys y chweched dosbarth yn yr agwedd hon ar ei gynigion ar gyfer y Comisiwn. Os nad yw'r adolygiad yn mynegi barn un ffordd neu'r llall, rydym yn bwriadu cynnwys y chweched dosbarth.

Y fframwaith ansawdd

168. Ceir rhai nodweddion cyffredin eisoes yn y trefniadau sicrhau ansawdd presennol. Er enghraifft, mae hunanasesu, adolygu gan gyfoedion a chynnwys dysgwyr yn cael eu gweld gan y rhan fwyaf o ddarparwyr fel cryfderau arolygiadau Estyn ac adolygiadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Rydym yn credu bod modd ychwanegu at y nodweddion hyn a'u hymgorffori mewn fframwaith ansawdd mwy cydlynol a syml sy'n cynnwys y system AHO gyfan.
169. Rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am ddatblygu'r fframwaith, a fyddai'n cynnwys:
- y trefniadau ar gyfer asesiadau ansawdd allanol;
 - monitro perfformiad a safonau darparwyr gan y Comisiwn;
 - mecanweithiau i fynd i'r afael ag ansawdd annigonol a chefnogi gwelliant;
 - gwella ansawdd, gan gynnwys cydgysylltu a chefnogi dysgu proffesiynol, datblygu arweinyddiaeth a rhannu arfer da ar draws y sectorau;

¹³ <https://www.estyn.gov.wales/news/drive-improve-education-heart-estyn-review>

- goruchwyllo ansawdd a safonau ar draws y system AHO, gan gynnwys adrodd yn ôl i Weinidogion Cymru.

170. Ar sail Adolygiad Hazelkorn, ein proses mapio o drefniadau ansawdd presennol ac adborth gan randdeiliaid, rydym wedi datblygu cyfres o egwyddorion arfaethedig i helpu'r Comisiwn i ddatblygu ei fframwaith ansawdd. Bwriedir i'r rhain ddarparu'r sylfaen ar gyfer dull gweithredu cydlynol ar draws y system AHO cyfan, ac felly mae'n bwysig bod darparwyr dysgu a rhanddeiliaid eraill yn eu hardystio. Rhaid iddynt fod yn ddigon penodol i fod yn ystyrlon, ond yn ddigon cyffredinol i gael eu cymhwyso'n hyblyg i adlewyrchu cyd-destun a lefel annibyniaeth darparwyr mewn sectorau gwahanol, gan ystyried a ydynt yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol a/neu'n rhyngwladol. Ein bwriad yw bod y Comisiwn yn datblygu'r egwyddorion terfynol drwy ymgynghori â rhanddeiliaid.

171. Yr egwyddorion arweiniol a gynigir ar gyfer y fframwaith ansawdd:

- (i) Dylai ymwneud â dysgwyr wrth fod wrth wraidd y fframwaith. Dylai dysgwyr gael eu hintegreiddio fel partneriaid yn y gwaith o gynllunio a gweithredu prosesau sicrhau a gwella ansawdd.
- (ii) Dylai darparwyr dysgu fod yn gyfrifol am sicrhau eu hansawdd a'u safonau yn fewnol, gan weithio o fewn y fframwaith ansawdd cyffredinol a sefydlwyd gan y Comisiwn ac yn unol â'u cyfrifoldebau statudol a/neu gytundebol.
- (iii) Dylai'r fframwaith gynnwys ac ychwanegu at gryfderau'r trefniadau ansawdd presennol ar gyfer sectorau gwahanol, a'u dwyn ynghyd mewn dull mwy cydlynol, cyson a syml.
- (iv) Dylai'r fframwaith sicrhau ansawdd yr addysgu a bydd yn adlewyrchu ffydd yn yr arbenigedd a'r crebwyll sydd gan ymarferwyr addysgu, dysgu ac academiaidd proffesiynol. Dylai'r Comisiwn gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus yr ymarferwyr hyn ar draws y sector AHO.
- (v) Dylai'r fframwaith werthuso i ba raddau y mae'r system AHO yn sicrhau gwerth am arian ac yn cyflawni deilliannau cynaliadwy ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr, economi Cymru a'r gymdeithas. Dylid hefyd asesu effeithiolrwydd cost y ddarpariaeth. Dylai cyflogwyr a chyrff proffesiynol neu statudol perthnasol ymwneud â'r gwaith o asesu ansawdd.
- (vi) Dylai'r fframwaith gynnwys yr hyblygrwydd i esblygu ar sail profiad, ac i alluogi'r Comisiwn a darparwyr AHO i ymateb i flaenoriaethau a pholisïau newydd pan fo angen.
- (vii) Dylai asesiadau ansawdd allanol gael eu teilwra'n briodol i adlewyrchu cyd-destun pob sector, a dylent gael eu cynnal gan asiantaethau sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Lle mae sefydliad yn darparu cyfleoedd dysgu ar draws mwy nag un sector AHO, dylid defnyddio dull partneriaeth holistaidd.

- (viii) Dylai asesiad ansawdd allanol fod yn drylwyr ond yn gymesur. Ni ddylai'r asesiad greu biwrocratiaeth ddiangen a dylai barchu'r egwyddorion o annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd.
- (ix) Dylai'r fframwaith hyrwyddo cydweithio, a nodi a rhannu arferion gorau ledled y system AHO gyfan. Dylai'r asesiad ansawdd allanol gynnwys adolygiadau thematig a daearyddol sy'n edrych ar effeithiolrwydd y system gyfan o ran bodloni anghenion dysgwyr, yn ogystal ag effeithlonrwydd darparwyr a sectorau unigol.
- (x) Dylai'r fframwaith hyrwyddo gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella ansawdd y ddarpariaeth a phrofiadau dysgwyr.
- (xi) Lle nodir achosion o dangyflawni, dylid rhoi cyfle a chefnogaeth i'r darparwr dysgu i wella cyn ystyried ymyrryd.

Cwestiwn

A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer y fframwaith ansawdd? A ddylid ychwanegu, ddileu neu newid rhywbeth?
Sicrhau asesiad ansawdd allanol

172. Yn amodol ar yr hyn a nodir isod ynghylch y chweched dosbarth, rydym yn cynnig y dylid gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i sicrhau bod ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant ar draws pob sector AHO yn cael ei asesu. Credwn fod rhoi'r rôl hon i'r Comisiwn yn hanfodol er mwyn sicrhau dull mwy cydlynol o asesu ansawdd ar draws y system AHO gyfan.
173. Yn achos y chweched dosbarth, ni phenderfynwyd eto a fyddant yn cael eu cynnwys yn yr agwedd hon ar y cynigion. Fel y nodir uchod, mae'r Athro Donaldson yn cynnal adolygiad annibynnol o waith arolygu ysgolion Estyn, a bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried y cynigion sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw cyn penderfynu p'un a ddylid cynnwys y chweched dosbarth yn yr agwedd hon ar ei gynigion ar gyfer y Comisiwn. Os nad yw'r adolygiad yn mynegi barn un ffordd neu'r llall, rydym yn bwriadu cynnwys y chweched dosbarth.
174. Rydym yn ystyried sut y gall asesiadau ansawdd allanol ddiwallu orau anghenion y system AHO gyfan, o gofio'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd sef trefniadau gwahanol ar gyfer sectorau gwahanol. Mae sefydlu'r Comisiwn yn cynnig cyfle gwirioneddol i ddatblygu dull gweithredu newydd, sy'n cael ei lywio gan yr agweddau gorau ar y systemau ansawdd presennol yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
175. Yn achos y sector addysg uwch, mae'n hanfodol bod unrhyw drefniadau asesu ansawdd allanol yn gymharol i drefniadau eraill yn y DU ac Ewrop. Ar gyfer pob sector AHO, rhaid i'r gwaith asesu gael ei wneud gan asiantaethau sy'n meddu ar y lefel briodol o brofiad a hygredd. Mae cynnwys adolygwyr cymheiriaid mewn gwaith asesu a chefnogi gwelliant yn hanfodol i unrhyw drefn ansawdd. Rydym yn rhagweld hefyd y dylai'r Comisiwn allu defnyddio arbenigedd rhyngwladol i gefnogi pob asesiad

ansawdd allanol, er mwyn sicrhau bod ansawdd yng Nghymru yn cymharu â meincnodau Ewropeaidd a rhyngwladol. Wrth wneud hynny, byddai'r Comisiwn mewn sefyllfa dda i herio rhagdybiaethau a ffyrdd o weithio sydd wedi'u hen sefydlu, a dysgu o arfer da

176. Roedd llawer o'r ymatebion i'r Papur Gwyn, yn enwedig yr ymatebion gan ddarparwyr dysgu, yn canolbwyntio ar drefniadau ansawdd ar lefel sefydliadol. Er bod sicrhau ansawdd a safonau darparwyr unigol yn hanfodol, credwn ei bod hefyd yn bwysig ystyried sut y gellir gwerthuso profiadau a chyfleoedd dysgwyr ar sail thema a daearyddiaeth, gan edrych ar draws ffiniau'r sector a ffiniau sefydliadol.

177. Byddai'n well gennym pe byddai'r Comisiwn yn gweithio gydag un corff dynodedig sy'n gallu datblygu a gweithredu fframwaith ar ei ran ar draws yr holl ddarparwyr AHO, ac eithrio'r chweched dosbarth (gweler isod). Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y byddai angen i unrhyw gorff o'r fath:

- Ddangos profiad ac arbenigedd ar draws yr ystod lawn o ddarpariaeth AHO o fewn cwrpas cyfrifoldebau'r Comisiwn;
- Datblygu model ar gyfer asesu ansawdd sy'n gweithio ar draws y sector AHO, gan gynnwys 'teilwra' priodol i adlewyrchu cyd-destun y sector lle bo'n briodol;
- Sicrhau bod cynnwys dysgwyr wrth wraidd y model asesu ansawdd;
- Bodloni gofynion Cod Ansawdd y DU a Chymdeithas Ewrop ar gyfer Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (ENQA);
- Sicrhau bod modd cymharu'r ddarpariaeth yn erbyn meincnodau Ewropeaidd a rhyngwladol;
- Sicrhau bod yr asesiad ansawdd a'r ffordd y mae'n cael ei gyflawni yn adlewyrchu'r Gymraeg a diwylliant Cymru; a
- Bod yn ddigon hyblyg i addasu ei ddull gweithio mewn ymateb i adborth gan y sector a chan y dysgwyr, cyfarwyddyd gan y Comisiwn, a blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer y sector AHO.

178. Fel y nodir yn yr egwyddorion arfaethedig uchod, mater i'r Comisiwn fyddai sicrhau bod asesiadau ansawdd yn cael eu teilwra i adlewyrchu cyd-destun gwahanol fathau o ddarparwyr. Roedd yr ymatebion i'r Papur Gwyn yn pwysleisio pwysigrwydd dull o'r fath, ac yn tynnu sylw at rai o gryfderau'r trefniadau presennol y dylid eu cadw.

179. Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn newid sylweddol, ac y byddai angen proses fanwl i ddewis a phenodi'r corff asesu ansawdd. Nid ydym am wneud unrhyw ragdybiaethau ynghylch pa gorff a fyddai'n fwyaf priodol, ac rydym yn rhagweld efallai y bydd y Comisiwn yn edrych y tu hwnt i Gymru am sefydliad addas. Nid ydym yn disgwyl y bydd y Comisiwn yn mabwysiadu un o'r modelau asesu ansawdd presennol, ond yn hytrach y bydd dull gweithredu newydd yn cael ei ddatblygu ar draws y system gyfan mewn partneriaeth â dysgwyr a darparwyr.

180. Rydym yn credu, yn sgil rôl arfaethedig y Comisiwn ar draws y sector, bod dadleuon cryf dros ddefnyddio un corff i gynnal asesiad ansawdd. Byddai'n sicrhau mwy o gydlyniant, yn rhoi cyfle i ddatblygu model newydd sy'n cyd-fynd â'r uchelgeisiau sydd gennym ar gyfer y sector AHO, ac yn lleihau biwrocratiaeth ar gyfer darparwyr sy'n gweithredu ar draws ffiniau sector. Wrth gwrs, mae'n debygol hefyd y bydd risgiau ynghlwm â'r dull gweithredu hwn, a byddai angen i ni sicrhau hyblygrwydd digonol i ganiatáu dulliau amgen o asesu ansawdd. Rydym yn defnyddio'r ymgynghoriad hwn i gael barn rhanddeiliaid am ein dull gweithredu arfaethedig, ac i'n helpu i nodi problemau posibl a allai godi.
181. Bydd rhaid ystyried y trefniadau cyllido ar gyfer asesiadau ansawdd allanol wrth i ni ddatblygu cynigion manylach. Efallai y bydd hyn yn cynnwys model tanysgrifio ar gyfer darparwyr dysgu (ar hyn o bryd, mae sefydliadau addysg uwch yn talu ffioedd ar gyfer asesiadau ansawdd allanol, ond nid yw hyn yn wir am bob darparwr AHO). Bydd hyn yn destun ymgynghoriad pellach â darparwyr dysgu pan fydd yr opsiynau amrywiol wedi'u llunio.
182. Rydym yn cynnig bod Estyn yn cadw ei gyfrifoldeb statudol am arolygu'r chweched dosbarth fel rhan o arolygiadau ysgolion uwchradd, er mwyn osgoi gormod o fiwrocratiaeth i ysgolion. Mae rôl Estyn o ran arolygu addysg yn cael ei adolygu gan yr Athro Graham Donaldson ar hyn o bryd. Bydd angen i ni sicrhau bod unrhyw ganfyddiadau o'r adolygiad hwnnw sy'n effeithio ar y chweched dosbarth yn cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu cynigion manylach ar sut fydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Byddai hyn yn golygu bod angen i'r Comisiwn gydweithio ag Estyn i sicrhau bod arolygiadau ysgolion uwchradd yn ystyried ac yn adrodd ar y chweched dosbarth mewn digon o fanylder, a'u bod yn cyd-fynd â'r dull gweithredu ar gyfer asesu ansawdd ar draws y sector AHO ehangach. Byddai'r dull gweithredu hwn yn cryfhau'r ffocws ar ansawdd a safonau o fewn y chweched dosbarth a'u safle yn y system AHO, heb greu biwrocratiaeth ddiangen ar gyfer ysgolion uwchradd.

Cwestiynau

Ac eithrio chweched dosbarth ysgolion, a ddylai un corff gael ei ddynodi i gynnal asesiad ansawdd allanol o'r holl ddarpariaeth AHO? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb, ac esboniwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol yr ydych yn eu rhagweld.

Cefnogi gwella ansawdd

183. Mae rhanddeiliaid wedi gofyn i ni am ddiffiniad o'r term 'gwella ansawdd' er mwyn helpu i ddiffinio'r rôl a ddymunir ar gyfer y Comisiwn. Dangosodd yr ymatebion i'r Papur Gwyn fod dehongliadau gwahanol o ystyr y term mewn rhai achosion, a bod rhai o'r ymatebwyr yn pryderu ei fod yn awgrymu cynnydd mewn atebolrwydd. Rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn ddefnyddio diffiniad o wella er mwyn llywio ei waith, gan gydnabod y bydd angen i ddarparwyr ystyried beth yw ystyr gwella yn eu cyd-destun eu hunain.

Byddem yn croesawu safbwyntiau ar y diffiniad a gynigir ar gyfer “gwella ansawdd” isod:

“Prosesau a gweithgareddau sydd wedi’u cynllunio i wella a chryfhau ansawdd y dysgu a phrofiad y dysgwr. Gallai hyn fod ar lefel pwnc, lefel rhaglen, lefel darparwr, lefel sector a/neu lefel y system AHO.

184. Ar sail Adroddiad Hazelkorn ac ymgynghoriad dilynol â rhanddeiliaid, rydym yn credu y dylai'r Comisiwn gael rôl statudol o ran gwella ansawdd ar draws y system AHO. Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu bod yna ddiffygion y mae angen mynd i'r afael â nhw, ond yn hytrach bod modd i bob darpariaeth, hyd yn oed y ddarpariaeth orau bosibl, wella a datblygu; a bod angen i'r system gyffredinol, yn ogystal â darparwyr unigol, addasu mewn ymateb i flaenoriaethau a datblygiadau arloesol newydd. Byddai rhoi rôl statudol i'r Comisiwn yn help i sicrhau bod ansawdd a rhagoriaeth yn ganolog i'r gwaith o gynllunio a darparu rhaglenni, a byddai'n rhoi cyfle i ddarparwyr o wahanol sectorau gefnogi ei gilydd a dysgu wrth ei gilydd. Roedd yr ymatebwyr i'r Papur Gwyn yn teimlo bod y cyfle hwn i rannu arfer da ar draws ffiniau sectorau yn hynod werthfawr.
185. Mae darparwyr dysgu yn gyfrifol am wella'u darpariaeth eu hunain, ac rydym yn cydnabod mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion eu sefydliad a'u dysgwyr. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cynnig newid hyn, na thanseilio annibyniaeth darparwyr i bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwella mewn partneriaeth â'u dysgwyr (er y gallai sefyllfa godi lle y bydd angen i'r Comisiwn fod yn fwy gweithredol yn ei rôl o ran mynnu gwelliant ar lefel darparwyr os oes tystiolaeth o ansawdd annigonol neu ansawdd sy'n dirywio). Byddai rôl oruchwylio'r Comisiwn yn ychwanegu gwerth a chydlyniant i'r hyn y mae darparwyr unigol yn ei wneud, drwy:
- helpu i sicrhau gweithredu mwy effeithlon drwy gydgyssylltu gweithgareddau gwella cydweithredol ar lefel ranbarthol, sector neu Gymru gyfan, lle bo'n briodol;
 - sicrhau bod y gweithgareddau gwella strategol hyn yn helpu'r sector i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol;
 - hwyluso rhannu arfer gorau ar draws y sector, a sicrhau dull cydgysylltiedig o wella profiad myfyrwyr wrth iddynt symud drwy'r system AHO;
 - cyhoeddi a/neu gyfeirio at gymorth a chyfarwyddyd perthnasol ar gyfer darparwyr; a
 - defnyddio cymorth ychwanegol pan fo ansawdd neu safonau annigonol yn cael eu canfod.
186. Mae angen i waith gwella ansawdd gael eu hintegreiddio'n gyfan gwbl â phrosesau sicrhau ansawdd yn hytrach na'i weld fel maes ar wahân. Dylai'r cysylltiad hwn fod wedi'i wneud eisoes ar lefel y darparwr, lle mae hunanasesiad neu asesiad ansawdd allanol yn nodi argymhellion neu feysydd i'w datblygu sydd wedyn yn cael eu hymgorffori i gylch o welliant parhaus. Nid

yw'n gweithio mor dda ar lefel sector ac ar lefel system, a byddai'r Comisiwn yn gallu cyflwyno dull gweithredu mwy strategol a chynaliadwy.

187. Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn cyflawni rôl cydgysylltu a broceru, gan weithio'n agos ag asiantaethau eraill yn hytrach na dyblygu eu gwaith. Gallai ei weithgareddau gwella ansawdd gynnwys y canlynol:

- darparu canllawiau ac adnoddau;
- rhannu arferion gorau;
- comisiynu ac ariannu dysgu proffesiynol;
- cefnogi rhwydweithiau, cynadleddau a digwyddiadau eraill;
- comisiynu ymchwil a gwerthuso;
- cyllido metrau sy'n cael eu harwain gan ddarparwyr ac ymchwil weithredol;
- monitro effaith gweithgareddau gwella a gwerthuso 'beth sy'n gweithio';
- gweithio gyda darparwyr dysgu, asiantaethau sy'n cynnal asesiadau ansawdd allanol, a phartneriaid eraill i ganfod blaenoriaethau ar gyfer gwella ar draws y system gyfan.

188. Rydym yn rhagweld y byddai gan y Comisiwn rôl allweddol o ran cydweithio â'r Consortia Addysg Rhanbarthol er mwyn sicrhau fod y chweched dosbarth yn cael eu hintegreiddio'n briodol i'r gweithgareddau hyn.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad arfaethedig o wella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

A ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig rôl y Comisiwn mewn perthynas â gwella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

Datblygu'r gweithlu

189. Gallai sefydlu'r Comisiwn fod yn gyfle hefyd i greu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer cynllunio a datblygu'r gweithlu ar draws y system AHO. Yn debyg i'r sefyllfa mewn perthynas â gwella ansawdd, nid oes un corff penodol yn gyfrifol am y system gyfan. Rydym yn cydnabod bod gan ddarparwyr eu cyfrifoldebau eu hunain o ran recriwtio a datblygu staff, ac na fyddai un dull gweithredu i bawb yn gweithio ar draws pob sector. Rydym yn cynnig y gallai rôl y Comisiwn gynnwys datblygu dull mwy strategol o gefnogi datblygiad gyrfaol a datblygiad proffesiynol ar gyfer darparwyr AHO. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- rôl strategol o ran cefnogi'r gweithlu a recriwtio athrawon;

- helpu i ddiffinio'n gliriach y llwybrau gyrfa ar gyfer gweithwyr proffesiynol AHO, gan gynnwys pwynt canolog i gyfeirio at gymwysterau mynediad a dysgu proffesiynol;
- helpu i sicrhau mwy o gydraddoldeb a chludadwyedd ar gyfer athrawon cymwys rhwng y sector ysgolion a'r sector addysg bellach;
- sefydlu fframwaith cyffredinol ar gyfer addysgeg, dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth lle gellid pennu blaenoriaethau o ran buddsoddi ar draws y system a'r sectorau; a
- perchnogi safonau addysgu proffesiynol ar gyfer y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, a sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

190. Byddai'r strategaeth yn cael ei datblygu a'i gweithredu mewn ymgynghoriad â darparwyr dysgu a chan weithio'n agos â phartneriaid megis Cyngor y Gweithlu Addysg, asiantaeth addysg uwch newydd y DU, a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol newydd.

Cwestiwn

Sut y gellid teilwra rôl y Comisiwn o ran datblygu'r gweithlu i adlewyrchu anghenion gwahanol sectorau a darparwyr?

10. Chweched dosbarth

Y cefndir

191. Ar hyn o bryd mae gan 71% o ysgolion uwchradd yng Nghymru chweched dosbarth, a bob blwyddyn mae bron i ¹⁴hanner y dysgwyr 16 oed sy'n parhau mewn addysg lawn-amser yn astudio mewn lleoliadau chweched dosbarth. Er nad yw'r chweched dosbarth yn rhan o addysg orfodol, mae'n wahanol i rannau eraill o'r sector ôl-orfodol gan nad yw'n lleoliad sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Yn hytrach, mae'n rhan o ysgol, ac felly'n gysylltiedig â'r sector gorfodol mewn ffordd nad yw'n wir am rannau eraill o'r sector ôl-orfodol.
192. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf 2000 i sicrhau darpariaeth addysg a hyfforddiant sy'n addas i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr 16-19 oed. Caiff y ddyletswydd hon ei chyflawni'n rhannol drwy ddarparu grantiau i awdurdodau lleol i gyllido lleoliadau chweched dosbarth yn eu hardal. Cyflawnir y ddyletswydd hefyd drwy gyllido'r sector addysg bellach a darparwyr eraill.
193. Cyfrifoldeb corff llywodraethu'r ysgol yw llywodraethiant mewnol y chweched dosbarth, ac nid oes ganddo statws gwahanol i statws yr ysgol uwchradd y mae'n perthyn iddi. Y pennaeth sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd, ond mae'n debygol o fod yn llywodraethwr hefyd. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am yr ysgolion a gynhelir yn eu hardal, ac mae ganddynt amrywiol swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgolion hynny, yn bennaf o ran darparu adnoddau.
194. Mae rhai ysgolion wedi'u dynodi'n ffurfiol drwy Orchymyn yn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol. Mae'r dynodiad hwnnw yn caniatáu i'r corff crefyddol priodol benodi llywodraethwyr penodol i'r corff llywodraethu. Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yw'r rhain, ac mewn ysgolion o'r fath mae'r corff llywodraethu yn cyfrannu at gostau cyfalaf rhedeg yr ysgol.
195. Caiff addysg orfodol ei chyllido gan awdurdodau lleol o'u grant cynnal refeniw. Mae awdurdodau lleol yn dirprwyo'r rhan hon o'r cyllid i'r ysgolion eu hunain. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, rhoddir cyllid chweched dosbarth ysgolion drwy grant penodol gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i ysgolion. Ond caniateir i'r awdurdod lleol gadw canran fach ar gyfer ei gostau ei hun mewn perthynas â chweched dosbarth, ee gweinyddu. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu Tystysgrif o Wariant i Lywodraeth Cymru yn nodi bod y cyllid wedi'i roi i ysgolion sydd â chweched dosbarth. Mae'r ysgolion eu hunain yn rheoli'r cyllid a ddirprwyir iddynt yn ôl eu blaenoriaethau.
196. Mewn perthynas â galwadau am fwy o gydlyniaeth o fewn y sector ôl-orfodol yng Nghymru, nododd yr Athro Ellen Hazelkorn yn ei hadroddiad *Tuag*

¹⁴ Am y tro cyntaf, yn 2016 aeth llai o ddysgwyr ymlaen i'r chweched dosbarth nag a aeth i leoliad addysg bellach. Cyn hynny, roedd y gyfradd wedi bod yn gyson uwch. Arolygon hynt disgyblion Gyrfa Cymru. <https://www.careerswales.com/cy/proffesiynol/hynt-disgyblion/>

at 2030 y dylai hyn gynnwys y chweched dosbarth. Fodd bynnag, yn nes ymlaen yn yr adroddiad, nodwyd bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i p'un a ddylai fod yn rhan o gwmpas gwaith y Comisiwn neu barhau'n rhan o'r trefniadau llywodraethiant presennol. Dyma oedd y cyd-destun ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig*.

Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

197. Yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, gofynnwyd tri chwestiwn am y chweched dosbarth:
- A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a monitro darpariaeth chweched dosbarth?
 - A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn gyflawni unrhyw swyddogaeth arall mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth, er enghraifft, cofrestru darparwyr, sicrhau a gwella ansawdd, a llywodraethu?
 - A ydych chi'n credu y byddai'n well sefydlu'r Comisiwn heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn ei gylch gwaith, gyda'r opsiwn o wneud hynny maes o law?
198. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys y chweched dosbarth o fewn cylch gwaith y Comisiwn o'r dechrau'n deg, yn bennaf er mwyn sicrhau cydlyniaeth o fewn y sector ôl-orfodol a sicrhau parch cydradd i'r gwahanol fathau o addysg. Y rhai oedd o blaid oedd y sefydliadau addysg bellach a'r corff a oedd yn eu cynrychioli, rhai grwpiau cyflogwyr, UCM ac awdurdodau lleol.
199. Roedd lleiafrif yn erbyn cynnwys y chweched dosbarth o fewn cylch gwaith y Comisiwn gan ei fod yn rhan o ysgol. Roeddent yn teimlo hefyd bod y trefniadau llywodraethiant wedi'u hen sefydlu ac yn effeithiol, ac y byddai cynnwys y chweched dosbarth yn ychwanegu haenau pellach o lywodraethiant ac atebolrwydd. Y prif rai i ymateb i hyn oedd y sector ysgolion, gan gynnwys rhai awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dylid nodi bod nifer yr ymatebion o'r sector ysgolion yn gymharol isel.
200. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn awyddus i'r cysyniad o gynnwys y chweched dosbarth fod yn opsiwn i'w ystyried yn nes ymlaen, er mwyn peidio â rhoi gormod o faich ar y Comisiwn newydd ar y dechrau, neu weld sut mae pethau'n datblygu cyn ychwanegu'r chweched dosbarth. Dyma oedd barn y rhan fwyaf o'r sector addysg uwch, rhai undebau ac eraill.

Cynigion

201. Yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, rydym yn cynnig cynnwys darpariaeth chweched dosbarth o fewn cylch gwaith y Comisiwn. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed mwy oddi wrth y sector

ysgolion mewn ymateb i'r ymgynghoriad technegol hwn, gan mai cymharol brin oedd eu hymateb nhw.

202. Dylid nodi ar y dechrau nad ydym, wrth sôn am wneud darpariaeth chweched dosbarth yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn, yn cynnig tynnu'r chweched dosbarth o ysgolion er mwyn creu system drydyddol. Nid ydym chwaith yn cynnig eu tynnu o drefniadau llywodraethiant a staffio presennol eu hysgol. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith o gynllunio a chyllido darpariaeth chweched dosbarth yn cael ei wneud ar wahân i brosesau addysg orfodol, a'r bwriad yw y byddai'r Comisiwn yn ymgymryd â hyn ac yn ei ddatblygu ymhellach. O ran y chweched dosbarth, felly, y cynnig yw rhoi swyddogaethau presennol Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn, fel y maent yn adrannau 31, 33, 34, 35 a 36, ymhlith eraill, o Ddeddf 2000. Bydd y Comisiwn yn gweithio, felly, ar lefel strategol o ran darpariaeth chweched dosbarth, tra bydd llawer o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn parhau'r un fath yn ymarferol, neu'n debyg iawn. Yr unig reswm dros wneud unrhyw newid i'r trefniadau presennol fyddai gwella cyfleoedd a deilliannau addysgol ar gyfer dysgwyr a/neu ansawdd y ddarpariaeth.
203. Y rheswm dros gynnig gwneud darpariaeth chweched dosbarth yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn yw, er bod cydweithredu da yn bodolimaie yna hefyd aneffeithlonrwydd a chystadleuaeth.¹⁵ Byddai gwneud darpariaeth chweched dosbarth yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn yn gyfle i edrych yn strategol ar addysg drydyddol, gan hyrwyddo cydweithredu rhwng darparwyr ar draws y grŵp oedran 14-19 a lleihau dyblygu gwaith diangen. Cydnabyddir y bydd y Comisiwn, wrth ddatblygu ei gynllun strategol, yn ymgynghori ag awdurdodau lleol ynghylch y ddarpariaeth chweched dosbarth o fewn eu ffiniau, ac yn datblygu perthynas gyda'r consortia addysg rhanbarthol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau i ddysgwyr chweched dosbarth.
204. Fel y nodwyd ym Mhennod 6, rydym yn cynnig nad Gweinidogion Cymru, bellach, a ddylai fod o dan ddyletswydd i sicrhau darpariaeth addysg a hyfforddiant sy'n addas i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr 16-19 oed. Yn hytrach, rhoddir y ddyletswydd honno, ynghyd â phwerau cyllido, i'r Comisiwn. Yng ngoleuni hynny, cynigir na ddylai Gweinidogion Cymru gadw'r pŵer yn adran 71 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gynnig creu chweched dosbarth newydd neu gau chweched dosbarth sy'n bodoli. Yn hytrach, caiff y pŵer hwnnw ei roi i'r Comisiwn.
205. Trafodir manylion y cynnig hwn ynghylch darpariaeth chweched dosbarth ymhellach o dan y penawdau isod:

Rheoleiddio

206. Cynigir y dylai'r system reoleiddio ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth weithredu ar lefel yr awdurdod lleol, fel bod y cytundebau rheoleiddio

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2016) Papur Gwyntyllu ar yr Opsiynau Posibl ar gyfer Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd Dosbarthiadau Chwech yng Nghymru, Hawlfraint y Goron. <http://gov.wales/statistics-and-research/think-piece-possible-options-improving-performance-efficiency-sixth-forms/?skip=1&lang=cy>

a deilliannau rhwng y Comisiwn a'r awdurdodau yn hytrach nag ag ysgolion unigol. Y rheswm am hyn yw bod chweched dosbarth yn rhan o ysgol gyfan, a byddai'r baich o wneud pennaeth a chorff llywodraethu ysgol yn atebol i gorff ychwanegol yn cynyddu biwrocratiaeth ac yn ddiangen i gyflawni amcanion strategol y Comisiwn ar gyfer y sector. Byddai delio â tua 150 o ysgolion uwchradd yn hytrach nag awdurdodau lleol yn unig hefyd yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar gyfansoddiad y Comisiwn a sut mae'n gweithredu.

207. Mae ein cynigion ar gyfer cytundebau rheoleiddio a deilliannau wedi'u hamlinellu ym mhennod 5 yn ogystal â chwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch eu gweithredu. Rydym yn cynnig gwneud darpariaeth i'r Comisiwn gael bod yn rhan o'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau a'u gorfodi lle bydd darparwr neu awdurdod lleol yn torri'r cytundeb. Yn achos darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion, cynigir bod y Comisiwn ac awdurdodau lleol, a fyddai'n cynrychioli'r ysgolion perthnasol yn eu hardal, yn llunio cytundebau rheoleiddio a deilliannau. Byddai'n ofyniad statudol creu cytundebau o'r fath a byddai dwy elfen iddynt:

- Rhan I - elfen reoleiddio, y byddai'n rhaid i bob awdurdod lleol gydymffurfio â hi; a
- Rhan II - elfen cytundeb deilliannau, y byddai pob awdurdod lleol yn ei negodi gyda'r Comisiwn, ac a fyddai'n adlewyrchu amgylchiadau'r ddarpariaeth chweched dosbarth o fewn yr awdurdod lleol hwnnw, yn ogystal â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

208. Byddai cyflawni'r gofynion rheoliadol yn dystiolaeth o hyfywedd y darparwyr a'u haddasrwydd i gael cyllid cyhoeddus. O ran yr elfen o oruchwylio cytundebau rheoleiddio a deilliannau, mae gan awdurdodau lleol ddulliau eisoes o sicrhau bod ysgolion yn cael eu rheoleiddio'n iawn a bod yna brosesau i sicrhau hyfywedd ariannol, llywodraethiant da a diogelwch i ddysgwyr. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth reoleiddiol y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ei rhannu â'r Comisiwn ynghylch darpariaeth chweched dosbarth yn eu hardal.

209. O ran y deilliannau i'w hariannu, cynigir y byddai'r Comisiwn yn negodi rhan II o'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau gydag awdurdodau lleol yn hytrach nag ag ysgolion unigol. Bydd angen i awdurdodau lleol drafod gyda chyrff llywodraethu ysgolion eu hardaloedd i sicrhau bod y cyfleoedd dysgu a gynigir ar gyfer dysgwyr ôl-16 ym mhob ysgol yn cyd-fynd â pholisi trosfwaol Llywodraeth Cymru a chynllun strategol y Comisiwn.

210. Bydd angen ystyried sut y gallai'r Comisiwn, drwy sefydlu trefniadau monitro a gorfodi priodol, sicrhau bod elfen ddeilliannau cytundebau rheoleiddio a deilliannau a gymeradwywyd yn cael ei chyflawni'n iawn. Byddai hyn yn golygu rhoi pŵer i'r Comisiwn i osod cosbau, mewn achos o fethiant, er y byddai angen rhoi ystyriaeth i amgylchiadau eithriadol. Lle nad yw'r Comisiwn yn gwbl fodlon ynghylch cynnwys y cytundeb rheoleiddio a deilliannau, gallai fod yn opsiwn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn benderfynu pa rai o'r gweithgareddau arfaethedig y byddai'n barod i'w cyllido. Yn ogystal, gellid rhoi pwerau i'r Comisiwn i ganiatáu i elfen o'r cyllid gael ei ddal yn ôl neu ei

hawlio'n ôl, lle na chyflawnir y cytundeb. Byddai hyn yn golygu rhoi'r pŵer i'r Comisiwn ddal cyllid yn ôl i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gallai fod angen ystyried hefyd a ddylid cael ymyriadau pellach.

211. Bydd y cytundebau rheoleiddio a deilliannau ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn ceisio lleihau neu gael gwared â chystadleuaeth ddiangen, hyrwyddo cydweithredu ac, o bosibl, gyfeirio'r awdurdodau cyfrifol i dynnu lleoliadau chweched dosbarth ynghyd mewn partneriaeth gydweithredol mewn sefyllfaoedd lle byddai'n fuddiol i ddysgwyr o ran ffactorau fel teithio, ehangder y cwricwlwm a/neu lle mae yna ddyblygu gwaith yn parhau. Bydd cytundebau rheoleiddio a deilliannau yn [gallu](#) rhoi ystyriaeth i'r angen i gynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau ehangder y cwricwlwm, i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
212. Yn unol â'i gytundeb rheoleiddio a deilliannau, byddai disgwyl i'r awdurdod cyfrifol roi adroddiad blynyddol i'r Comisiwn ar addysg chweched dosbarth, gan nodi lleoliad ei chweched ddosbarth, niferoedd y dysgwyr, y pynciau sydd ar gael a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddai'r wybodaeth hon, yn ogystal â data eraill, yn cael ei defnyddio gan y Comisiwn i benderfynu sut i reoleiddio'r sector yn y dyfodol, yn ogystal ag wrth roi adroddiad i Weinidogion Cymru.

Llywodraethiant

213. Ni chynigir newid trefniadau llywodraethiant ysgolion. Bydd llywodraethwyr yn dal i fod yn gyfrifol am yr ysgol gyfan, gan gynnwys y chweched dosbarth.

Trefniadaeth ysgolion

214. Mae hyn yn cyfeirio at y broses o agor, addasu neu gau ysgol, a byddai'r penderfyniad i agor neu gau chweched dosbarth mewn ysgol yn addasiad a gâi ei reoleiddio o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Byddai'n rhaid ymgynghori ynghylch y materion hyn ac maent yn faterion i'r awdurdod lleol neu esgobaethol benderfynu arnynt, oni bai bod yr awdurdod ei hun o blaid neu yn erbyn y cynllun. Mewn achosion felly, Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu.
215. O dan adran 42 ac Atodlen 2 i Ddeddf 2013, gall awdurdodau lleol wneud cynigion i ychwanegu neu gael gwared â chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol. Gall awdurdodau lleol hefyd wneud cynigion i ychwanegu neu gael gwared â chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd gwirfoddol a sefydledig, ond dim ond os ydynt wedi cael caniatâd Gweinidogion Cymru i wneud hynny. Gall corff llywodraethu ysgolion o'r fath hefyd wneud cynigion i ychwanegu neu gael gwared â chweched dosbarth mewn ysgolion o'r fath. Os bydd awdurdod lleol yn cynnig agor neu gau chweched dosbarth, yna rhaid cyflwyno'r mater i Weinidogion Cymru benderfynu arno.

216. O dan adran 71 o Ddeddf 2013, gall Gweinidogion Cymru hefyd gyhoeddi cynigion i ychwanegu neu gael gwared â chweched dosbarth. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer hwn i'w helpu, os oes angen, i gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 31 o Ddeddf 2000 - gan sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl ifanc 16-19 oed. O gofio bod y cynnig yn argymhell rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau darpariaeth o'r fath, rydym yn credu ei bod yn rhesymol rhoi pŵer adran 71 i'r Comisiwn hefyd.
217. Fodd bynnag, yng ngoleuni cyfrifoldebau arfaethedig y Comisiwn o ran penderfynu ar gytundebau rheoleiddio a deilliannau a chyllido holl ddarpariaeth dysgu ôl-16, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth, rydym yn cynnig rhoi'r pwerau sy'n perthyn i Weinidogion Cymru yn y maes ar hyn o bryd i'r Comisiwn iddo benderfynu ar y materion hyn, gan y bydd ganddo drosolwg strategol priodol o'r sector.

Derbyniadau i ysgolion

218. Cyfrifoldeb Awdurdod Derbyniadau yw derbyniadau i ysgolion, gan gynnwys derbyniadau i chweched dosbarth ysgol, sef yr awdurdod lleol ar gyfer cymuned o ysgolion gwirfoddol a reolir a chorff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig. Ni chynigir newid y trefniadau presennol.

Cyllido a chynllunio

219. Ar hyn o bryd, caiff chweched dosbarth eu cyllido o grant a gaiff ei dalu i'r awdurdod lleol gan Weinidogion Cymru. Caiff hwn wedyn ei ychwanegu at gyllideb addysg yr awdurdod, ond rhaid iddo gadarnhau drwy lythyr ei fod yn cael ei wario ar addysg ôl-16. Unwaith y daw i law, gall gadw tri y cant o'r cyfanswm ar gyfer gwariant ôl-16 cyffredinol cyn dosbarthu'r gweddill i'w hysgolion yn ôl blaenoriaethau'r awdurdod.
220. Cynigir gwneud y grant hwn yn rhan o gyllideb gyffredinol y Comisiwn. Bydd y Comisiwn wedyn yn dyrannu rhan o'r gyllideb honno ar gyfer cyllido lleoliadau chweched dosbarth ac yn ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ar ôl sefydlu cytundeb rheoleiddio a deilliannau rhwng y Comisiwn a'r awdurdodau, a hynny'n unol â chynllun strategol y Comisiwn, fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cymru. Fel y nodwyd yn y bennod uchod, 'Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido', gellir neilltuo'r cyllid hwn at ddibenion penodol. Mater i'r Comisiwn fydd eu hawl i gadw canran o'r cyllid, ond ni effeithir ar allu'r awdurdodau i ddosbarthu cyllid i'w hysgolion yn ôl confensiynau'r awdurdod. Fodd bynnag, cynigir y bydd angen i'r awdurdodau sy'n derbyn y cyllid hwn adrodd bob blwyddyn i'r Comisiwn ar y defnydd o'r cyllid a gedwir a'r dyraniad i'w hysgolion, ynghyd â'r rhesymau dros eu dyraniadau.. Byddai'r adroddiad hwn yn amlinellu sut y gwariwyd y cyllid a'i effaith ar safonau ac ansawdd eu chweched dosbarth.

Sicrhau a gwella ansawdd

221. Rydym yn cynnig y dylai lleoliadau chweched dosbarth barhau i gael eu harolygu gan Estyn fel rhan o arolygiadau ysgolion uwchradd. Er bod penderfyniad terfynol ar sicrwydd ansawdd chweched dosbarth yn ddibynnol ar adolygiad Donaldson o Estyn, un posibilrwydd yw y byddai angen diwygio'r trefniadau presennol er mwyn llunio dyfarniad ar ansawdd chweched dosbarth ar wahân i'r ysgol gyfan, a gallu cymharu'r dyfarniad hwn ag elfennau eraill o'r sector ôl-orfodol, yn enwedig addysg bellach. Ni fyddai hyn yn golygu arolygu ychwanegol. Yn hytrach byddai'r dyfarniad ar chweched dosbarth ysgol yn cael ei wneud yn ystod arolygiad o'r ysgol gyfan, a byddai gofyn i Estyn ddarparu copi cynnar o'r adroddiad i'r Comisiwn.
222. Os dyfernir bod angen gwella ysgol, gan gynnwys ei chweched dosbarth, yna mae Deddf 2013 yn caniatáu ar gyfer ymyriadau gan yr awdurdod lleol a/neu Weinidogion Cymru. Rydym yn cynnig y dylid rhoi gwybodaeth reolaidd i'r Comisiwn am unrhyw ymyriad, ac os nad yw'n hapus gyda gwelliant chweched dosbarth ysgol sydd mewn mesurau arbennig, yna rydym yn cynnig y gallai argymhell camau gweithredu i'r awdurdod lleol neu i Weinidogion Cymru, yn dibynnu pa un sy'n ymyrryd.
223. Gan fod athrawon ysgol yn cael eu cyflogi i addysgu ar draws ysgol gyfan, ac nid i addysgu'r chweched dosbarth yn benodol, ni chynigir newid y trefniadau presennol o ran eu cyflogaeth, eu cofrestru na'u dysgu proffesiynol.

Cwestiynau

A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill i ysgogi addasiad a reoleiddir o ran chweched dosbarth, ee cau lleoliad penodol, neu a fyddai negodi Rhan II o'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau yn ffordd well o gyflawni hyn?

Pa systemau adrodd ddylai fod yn ofynnol gan yr awdurdod lleol er mwyn dangos ei fod yn defnyddio'r cyllid a roddir ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn effeithiol?

A yw rôl y Comisiwn pan ddyfernir bod chweched dosbarth yn destun pryder yn briodol, neu a ddylai fod yn wahanol mewn rhyw ffordd?

A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill o ran darpariaeth chweched dosbarth?

11. Cefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru

224. Polisi sgiliau Llywodraeth Cymru yw buddsoddi mewn hyfforddiant a fyddai yn talu ar ei ganfed yn economaidd ac yn gymdeithasol; buddsoddi mewn sectorau a swyddi sy'n tyfu er mwyn mynd i'r afael â phrinder sgiliau a'r bylchau mewn sgiliau sy'n amharu ar gynhyrchiant a thwff. Prentisiaethau yw ein prif raglen a arweinir gan gyflogwyr, lle mae'r cwricwlwm yn cael ei adeiladu o amgylch anghenion y cyflogwr.

225. Nid yw prentisiaeth yn gymhwyster ynddo'i hun, ond mae'n rhaglen ddysgu a bennir mewn fframwaith sydd wedi'i lunio fel arfer gan y Cyngor Sgiliau Sector perthnasol neu'r corff sy'n gosod safonau. Mae'n cynnwys nifer o gymwysterau gwahanol, a rhaid cyflawni'r cymwysterau hyn i gyd er mwyn cwblhau'r fframwaith. Mae'r fframweithiau wedi'u cynllunio i roi sgiliau trosglwyddadwy i ddysgwyr sy'n berthnasol i'r diwydiant ehangach, yn ogystal â'r sgiliau penodol sy'n gysylltiedig â phob fframwaith.

226. Mae'r Swyddfa Llafur Rhyngwladol (ILO) wedi darparu diffiniad byr o brentisiaethau sy'n adlewyrchu ein rhaglen ni yng Nghymru.

*Apprenticeship is taken to denote training programmes that combine vocational education with work-based learning for an intermediate occupational skill (i.e., more than routine job training), and that are subject to externally imposed standards, particularly for their workplace component.*¹⁶

227. Ein polisi yw alinio prentisiaethau ag anghenion economi Cymru er mwyn i Gymru allu cystadlu'n fyd-eang drwy gael gweithwyr sy'n meddu ar sgiliau technegol a phroffesiynol lefel uchel. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyflogwyr i ehangu a chryfhau'r llwybrau ym meysydd STEM, y diwydiannau digidol, technoleg gwybodaeth, adeiladu a gwasanaethau ariannol.

228. Mae'r Comisiwn arfaethedig yn gyfle i adeiladu ar ein hamcanion presennol er mwyn darparu llwybrau integredig i brentisiaid allu datblygu sgiliau lefel uwch, lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio a'i datblygu drwy gydweithio â chyflogwyr. Mae angen i'r trefniadau presennol ar gyfer datblygu ac adolygu prentisiaethau gael eu diwygio er mwyn cefnogi'r gofynion hyn gan gyflogwyr; ac mae angen i ni wella mynediad, cydraddoldeb a thegwch o ran cyfleoedd er mwyn cryfhau cludadwyedd sgiliau a chymwyseddau ledled Cymru.

229. Mae Cyrff Dyfarnu'n datblygu cymwysterau yn unol â gofynion y cyflogwr â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn gludadwy a bod dysgwyr yn gallu trosglwyddo o un cyflogwr i'r llall, o un sector i'r llall ac ar draws ffiniau'r DU.

230. Ar hyn o bryd ceir 194 o Fframweithiau Prentisiaeth yng Nghymru (a rhai o'r rheini ar sawl lefel). Caiff 123 o'r rhain eu hariannu'n gyhoeddus. Mae'r

¹⁶ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2016). Delivering value through the Apprenticeship programme. t.7

prentisiaethau'n arwain at ddyfaniad ar lefel 2-7 ar Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Yn 2016/17, roedd 83% o'r prentisiaethau a ddechreuwyd yn dilyn 20 o fframewithiau yn unig.

231. Mae prentisiaethau'n cael eu cyflenwi drwy gontractau rhwng Llywodraeth Cymru a rhwydwaith o darparwyr cymeradwy ar hyn o bryd.
232. Yn 2017, cytunodd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru i sefydlu Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru er mwyn cefnogi polisi sgiliau prentisiaethau Llywodraeth Cymru. Caiff y Bwrdd, sy'n annibynnol, ei reoli gan fusnesau ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r byd busnes, undebau llafur, cyrff addysg bellach a Llywodraeth Cymru. Mae Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru yn darparu cyngor ar ehangu prentisiaethau i sectorau newydd o'r economi ac yn nodi sectorau lle gall prentisiaethau newydd/diwygiedig wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyflogwyr a gweithwyr. Wrth i ni weithio tuag at sefydlu'r Comisiwn newydd, bydd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru, ar ôl cael cyngor arbenigol, yn cymeradwyo neu'n gwrthod fframweithiau (newydd neu ddiwygiedig) gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion sgiliau parhaus ac anghenion sgiliau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys drwy ddata ac adroddiadau a gynhyrchir gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau ac ymchwil ar y farchnad lafur.

Diwygio'r trefniadau

233. Mae'r galw am brentisiaethau'n newid wrth i gyflogwyr ddisgwyl sgiliau ar lefel uwch ac wrth i bobl ifanc ystyried hyfforddiant seiliedig ar waith (prentisiaethau) fel dewis amgen yn lle darpariaeth israddedig llawn amser traddodiadol. Mae prentisiaethau bellach ar gael mewn proffesiynau sy'n rhoi cyfle i sicrhau mwy o gydnabyddiaeth i'r rhaglen ar gyfer cenhedlaeth newydd. Maent yn cael eu cynnwys fwyfwy mewn rhaglenni sgiliau ehangach ar gyfer y gweithlu lle mae llwybrau hyfforddi hyblyg yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion sectorau.
234. Mae'n hollbwysig bod anghenion cyflogwyr a'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr o ran sgiliau lefel uwch yn cael eu diwallu, a bod dewis galwedigaethol amgen dilys ar gael yn lle addysg prifysgol. I fodloni'r gofynion hyn, mae sefydliadau wrthi'n datblygu prentisiaethau gradd ac yn cyflwyno eu cynlluniau i CCAUC gyda golwg ar ddechrau'r cynlluniau peilot cyntaf ym mis Medi 2018.

https://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2016/W16%2047HE%20Supporting%20Strategic%20Change%20Fund.pdf).

235. I ddechrau, bydd y cynlluniau peilot hyn yn cwmpasu cymwysterau ym meysydd peirianeg, gweithgynhyrchu uwch a TG/cyfrifiadura.
236. Bydd y lefel newydd hon o brentisiaeth yn helpu i gyflawni amcanion addysgol ehangach, er enghraifft sicrhau'r un parch i lwybrau galwedigaethol ac academiaidd at gyflogaeth.

237. Yn y cyd-destun hwn, mae angen i ni greu system syml sy'n gallu ymateb i ffactorau economaidd a chymdeithasol gwahanol a chael ei haddasu i fynd i'r afael â heriau o ran sgiliau, er enghraifft y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dyma gyfle i gynllunio ateb gwirioneddol Gymreig i'r her o ymdrin â'r amddifadedd lluosog sy'n wynebu rhai rhannau o'r gymdeithas yng Nghymru.
238. Ni chafodd y fframwaith deddfwriaethol yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ei gynllunio ar gyfer Cymru, ac yn ein barn ni nid yw'n cefnogi amcanion polisi presennol Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau'n dibynnu gormod ar system a weithredir gan Lywodraeth y DU nad yw'n diwallu anghenion unigryw economi a chymdeithas Cymru. Mewn rhai achosion, mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn aneglur ac nid ydynt yn ddigonol i ddarparu'r system sydd ei hangen yng Nghymru. Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru yn anhyblyg ac nid yw'n ymateb i anghenion newidiol diwydiant; ni ellir gweithredu newidiadau mor gyflym ag sydd angen mewn amgylchedd sgiliau sy'n newid yn gyflym.
239. Mae gallu'r Cynghorau Sgiliau Sector a chyrrff sector i gyflawni eu rôl wedi lleihau o dan y diwygiadau i brentisiaethau yn Lloegr, gan wanhau eu cylch gwaith o roi llais i gyflogwyr a chreu llwybrau galwedigaethol o ansawdd uchel. Yn ogystal, mae nifer o gyrff sector yn ei chael hi'n anodd darparu'r swyddogaethau y cawsant eu creu i'w darparu: mynegi anghenion cyflogwyr, darparu gwybodaeth am y farchnad lafur a datblygu/adolygu prentisiaethau.
240. Ar hyn o bryd, ceir pŵer yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 i Weinidogion Cymru allu dynodi cyrrff i ddarparu fframweithiau prentisiaeth. Oherwydd bod gallu rhai o'n hawdurdodau dyfarnu prentisiaethau, Cynghorau Sgiliau Sector a chyrrff sectorau wedi gwanhau, rydym yn ystyried cychwyn pŵer yn Neddf Dadreoleiddio 2015 i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno fframweithiau. Byddai'r mesur hwn yn helpu i gynnal uniondeb y system bresennol.

Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

241. Gofynnwyd yn yr ymgynghoriad ar y papur Gwyn am sylwadau ar rôl y Comisiwn yn y dyfodol yn ymwneud â phrentisiaethau yng Nghymru. Yn benodol, gwahoddwyd sylwadau ar ba newidiadau posibl, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r system brentisiaethau yng Nghymru y darparwyd ar ei chyfer yn Neddf 2009.
242. Ni wnaeth pob ymatebydd roi sylwadau ynghylch cynnwys prentisiaethau yn rôl y Comisiwn; fodd bynnag, roedd y rheini a wnaeth roi sylwadau o blaid hynny'n gyffredinol gan bwysleisio'r angen i gymryd materion trawsffiniol i ystyriaeth. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai cynnwys prentisiaethau yng nghylch gwaith y Comisiwn yn cefnogi'r ymdrechion i sicrhau'r un parch i ddarpariaeth seiliedig ar waith a darpariaeth academiaidd. Dylid nodi, serch hynny, na chafwyd sylwadau gan gyflogwyr a darparwyr

dysgu seiliedig ar waith unigol, er bod cynrychiolwyr cyflogwyr a darparwyr dysgu seiliedig ar waith wedi ymateb.

243. Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymu newidiadau y gellid eu gwneud i'r system brentisiaethau yng Nghymru, gan gynnwys:

- dileu'r dull caffael presennol a chyflwyno dull sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru;
- dylai'r Comisiwn gyfateb i Sefydliad y Prentisiaid yn Lloegr;
- cynnal adolygiad o fframweithiau a'u symleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cyflogwyr a'r sector AHO;
- mwy o integreiddio rhwng systemau prentisiaethau Cymru a Lloegr er mwyn caniatáu mwy o gydnawsedd a chlodadwyedd o ran dysgu a chymwysterau;
- mwy o rôl a rôl mwy cydgysylltiedig ar gyfer llais dysgwyr sy'n ymgymryd â phrentisiaethau;
- mwy o bwyslais ar wella ansawdd er mwyn sicrhau bod prentisiaethau'n darparu llwybr galwedigaethol ystyrlon o ansawdd uchel i gyflogaeth ac yn ddewis amgen dilys yn lle addysg prifysgol;
- dylid ystyried gwneud y Comisiwn yn awdurdod dyfarnu ar gyfer fframweithiau prentisiaeth er mwyn sicrhau bod y gallu i ddatblygu fframweithiau yn cael ei gynnal yng Nghymru;
- dylai unrhyw newidiadau i system brentisiaethau Cymru y mae Deddf 2006 yn darparu ar eu cyfer gael eu hystyried yng nghyd-destun adolygiad Cymwysterau Cymru.

244. Roedd un ymatebydd yn credu y byddai'r newidiadau i'r trefniadau cyllido ar gyfer Prentisiaethau ar draws y DU yn golygu y byddent yn symud y tu allan i gylch gwaith AHO. Awgrymwyd bod prentisiaethau yn 'waith gydag ychydig o hyfforddiant' mewn gwirionedd yn hytrach nag 'addysg gyda rhywfaint o brofiad gwaith', ac felly ni ddylid eu cynnwys yng nghylch gwaith y Comisiwn.

245. Tynnodd ymatebydd arall sylw at yr adroddiad '*Remaking Apprenticeships – Powerful Learning for Work and Life*' (2015)¹⁷ sy'n egluro bod prentisiaid yn wahanol i fyfyrwyr mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion am eu bod yn weithwyr yn bennaf yn hytrach na dysgwyr. Awgrymodd y person hwnnw bod angen cymryd y gwahaniaethau hyn i ystyriaeth wrth ailwerthuso prentisiaethau yng Nghymru.

Ein gweledigaeth

246. Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw system brentisiaethau integredig sy'n ymateb i anghenion economi, cyflogwyr a dysgwyr Cymru. System a fydd yn helpu i ddenu busnesau newydd a thyfu busnesau sydd eisoes yn bodoli er mwyn gwella ffyniant. Rydym eisiau system sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn galluogi dysgwyr i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol neu economaidd. Rydym hefyd eisiau

¹⁷ https://www.cityandguilds.com/~/_media/documents/what-we-offer/apprenticeships/remaking%20apprenticeships%20pdf.ashx

system y mae dysgwyr a chyflogwyr yn ei deall ac yn gallu rhyngweithio'n llawn â hi.

247. Rydym yn rhagweld y bydd tri cham i'r broses hon:

- Cam 1: Datblygu darpariaeth sy'n cyd-fynd ag anghenion rhanbarthol a chenedlaethol
- Cam 2: Cael cyngor annibynnol ar ddatblygiadau/cynigion
- Cam 3: Troi cynigion llwyddiannus yn brentisiaethau newydd/diwygiedig

248. Bydd y cam cyntaf yn nodi'r angen i sefydlu prentisiaethau newydd mewn ymateb i alw o fewn diwydiant. I nodi'r bylchau mewn sgiliau, bydd angen ymgysylltu â'r rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a bydd angen i Fwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru adolygu'r dystiolaeth.

249. Pan fydd yr angen am sgiliau wedi'i nodi, bydd ail gam y broses yn gofyn bod y Bwrdd yn cyngori'r Comisiwn ar ba lwybrau sydd eu hangen. Bydd angen cynnull grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer gwaith datblygu sector benodol.

250. Yn ystod y trydydd cam, caiff yr holl gynigion llwyddiannus eu cymeradwyo gan y Comisiwn a chaiff y lwybrau eu cyhoeddi, a bydd Llywodraeth Cymru a'r darparwyr yn cael gwybod am y cynnyrch newydd.

251. Bydd angen i unrhyw gymhwyster newydd fod o'r math priodol ac ar y lefel briodol a bod iddo'r gwerth credyd priodol er mwyn cynrychioli anghenion prentisiaid a chyflogwyr. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y Cymwysterau a enillir yn cael eu cydnabod gan sectorau unigol a'u bod yn gweld gwerth ynddynt.

Sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni?

252. Credwn fod sefydlu'r Comisiwn yn gyfle i ystyried sut mae prentisiaethau yng Nghymru'n gweithio a sut y gellid eu hintegreiddio fwy yn y ddarpariaeth ôl-16 ehangach. Bydd gwella'r system gyfan yn galluogi dysgwyr i symud yn ddidrafferth rhwng gwahanol amgylcheddau a dulliau dysgu.

253. Rydym yn awgrymu'r newidiadau canlynol i'r system brentisiaethau presennol, gyda'r Comisiwn wrth wraidd rhaglen brentisiaethau ddiwygiedig yng Nghymru:

Safonau Prentisiaethau

254. Rydym yn cynnig bod Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru yn cael disodli gan Fanyleb Prentisiaethau Cymru. Bydd Manyleb Prentisiaethau Cymru'n ddogfen fyw y bydd angen ei hadolygu wrth i anghenion economaidd y genedl newid a phan fydd cyfleoedd newydd yn codi i ehangu a datblygu'r ddarpariaeth brentisiaethau. Bydd yn ddogfen lefel uchel lle bydd

Gweinidogion Cymru'n amlinellu beth y dylai Prentisiaethau Cymru eu cynnwys gyda chyfres o ofynion craidd. Bydd y gofynion hyn yn amrywio yn dibynnu ar lefel y brentisiaeth. Wrth baratoi'r Fanyleb, bydd Gweinidogion Cymru'n ymgynghori â'r Comisiwn a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Yn benodol, rydym yn rhagweld y bydd y Fanyleb yn nodi'r canlynol:

- lefel y cymhwyster y mae'n rhaid ei gynnwys mewn llwybr prentisiaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd y lefelau presennol yn cael eu cadw;
- y math o gymhwyster y dylid eu cynnwys ym mhob llwybr, gan gynnwys y gofyniad bod cymwysterau galwedigaethol a thechnegol yn cael eu cynnwys;
- gofyniad am hyfforddiant yn y gwaith a thu allan i'r gwaith y mae'n rhaid ei gwblhau ar gyfer pob llwybr prentisiaeth ar bob lefel;
- y llwybrau blaenoriaeth y dylai'r Comisiwn eu datblygu;
- y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn bod tystysgrif brentisiaeth yn cael eu rhoi. Efallai bydd y gofynion hyn yn cynnwys y lefel a'r math o gymhwyster sy'n rhaid ei ennill i gwblhau prentisiaeth ar lefel benodol;
- y sectorau o'r economi y dylid cyhoeddi llwybrau prentisiaeth ar eu cyfer.

255. Os bydd y Comisiwn yn methu â bodloni gofynion Manyleb Prentisiaethau Cymru, bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gyfarwyddo i gydymffurfio.

Llwybrau Prentisiaeth

256. Rydym yn cynnig bod y Fframweithiau Prentisiaeth, sy'n cael eu datblygu a'u cyhoeddi gan awdurdodau cyhoeddi dynodedig ar hyn o bryd, yn cael eu disodli gan Llwybrau Prentisiaeth. Byddai pob Llwybr ar lefel benodol (sy'n cyfateb i lefel y cymwysterau sydd ynddo) a bydd yn rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion craidd a nodir ym Manyleb Prentisiaethau Cymru. Yn amodol ar hyn, dylai fod gan y Comisiwn y gallu i gynnwys, fesul sector, cymwysterau neu safonau diwydiant eraill y bernir eu bod yn angenrheidiol i ddangos cymhwysedd ar y lefel berthnasol mewn sector penodol. Byddai'r Comisiwn hefyd yn gallu pennu gofynion sy'n gyffredin i bob Llwybr, megis gofynion ar gyfer Sgiliau Hanfodol neu gymwysterau eraill.

257. Y Comisiwn fyddai'n bennaf gyfrifol am gyhoeddi pob Llwybr Prentisiaeth, gyda'r opsiwn i gomisiynu'r gwaith o ddatblygu llwybr drwy gontract neu ddirprwyo ei bŵer i gyhoeddi Llwybrau i gyrff eraill, cyn belled â'i fod yn cadw'r hawl i oruchwyllo. Byddai'r Comisiwn yn cadw golwg ar y rhain er mwyn sicrhau bod y Llwybrau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfoes, ac mae'n bosibl y byddai'r gwaith o oruchwyllo a chynnal y Llwybrau'n cael ei ddirprwyo i Fwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru.

258. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn gadw cofrestr o'r Llwybrau Prentisiaeth cymeradwy, a fydd ar gael i'r cyhoedd yn electronig ac mewn fformatau eraill. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion darparwyr cyllid y llwybrau ynghyd â dolenni i adroddiadau sicrhau ansawdd diweddar.

259. Bydd y Comisiwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Manyleb Prentisiaethau Cymru wrth ddatblygu a chyhoeddi Llwybrau Prentisiaeth, ac yn goruchwyllo cydymffurfiaeth os yw'n dirprwyo neu'n contractio'r cyfrifoldeb hwn i eraill.
260. Fel sy'n digwydd ar yn o bryd, bydd cyflogwyr ac eraill yn gallu cyflwyno cynigion ar gyfer Llwybrau Prentisiaeth i'r Comisiwn. Yn ogystal, rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn allu ymgynghori â Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill pan fo hynny'n briodol. Byddai hynny'n debygol o ddigwydd pe bai Llwybr yn cael ei gyhoeddi mewn sector newydd, neu ei fod yn newydd mewn rhyw ffordd arall neu o bosibl yn ddadleuol. Bydd y Comisiwn hefyd yn gallu addasu neu dynnu Llwybr Prentisiaeth yn ôl fel y bo angen.
261. Dylai fod cysylltiad rhwng y Llwybrau Prentisiaeth â darpariaeth ôl-16 arall, sy'n golygu bod dysgwyr yn gallu trosglwyddo unrhyw gymwysterau sydd ganddynt eisoes i raglen brentisiaeth heb fod angen iddynt ailsefyll cymwysterau cyfatebol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu symud yn ddidrafferth rhwng gwahanol ffyrdd o astudio yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Bydd hyn yn fantais glir pe bai'r Comisiwn yn gyfrifol am y sector AHO cyfan.

Tystysgrifau Prentisiaeth

262. Credwn y dylai'r gofyniad am gytundeb prentisiaethau gael ei gadw am ei fod yn fodd i wahaniaethu rhwng prentisiaethau a mathau eraill o hyfforddiant. Mae hefyd yn rhoi ychydig o sicrwydd a statws i brentisiaid ac yn rhoi sylfaen i gyflogwyr allu cynllunio eu gweithlu.
263. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru'n dynodi person neu gorff yn Awdurdod Ardystio Cymru. Yn y dyfodol rydym yn cynnig mai'r Comisiwn yw'r Awdurdod Ardystio sy'n rhoi tystysgrifau prentisiaeth, neu'n dirprwyo'r swyddogaeth hon i gorff arall os bydd angen. Bydd y trefniadau presennol i gadw lefel y ffioedd ar y lefelau a ragnodwyd yn parhau.
264. Ar hyn o bryd, rhaid i brentis wneud cais i Awdurdod Ardystio Cymru i gael tystysgrif brentisiaeth. Awgrymir mai'r Comisiwn ddylai ddyfarnu tystysgrifau yn y dyfodol pan gaiff ei hysbysu gan ddarparwr, cyflogwr neu brentis bod y Llwybr Prentisiaeth wedi'i gwblhau i'r safon ofynnol a nodwyd ym Manyleb Prentisiaethau Cymru gan Weinidogion Cymru.
265. Dylai cynnwys tystysgrif brentisiaeth aros fel y mae ar y cyfan, ond bydd angen gwneud rhai newidiadau i adlewyrchu'r broses o symud at Llwybrau Prentisiaeth a diwygiadau eraill i'r system brentisiaethau. Ar hyn o bryd, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am unrhyw faterion eraill i'w cynnwys yn y tystysgrifau. Rydym yn rhagweld y bydd hyn bellach o fewn cylch gwaith y Comisiwn, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw gyfarwyddyd a ddarperir gan Weinidogion Cymru.
266. Bydd yr amodau cyfredol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cwblhau prentisiaeth, gan gynnwys yr amodau safonol sy'n berthnasol i'r rheini mewn

cyflogaeth ynghyd ag amodau amgen i'r rheini sy'n hunangyflogedig neu a gollodd eu swydd yn ddiweddar, yn cael cadw a'u cynnwys ym Manyleb Prentisiaethau Cymru.

Cyllido a chynllunio

267. Caiff prentisiaethau hyd at lefel pump eu cyllido drwy contract rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ar hyn o bryd, a chaiff rhwydwaith y darparwyr eu caffael drwy broses dendro gystadleuol bob ychydig o flynyddoedd Mae hyn yn cynnwys sefydliadau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Bydd prentisiaethau ar lefel chwech ac uwch, y mae disgwyl iddynt ddechrau ym mis Medi 2018, yn cael eu cyllido drwy grant gan CCAUC.
268. Yn y dyfodol, cynigir bod y dyletswyddau a'r swyddogaethau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd, a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid ar gyfer darparwyr dysgu seiliedig ar waith.
269. Ni fydd yn ofynnol i ddarparwyr dysgu sy'n darparu prentisiaethau hyd at lefel pump lunio Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau gan y bydd y gofynion atebolrwydd angenrheidiol yn cael eu cwmpasu yn rhwymedigaethau presennol eu contractau.
270. Fodd bynnag, caiff prentisiaethau gradd, ar lefel chwech ac uwch, eu cyllido drwy grant i'r Comisiwn ac felly byddant yn ddarostyngedig i broses y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau. Bydd hyn yn sicrhau atebolrwydd ar gyfer y cyllid ac yn cynnwys manylion y gofynion rheoliadol y mae'n rhaid iddynt eu bodloni a'r deilliannau y byddant yn ymrwymo i'w cyflawni. Bydd y Comisiwn yn monitro'r rhain er mwyn mesur eu heffaith a bod y deilliannau'n cael eu cyflawni.

Cwestiynau


A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn chwarae rôl ganolog o ran datblygu Prentisiaethau yng Nghymru? Yn benodol, a ddylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i gyhoeddi Llwybrau Prentisiaeth yn ogystal â Thystysgrifau Prentisiaeth?

Pa elfennau o'r system brentisiaethau bresennol sy'n gweithio'n dda ac y dylid eu cadw, a lle y gellir ei gwella drwy gael gwared ar gymhlethdod a gofynion statudol beichus?

A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r trefniant bod Gweinidogion Cymru'n pennu'r gofynion lefel uchel ar gyfer gweithredu'r system brentisiaethau yn y modd a gynigir ar hyn o bryd drwy Fanyleb Brentisiaethau Cymru?

A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau, neu a oes gennych unrhyw sylwadau am y system brentisiaethau ddiwygiedig rydym wedi ei chynnig?

System ar gyfer Adolygu a Datblygu Fframweithiau (Ffigur 1)



12. Ymchwil ac arloesi

Cefndir

271. Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cytuno'n gyffredinol i'r cynnig y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru gael ei gynnwys fel pwyllgor statudol o fewn y Comisiwn. Cytunwyd yn gyffredinol mai Ymchwil ac Arloesi Cymru ddylai fod yn bwynt cyswllt ar gyfer ymgysylltu â Research England a Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) a dylai hefyd fod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac arloesi cysylltiedig â strategaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd pryder y byddai ei gylch gwaith yn rhy gyfyng ac y byddai cyfle'n cael ei golli i gynnwys addysg bellach, ac felly byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru'n canolbwyntio gormod ar addysg uwch. Yn ogystal, roedd pryder y gallai prif gryfderau ymchwil addysg uwch gael eu gwanhau drwy gynnwys carfannau eraill sy'n gymwys i gael cyllid.
272. O ran y mater o ymchwil yn erbyn arloesi, ymddengys fod y rhanddeiliaid yn cydnabod eu bod yn ategu ei gilydd ond nad ydynt yr un peth, ac nad yw'r ymarferwyr yn y naill faes yr un peth â'r ymarferwyr yn y llall. Felly, awgrymwyd y dylent gael eu trin yn wahanol. O ran cydgysylltu ac alinio gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy'n ategu ei gilydd, mynegwyd pryder na ddylai gweithgareddau arloesi ehangu ar draul ymchwil ac y dylid datblygu mecanweithiau cyllido ategol ar gyfer y ddau faes sy'n rhedeg ochr yn ochr. Byddai hyn yn golygu bod angen i'r mecanweithiau cyllido gwahanol ar gyfer y ddau gael eu hadlewyrchu yn y modd y mae Cyllid ac Arloesi Cymru'n gweithio.
273. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol y byddai manteision mawr yn deillio o alinio ac integreiddio gweithgareddau ymchwil ac arloesi â darpariaeth addysg ar bob lefel ac ar draws nifer o ddarparwyr, sy'n cefnogi'r bwriad i integreiddio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac ymchwil ac arloesi mewn un corff.
274. Mae'r Comisiwn arfaethedig a'i Bwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru statudol yn gyfle i gryfhau'r dull strategol o fynd i'r afael â heriau economaidd, diwydiannol, cymdeithasol, llesiant ac amgylcheddol Cymru dros y degawdau i ddod. Mae hefyd yn gyfle pwysig i alinio ac integreiddio addysg, sgiliau, prentisiaethau a dysgu gydol oes â'r ymchwil a'r arloesi sy'n ofynnol i symud Cymru ymlaen o dan Gynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, y Rhaglen Lywodraethu, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn galw am ddwyn ynghyd holl gyllid ymchwil Llywodraeth Cymru yn un lle, sef Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru.
275. Byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru'n canolbwyntio mwy ar faterion trawsbynciol sy'n gofyn am ddull mwy holistaidd, rhyngddisgyblaethol ac aml-sgiliau, gan fabwysiadu system sy'n gallu ymateb i anghenion hirdymor Cymru a, lle'n briodol, Cymru fel rhan o'r DU a'r byd.

276. Byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru'n gweithredu ar sail strategol fel rhan o'r Comisiwn, ac yn cynnig hunaniaeth a llais cryfach ac eglurder o ran pwrpas sy'n cwmpasu nifer o agweddau ar ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Byddai'n bwynt cyswllt pwysig â chyrrff ymchwil ac arloesi yn y DU megis UKRI, elusennau'r DU a Llywodraeth y DU.
277. Y bwriad wrth sefydlu Ymchwil ac Arloesi Cymru yw hyrwyddo'r defnydd o wybodaeth ymchwil ac arloesi drwy integreiddio'r cysylltiadau rhwng ymchwil bur ac ymchwil gymhwysol, arloesi, sgiliau ac addysg, diwydiant, busnes, cyrrff cyhoeddus ac awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid allweddol eraill.
278. Byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru'n pennu deilliannau cyflawniad strategol ac yn cyflwyno trefn monitro perfformiad ar gyfer pob rhaglen gyllido er mwyn sicrhau'r llwyddiant mwyaf, darpariaeth effeithiol a gwerth am arian. Byddai'n cydgysylltu ac yn gwella effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau eu bod yn unol â blaenoriaethau Gweinidogol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran rhaglenni ymchwil ac arloesi mwy hirdymor a buddsoddiadau cyfalaf mawr untro.
279. Byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru'n casglu data a thystiolaeth o ddarpariaeth a pherfformiad ymchwil ac arloesi Cymru ac yn ymgysylltu, lle'n briodol, â gweithgareddau tebyg a chyffredin ar lefel y DU fel y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r Fframwaith Cyfnewid Gwybodaeth newydd.

Cwmpas gweithgareddau cyllido Ymchwil ac Arloesi Cymru

280. Wrth sefydlu Ymchwil ac Arloesi Cymru fel rhan annatod o'r Comisiwn newydd arfaethedig, bydd yn bwysig i'r ddau gael hyblygrwydd gweithredol digonol er mwyn llwyddo. Ein bwriad yw y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru allu ystyried a chyllido unrhyw bosibiliadau ar draws yr holl weithgareddau a restrir ym mhob grŵp isod, ac nid rhai ohonynt yn unig. Bwriedir caniatáu i Lywodraeth Cymru gyllido gweithgareddau ymchwil ac arloesi (fel y rhestri yn y ddau grŵp isod) a chaniatáu i Ymchwil ac Arloesi Cymru wneud yr un peth, neu unrhyw gyfuniad o'r ddau, heb ragfarnu'r naill na'r llall. Golyga hyn fod uniondeb sefydliadau eraill sy'n cyllido ymchwil ac arloesi yng Nghymru, megis Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (os yw'n cael cyllid gan Lywodraeth y DU yn lle Ewrop) ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn cael ei ddiogelu. Ni fydd cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cael ei gynnwys yng nghylch gwaith Ymchwil ac Arloesi Cymru, ond bydd perthynas waith agos rhwng y ddau gorff.
281. Rydym yn cynnig y dylai cwmpas cyffredinol gweithgareddau Ymchwil ac Arloesi Cymru fod fel y nodir isod. Bydd y manylion yn amodol ar oblygiadau Adolygiad Reid a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, ac efallai y bydd y rhain i gyd yn cael eu cynnwys yn ei gylch gwaith neu rai ohonynt yn unig.
- Rheoli cyllid heb ei neilltuo ar gyfer ymchwil ac arloesi cysylltiedig ag ansawdd yn y sectorau addysg uwch, addysg bellach, awdurdodau

cyhoeddus a lleol, y GIG a'r Sefydliad Ymchwil a Thechnoleg (RTO), a diwydiant (lle ceir cydweithio â phartneriaid o addysg bellach, addysg uwch a'r Sefydliad Ymchwil a Thechnoleg o leiaf);

- Rheoli cyllid neilltuedig wedi'i dargedu ar gyfer ymchwil ac arloesi yn y sectorau addysg uwch, addysg bellach, awdurdodau cyhoeddus a lleol, y GIG a'r Sefydliad Ymchwil a Thechnoleg, a busnesau a diwydiant;
- Arloesi, ymgysylltu a chyfnewid a throsglwyddo gwybodaeth yn y sectorau addysg uwch, addysg bellach, awdurdodau cyhoeddus a lleol, y GIG a Sefydliad Ymchwil A Thechnoleg, a busnesau a diwydiant;
- Defnyddio ymchwil ac arloesi o'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach (gweithgareddau 'gwrthio' technoleg);
- Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r Fframwaith Cyfnewid Gwybodaeth;
- Cyllid 'cefnogi' ar gyfer Cronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol a'r Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang a Bargeinion Sector, h.y. cymorth ariannol fel cyfraniad cyfatebol tuag at weithgareddau a arweinir gan ddiwydiant;
- Rheoli cyllid ar gyfer Canolfannau Arloesi a strwythurau ymchwil ac arloesi tebyg (yn unol ag argymhelliad Diamond).

282. Ni fyddai cwrmpas gweithredol ymarferol gwaith Ymchwil ac Arloesi Cymru'n cynnwys y gweithgareddau a restrir isod, gan y bydd y rhain yn parhau'n gyfrifoldeb i'r darparwyr presennol. Fodd bynnag, gallant gael eu newid yn y dyfodol yn ôl yr hyn sy'n ymarferol, a byddant yn cael eu cytuno gan Weinidogion Cymru drwy'r Cynllun Gweithredu Economaidd ac elfen ymchwil ac arloesi'r Cynllun Strategol.

- Cydweithredu SMART rhwng Busnesau/Prifysgolion (lle mae'r cyllid cydweithredu yn cael ei ddarparu i'r partner busnes);
- Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Busnes SMART Cymru (lle mae'r cyllid yn cael ei ddarparu i fusnesau);
- Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth;
- Ymgysylltu rhwng busnes ac UKRI;
- Bargeinion sector;
- Datblygu a chyllido parciau technoleg fel AMRI, Parthau Menter, UK Catapults.


283. Nod y gwahaniad hwn yn y tymor byr yw cynnal y sefyllfa bresennol yn ei hanfod, lle mae cyllid CCAUC yn canolbwyntio'n bennaf ar ymchwil, arloesi ac ymgysylltu a arweinir gan addysg uwch a chyllid Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio'n bennaf ar ymchwil, arloesi ac ymgysylltu a arweinir gan ddiwydiant. Er hynny, bydd modd i'r Comisiwn newydd neu Lywodraeth Cymru barhau â'u gweithgareddau perthnasol a buddsoddi'n briodol. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, bydd y cyfrifoldebau a'r gweithgareddau cyllido yn cael eu datblygu yn unol â Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu Economaidd.

Y trefniadau strwythurol ar gyfer y Comisiwn, Ymchwil ac Arloesi Cymru a'r gymuned ymchwil ac arloesi

284. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnig strwythur gweithredol ar gyfer pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn.

285. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru fod yn bwyllgor statudol o fewn y Comisiwn, ac y dylai fod yn gyfrifol am weithredu'r blaenoriaethau a amlinellwyd ym mholisi cyffredinol Llywodraeth Cymru a ddatblygwyd drwy Ffyniant i Bawb, y Cynllun Gweithredu Economaidd a chynllun strategol y Comisiwn.

Ffigur 2. Y trefniadau strwythurol ar gyfer y Comisiwn, Ymchwil ac Arloesi Cymru a'r gymuned ymchwil ac arloesi



Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

286. Yn unol â'r cynigion a nodwyd uchod sy'n disgrifio'r fframwaith cynllunio a chyllido strategol y byddai'r Comisiwn yn gweithio oddi mewn iddo, byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i bennu'r weledigaeth a'r polisi cyffredinol ar gyfer ymchwil ac arloesi. Gallai hyn gynnwys blaenoriaethau economaidd, diwydiannol, cymdeithasol, iechyd a llesiant ac amgylcheddol, ymhlith eraill. Ein bwriad yw y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn, o fewn ei gynllun strategol

cyffredinol, bennu sut mae'n bwriadu cyflawni unrhyw flaenoriaethau cyffredinol yn ymwneud ag ymchwil ac arloesi. Wrth wneud hynny, dylai nodi'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd a'r cyllid a fydd ar gael er mwyn gwneud hyn.

287. Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw fuddsoddiadau cyfalaf unigol mawr neu raglenni cymorth refeniw sydd uwchlaw trothwy penodedig. Ar gyfer darpariaeth gyllid arferol (er enghraifft y fformiwla ar gyfer cyllido ymchwil cysylltiedig ag ansawdd) gellir cytuno ar hyn drwy'r adran ymchwil ac arloesi yng nghynllun strategol y Comisiwn. O ran y buddsoddiadau cyfalaf untro ac ad-hoc y gallai'r Comisiwn eu cynnig (ar gyfer cyfarpar mawr, er enghraifft, nad yw wedi'i gynnwys yng nghynllun strategol y Comisiwn y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru), byddai angen cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru neu bydd y buddsoddiadau'n cael eu cymeradwyo fesul achos. Ar gyfer ymrwymadau refeniw tymor canolig a hirdymor, megis y cyllid ar gyfer Canolfannau Arloesi a gynigiwyd yn Adroddiad Diamond, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno ar unrhyw ymrwymadau lefel uchel fel rhan o gynllun strategol y Comisiwn.

Rheoli'r berthynas rhwng y Comisiwn ac Ymchwil ac Arloesi Cymru

288. Bwriedir i Ymchwil ac Arloesi Cymru fod yn rhan annatod o'r Comisiwn newydd. Fodd bynnag, dylai fod gan Ymchwil ac Arloesi Cymru annibyniaeth a rhyddid digonol i weithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau yng nghynllun strategol y Comisiwn. Rydym yn cynnig bod Gweinidogion Cymru'n penodi Cadeirydd pwyllgor statudol Ymchwil ac Arloesi Cymru, ac y dylai'r Cadeirydd hefyd fod yn Is-gadeirydd y Comisiwn er mwyn sicrhau integreiddio agos rhwng gweithgareddau ymchwil ac arloesi a ariennir drwy Ymchwil ac Arloesi Cymru a chynllun strategol y Comisiwn.

Canllawiau strategol ar gyfer Ymchwil ac Arloesi Cymru

289. Wrth arfer ei swyddogaethau statudol, byddai disgwyl i'r Comisiwn (drwy Ymchwil ac Arloesi Cymru) roi ystyriaeth i ganllawiau strategol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cynghori eraill fel Cyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru, Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi, grwpiau buddiant diwydiant a busnes, ac eraill.
290. Yn ogystal, byddai'n ofynnol i Ymchwil ac Arloesi Cymru sefydlu mecanweithiau sy'n annog gweithgareddau ymchwil ac arloesi ar y cyd rhwng sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach, Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg, diwydiant, cyrrff cyhoeddus ac eraill er mwyn gwneud y gorau o'r cyfle ar gyfer addysg, sgiliau a hyfforddiant ôl-orfodol yn unol â blaenoriaethau ymchwil ac arloesi. Er enghraifft, dylai'r ffocws presennol ar led-ddargludyddion cyfansawdd arwain at sylfaen weithgynhyrchu fwy eang a fydd yn gofyn am wybodaeth a sgiliau ar bob lefel a gallu, a bydd gweithgareddau eraill y Comisiwn yn ymdrin â hyn. Dylai'r prif themâu cyllido gydnabod hyn a gofyn am ymateb priodol gan y gymuned AHO gyfan. Mewn

achosion priodol, gallai cefnogi'r agenda ehangach hon fod yn un o amodau cyllid y Llywodraeth.

Aelodaeth pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru

291. Bwriedir i bwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru gynnwys Cadeirydd a rhwng chwech a naw aelod annibynnol ychwanegol. Bydd tua thraean o'r aelodau hyn o'r sector diwydiant, traean o'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach a thraean o blith rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus).

Y berthynas rhwng Ymchwil ac Arloesi Cymru a'r gymuned ymchwil ac arloesi

292. Byddai'r berthynas rhwng Ymchwil ac Arloesi Cymru a'r gymuned ymchwil ac arloesi yn amrywio yn dibynnu ar natur y dull cyllido a natur derbynnydd y cyllid. Caiff y rhain eu hystyried isod drwy ddefnyddio dau ddull gwahanol, sef y math o gyllid sy'n cael ei roi, a natur a busnes y rheini sy'n ei dderbyn.

Dulliau cyllido

293. Wrth weithredu elfennau ymchwil ac arloesi cynllun strategol y Comisiwn, byddai'r defnydd a wneir o'r cyllid yn un o'r prif ysgogiadau. Gellir defnyddio hyn ar ffurf model cyllid 100% ar gyfer mecanweithiau cyllido neilltuedig a heb eu neilltuo ar sail thema (fel y disgrifir isod). Gallai'r Comisiwn hefyd ddarparu cyllid fel cyfraniad cyfatebol at ffynonellau eraill e.e. UKRI neu ddiwydiant. Mae'r rhaniad rhwng cyllid heb ei neilltuo ar gyfer ymchwil (ac arloesi) cysylltiedig ag ansawdd a chyllid neilltuedig ar gyfer ymchwil ac arloesi cysylltiedig â strategaeth, fel y'i disgrifiwyd yn y Papur Gwyn, wedi'i adlewyrchu isod (caiff y cynigion hyn eu cyflwyno heb ragfarnu ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Reid).
294. Mater i'r Comisiwn/Ymchwil ac Arloesi Cymru fyddai cyllido gweithgareddau ymchwil ac arloesi gan sawl gwahanol fath o ymarferydd ymchwil ac arloesi, fel y disgrifir ymhellach isod. Gallai fod amodau cyllid gwahanol ar gyfer pob math o dderbynnydd yn dibynnu i ba raddau y mae'r cyllid wedi'u neilltuo, lefel y cyllid, y Lefel Parodrwydd Technoleg (TLR) a natur y derbynnydd. Mae'r Lefel Parodrwydd Technoleg yn ffordd o amcangyfrif pa mor aeddfed yw elfennau hanfodol o raglen dechnoleg. https://en.wikipedia.org/wiki/Technology_maturity Caiff ei bennu drwy asesu pa mor barod yw'r rhaglen o ran technoleg. Mae'n ystyried cysyniadau rhaglen, gofynion o ran technoleg a gallu technolegol. Mae'r Lefel Parodrwydd Technoleg ar raddfa o 1 i 9. 9 yw'r dechnoleg fwyaf aeddfed. Rhagwelir tri dull cyllido sylfaenol ar gyfer Ymchwil ac Arloesi Cymru, fel yr amlinellir isod:
295. **Dull cyllido 1:** Cyllid heb ei neilltuo Byddai'r rheini sy'n derbyn cyllid heb ei neilltuo yn cael cyllid yn seiliedig ar ragoriaeth a pherthnasedd eu hymchwil fel y mesurir gan gymaryddion cenedlaethol (e.e. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil). Byddai cymhellion ychwanegol yn cael eu cynnig yn

seiliedig ar y cyllid a geir o ffynonellau eraill heblaw Llywodraeth Cymru e.e. UKRI. Gallai fod angen i'r sefydliadau hyn alinio ac ategu rhai rhannau o'u gweithgareddau ymchwil ac arloesi â chyrsiau, sgiliau a hyfforddiant perthnasol, a gaiff eu darparu o bosibl mewn cydweithrediad â darparwyr addysg bellach mewn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a chyfleoedd pwysig. Yn gyfnewid, byddent yn cael cyllid ar sail sy'n gymharol i'r dyraniad presennol o gyllid ymchwil cysylltiedig ag ansawdd. Fel arfer, ond nid bob tro, byddai Lefel Parodrwydd Technoleg y gweithgareddau ymchwil ac arloesi'n isel (h.y. lefel 1 i 4) ond byddai'n rhaid dangos bod rhywfaint o berthnasedd (i'w gytuno ag Ymchwil ac Arloesi Cymru) i flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu. Byddai'r lefel sylfaenol o gyllid yn hirdymor, ac yn cael ei drefnu fel arfer yn ôl amserlen y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (6 i 7 mlynedd) a'r elfen yn ymwneud â chymhelliant perfformiad yn cael ei hadolygu a'u phennu'n fwy aml (2 i 3 blynedd). Byddai'r rhan fwyaf o'r cyllid heb ei neilltuo yn cefnogi ymchwil yn yr un modd ag y mae cyllid seiliedig ar ansawdd CCAUC yn ei wneud ar hyn o bryd, ond byddai'n cynnwys cyllid arloesi ac ymgysylltu heb ei neilltuo hefyd (yn unol â Chyllid Arloesi Addysg Uwch, ac fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Diamond a'i ddatblygu ymhellach gan Adolygiad Reid).

296. **Dull cyllido 2:** Cyllid neilltuedig ar sail thema Byddai'r rheini sy'n derbyn cyllid neilltuedig ar sail thema yn cael cyllid yn ôl perthnasedd ac angen fel y diffinnir gan flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru (e.e. economaidd, diwydiannol, cymdeithasol ac amgylcheddol) a chyfleoedd a gyflwynir gan UKRI a Lywodraeth y DU. Trafododd Adolygiad Diamond y posibilrwydd o greu Canolfannau Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru, sy'n thema a ddatblygwyd yn Adolygiad Reid. Gallai cyllid ar sail thema gael ei ddarparu dros gyfnod o 3-5 mlynedd, a gellir pennu fel amod o'r cyllid hwn bod o leiaf rhywfaint o gyllid cyfatebol yn cael ei dynnu o ffynonellau eraill fel diwydiant, UKRI, elusennau etc nad ydynt yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn sefydlu'r egwyddor 'rhannu risg' lle mae'r rheini sy'n elwa ar y gweithgareddau ymchwil ac arloesi'n rhannu rhywfaint o'r gost o ymgymryd â'r gwaith hwn gyda ffynhonnell gyllid Llywodraeth Cymru (h.y. unrhyw ffynhonnell o gyllid cyhoeddus Llywodraeth Cymru a ddyfernir yn uniongyrchol gan y Llywodraeth neu'n anuniongyrchol drwy'r Comisiwn ar gyfer ymchwil ac arloesi). Er enghraifft, gallai Canolfan Ymchwil ac Arloesi yng Ngogledd Cymru ganolbwyntio ar ymchwil ac arloesi'n ymwneud â'r meysydd awyrofod, ynni niwclear ac optoelectroneg/ffotoneg, a chael cyllid cyfatebol o ddiwydiant lleol ac UKRI. Felly, byddai'n cadw at yr egwyddor 'rhannu risg' rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat.

297. Er y byddai'r cyllid neilltuedig hwn yn seiliedig ar thema, ni fyddai'r union weithgareddau i'w hariannu yn cael eu pennu e.e. gellir darparu cyllid ar gyfer 'ymchwil ac arloesi niwclear' ond heb fanylu ar ba weithgareddau o fewn y thema hon y dylid eu dilyn. Fodd bynnag, byddai rhaid i unrhyw gais am gyllid ddangos perthnasedd i anghenion y diwydiant niwclear neu i weithgareddau ymchwil ac arloesi niwclear eraill a ariennir yn gyhoeddus, er enghraifft rhaglen ymchwil niwclear Llywodraeth y DU. Byddai'r cyllid yn cael ei ddyfarnu drwy broses gystadleuol ar sail teilyngdod ar gyfer gwaith â Lefel Parodrwydd Technoleg ganolig h.y. ymchwil gymhwysol, gwaith datblygu ac

ymchwil agos at y farchnad. Gallai'r rheini sy'n derbyn y cyllid hwn gynnwys Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg annibynnol, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a'r GIG, ynghyd â sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach.

298. **Dull cyllido 3:** Cyllid neilltuedig ar gyfer prosiectau penodol Bwriedir i gyllid neilltuedig ar gyfer prosiectau penodol gael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau penodol sy'n gysylltiedig â chyfleoedd diwydiannol neu fasnachol neu gyfleoedd perthnasol eraill gyda'r nod o gyflawni amcanion penodol tymor byr. Gellir defnyddio cyllid o'r fath ar gyfer gwaith datblygu ac arloesi'n ymwneud â chynhyrchion neu wasanaethau penodol ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gallai Lefel Parodrwydd Technoleg gwaith o'r fath amrywio, ond byddai ar lefel uwch fel arfer ac yn ddarostyngedig i'r egwyddor 'rhannu risg' sy'n gymwys i lefel uwch (h.y. disgwylir cyfraniad mwy o ffynonellau eraill y tu hwnt i'r rheini sy'n uniongyrchol neu anuniongyrchol gysylltiedig â Llywodraeth Cymru). Byddai'r amserlenni ar gyfer cyllid o'r fath yn fyr, hyd at dair blynedd fel arfer.
299. Rydym yn cynnig y dylai'r cyllid hwn fod ar gael i ddiwydiant, busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau, Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch, ac eraill fel y bo'n briodol. Byddai telerau ac amodau penodol yn berthnasol i'r cyllid grant, yn debyg i'r rhaglenni cyllid presennol fel y rheini a ddarperir o dan fentrau SMART Llywodraeth Cymru neu Innovate UK. Mae'n bosibl y bydd cyllid cyfalaf ar gael gan Ymchwil ac Arloesi Cymru a byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu ar sail strategol yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y diffinnir yn y polisi cyffredinol.

Y rheini sy'n derbyn y cyllid

300. Rydym yn cynnig mai'r rheini sydd wedi'u rhestru isod, ond nid mewn unrhyw drefn benodol, a ddylai gael y cyllid yn bennaf (ond nid y rheini'n unig). Mae nifer ohonynt eisoes yn derbyn lefelau sylweddol o gyllid e.e. mae sefydliadau addysg uwch yn cael degau ar filoedd o bunnoedd o gyllid heb ei neilltuo bob blwyddyn sy'n cael ei ddosbarthu drwy fformiwla sy'n seiliedig ar berfformiad o dan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Nid yw sefydliadau eraill yn cael unrhyw gyllid yn rheolaidd, er eu bod yn ymgymryd â gweithgareddau ymchwil ac arloesi'n rheolaidd. Byddai darparu cyllid i ystod ehangach o ymarferwyr ymchwil ac arloesi yn seiliedig ar feini prawf yn hytrach na rhagoriaeth ymchwil megis 'lleoliad' (lleoliad daearyddol) yn gam mentrus. Ond byddai'n gam angenrheidiol mewn rhai achosion er mwyn cymryd agwedd mwy holistaidd ac integredig at ymchwil ac arloesi, addysg, sgiliau a hyfforddiant. Gellid defnyddio cyllid ar sail 'lleoliad' i ddenu buddsoddiad o ffynonellau eraill, megis Cronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU.
- Sefydliadau Addysg Uwch;
 - Sefydliadau Addysg Bellach;
 - Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg;
 - Awdurdodau Lleol;

- Y GIG;
- Cyrff cyhoeddus;
- Busnesau Bach a Chanolig (BaChau);
- Cwmnïau diwydiannol mawr;
- Eraill.

301. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cynnig ar hyn o bryd y dylai cyllid Ymchwil lechyd a Gofal Cymru gael ei gynnwys yng nghylch gwaith Ymchwil ac Arloesi Cymru. Serch hynny, byddai angen datblygu perthynas waith agos rhwng y Comisiwn ac Ymchwil lechyd a Gofal Cymru er mwyn sicrhau cysondeb a hyrwyddo gwerth am arian wrth fuddsoddi arian cyhoeddus.

Cwmpas y gweithgareddau i'w cyllido

302. Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd, Ffyniant i Bawb a'r Rhaglen Lywodraethu'n galw am integreiddio'r cyllid a'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi yn agosach (dwyn ynghyd cyllid ymchwil a chydweithio agosach rhwng diwydiant, ysgolion, prifysgolion, colegau a'r GIG i godi uchelgais a chynyddu'r buddsoddiad mewn ymchwil er mwyn datblygu swyddi a thechnoleg ar gyfer y dyfodol) ochr yn ochr â datblygu addysg a sgiliau.

303. Rydym yn cynnig y dylai hyn gynnwys y gweithgareddau a wneir gan CCAUC ar hyn o bryd (ymchwil cysylltiedig ag ansawdd, ymchwil ôl-raddedig, pynciau drud, etc) ac unrhyw gyllid arloesi ac ymgysylltu ychwanegol a argymhellir gan Adolygiad Diamond ac a ardystiwyd gan Adolygiad Reid. Mae hefyd yn cynnwys yr holl weithgareddau sy'n annog ymgysylltu rhwng addysg uwch ac addysg bellach a diwydiant, busnesau, sefydliadau yn y sector cyhoeddus ac endidau masnachol (busnes, diwydiant) ac i'r gwrthwyneb. Fel arfer, byddai'r rhain yn defnyddio gwybodaeth ac arloesi a arweinir gan ymchwil.

304. Yn ogystal, gellid cynnwys gweithgareddau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru, megis Sêr Cymru, yn y gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gyllidir gan Ymchwil ac Arloesi Cymru yn amodol ar ddyraniadau'r gyllideb a chymeradwyaeth y Gweinidogion.

305. Caiff llawer o'r gweithgareddau presennol yn y sector addysg uwch i feithrin gallu o ran ymchwil ac arloesi a chyfnewid gwybodaeth ei gyllido gan WEFO drwy ei raglenni ERDF ac ESF. Er y bydd y cyllid ar gyfer y rhain neu'r cynlluniau a fydd yn cymryd eu lle yn dibynnu ar negodiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r posibilrwydd o gydgyssylltu'r cyllid hwn â chyllid y Comisiwn.

Monitro perfformiad gan Ymchwil ac Arloesi Cymru

306. Rydym yn cynnig y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru fod yn gyfrifol am fonitro ac asesu perfformiad y gymuned ymchwil ac arloesi gyfan yng Nghymru o ran yr hyn y mae'n ei gyflawni, yn unol â data ar fesurau perfformiad economaidd fel GERD (Gwariant Domestig Gros ar ymchwil ac

arloesi), ei is-setiau BERD, HERD a GovERD, a mesurau priodol eraill ar lefel genedlaethol a lefel y DU megis y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r Fframwaith Cyfnewid Gwybodaeth. Hynny fel bod modd mesur effeithiau a deilliannau manwl gweithgareddau Ymchwil ac Arloesi Cymru a'u cymharu yn erbyn ystadegau a mesurau perfformiad o'r fath yn gyffredinol.

307. Yn ogystal, byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru'n gyfrifol am fonitro perfformiad o ran yr hyn a gyflawnir mewn perthynas â'i ddyfarniadau grant. Byddai'r deilliannau a'r effeithiau manwl yn dibynnu ar y dull cyllido, y rheini sy'n derbyn y cyllid, y cytundebau sydd yn eu lle rhwng y Comisiwn/Ymchwil ac Arloesi Cymru a'r rheini sy'n derbyn y cyllid, a gweithgareddau prosiect. Byddai'r prif faterion a gaiff eu hasesu yn ymwneud â phethau fel y canlynol:

- yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y bwriad, y diben a'r ysbryd cyffredinol;
- effeithiolrwydd yr hyn a gyflawnwyd;
- effeithiolrwydd o ran cost a gwerth am arian;
- targedau a mesurau manwl o ran allbwn;
- cysondeb â blaenoriaethau cenedlaethol;
- mesurau priodol eraill.

308. Byddai'r rhain wedi'u cynllunio i roi adborth ar gryfder, gallu, perthnasedd a rhagoriaeth y gymuned ymchwil ac arloesi a'i gweithgareddau, a hynny o ran y sefydliadau hynny sy'n gwneud llawer o waith ymchwil/sefydliadau addysg a'r rheini sy'n elwa ar weithgareddau o'r fath (masnachol, busnes, diwydiannol, iechyd a lles, cymdeithasol, amgylcheddol ac eraill).

309. Byddai angen mesurau a threfniadau ymgysylltu gwahanol yn unol â'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r Fframwaith Cyfnewid Gwybodaeth, a mesurau priodol eraill. Mae'r rhain yn berthnasol i'r sector addysg uwch yn bennaf, ond lle mae mesurau tebyg yn bodoli neu lle mae eu hangen ar gyfer mathau eraill o ddarparwyr ymchwil, arloesi a gweithgareddau addysgol cysylltiedig, byddant yn cael eu cymhwyso neu eu datblygu yn unol â hynny. Y nod fydd cael adborth addas ar draws yr holl sbectwm o ymchwil ac arloesi, mentrau addysg a hyfforddiant a gweithgareddau a ariennir. Byddai lefel y monitro a'r asesu yn cyfateb i'r normau presennol ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau, ond byddai'n fwy manwl lle mae perfformiad yn is na'r disgwyl neu lle mae ei angen manylder ar gyfer deilliannau neu effeithiau allweddol. Mae'n bwysig nodi nad yw'n fwriad i gyflwyno system feichus ac ymwithiol. Yn hytrach, rydym eisiau cyflwyno system lle gellir defnyddio'r canlyniadau, pa bynnag fesurau ac asesiadau a ddefnyddir, i lywio gweithgareddau a mecanweithiau ar gyfer y dyfodol gyda golwg ar wella ymddygiad, diwylliant a rhagoriaeth a dangos gwerth am arian. Mae'r sefyllfa o ran cyllid yng Nghymru ac ar draws y DU yn newid a bydd yr asesiadau a'r mesurau hyn yn cael eu cynllunio i lywio dulliau a mecanweithiau cyllido sy'n gallu addasu i'r amgylchedd newidiol hwn.

310. Byddai angen trefniadau gwahanol ar gyfer gwahanol sefydliadau fel sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg, busnesau bach a mawr, a charfannau eraill yn y sector preifat

ynghyd â rhai yn y sector cyhoeddus. Fel arfer mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus wedi arfer mwy â dyfarniadau grant neu gontractau caffael trafodiadol manwl lle nodir llawer mwy o fanylion, yn enwedig er mwyn cadw at y rheolau Cymorth Gwladwriaethol cyfredol. Fodd bynnag, er y byddai angen gwahanol lefelau o fanylder, ni fwriedir bod yn rhy feichus yn enwedig yn achos busnesau bach a chanolig, a bydd lefelau priodol o fonitro ac asesu'n cael eu mabwysiadu.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill

311. Byddai'n ofynnol i Ymchwil ac Arloesi Cymru ymgymryd â'r un math o ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ag y mae CCAUC yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddai hynny'n cynnwys ymgysylltu â Bwrdd UKRI, Research England, y Cyngorau Ymchwil, Innovate UK a chyrrff cyllido ymchwil ac arloesi'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Bydd angen iddo ymgysylltu ar bethau fel y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, y Fframwaith Cyfnewid Gwybodaeth a mesurau eraill lle bo'n berthnasol.
312. Ni fyddai disgwyl i Ymchwil ac Arloesi Cymru ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth y DU oni bai bod caniatâd penodol yn cael roi gan Lywodraeth Cymru.

Diogelu Egwyddor Haldane ac ehangu'r defnydd a wneir ohoni

313. Cydnabu yn Adolygiad Nyrsys Llywodraeth y DU fod angen cynnal system o arweinyddiaeth gref mewn meysydd ymchwil unigol a bod angen i arweinwyr maes gadw rheolaeth ar benderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllideb. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn Egwyddor Haldane sy'n datgan y dylai penderfyniadau ynghylch dyfarniadau unigol gael eu gwneud gan arbenigwyr priodol yn y maes. Fel y diffiniwyd yn wreiddiol gan Haldane, roedd hyn yn berthnasol i ymchwil yn bennaf. Ond, yn achos Ymchwil ac Arloesi Cymru, byddai'r egwyddor hon yn cael ei ehangu i weithgareddau arloesi, trosglwyddo gwybodaeth a chyfnewid gwybodaeth fel bod arbenigedd arloesi, busnes, technegol a masnachol priodol yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ynghylch gweithgareddau o'r fath a gweithgareddau perthnasol eraill. O ran penderfyniadau'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi, trosglwyddo gwybodaeth a chyfnewid gwybodaeth, a dyfarniadau diwydiannol a masnachol, byddai angen lefel briodol o arbenigedd ar Lefelau Parodrwydd Technoleg a chraffter masnachol/busnes sy'n gweddu i'r gweithgaredd a ariennir ac yn berthnasol iddo.

Cydbwysedd o ran cyllid rhwng gweithgareddau a ysgogir gan chwilfrydedd a gweithgareddau a ysgogir gan her

314. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod ymchwil a ysgogir gan chwilfrydedd yn elfen sylfaenol o gymuned ymchwil ac arloesi fywiog. Mae hefyd yn cydnabod na fydd nifer o'r heriau sy'n wynebu Cymru a'r DU yn cael eu datrys yn y tymor byr i'r tymor canolig gan ymchwil a ysgogir gan her, ond yn hytrach gan ymchwil a ysgogir gan chwilfrydedd yn unig. Felly, fel mae Llywodraeth y DU wedi dweud, mae angen cynnydd mawr mewn

gweithgareddau ymchwil ac arloesi a ysgogir gan her ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau yn nogfennau Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb' a 'Symud Cymru Ymlaen' (fel y disgrifiwyd yn gynharach). Golyga hyn y byddai'n rhaid cael cydbwysedd rhwng ymchwil a ysgogir gan chwilfrydedd ac ymchwil ac arloesi a ysgogir gan her.

315. Fodd bynnag, ym marn Llywodraeth Cymru dylai cyllid ymchwil cysylltiedig ag ansawdd heb ei neilltuo ar gyfer ymchwil a ysgogir gan chwilfrydedd barhau i fod yn elfen sylfaenol o'r cyllid a ddarperir gan Ymchwil ac Arloesi Cymru, ond efallai y bydd angen newid rhai o'r mecanweithiau ar gyfer ei ddyrannu. At hynny, byddai lefel y cyllid ymchwil cysylltiedig ag ansawdd yn unol â'r argymhellion yn Adolygiad Diamond ac a ddatblygwyd ymhellach yn Adolygiad Reid. Gallai cyllid ychwanegol ddod ar gael hefyd ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac arloesi a ysgogir gan her. Byddai'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn parhau i fod yn benderfynydd allweddol wrth ddyfarnu cyllid ymchwil cysylltiedig ag ansawdd, ond gallai ffactorau eraill gael eu cynnwys yn y mecanwaith dosbarthu megis system cymell a gwobrwyo. Mae'n bosibl y gallai mecanweithiau gael eu datblygu sy'n golygu bod eraill yn gallu manteisio ar gyllid heb ei neilltuo a chyllid ymchwil a ysgogir gan her, er enghraifft sefydliadau addysg bellach, fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Reid.

316. Byddai'r cydbwysedd rhwng cyllid ymchwil a ysgogir gan chwilfrydedd a chyllid ymchwil ac arloesi a ysgogir gan her yn cael ei adolygu gan Ymchwil ac Arloesi Cymru yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, bwriad strategol a'r cyllidebau sydd ar gael.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig cyffredinol a strwythur manwl Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn? Eglurwch pam.

A ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru gael cwmpas mor eang o ran cyllid er mwyn gallu cyllido'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd, hyd yn oed os yw ei gwmpas yn fwy cyfyng yn ei weithrediad terfynol, h.y. a ddylai gael hyblygrwydd o'r fath? Eglurwch pam.

A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn ac Ymchwil ac Arloesi Cymru, a'r berthynas â'r rheini sy'n derbyn cyllid a'r gymuned ymchwil ac arloesi? Eglurwch pam.

13. Sicrwydd ariannol a llywodraethiant

317. Er mwyn diogelu buddiannau dysgwyr a sicrhau bod gan Gymru sector AHO cynaliadwy o ansawdd uchel, cynigiwyd yn y Papur Gwyn y dylid rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant pob darparwr AHO yng Nghymru sy'n cael cyllid ganddo a/neu y mae eu cyrsiau AU perthnasol wedi'u dynodi ar gyfer cymorth myfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. I gyflawni hyn bydd angen i ni sicrhau bod gan y Comisiwn y swyddogaethau angenrheidiol i allu rheoleiddio a sicrhau rheolaeth ariannol, cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant a rheoli'r holl ddarparwyr AHO y mae'n eu goruchwyllo.
318. Ar hyn o bryd, mae'r darparwyr AHO sy'n cael cyllid uniongyrchol a/neu y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr yn ddarostyngedig i ofynion penodol mewn perthynas â sicrwydd ariannol a llywodraethiant. Mae gan Lywodraeth Cymru a CCAUC bwerau i ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Ar gyfer darparwyr addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion, mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant drwy bennu telerau ac amodau ar gyfer cyllid, contract neu grant. Yn achos addysg uwch, mae gan CCAUC swyddogaethau statudol penodol mewn perthynas â sicrwydd ariannol o dan Ddeddf 2015. Er nad oes swyddogaethau statudol penodol ar hyn o bryd mewn perthynas â sicrhau trefniadau llywodraethiant darparwyr addysg uwch, mae cod rheolaeth ariannol CCAUC yn cynnwys gofynion penodol a chanllawiau ar y materion hyn y mae'n rhaid i sefydliadau a reoleiddir gydymffurfio â nhw. Mae CCAUC hefyd yn parhau i allu pennu telerau ac amodau ar gyfer y cyllid y mae'n ei ddyrannu o dan ei bwerau yn Neddf 1992.
319. Fel y nodwyd eisoes, rydym yn cynnig y dylai'r system reoleiddio ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth drin yr awdurdod lleol fel y darparwr. Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu y byddai'r broses o sicrhau cyflwr ariannol a llywodraethiant chweched dosbarth ysgolion yn digwydd rhwng y Comisiwn arfaethedig a'r awdurdodau lleol, yn hytrach nag ysgolion unigol. Felly, dylid ystyried bod y cynigion hyn yn gweithredu o fewn y berthynas rhwng y Comisiwn a'r awdurdodau lleol yn hytrach na pherthynas uniongyrchol rhwng y Comisiwn ac ysgolion unigol. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen gwneud newidiadau i drefniadau llywodraethiant ysgolion, gan y bydd y llywodraethwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am yr ysgol gyfan, gan gynnwys y chweched dosbarth. Gwnaeth Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 sefydlu'r fframwaith y mae'r awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i ddyrannu ei gwariant ar addysg i ysgolion, gan gynnwys y chweched dosbarth. Ni fwriedir newid y trefniadau hyn.

Swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn

320. Bydd yn hanfodol i'r Comisiwn allu sicrhau bod yr holl ddarparwyr o fewn ei gylch gwaith yn cael eu rhedeg yn dda ac yn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol er mwyn diogelu'r arian cyhoeddus y maent yn ei dderbyn a chynnal enw da AHO yng Nghymru ac, yn bwysicaf oll, er mwyn diogelu buddiannau dysgwyr. Roedd consensws cyffredinol yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn y dylai'r Comisiwn allu gwneud argymhellion i'r sefydliad, a/neu i Lywodraeth Cymru, os yw sefydliad mewn perygl ariannol difrifol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o fanylion ynghylch yr amgylchiadau lle gellir cymryd cam gweithredu o'r fath. Roedd rhai'n credu mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am gamau o'r fath yn hytrach na'r Comisiwn. Y farn gyffredinol oedd y dylid diogelu buddiannau dysgwyr ond hefyd y dylai'r Comisiwn ymgynghori â sefydliadau a'u helpu i ymdrin â risgiau ariannol.

321. Rydym wedi archwilio a fyddai trosglwyddo swyddogaethau sicrwydd ariannol presennol Gweinidogion Cymru a CCAUC i'r Comisiwn arfaethedig yn cyflawni'r nod polisi dymunol. Nid ydym yn credu mai hwn yw'r opsiwn gorau oherwydd:

- ni fyddai'n arwain at ddull gweithredu sy'n cwmpasu'r sector AHO cyfan;
- byddai'n golygu bod swyddogaethau sicrwydd ariannol a llywodraethiant yn parhau i gael eu gwneud ar sail wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ddarparwyr;
- gallai trefniadau anghyson arwain at ddryswch wrth i egwyddorion, gofynion a safonau gwahanol gael eu cymhwyso i wahanol fathau o ddarparwyr, yn enwedig i'r darparwyr hynny sy'n cynnig ystod o wahanol ddarpariaeth.

322. Rydym o'r farn y byddai'n well i'r Comisiwn newydd gael pwerau statudol penodol i sicrhau rheolaeth ariannol, cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant darparwyr AHO er mwyn:

- darparu sylfaen gadarn iddo allu sicrhau rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethiant y sector AHO;
- darparu lefel o safoni ar gyfer y trefniadau gwahanol sy'n bodoli ar hyn o bryd a chyflwyno dull mwy cyson ar draws pob math o ddarparwyr (byddai pob un ohonynt yn cael eu rheoleiddio o dan yr un sail statudol ac yn unol â'r un egwyddorion eang);
- rheoleiddio ar sail y sector AHO cyfan yn hytrach na sectorau ar wahân fel sy'n digwydd ar hyn o bryd;
- rhoi mwy o eglurder i'r fframwaith sicrwydd y byddai'r sector AHO yn gweithredu oddi tano a sicrhau bod pob darparwr yn ddarostyngedig i egwyddorion a safonau tebyg.

323. I gyflawni'r uchod, rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn newydd allu:

- pennu gofynion cychwynnol a pharhaus ar gyfer rheolaeth ariannol a llywodraethiant, gan gynnwys y safonau y mae'n rhaid i ddarparwyr AHO eu bodloni er mwyn bod yn rhan o'r system AHO reoleiddiedig a chael cyllid cyhoeddus;
- monitro cydymffurfiaeth â'r amodau hyn;
- ymyrryd os nad yw darparwr yn cydymffurfio;
- darparu canllawiau.

Cwestiwn

A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi pwerau statudol penodol i'r Comisiwn newydd mewn perthynas â sicrhau rheolaeth ariannol, cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant darparwyr AHO?

324. Wrth ystyried sut y gallai swyddogaethau'r Comisiwn ar gyfer sicrhau trefniadau llywodraethiant weithio, nodwyd yr opsiynau canlynol:

- **Opsiwn 1** - Byddai'r holl sectorau AHO yn ddarostyngedig i'r un gofynion a'r un trefniadau monitro a gorfodi;
- **Opsiwn 2** - Byddai'r holl sectorau AHO yn ddarostyngedig i egwyddorion sicrwydd tebyg ond byddai darpariaeth yn cael ei wneud i ganiatáu trefniadau a gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau neu gategorïau o ddarparwyr AHO yn unol â'r trefniadau comisiynu y maent yn gweithredu oddi tanynt;
- **Opsiwn 3** - Byddai'r holl sectorau AHO yn ddarostyngedig i ofynion gwahanol.

325. Yn ein harfarniad cychwynnol o'r opsiynau uchod, daethom i'r casgliad na fyddai'n bosibl cael yr un dull gweithredu i bawb (opsiwn 1) oherwydd natur wahanol pob math o ddarparwr (cyfreithiol a chyfansoddiadol) a'r trefniadau comisiynu gwahanol sy'n berthnasol iddynt. Ystyriwyd hefyd na fyddai opsiwn 3 yn ddymunol gan y byddai'r gwahaniaethau presennol rhwng y sectorau'n parhau, byddai'n ei gwneud yn anodd cael lefel gyson o reoleiddio a sicrwydd, ac ni fyddai'n darparu un dull gweithredu ar gyfer y sector AHO cyfan.

326. Ar ôl pwyso a mesur, penderfynwyd mai opsiwn 2 fyddai'r dull a ffefrir gan y byddai'n golygu bod pob darparwr yn ddarostyngedig i egwyddorion rheoleiddio tebyg. Byddai hyn yn caniatáu i'r Comisiwn gyflawni lefel gyson o sicrwydd a chymryd i ystyriaeth gwahanol fathau o ddarparwr a'r trefniadau comisiynu gwahanol a allai fod yn berthnasol iddynt.

Cwestiwn

A ydych chi'n cytuno y dylai pob darparwr AHO fod yn ddarostyngedig i egwyddorion tebyg o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant? A ddylai'r Comisiwn allu cymhwyso trefniadau a gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau neu gategorïau o ddarparwyr AHO?

327. Rydym wedi ystyried ar ba sail y gellir gweithredu swyddogaethau sicrwydd ariannol a llywodraethiant y Comisiwn. O dan y trefniadau presennol, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch yn ddarostyngedig i'r gofynion a orfodwyd arnynt o dan god rheolaeth ariannol CCAUC, tra bod sefydliadau addysg bellach yn gorfod cydymffurfio â'r amodau a nodir ym memorandwm ariannol Llywodraeth Cymru. Yn achos dysgu seiliedig ar waith, rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r gofynion a nodir ym manyleb y rhaglen a'r contract, ac mae'r gofynion ar gyfer dysgu oedolion yn cael eu nodi yn y llythyr dyfarnu grant.

328. Rydym wedi nodi'r opsiynau canlynol:

- **Opsiwn 1** - Cadw at y sefyllfa bresennol lle byddai'r holl drefniadau cyfredol yn cael eu cario ymlaen, er enghraifft yr amodau a'r gofynion a nodir mewn contractau a llythyrau dyfarnu grant ac yn y memorandwm ariannol a'r cod rheolaeth ariannol;
- **Opsiwn 2** - Byddai'r Comisiwn yn paratoi ac yn cyhoeddi cyfres ffurfiol o ofynion ac amodau mewn ffordd debyg i'r memorandwm ariannol presennol ar gyfer addysg bellach neu'r cod rheolaeth ariannol ar gyfer addysg uwch;
- **Opsiwn 3** - Byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu dull gweithredu llai ffurfiol drwy bennu egwyddorion eang, arfer gorau a chanllawiau y mae disgwyl i sectorau AHO eu hystyried.

329. Byddai pob categori o ddarparwr yn gyfarwydd ag Opsiwn 1. Fodd bynnag, byddai trefniadau sicrwydd gwahanol yn parhau i fod ar waith a gallai hyn arwain at anawsterau o ran cyflawni lefel safonedig o sicrwydd rhwng gwahanol gategorïau o ddarparwyr ac efallai dryswch, yn enwedig i ddarparwyr addysg uwch, addysg bellach a/neu ddysgu seiliedig ar waith a fyddai felly'n ddarostyngedig i drefniadau gwahanol.

330. Byddai Opsiwn 2 yn fwy cyfarwydd i ddarparwyr addysg bellach ac addysg uwch. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen rhywfaint o hyblygrwydd wrth orfodi gofynion ar wahanol gategorïau o ddarparwyr gan gymryd i ystyriaeth y trefniadau cyllido a chomisiynu gwahanol a allai fod yn berthnasol iddynt. Yn benodol, o ran trefniadau llywodraethiant, nodwyd bod lefel o hunanreoleiddio'n bodoli ar hyn o bryd lle mae cydymffurfio â chodau llywodraethiant yn rhywbeth gwirfoddol. Felly, byddai angen ystyried y cysylltiad rhwng swyddogaethau'r Comisiwn a hunanreoleiddio. Yn ein barn ni, byddai opsiwn 2 yn darparu eglurder o ran gofynion sicrwydd ariannol a llywodraethiant y Comisiwn a gallai greu sylfaen ar gyfer rheoleiddio darparwyr AHO.

331. Credwn na fyddai opsiwn 3 yn darparu sylfaen ddigon cryf ar gyfer sicrwydd a gallai ei gwneud yn anodd i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio yn effeithiol. Byddai, fodd bynnag, yn caniatáu'r lefel o

hunanreoleiddio y cyfeirir ati uchod, tra bod y dull gweithredu a amlinellir o dan opsiwn 2 yn annhebygol o fod yn ddigonol i gynnwys hunanreoleiddio.

332. Nid ydym yn ystyried y byddai unrhyw un o'r opsiynau a nodwyd yn arwain at gynnydd sylweddol yn y baich gweinyddol ar gyfer darparwyr, gan fod pob sector eisoes yn ddarostyngedig i'r mathau hyn o ofynion a threfniadau monitro gan Lywodraeth Cymru neu CCAUC.
333. Felly, rydym yn cynnig hybrid o opsiynau 2 a 3. Byddai hyn yn galluogi'r Comisiwn i bennu a chyhoeddi gofynion cychwynnol a pharhaus ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant y byddai angen i ddarparwyr gydymffurfio â nhw. Byddai hefyd yn caniatáu i'r gofynion hyn gynnwys canllawiau a chynghor ar arfer da y byddai angen i ddarparwyr eu cymryd i ystyriaeth wrth sefydlu a gweithredu eu trefniadau ariannol a llywodraethiant.

Cwestiwn

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi'r Comisiwn arfaethedig i gyhoeddi cyfres ffurfiol o ofynion ac amodau yn ogystal â darparu canllawiau i ddarparwyr a chynghor ar arfer da?

334. Rydym wedi ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddatblygu manylion gweithredol fframwaith sicrwydd ariannol a llywodraethiant y sector AHO, a chwmpas y gwaith hwn. Rydym hefyd wedi ystyried rôl Llywodraeth Cymru ac unrhyw graffu a allai fod yn angenrheidiol cyn rhoi'r fframwaith arfaethedig ar waith.
335. O ran datblygu'r fframwaith, ystyriwyd yr opsiynau canlynol:
- **Opsiwn 1** - Byddai'r Comisiwn yn cael y swyddogaethau galluogi angenrheidiol yn unig i ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd gyda disgresiwn llawn i bennu'r manylion gweithredol;
 - **Opsiwn 2** - Yn ogystal â darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, dylid gwneud darpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer fframwaith ariannol a llywodraethiant fras a rhoi disgresiwn i'r Comisiwn ddatblygu ei ofynion o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant o fewn y fframwaith hwnnw;
 - **Opsiwn 3** - Yn ogystal â darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, dylai Gweinidogion Cymru ragnodi manylion y materion y gall neu y mae'n rhaid i'r trefniadau sicrwydd ymwneud â nhw.
336. Bydd trefniadau sicrwydd ariannol a llywodraethiant priodol ac effeithiol yn hanfodol er mwyn diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus sylweddol mewn darpariaeth AHO yn ogystal â chynnal enw da sector AHO Cymru a buddiannau dysgwyr. Felly, rydym yn ystyried y bydd yn angenrheidiol i Lywodraeth Cymru allu darparu rhywfaint o gyfarwyddyd i'r Comisiwn ar gwmpas y fframwaith sicrwydd.

337. Credwn nad yw opsiwn 1 yn cynnwys unrhyw ffordd o gadw cydbwysedd o ran cwmmpas posibl gofynion y Comisiwn o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant. I'r gwrthwyneb, byddai opsiwn 3 yn rhagnodol iawn ac efallai'n rhy gaeth i'r Comisiwn allu datblygu a gweithredu fframwaith effeithiol y gellir ei gymhwyso ar draws yr ystod lawn o ddarparwyr AHO.
338. Ar ôl pwyso a mesur, rydym o'r farn mai opsiwn 2 sy'n cynnig y dull gweithredu mwyaf priodol. Byddai'n caniatáu i fframwaith bras ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant gael ei bennu mewn deddfwriaeth. Gellid rhoi'r disgresiwn i'r Comisiwn ddatblygu ei drefniadau ei hun o fewn fframwaith o'r fath, a'r gallu i wneud trefniadau gwahanol ar gyfer gwahanol categorïau o ddarparwyr yn ôl yr hyn y mae'r Comisiwn yn ei ystyried yn briodol. Byddai'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â'r adborth a gafwyd yn y sioeau teithiol a gynhaliwyd yn yr hydref 2017, sef na ddylai'r ddeddfwriaeth fod yn rhy ragnodol ac y dylai'r Comisiwn gael annibyniaeth i ddatblygu trefniadau mewn ymgynghoriad â darparwyr. Gallai'r mathau o faterion i'w cynnwys yn y fframwaith bras gynnwys y canlynol:
- asesu trefniadau archwilio a chyfrifyddu darparwyr AHO;
 - asesu cynaliadwyedd/hyfywedd ariannol darparwyr AHO;
 - sicrhau bod gan ddarparwyr trefniadau llywodraethiant priodol a bod systemau cadarn ar gyfer rheolaeth fewnol a risg;
 - darparu gwybodaeth berthnasol i'r Comisiwn gan ddarparwyr AHO.
339. Yn ein barn ni, gallai fframwaith o'r fath weithredu'n effeithiol ar gyfer pob sector AHO gan eu bod eisoes yn ddarostyngedig i'r mathau hyn o ofynion o dan y trefniadau goruchwyllo presennol.

Cwestiwn

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, ac y dylai'r ddeddfwriaeth bennu fframwaith fras ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant a rhoi disgresiwn i'r Comisiwn ddatblygu ei ofynion o fewn y fframwaith hwn?

340. Rydym o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru allu darparu canllawiau i'r Comisiwn ar ddatblygu'r fframwaith sicrwydd ariannol a llywodraethiant a'i gwmpas. Byddai hyn yn sicrhau nad yw'r gofynion yn mynd y tu hwnt i'r cwmmpas bwriedig. Roeddem hefyd yn ystyried y byddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â darparwyr AHO a rhanddeiliaid eraill â diddordeb wrth ddatblygu ei fframwaith ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant.
341. O dan Ddeddf 2015, mae cod rheolaeth ariannol CCAUC yn ddarostyngedig i weithdrefn ffurfiol lle mae'n rhaid ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y caiff ddod i rym.
342. Rydym wedi ystyried a fyddai cymeradwyaeth o'r fath yn briodol ar gyfer gofynion ariannol a llywodraethiant y Comisiwn arfaethedig. Byddai hyn

yn caniatáu craffu ar y trefniadau a gynigir gan y Comisiwn ac yn sicrhau nad yw'r gofynion yn mynd y tu hwnt i'r cwmpas bwriedig. Fodd bynnag, mae'r broses gymeradwyo ffurfiol yn hir a gallai amharu ar allu'r Comisiwn i ymateb yn hyblyg i newidiadau y gallai fod angen eu gwneud ar frys i drefniadau sicrwydd ariannol a llywodraethiant. Yn ogystal, rydym yn ystyried y byddai gallu Gweinidogion Cymru i ddarparu canllawiau i'r Comisiwn, y fframwaith ariannol a llywodraethiant bras a ragnodir yn y ddeddfwriaeth a'r ddyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori ar ei ofynion arfaethedig, yn ddigonol i sicrhau nad yw'r gofynion yn mynd y tu hwnt i'r cwmpas bwriedig. Felly, rydym o'r farn na fyddai angen cymeradwyo gofynion y Comisiwn yn ffurfiol.

343. Wrth ddatblygu ei ofynion ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant, byddwn yn disgwyl i'r Comisiwn gymryd i ystyriaeth yr angen i ddiogelu annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd sefydliadau yn ogystal â thalu sylw i statws elusennol sefydliadau ac unrhyw effeithiau ar ddogfennau llywodraethiant.

344. Yn 2014, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu¹⁸ er mwyn rhoi rhagor o annibyniaeth i sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer swyddogaethau sicrwydd ansawdd a llywodraethiant y Comisiwn byddwn yn cadw mewn cof dosbarthiad sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch fel "sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu aelwydydd" at ddibenion cyfrifon y llywodraeth, ac yn eu cydbwyso â'r angen i ddiogelu cyllid cyhoeddus, buddiannau dysgwyr ac enw da sector AHO Cymru.

Cwestiwn

Ydych chi'n cytuno:

- y dylid rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â darparwyr AHO ac unrhyw bersonau eraill y mae eu hystyried yn briodol wrth ddatblygu ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant?
- y dylai Gweinidogion Cymru allu darparu canllawiau i'r Comisiwn ar ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ansawdd a llywodraethiant ac y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn dalu sylw i'r canllawiau hyn?
- y byddai'r gofynion uchod yn ddigonol i sicrhau nad yw trefniadau'r Comisiwn ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant yn mynd y tu hwnt i'r cwmpas bwriedig? A oes angen unrhyw fesurau diogelu eraill?

345. Rydym yn credu y byddai'r Comisiwn arfaethedig angen amrywiaeth o bwerau ategol i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant yn effeithiol. Byddai hyn yn cynnwys y gallu i wneud y canlynol:

- gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr AHO;

¹⁸ Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

- cynnal adolygiadau sicrwydd rheolaidd yn y lleoliad dan sylw;
- mynd i mewn i adeiladau a safleoedd ac edrych ar ddogfennau neu ddeunyddiau.

346. I raddau helaeth, byddai dull gweithredu o'r fath yn barhâd o'r arfer presennol, serch bod amrywiaeth o wahanol drefniadau ar gyfer gwneud y gwaith ar hyn o bryd, ac ni fyddai'n cynyddu'r faich weinyddol ar ddarparwyr yn sylweddol.

Cwestiwn

A oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon ynghylch y cynnig bod y Comisiwn yn gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr AHO, yn cynnal adolygiadau sicrwydd rheolaidd, ac yn mynd i mewn i eiddo ac edrych ar ddogfennau neu ddeunyddiau, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

347. Petai darparwyr AHO yn methu â dangos eu bod yn rheoli arian a llywodraethiant yn briodol, rhaid i'r comisiwn allu ymyrryd i gywiro methiannau o'r fath. Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o ymyriadau y gall Llywodraeth Cymru a CCAUC eu defnyddio. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaeth:

- Dysgu seiliedig ar waith - gall Llywodraeth Cymru gadw grant yn ôl, tynnu grant yn ôl neu fynnu cael ad-daliad, ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gymryd camau penodol neu, yn yr achosion mwyaf difrifol, derfynu contract;
- Dysgu oedolion - gall Llywodraeth Cymru gadw grant yn ôl, tynnu grant yn ôl neu fynnu cael ad-daliad;
- Addysg Bellach - gall Llywodraeth Cymru gadw grant yn ôl, tynnu grant yn ôl neu fynnu cael ad-daliad. Yn ogystal, caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd¹⁹ os ydynt wedi'u bodloni bod sefydliad addysg bellach yn cael ei gamreoli neu'n methu. Mae ymyriadau'n cynnwys cael gwared ar aelodau o'r corff llywodraethu neu benodi aelodau newydd, neu roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu'r sefydliad addysg bellach i ddiddymu ei hun. Mae Polisi Ymyrryd Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn amlinellu dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â phryderon difrifol a nodwyd mewn sefydliadau addysg bellach, pryd y gall fod angen ymyrryd a sut y bydd yr ymyriad hwnnw'n gweithio mewn egwyddor²⁰. Yn ogystal â'u pwerau i ymyrryd, yn ddiweddar mae darpariaeth wedi ei gwneud mewn deddfwriaeth²¹ i Weinidogion Cymru allu gwneud cais i'r Llysoedd am gael gorchymyn cyfundrefn weinyddiad arbennig ar gyfer colegau

¹⁹ Rhoddwyd y swyddogaethau ymyrryd hyn i Weinidogion Cymru o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

²⁰ Llywodraeth Cymru: Polisi Ymyrryd Addysg Bellach (Mai 2017):

<http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/further-education/intervention-policy-for-fe-institutions/?lang=cy>

²¹ Mae Deddf Addysg Dechnegol a Phellach 2017 yn gosod y prif ffiniau ar gyfer cyfundrefn gweinyddiad addysg. Bydd rhoi'r gweinyddiad ar waith yn dod o dan reoliadau sydd i gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu maes o law.

addysg bellach yng Nghymru nad ydynt yn gallu talu eu dyledion neu sy'n debygol o fethu â thalu eu dyledion;

- Addysg Uwch - mae gan CCAUC amrywiaeth o swyddogaethau gorfodi wrth law petai sefydliad a reoleiddir yn methu â chydymffurfio â'r Cod rheolaeth ariannol. Caiff CCAUC roi cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gymryd cam gweithredu penodol, rhoi hysbysiad yn gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd ac, yn achos methiannau difrifol, caiff dynnu cynllun ffioedd a mynediad presennol yn ôl. Mae'r sancsiynau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn adolygu. Yn ogystal, mae'n ofynnol i CCAUC gyhoeddi datganiad yn nodi sut yn bydd yn arfer ei swyddogaethau ymyrryd. O dan drefniadau Deddf 1992, caiff CCAUC dynnu arian yn ôl neu ei gadw yn ôl.
- Darpariaeth chweched dosbarth - ar hyn o bryd mae amrywiaeth o bwerau ymyrryd ar gael i awdurdodau lleol ac mae ysgolion yn ddarostyngedig i'r reolaeth ariannol a nodir yng Nghynllun Ariannol eu hawdurdod lleol. O dan amgylchiadau penodol, caiff awdurdodau lleol atal dros dro hawl ysgol i gael cyllideb ddirprwyedig.

348. Bydd yn bwysig bod y Comisiwn yn gallu cymryd camau priodol a chymesur mewn da bryd i ddiogelu cyllid cyhoeddus, gwarchod enw da'r sector AHO yng Nghymru ac amddiffyn buddiannau dysgwyr. I'w gwneud yn bosibl iddo gymryd camau o'r fath, rydym yn cynnig y dylid rhoi cyfres o bwerau ymyrryd i'r Comisiwn, a fydd yn caniatáu iddo gefnogi darparwyr, gosod sancsiynau a, lle bo angen, gorfodi mesurau sy'n briodol i'r amgylchiadau dan sylw er mwyn sicrhau cydymffurfedd.

Pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â sicrwydd ariannol a llywodraethiant

349. Caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd yn y ffordd y caiff sefydliad addysg bellach ei redeg os ydynt yn fodlon bod unrhyw un o'r amodau a restrir yn adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 wedi'u bodloni. Yr amodau hyn yw:

- bod gweithgarwch y sefydliad wedi'i gamweinyddu, neu'n cael ei gamweinyddu, gan ei gorff llywodraethu;
- bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd a orfodwyd arno neu sydd at ddibenion unrhyw Ddeddf neu unrhyw Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol wrth arfer unrhyw bŵer sydd wedi'i roi iddo, neu wrth ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd sydd wedi'i osod arno gan neu o dan unrhyw Ddeddf neu unrhyw Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- bod perfformiad y sefydliad gryn dipyn yn is nag y gallai fod o dan yr holl amgylchiadau y disgwylir yn rhesymol iddo berfformio oddi tanynt, neu os yw'n methu â rhoi safon dderbyniol o addysg neu hyfforddiant neu'n debygol o fethu â gwneud hynny.

350. Yn ddarostyngedig i fodloni unrhyw un neu fwy o'r amodau uchod, caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd yn y ffyrdd a ganlyn:

- cael gwared ar unrhyw un o'r llywodraethwyr, neu bob un ohonynt;
- penodi aelodau newydd i'r corff llywodraethu, os oes lleoedd gwag;
- rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sy'n ymwneud â sut y mae'n arfer ei bwerau ac yn cyflawni'i ddyletswyddau gan gynnwys, er enghraifft, gwneud trefniadau i gydweithredu ag ysgol neu sefydliad addysg bellach arall;
- rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethu gan gynnwys rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu ddiddymu ei hun.

351. Rydym yn rhagweld y byddai'r Comisiwn arfaethedig, drwy gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio, yn sylwi ac yn rhoi gwybod i Weinidogion Cymru os yw materion ariannol sefydliad addysg bellach yn cael eu camweinyddu, neu os yw perfformiad sefydliad gryn dipyn yn is nag y gallai fod o dan yr holl amgylchiadau y disgwylir yn rhesymol iddo berfformio oddi tanynt neu bod y sefydliad yn methu â rhoi safon dderbyniol o addysg neu hyfforddiant.

352. Rydym yn cynnig bod Gweinidogion Cymru'n cadw pwerau ymyrryd ym maes addysg bellach ac y dylid rhoi'r gallu i'r Comisiwn i wneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ynghylch arfer y pwerau hynny. Rydym yn ystyried y dylai'r Comisiwn hefyd allu darparu cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch camau y dylai cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach eu cymryd i wella, pan fo pryderon difrifol ynglŷn â'u ffordd o weithredu neu eu perfformiad.

353. Mae Deddf Addysg Dechnegol a Phellach 2017 yn creu system weinyddiad arbennig²² ar gyfer corfforaethau addysg bellach. Yr enw ar y system hon yw "gweinyddiad addysg" ("education administration") ac mae'r Ddeddf yn nodi prif nodweddion y system. Prif nodweddion gweinyddiad addysg yw y gellir ei defnyddio pan nad yw corfforaeth addysg bellach yn gallu talu ei dyledion, neu'n debygol o fethu â thalu ei dyledion; mae'r llys yn penodi gweinyddwr addysg ar gais Gweinidogion Cymru; mae'r gweinyddwr addysg yn rheoli popeth sydd i'w wneud â'r gorfforaeth, ei busnes a'i heiddo gyda'r bwriad o osgoi amharu ar astudiaethau'r dysgwyr presennol neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol gymaint â phosibl. Mae'r Ddeddf uchod yn defnyddio'r gweithdrefnau ansolfedd arferol gyda cholegau addysg bellach yng Nghymru sy'n gorfforaethau statudol. Drwy wneud hynny, bydd yn bosibl trin colegau ansolfent yn yr un modd â chwmnïau ansolfent. Mae'r Ddeddf yn darparu cyfyngiadau ar ddefnyddio gweithdrefnau ansolfedd arferol drwy gysylltiadau â'r weinyddiad addysg. O ran colegau addysg bellach yng Nghymru, mae'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael rhybudd y bydd y gweithdrefnau hyn yn cael eu defnyddio a'u bod felly'n gallu penderfynu p'un

²² Mae angen is-ddeddfwriaeth i roi'r gyfundrefn ansolfedd ar waith. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud y rheoliadau angenrheidiol yn San Steffan pan fydd amser yn caniatáu, ac mae'n rhagweld y bydd y ddeddfwriaeth angenrheidiol mewn grym i ganiatáu i'r system gweinyddiad addysg fod yn ei lle erbyn diwedd 2018.

<https://consult.education.gov.uk/fe-college-quality-and-resilience-team/fe-insolvency-regime/>

ai rhoi gweinyddiad addysg ar waith ai peidio. Caiff Gweinidogion Cymru wneud cais i'r llysoedd orchymyn system weinyddol arbennig ar gyfer coleg addysg bellach ansolfent yng Nghymru. Mae'r trefniant hwn yn rhoi dewis amgen i unrhyw weithdrefnau ansolfedd arferol ac mae'n creu system drefnus ar gyfer dysgwyr, credydwyr ac eraill, ynghyd ag amcan arbennig sy'n gwarchod astudiaethau dysgwyr presennol yn gyffredinol.

354. Rydym yn rhagweld y byddai'r Comisiwn arfaethedig, wrth arfer ei swyddogaethau o ran sicrwydd ariannol, yn sylwi ac yn rhoi gwybod i Weinidogion Cymru os yw coleg addysg bellach yng Nghymru yn debygol o fynd yn ansolfent. Y bwriad yw y byddai Gweinidogion Cymru'n cadw eu pŵer i gychwyn gweithdrefn gweinyddiad addysg, ar ôl ystyried y cyngor a ddarperir gan y Comisiwn.

Y Prif Reoleiddiwr Elusennol

355. Mae holl sefydliadau addysg uwch a phellach Cymru yn elusennau ac felly mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â chyfraith elusennau. Mae Deddf Elusennau 2011 yn darparu ar gyfer esemptio rhai elusennau rhag cofrestru â'r Comisiwn Elusennau. Rhaid i elusennau esempt naill ai fod â phrif reoleiddiwr neu gofrestru â'r Comisiwn Elusennau (yn yr ail achos byddent yn peidio â bod yn elusennau esempt). Rhaid i elusen esempt gydymffurfio â chyfraith elusen, ei dogfen lywodraethu ac unrhyw system reoleiddiol sy'n berthnasol i'r maes y mae'n gweithredu ynddo.
356. Dyletswydd pennaf prif reoleiddiwr yw hybu cydymffurfedd yr elusennau a reoleiddir ganddynt â chyfraith elusennol²³. Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r pŵer i benodi prif reoleiddiwr²⁴. Mae prif reoleiddiwr yn tueddu i reoleiddio'r elusen dan sylw at ddibenion eraill ac nid oes ganddo unrhyw bŵer i orfodi cyfraith elusennau. Y Comisiwn Elusennau sy'n cynnal gweithgarwch rheoleiddiol, ond cyn cychwyn ar y dyletswyddau hynny, rhaid iddo ymgysylltu â phrif reoleiddiwr yr elusen. Yn benodol, ni chaiff y Comisiwn Elusennau agor ymchwiliad statudol oni bai bod y prif reoleiddiwr perthnasol yn gofyn iddo wneud hynny.
357. Mae corfforaethau addysg bellach a'r elusennau sydd ynghlwm â nhw yn elusennau esempt²⁵ o dan Ddeddf Elusennau 2011. Gweinidogion Cymru yw prif reoleiddiwr corfforaethau addysg bellach Cymru (a Choleg Catholig Dewi Sant) yn ogystal ag ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Os gwneir cwyn am elusen esempt sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfraith elusen, fel ei brif reoleiddiwr bydd Gweinidogion Cymru'n atgyfeirio'r mater at y Comisiwn Elusennau. Bydd y Comisiwn Elusennau yn ymrwymo i femorandwm cydddealltwriaeth gyda phob prif reoleiddiwr²⁶.

²³ Adran 26 o Ddeddf Elusennau 2011.

²⁴ Adran 25 o Ddeddf Elusennau 2011 (fel y'i diwygiwyd).

²⁵ Deddf Elusennau 2011 paragraffau 7 a 28 o Atodlen 3.

²⁶ Mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach, gweler:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/further-education/principal-regulator/?lang=cy>

358. Mae'r cynnig i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio sefydliadau addysg bellach yng Nghymru oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Comisiwn yn codi cwestiwn a ddylai Gweinidogion Cymru barhau i weithredu fel y prif rheoleiddiwr ar gyfer corfforaethau addysg bellach yng Nghymru. Byddem yn croesawu sylwadau'r rhanddeiliaid ar y mater hwn.
359. Mae'r sefyllfa o ran sefydliadau addysg uwch yn dra gwahanol. Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn elusennau cofrestredig. Nid ydym o'r farn y dylai'r trefniadau hyn newid, ond byddem yn croesawu sylwadau'r rhanddeiliaid ar y mater hwn.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn amrywiaeth o bwerau ymyrryd er mwyn ymdrin â methiant i gydymffurfio â gofynion sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu pwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac y dylid galluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch arfer y pwerau hynny?

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo rôl Prif Reoleiddiwr Elusennau ar gyfer sefydliadau addysg bellach i'r Comisiwn arfaethedig? Beth yw eich barn ynglŷn â'r cynnig i gadw'r gofyniad presennol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gofrestru â'r Comisiwn Elusennau?

14. Llywodraethiant Addysg Uwch

360. Mae addysg uwch yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru. Mae'n hollbwysig sicrhau bod ein prifysgolion yn cael eu rheoli'n dda, nid yn unig i ddiogelu buddiannau myfyrwyr a threthdalwyr, ond i gynnal a hyrwyddo enw da addysg uwch Cymru ar lwyfan byd-eang.
361. Ar hyn o bryd, mae naw sefydliad addysg uwch yng Nghymru (gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru). Sefydlwyd chwech ohonynt drwy Siarter Frenhinol ac mae tri yn Gorfforaethau Addysg Uwch. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae addysg uwch yng Nghymru wedi gweld newidiadau sylweddol o ran strwythur, cyllid a'r system reoleiddio. Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi bod yn destun ad-drefnu sylweddol gyda'r bwriad o sefydlu nifer llai o sefydliadau addysg bellach sy'n fwy o faint, gan wella cynaliadwyedd y sector a'i drywydd strategol. Mae'r rhaglen ad-drefnu hon, a lywiwyd gan adroddiad 2012 CCAUC, *Strwythur Prifysgolion yng Nghymru yn y Dyfodol*, wedi arwain at uno nifer o sefydliadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru.
362. Ers 2012/13, mae newid sylweddol wedi digwydd hefyd o ran cyllid cyhoeddus a rheoleiddio ym maes addysg uwch yng Nghymru. Mae cyllid a ddarparwyd i sefydliadau gan CCAUC drwy grantiau rheolaidd yn y gorffennol yn cael ei ailgyfeirio'n fwyfwy drwy drefniadau ar gyfer cefnogi myfyrwyr. Arweiniodd y newid hwn at gyflwyno fframwaith rheoleiddio diwygiedig o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') nad oedd yn dibynnu'n unig ar y telerau a'r amodau sydd ynghlwm â chyllid grant.
363. Ar hyn o bryd, mae llywodraethiant addysg uwch yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar fframwaith deddfwriaethol a bennwyd gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992. Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau llywodraethu sy'n gymwys i gorfforaethau addysg uwch yng Nghymru, ac mae Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â rhoi pwerau i ddyfarnu graddau a theitl prifysgol. Cyn i Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 ddod i rym, roedd hyn yn darparu fframwaith ar y cyd i Gymru a Lloegr. Ond bydd y diwygiadau a gyflwynir o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn dod â'r dull hwn o weithredu ar y cyd i ben ac yn peri newidiadau sylweddol i'r trefniadau deddfwriaethol ar gyfer sefydliadau addysg uwch ac i'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi pwerau i ddyfarnu graddau a theitl prifysgol yn Lloegr. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod y diwygiadau hyn yng nghyd-destun agor y farchnad addysg uwch i gystadleuaeth, gan symleiddio a thalfyrnu'r broses o gael mynediad i'r sector ar gyfer darparwyr newydd, a chreu rhagor o degwch rhwng sefydliadau a gafodd eu sefydlu o dan drefniadau cyfansoddiadol gwahanol.
364. Yn yr Alban, darperir y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraethu addysg uwch gan ddeddfau prifysgolion yr Alban 1858, 1889, 1922, 1932 a 1966, Deddf Addysg Bellach ac Uwch (yr Alban) 1992 a Deddf Llywodraethu Addysg Uwch (yr Alban) 2016 ("Deddf 2016"). Mae Deddf 2016 yn gwneud

darpariaeth ynghylch aelodaeth cyrff llywodraethu sefydliadau addysg uwch a phenodiadau iddynt, a hefyd ar gyfer aelodaeth y byrddau academiaidd. Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch (yr Alban) 1992 yn gwneud darpariaeth i'r Cyfrin Gyngor allu rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitlau prifysgol i sefydliadau yn yr Alban. Mae ceisiadau am bwerau dyfarnu grantiau a theitl prifysgol yn cael eu hasesu yn ôl meini prawf a gyhoeddir. Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch (yr Alban) 1992 hefyd yn caniatáu i'r Cyfrin Gyngor wneud darpariaeth drwy Orchymyn mewn perthynas ag aelodaeth a swyddogaethau cyrff llywodraethu sefydliadau addysg uwch sy'n cael eu "dynodi" o dan y Ddeddf honno. Ochr yn ochr â'r trefniadau statudol hyn, mae Cyngor Cyllido'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio ag egwyddorion llywodraethiant da fel amod cael grant o gyllid cyhoeddus.

365. O ganlyniad i'r newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd yng Nghymru a ledled y DU ers creu'r fframwaith deddfwriaethol presennol, gofynnodd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ym mis Mehefin 2017 am sylwadau cychwynnol ynghylch a oedd angen newid y trefniadau presennol ar gyfer llywodraethu addysg bellach yng Nghymru mewn unrhyw ffordd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'w diben. Yn benodol, gofynnwyd am sylwadau ar sut y gellid moderneiddio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chorfforaethau addysg uwch yng Nghymru er mwyn eu gwneud yn gyfartal â darparwyr addysg uwch eraill, a gafodd eu hymgorffori o dan drefniadau cyfansoddiadol gwahanol. Gofynnwyd hefyd a oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru, o ystyried y newidiadau a wnaed mewn rhannau eraill o'r DU.

Y Fframwaith Deddfwriaethol ar gyfer Corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru

Diwygio dogfennau llywodraethiant

366. Mae sefydliadau addysg uwch yn cael eu rhedeg yn unol â'u dogfennau llywodraethiant. Y siarter a statudau yw'r rhain ar gyfer cyrff siartredig. O ran corfforaethau addysg uwch a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Diwygio Addysg 1988, nodir eu trefniadau llywodraethu yn eu hofferyn ac erthyglau llywodraethu. O dan y trefniadau presennol, rhaid i'r Cyfrin Gyngor gymeradwyo diwygiadau i siarteri, statudau ac erthyglau llywodraethu.
367. Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol a chyfansoddiadol sy'n gymwys i gorfforaethau addysg uwch yng Nghymru. Ymhlith materion eraill, mae hyn yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â cynnwys eu dogfennau llywodraethiant a'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer diwygio'r dogfennau hynny.
368. O dan adran 124A o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, rhaid i gorfforaethau addysg uwch yng Nghymru a sefydlwyd ar ôl 6 Mai 1992 fod wedi rhoi offeryn llywodraethu ar waith sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad y sefydliad. Mae'r offeryn llywodraethu hwn ar gyfer corfforaethau addysg uwch yng Nghymru yn cael ei wneud a'i addasu drwy orchymyn y Cyfrin Gyngor ac

mae'n rhaid iddo gydymffurfio â gofynion Atodlen 7A o Ddeddf 1988. Mae'r Atodlen yn rhagnodi gofynion yn ymwneud ag aelodaeth y gorfforaeth, nifer yr aelodau a phenodi aelodau i'r corff llywodraethu. Rhaid i gorfforaethau addysg uwch a sefydlwyd cyn 6 Mai 1992 fodloni gofynion Atodlen 7 o Ddeddf 1988 hyd nes y bydd offeryn llywodraethu yn cael ei ragnodi gan y Cyfrin Gyngor o dan adran 12A.

369. Mae adran 125 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i gorfforaeth addysg uwch feddu ar erthyglau llywodraethu sy'n ymwneud ag ymddygiad y sefydliad. Mae adran 125 yn rhagnodi yr hyn y mae'n rhaid i erthyglau llywodraethu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru ei gynnwys. Yn fras, mae'r erthyglau'n penderfynu ar y modd y rhennir swyddogaethau rhwng y bwrdd llywodraethwyr, y Pennaeth, a'r Bwrdd Academaidd. Maent hefyd yn rheoleiddio cyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgorau'r gorfforaeth. Gallant hefyd wneud darpariaeth ar gyfer awdurdodi'r bwrdd llywodraethu i wneud rheolau neu ddeddfau lleol ynghylch llywodraethiant y sefydliad a'i ymddygiad.
370. Mae Adran 125 hefyd yn nodi'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer paratoi'r erthyglau cychwynnol gan y gorfforaeth addysg uwch a'u cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor. Gall y gorfforaeth addysg uwch ddiwygio'i erthyglau gyda chymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor.
371. Nid yw prifysgolion a sefydlwyd o dan Siarter Frenhinol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Diwygio Addysg 1988, ac felly mae ganddynt fwy o ryddid i ddiwygio eu dogfennau llywodraethu na chorfforaethau addysg uwch a ymgorfforwyd o dan Deddf Diwygio Addysg 1988, gan nad yw'r gofynion statudol yn gymwys. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod diwygiadau i'w siarteri a statudau yn amodol ar eu cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor mewn ffordd debyg i newidiadau i offerynnau ac erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch. Fel rhan o'r trefniadau gweithdrefnol presennol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch a sefydliadau siartredig yng Nghymru, mae'r Cyfrin Gyngor yn gofyn cyngor Llywodraeth Cymru a Phrif Weinidog Cymru, yn ei swyddogaeth fel y Cyfrin Gynghorydd arweiniol ar faterion yn ymwneud ag addysg uwch yng Nghymru, cyn cymeradwyo unrhyw ddiwygiad arfaethedig.

Dadreoleiddio ac ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Elusennau

372. Yn 2006, ysgrifennodd Gweinidogion Cymru at yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru²⁷ ynghylch dadreoleiddio eu trefniadau llywodraethu a rhoi cyfle iddynt ystyried diwygio eu dogfennau llywodraethu er mwyn dileu'r gofyniad am gymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor ar gyfer rhai materion. Ar yr un pryd, roedd y llythyr yn cydnabod bod budd sylweddol i'r cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch ac roedd yn cynnwys rhestr o'r materion hynny y dylid eu cadw o dan oruchwyliaeth a rheolaeth y Cyfrin Gyngor. Rhestrir y rhain isod. Roedd y dull gweithredu hwn

²⁷ "Deregulating Higher Education Institutions' governance arrangements" a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2006

yn dibynnu ar aildosbarthu darpariaethau ymhlith dogfennau llywodraethu sefydliadau fel mai diwygiadau i rai materion yn unig, y bernid eu bod yn fudd i'r cyhoedd, oedd angen cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor. Gellid aildosbarthu darpariaethau eraill i ddogfennau llywodraethu ar lefel is, er mwyn i sefydliad allu newid y rhain heb eu hatgyfeirio at y Cyfrin Gyngor.

Y prif egwyddorion o ran budd y cyhoedd a ddylai aros o dan reolaeth y Cyfrin Gyngor:

- Pwerau i ddyfarnu graddau, teitl prifysgol, pwerau a gwrthrychau – sydd wedi'u cynnwys mewn Siarteri yn y bôn.
- Swyddogaethau, cyfrifoldebau a phwerau cyffredinol y Corff Llywodraethu;
- Dirprwyo pwerau'r Corff Llywodraethu;
- Aelodaeth y Corff Llywodraethu a chyfnodau gwasanaethu'r aelodau;
- Cworwm ar gyfer cynnal busnes Corff Llywodraethu;
- Pwerau cyffredinol y Llys a'r Senedd (gan sicrhau eu bod yn is-gyrff i'r Corff Llywodraethu);
- Archwilwyr a'r pwyllgor archwilio;
- Darpariaethau ar gyfer rhyddid academiaidd;
- Y dull o ddiwygio prif ddogfennau llywodraethu;
- Blynyddoedd prifysgol;
- Undebau myfyrwyr;
- Y Statud Model;

373. Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd wedi ystyried materion yn ymwneud â llywodraethiant addysg uwch fel rhan o'i brosiect *Charity Law: Selected Issues*. Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith bapur ymgynghori ar *Technical Issues in Charity Law*²⁸ a oedd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â sut mae sefydliadau addysg uwch ac elusennau yn diwygio eu dogfennau llywodraethu. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith ym mis Medi 2017²⁹ a gwnaeth argymhellion penodol mewn cysylltiad â diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cefnogi ymestyn dull aildosbarthu 2006 a

²⁸ https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2015/06/cp220_charities_technical.pdf

²⁹ https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2017/09/6.3781_LC_HC304_Technical-Issues-in-Charity-Law_FINAL_080917_WEB.pdf

ddisgrifiwyd uchod ac mae'n cynnwys yr argymhellion canlynol sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu addysg uwch yng Nghymru:

I hwyluso diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac ailddosbarthu darpariaethau ynddynt, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno'r mesurau a ganlyn:

- (1) cyhoeddi canllawiau ar y broses ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu;
- (2) cyhoeddi canllawiau (naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gorff cyhoeddus arall), yn dilyn ymgynghori â'r sector, sy'n nodi'r materion budd y cyhoedd yn nogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch y bydd unrhyw ddiwygiadau iddynt yn parhau i gael eu goruchwyllo; a
- (3) dileu'r gofynion yn Neddf Diwygio Addysg 1988 ynghylch cynnwys dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch, fel bod y cyrff hynny'n gallu ailddosbarthu darpariaethau yn unol â'r canllawiau ar faterion budd y cyhoedd.

Yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

374. Yn ein ymgynghoriad cychwynol ym mis Mehefin 2017, gofynnwyd a ddylid dileu rhagnodion presennol ar ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch ac a ddylid dileu'r gofyniad am gymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor ar gyfer rhai mathau o ddiwygiadau i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch.
375. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad o'r farn bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda ac yn darparu fframwaith cadarn o ran y gwaith o oruchwyllo a diwygio dogfennau llywodraethu. Roedd rhai'n cwestiynu a oedd angen gwneud newidiadau mawr i'r trefniadau ar hyn o bryd neu a oedd hi'n briodol gwneud hynny, o ystyried y gwaith diwygio ehangach sy'n digwydd yng Nghymru a ledled y DU. Roedd cefnogaeth i'r syniad o gadw'r swyddogaethau goruchwyllo a chraffu ar gyfer rhai mathau o ddiwygiadau, yn enwedig y rheini yr ystyriwyd eu bod yn faterion sydd o bwys i'r cyhoedd. Roedd llawer o'r farn y dylai'r Cyfrin Gyngor barhau i gyflawni'r rôl hwn oherwydd bod ganddo wybodaeth a phrofiad eang mewn perthynas ag addysg uwch ac mae'n darparu goruchwyliaeth gadarn ac annibynnol ar gyfer diwygiadau. Roedd rhai'n dadlau y dylai'r Comisiwn gael rôl yn y broses hefyd.
376. O ran y rhagnodion presennol ar ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch, roedd nifer o randdeiliaid yn dadlau o blaid eu dileu, gan dynnu sylw at yr angen am gamau gweithredu cyffelyb ar draws pob sefydliad waeth pa drefniadau cyfansoddiadol y maent yn gweithredu oddi tanynt. Byddai dileu'r rhagnodion hyn yn rhoi hyblygrwydd tebyg i gorfforaethau addysg uwch ddiwygio'u dogfennau llywodraethu ag sydd gan sefydliadau siartredig. Roedd rhanddeiliaid eraill yn teimlo y dylid cadw'r

rhagnodion presennol oherwydd eu bod yn darparu lefel o atebolrwydd ar gyfer trefniadau llywodraethiant sefydliadau addysg uwch.

Cynigion

377. Mewn egwyddor, mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r syniad o symleiddio'r broses y mae sefydliadau addysg uwch yn ei dilyn i ddiwygio eu dogfennau llywodraethu. Fodd bynnag, wrth ystyried sut y gellid cyflawni hyn mae'n bwysig cydnabod sefyllfa unigryw sefydliadau addysg uwch. Maent nid yn unig yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru, ond hefyd yn derbyn buddsoddiad cyhoeddus sylweddol, naill ai'n uniongyrchol drwy grantiau neu'n anuniongyrchol drwy gefnogaeth i fyfyrwyr. Oherwydd hyn, mae eu trefniadau llywodraethu o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y sector addysg uwch yng Nghymru wedi gweld newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys uno nifer o sefydliadau.
378. Rydym o'r farn bod angen amser i'r newidiadau sy'n deillio o'r uno diweddar sefydlogi ac i ddiwygiadau AHO ehangach gael eu cwblhau cyn ystyried unrhyw newidiadau sylfaenol i'r system. O ganlyniad, nid ydym yn credu ei bod yn briodol cwtogi'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar drefniadau llywodraethiant mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar yr adeg hwn. Yn hytrach, rydym yn cefnogi'r dull gweithredu cyffredinol a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad diweddar fel ffordd addas ymlaen. Rydym o'r farn y bydd dull gweithredu o'r fath yn creu mwy o gysondeb ar draws pob math o sefydliadau ac ar yr un pryd yn darparu lefel briodol o atebolrwydd sy'n adlewyrchu diddordeb sylweddol y cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethiant sefydliadau addysg uwch.
379. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, rydym o'r farn y dylai'r Cyfrin Gyngor barhau i oruchwylio a chraffu ar y diwygiadau hynny i ddogfennau llywodraethu sy'n cael eu hystyried i fod o bwys i'r cyhoedd. Mae angen hyn er mwyn gwarchod buddiannau myfyrwyr ac enw da'r sector yng Nghymru. Mae gan y Cyfrin Gyngor arbenigedd, gwybodaeth a phrofiad helaeth o addysg uwch ac mae'n gallu darparu goruchwyliaeth gadarn ac effeithiol o ran trefniadau llywodraethiant sefydliadau addysg uwch ac unrhyw gynigion i ddiwygio eu dogfennau llywodraethu. O ganlyniad, nid ydym yn credu y byddai'n ddoeth trosglwyddo'r swyddogaeth hon oddi wrth y Cyfrin Gyngor ar hyn o bryd.
380. Fodd bynnag, rydym yn meddwl bod lle i'r Comisiwn gymryd rhan yn y broses o ystyried diwygiadau i ddogfennau llywodraethu. Byddai hyn yn cynnwys asesu cydymffurfedd ceisiadau yng nghyd-destun budd y cyhoedd a chydag egwyddorion ehangach llywodraethiant da, a byddai hefyd yn cynnwys gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Rydym yn credu y byddai hyn yn gydnaws â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas â sicrhau trefniadau llywodraethiant sefydliadol ar draws darparwyr AHO. Petai trefniant felly yn cael ei gyflwyno, dylid nodi y byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i fod â rôl mewn darparu cyngor i Brif Weinidog Cymru fel y Cyfrin

Gynghorydd arweiniol ar gyfer materion yn ymwneud ag addysg uwch yng Nghymru³⁰.

381. O ran y diwygiadau hynny i ddogfennau llywodraethu y bydd y Cyfrin Gyngor yn craffu arnynt ac yn eu cymeradwyo, rydym yn cynnig y dylid adeiladu ar y dull gweithredu a nodwyd yn llythyr Prif Weinidog Cymru i'r sefydliadau addysg uwch yn 2006 a'i ymestyn i'r holl sefydliadau. Bydd hyn yn rhoi rhyddid i sefydliadu ystyried aildosbarthu darpariaethau rhwng eu dogfennau llywodraethu fel mai'r materion hynny y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd yn unig y byddai'r Cyfrin Gyngor yn parhau i'w goruchwyllo a chraffu arnynt.
382. I gefnogi'r dull gweithredu hwn, rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu a bod y Comisiwn yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y materion budd y cyhoedd y bydd y Cyfrin Gyngor yn parhau i'w goruchwyllo a chraffu arnynt. Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, credwn y dylai'r Comisiwn adolygu'r rhestr yn llythyr 2006 o faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd a'i ddiwygio lle bod angen er mwyn sicrhau ei bod yn gyfoes. Dylai'r Comisiwn gynnal yr adolygiad hwn a chyhoeddi canllawiau wedi ymgynghori â rhanddeiliaid. Hefyd, rydym yn cynnig y dylid rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gyfer y Comisiwn mewn perthynas â'r materion o fudd i'r cyhoedd y dylid parhau i'w goruchwyllo.
383. Rydym yn cydnabod y bydd angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i ddileu'r gofynion statudol sy'n cymwys i gorfforaethau addysg uwch ar hyn o bryd, er mwyn ymestyn y dull gweithredu hwn ar draws y sector. Felly, rydym yn cynnig dileu'r gofynion yn Neddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud â chynnwys dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch, er mwyn galluogi'r cyrff hynny i aildosbarthu darpariaethau yn unol â'r canllawiau ar faterion o fudd i'r cyhoedd y cyfeiriwyd atynt uchod mewn modd tebyg i brifysgolion a sefydlwyd o dan drefniadau cyfansoddiadol gwahanol, gan sicrhau bod dulliau gweithredu cyffelyb yn cael eu defnyddio.
384. Credwn y bydd ymlynu at y materion sydd o fudd i'r cyhoedd a threfniadau ehangach y Comisiwn i sicrhau llywodraethiant sefydliadol, yn darparu lefel briodol o atebolrwydd a chraffu yn absenoldeb gofynion statudol ar gyfer dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn darparu mwy o hyblygrwydd i gorfforaethau addysg uwch ddiwygio eu dogfennau yn unol â'r materion budd y cyhoedd, a bydd yn helpu i greu cystadleuaeth deg rhwng y corfforaethau a phrifysgolion siartredig. Yn ogystal, byddai'n fwy cydnaws â'r trefniadau ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, sydd â mwy o hyblygrwydd i ddiwygio eu dogfennau llywodraethu heb gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru cyn belled â'u bod yn bodloni'r gofynion penodol a nodir yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992..

³⁰ Mae'r diagram ar ddiwedd y bennod hon yn cymharu'r trefniadau gweithdrefnol presennol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu'r sefydliadau addysg uwch â'r opsiynau arfaethedig a nodir yn y bennod hon ar gyfer dull gweithredu diwygiedig.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyfrin Gyngor barhau i oruchwylio a chymeradwyo'r diwygiadau hynny i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd?

A ydych chi'n ystyried bod y cynnig i ymestyn dull ailddosbarthu 2006 yn briodol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch? Os na, pam?

A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofynion statudol presennol sy'n gymwys i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch er mwyn gallu ymestyn y dull gweithredu arfaethedig i bob sefydliad addysg uwch?

A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried diwygiadau i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch?

Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig, a ydych chi'n cytuno â'r canlynol:

- a) dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar y weithdrefn ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu
- b) dylai'r Comisiwn adolygu rhestr 2006 o faterion budd y cyhoedd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyhoeddi canllawiau ynghylch y materion hynny y bydd y Cyfrin Gyngor yn parhau i'w goruchwylio a'u cymeradwyo
- c) dylid galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau i'r Comisiwn o ran y materion budd y cyhoedd y dylid parhau i graffu arnynt a'u goruchwylio

A ydych chi'n credu y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn diogelu budd y cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru?

Pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru

385. O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer corfforaethau addysg uwch yng Nghymru, mae adran 128 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiddymu unrhyw gorfforaeth addysg uwch yng Nghymru p'un a gychwynnwyd y broses gan y sefydliad ei hun ai peidio. Nid yw Deddf 1988 yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r pŵer hwn ac eithrio ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori'n â'r sefydliad a CCAUC yn gyntaf. Drwy arfer eu pwerau o dan adran 128, mae Gweinidogion Cymru'n gallu diddymu corfforaeth addysg uwch a throsglwyddo ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau i unrhyw un o blith nifer o gyrff rhagnodedig, gan gynnwys corff addysgol arall, cyngor cyllido addysg uwch neu Weinidogion Cymru eu hunain. Nid oes pwerau cyffelyb gan Weinidogion Cymru i ddiddymu prifysgol yng Nghymru a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol.

386. Ar hyn o bryd, mae darpariaethau adran 128 yn gymwys i gorfforaethau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, cyn gynted ag y daw darpariaethau Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 Llywodraeth y DU) i rym byddant yn diwygio'r ddarpariaeth hon i'r graddau y mae'n gymwys i sefydliadau yn Lloegr, ac yn cyflwyno darpariaeth newydd sy'n dileu pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yn Lloegr os nad yw'r broses wedi'i chychwyn gan y Gorfforaeth ei hun.

Ymgynghoriad y Papur Gwyn

387. Yn ein ymgynghoriad cychwynnol, gofynnwyd p'un a ddylai pŵer presennol Gweinidogion Cymru i ddileu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru gael ei gadw neu ei ddileu. Roedd gwahaniaeth barn ymhlith y rhanddeiliaid. Roedd rhai'n dadlau y dylid dileu pwerau presennol Gweinidogion Cymru gan y byddai hyn yn darparu cyfwerthedd a thegwch rhwng corfforaethau addysg uwch yng Nghymru a rhai mewn rhannau eraill o'r DU, a rhwng corfforaethau addysg uwch a phrifysgolion a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol. Roedd eraill o'r farn y dylid cadw'r pwerau gan eu bod yn ddefnyddiol o ran hwyluso uno sefydliadau neu'n darparu sancsiwn olaf un pŵerus a oedd yn angenrheidiol i ddiogelu buddiant myfyrwyr mewn achosion lle roedd sefydliadau'n methu neu mewn achosion difrifol o gamweinyddu. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn nodi unrhyw gymhwyster ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, ac roeddent yn dadlau y dylid eu dileu neu eu haddasu er mwyn ei gwneud yn glir ym mha amgylchiadau y gellir eu harfer. Roedd rhai o'r farn bod sancsiynau rheoleiddiol eraill, fel y rheini sydd ar gael o dan Ddeddf 2015, yn darparu pwerau ymyrryd sydd yr un mor sylweddol ac y gellid eu defnyddio fel dull amgen i fynd i'r afael â phryderon difrifol ynghylch ansawdd neu lywodraethiant.

388. Rhestrir isod nifer o opsiynau posibl sy'n deillio o'r sylwadau hyn.

Opsiynau i'w hystyried

389. **Opsiwn 1 – Cadw at y sefyllfa bresennol:** Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod darpariaethau presennol Deddf Diwygio Addysg 1988 yn aros fel y maent ar hyn o bryd.
390. **Opsiwn 2 – Y model addysg bellach:** Gwnaeth Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 ddarpariaeth mewn perthynas â diddymu corfforaethau addysg bellach yng Nghymru. Effaith y ddarpariaeth hon oedd dileu pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaethau addysg bellach a throsglwyddo eu heiddo, eu hawliau a'u rhwymedigaethau i ddarparwr addysg arall, a chyflwyno pŵer newydd yn ei le sy'n galluogi corfforaethau addysg bellach i benderfynu diddymu eu hunain.
391. Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, darparodd Deddf 2014 bwerau ymyrryd diwygiedig i Weinidogion Cymru fel eu bod yn gallu cyfarwyddo'r corff llywodraethu i ddefnyddio ei bwerau newydd i benderfynu diddymu ei hun os yw Gweinidogion Cymru'n fodlon bod y sefydliad addysg bellach yn

cael ei gamweinyddu neu'n methu fel arall. Mae'n ofynnol i sefydliadau ufuddhau i gyfarwyddyd o'r fath. Bwriad cam gweithredu o'r fath fyddai i'r sefydliad uno'n ffurfiol ag un arall neu, os nad yw hynny'n bosibl, dychwelyd i fod o dan reolaeth cyhoeddus hyd nes bod partner uno wedi'i sefydlu. Mae polisi ymyrryd addysg bellach Llywodraeth Cymru yn nodi mai fel "cam olaf un" yn unig y byddai'r math hwn o ymyriad yn cael ei ddefnyddio, a hynny ar ôl proses hir o gefnogi a thrafod â'r sefydliad³¹.

392. Byddai'r opsiwn hwn yn ystyried sefydlu model tebyg ar gyfer corfforaethau addysg uwch a ymgorfforwyd o dan Ddeddf 1988.
393. **Opsiwn 3 - Model Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017** Byddai'r opsiwn hwn yn ystyried cyflwyno diwygiadau tebyg i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 i'r rhai a wnaed, neu sydd i'w gwneud yn Lloegr o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Fel y nodwyd uchod, bydd Deddf 2017 yn dileu pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yn Lloegr os nad yw'r broses yn cael ei chychwyn gan y gorfforaeth ei hun.
394. **Opsiwn 4 - Diwygio Deddf Diwygio Addysg 1988 i nodi'r amgylchiadau lle caniateir arfer pwerau diddymu:** I bob diben, byddai'r opsiwn hwn yn cadw pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru ond byddai'n diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i nodi'r amgylchiadau lle gellid arfer y pwerau. Gallai'r rhain gynnwys diddymu fel dull o hwyluso uno sefydliadau neu fel sancsiwn olaf un er mwyn mynd i'r afael â methiannau sefydliadol neu gamweinyddu. O dan yr opsiwn hwn byddai angen ystyried yr amgylchiadau lle gellid defnyddio'r pŵer a'r parti sy'n cychwyn y broses ar gyfer pob achlysur. Efallai bod lle yn yr opsiwn hwn i ddileu pŵer Llywodraeth Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yn ei gyfanrwydd, ac i ddarparu pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo sefydliad i ddiddymu ei hyn mewn rhai amgylchiadau rhagnodedig. Byddai hyn yn adlewyrchu'r trefniadau yn y Model Addysg Bellach ac yn creu model tebyg i'r un a ddisgrifir yn opsiwn 2 uchod.
395. dan y trefniadau presennol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â CCAUC a'r sefydliad perthnasol cyn y gellir dod â gorchymyn ymlaen i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru. **Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch a ddylai'r trefniant hwn barhau i weithredu yn y dyfodol fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r gorfforaeth addysg uwch dan sylw, neu a ddylid gwneud darpariaeth mai ar argymhelliad y Comisiwn yn unig y gellir arfer y pwerau hyn.**
396. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y gellid defnyddio sancsiynau rheoleiddiol eraill fel dewis amgen i bwerau diddymu, oherwydd byddent yn darparu pwerau ymyrryd sydd yr un mor sylweddol ac y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â phryderon difrifol. Nid ydym o'r farn y byddai dull gweithredu o'r fath yn opsiwn ymarferol. Gan amlaf, mae sancsiynau o'r fath yn

³¹ <http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/further-education/intervention-policy-for-fe-institutions/?lang=cy>

ymwneud â mathau penodol o dor rheoliadau ac maent yn cael eu harfer o dan amgylchiadau rhagnodedig, ac felly ni fyddent yn darparu dull effeithiol o ymdrin ag enghreifftiau ehangach o fethiannau sefydliadol neu gamweinyddu na rhai sy'n gofyn am sylw ar frys. Er enghraifft, gellid cael sefyllfa lle y byddai angen diddymu Corfforaeth Addysg Uwch oherwydd angen brys fel ansolfedd neu niwed na ellir ei ddadwneud i enw da'r sefydliad.

397. Mae diogelu buddiant dysgwyr yn egwyddor pwysig yng nghynigion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio AHO. Wrth ystyried unrhyw opsiynau o ran newid pwerau diddymu, mae'n bwysig ystyried yr effaith bosibl ar fyfyrwyr. O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer corfforaethau addysg uwch, caniateir trosglwyddo hawliau, eiddo a rhwymedigaethau corfforaeth a ddiddymwyd i ddarparwr addysgol arall fel rhan o'r broses uno, gyda chydysniad y sefydliad sy'n eu derbyn. Gwneir darpariaeth debyg o dan Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 ar gyfer corfforaethau addysg uwch yn Lloegr. Rydym o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn parhau i warchod buddiant dysgwyr, ac yn golygu bod diddymu yn debygol o gael llai o effaith nag ymyriadau rheoleiddiol gan ei fod yn caniatáu trosglwyddo darpariaeth dan reolaeth i sefydliad wedi'i uno mewn dull na chaniateir gan sancsiynau rheoleiddiol.

398. Am y rhesymau hyn, credwn y dylid cadw rhyw fath o bŵer i ddiddymu yng Nghymru.

Arfarniad cychwynnol o'r opsiynau

399. Wrth arfarnu'r opsiynau a nodwyd uchod, rydym o'r farn bod rhaid ystyried nifer o ffactorau. Un ohonynt yw i ba raddau y mae pob opsiwn yn darparu cydraddoldeb i gorfforaethau addysg uwch â phrifysgolion a sefydlwyd o dan drefniadau cyfansoddiadol eraill a chyda corfforaethau addysg uwch mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, rhaid cadw cydbwysedd rhwng yr angen am gydraddoldeb o ran trefniadau a diben ehangach pwerau o'r fath. Credwn fod pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru'n darparu ffordd ddefnyddiol o hwyluso uno sefydliadau. Hefyd, mae'n darparu sancsiwn olaf un pŵerus sy'n angenrheidiol i ddiogelu buddiant myfyrwyr mewn achosion lle nodwyd methiannau sefydliadol difrifol. Rydym yn ystyried bod y rhain yn swyddogaethau pwysig i'r pwerau diddymu ac y dylid cadw'r pwerau hyn. Felly, mae angen ystyried pa mor effeithiol y byddai'r swyddogaethau hyn yn gweithio o dan bob un o'r opsiynau a restrwyd uchod. Ar yr un pryd, mae angen ymchwilio sut y byddai pob opsiwn yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch y diffyg cyfyngiadau rhag arfer pwerau diddymu ar hyn o bryd o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol.

Crynodeb o'r arfarniad

	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4
Darparu ar gyfer trosglwyddo darpariaeth mewn ffordd a reolir	✓	✓	✓	✓
Pwerau y byddai modd eu defnyddio i hwyluso uno	✓	✓	✓	✓
Byddai pwerau'n darparu sancsiwn olaf un i fynd ar afael â methiannau sefydliadol neu gamweinyddu difrifol ac yn gwarchod buddiannau myfyrwyr ac enw da'r sector yng Nghymru	✓	✓	✗	✓
Byddai'n darparu cydraddoldeb â sefydliadau addysg uwch eraill: • drwy ddileu pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru; neu • drwy osod amodau ynghylch yr amgylchiadau lle gellir eu defnyddio	✗	✓	✗	✗
Byddai'n gydnaws â dull gweithredu ehangach ar gyfer AH yng Nghymru	✗	✓	✗	✗

400. O dan opsiwn 1 byddai'r trefniadau presennol yn parhau fel y maent. Byddai pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru'n cael ei gadw a byddai'n parhau i fod yn arferadwy p'un a yw'r broses yn cael ei chychwyn gan y sefydliad ei hun ai peidio. Er y gellid parhau i ddefnyddio'r pwerau hyn at ddiben hwyluso uno sefydliadau neu fynd i'r afael â methiannau sefydliadol difrifol, ni fyddai cadw at y sefyllfa bresennol yn ymdrin â phryderon ynghylch y diffyg cyfyngiadau ar arfer pwerau o'r fath, ac ni fyddai chwaith yn darparu eglurder ynghylch yr amgylchiadau lle gellid eu defnyddio. Ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn darparu cydraddoldeb â sefydliadau addysg uwch a ymgorfforwyd o dan

drefniadau cyfansoddiadol eraill nac â chorfforaethau addysg uwch mewn mannau eraill yn y DU.

401. Byddai opsiynau 2, 3 a 4 yn cyflwyno lefel o gyfwerthedd rhwng corfforaethau addysg uwch a sefydliadau siartredig yng Nghymru drwy naill ai ddileu pŵer presennol Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch neu drwy wneud darpariaeth o ran yr amgylchiadau lle gellid arfer y pwerau. Byddai pob opsiwn yn cadw pwerau y gellid eu defnyddio i hwyluso uno sefydliadau. Byddai opsiynau 2 a 4 yn caniatáu defnyddio pŵer diddymu fel sancsiwn "olaf un" mewn achosion o fethiant sefydliadol neu gamweinyddu difrifol, naill ai drwy gyflwyno pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i sefydliad i ddiddymu ei hun (opsiwn 2) neu drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn ei gwneud yn glir o dan ba amgylchiadau y gallai Gweinidogion Cymru ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru (opsiwn 4). Rydym o'r farn nad yw'n debygol y byddai opsiwn 3 yn cefnogi defnyddio pwerau diddymu fel ymyriad olaf un oherwydd bod yn rhaid i'r broses gael ei chychwyn gan y sefydliad ei hun o dan y model hwnnw. Byddai opsiwn 2 yn gydnaws iawn â'r trefniadau ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru o dan Ddeddf 2014 a byddai'n creu cysondeb o ran dull gweithredu ar draws y gwahanol sectorau AHO yng Nghymru.
402. Credwn fod dadl gref dros gadw pwerau diddymu yng Nghymru ar ryw ffurf. Mae angen pwerau i ddiddymu corfforaeth addysg uwch ac i drosglwyddo ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau, a hynny nid yn unig fel ffordd o hwyluso uno sefydliadau ond hefyd fel ffordd o fynd i'r afael â methiannau sefydliadol difrifol neu achosion o gamweinyddu, er mwyn gwarchod hawliau dysgwyr ac enw da addysg uwch yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn meddwl bod angen mynd i'r afael â'r diffyg cymhwysra presennol sy'n gysylltiedig ag arfer y pwerau hyn, a thrwy hynny beri bod mwy o gydraddoldeb rhwng corfforaethau addysg uwch a sefydliadau siartredig. Ar sail ein dadansoddiad, credwn mai naill ai opsiwn 2 neu opsiwn 4 a fyddai'n cynnig y ffordd fwyaf priodol ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid ar yr opsiynau a gyflwynwyd.

Cwestiynau

Pa opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi, a pham? A oes unrhyw opsiynau eraill y dylid eu hystyried?

O dan ba amodau neu amgylchiadau ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol arfer pwerau diddymu?

A ddylai pwerau diddymu fod yn arferadwy ar argymhelliad y Comisiwn yn unig? Os felly, a ddylid ymestyn hyn i'r trefniadau presennol ar gyfer sefydliadau addysg bellach?

Pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol

403. Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng

Nghymru. O dan y dull gweithredu presennol, y Cyfrin Gyngor sy'n gyfrifol am hyn.

404. O dan adran 76 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, caiff y Cyfrin Gyngor roi pwerau i ddyfarnu tri chategori o raddau: pwerau dyfarnu graddau sylfaen (PDGS); pwerau dyfarnu graddau a addysgir (PDGA) a phwerau dyfarnu graddau ymchwil (PDGY). Mae adran 76 yn galluogi'r Cyfrin Gyngor i roi PDGA a PDGY i unrhyw sefydliad sy'n darparu addysg uwch. Mae'r Cyfrin Gyngor hefyd yn cael rhoi PDGS i sefydliadau sydd yn y sector addysg bellach yng Nghymru. O dan ddarpariaethau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, caiff sefydliadau sydd â PDGA hefyd ddyfarnu eu graddau sylfaen eu hunain; fodd bynnag, ar y lefel honno'n unig y caiff sefydliad â PDGS ddyfarnu graddau.
405. Mae adran 77 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi teitl prifysgol fel bod sefydliad yn y sector addysg uwch yn cael defnyddio'r gair "prifysgol" yn ei enw gyda chydysyniad y Cyfrin Gyngor. Mae adran 77 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi teitl coleg prifysgol i'r sefydliadau addysg uwch hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yn gyfan gwbl ar gyfer cael teitl prifysgol neu nad ydynt yn dymuno ei ddefnyddio.
406. Mae ceisiadau am y pwerau hyn yn cael ei gwneud yn unol â meini prawf a chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. I wneud cais am PDGA, rhaid i sefydliad allu dangos hanes o bedair blynedd o gyflwyno addysg uwch ar lefel sy'n cyfateb i lefel 6³² yn union cyn y flwyddyn y mae'n gwneud y cais. Hefyd, rhaid i'r mwyafrif o'u myfyrwyr fod wedi cofrestru ar gyrsgiau lefel 6 neu uwch. Caiff sefydliadau addysg bellach wneud cais am PDGS, ac wrth wneud hynny rhaid iddynt allu dangos hanes debyg o gyflwyno rhaglenni addysg uwch ar lefel 5 neu uwch. Rhaid i sefydliadau addysg bellach sy'n gwneud cais am PDGS hefyd ddarparu datganiad dilyniant sy'n dangos bod y sefydliad wedi cytuno ar lwybrau dilyniant clir i ddysgwyr sy'n dymuno symud ymlaen i astudio cwrs lefel uwch ar ôl gorffen eu gradd sylfaen, a bod y sefydliad yn hybu'r llwybrau hynny. Rhaid i unrhyw sefydliad sy'n ceisio cael PDGY fod wedi cael PDGA yn gyntaf. I wneud cais am deitl prifysgol (TP) rhaid i sefydliadau feddu ar PDGA, ac mae'n rhaid iddynt fodloni meini prawf rhagnodedig ynghylch nifer y myfyrwyr³³ a gallu dangos ei fod yn rhoi'r sylw dyledus i egwyddorion llywodraethiant da.
407. O dan y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol, mae Llywodraeth Cymru'n cynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch ceisiadau yn dilyn asesiad manwl gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a chynghori gan CCAUC ynghylch cynaliadwyedd ariannol y sefydliad. Fodd bynnag, y Cyfrin Gyngor sy'n gwneud y penderfyniad terfynol naill ai i gymeradwyo neu wrthod cais.

³² Yn unol â *The Framework for Higher Education Qualifications of Degree-Awarding Bodies in England, Wales and Northern Ireland* (FHEQ).

³³ Yn gyffredinol, bod gan y sefydliad o leiaf 4,000 o fyfyrwyr addysg uwch gyfwerth ag amser llawn, a bod o leiaf 3,000 ohonynt wedi'u cofrestru ar gyrsgiau lefel gradd (gan gynnwys rhaglenni graddau sylfaen).

408. O dan y trefniadau presennol, rhoddir PDGA ar sail amhenodol i'r sefydliadau hynny a ariennir drwy arian cyhoeddus, hynny yw sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant oddi wrth CCAUC. Rhoddir pwerau i bob sefydliad arall am gyfnod penodol o chwe mlynedd y gellir ei adnewyddu. Yn achos PDGS, mae'r meini prawf presennol yn nodi bod Llywodraeth Cymru'n debygol o argymhell i'r Cyfrin Gyngor y dylai sefydliad addysg bellach gael pwerau cyfyngedig ac y dylid rhoi terfyn amser cychwynnol o chwe mlynedd ar y pwerau hyn. Ar yr amod y ceir asesiad boddhaol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch cyn diwedd y cyfnod 'prawf' chwe mlynedd hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n cynghori'r cyfrin Gyngor ynghylch cwmpas y pwerau sydd i'w rhoi.

409. Cyn Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, roedd y fframwaith deddfwriaethol a amlinellir uchod yn gymwys i sefydliadau yng Nghymru a Lloegr, ac roedd ceisiadau'n cael eu hasesu yn ôl meini prawf tebyg. Fodd bynnag, bydd Deddf 2017 yn cyflwyno amrywiaeth o ddiwygiadau i'r ffordd y gall darparwyr addysg uwch yn Lloegr ddyfarnu eu graddau eu hunain a chael teitl prifysgol.

Yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

410. Yn sgil y broses o ddatblygu polisïau gwahanol yng Nghymru a Lloegr, gofynnwyd yn ein hymgyngoriad cychwynnol am sylwadau ynghylch a oedd angen diwygio'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a chael teitl prifysgol i sefydliadau yng Nghymru. Yn benodol, gofynnwyd am sylwadau ynghylch y canlynol:

- rôl y Cyfrin Gyngor mewn perthynas â rhoi pwerau yng Nghymru;
- unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen mewn cysylltiad â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhoi pwerau a'r rhesymau dros roi pwerau dyfarnu graddau yn amhenodol;
- a ddylid ymchwilio i gyflwyno pwerau dyfarnu graddau hyblyg yng Nghymru a phwerau i amrywio ac i ddirymu pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol; ac
- a fyddai unrhyw newidiadau i bwerau dyfarnu graddau a threfniadau dilysu yn gwella effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth addysg uwch gan sefydliadau addysg bellach.

411. Dywedodd llawer o randdeiliaid fod angen cymryd gofal wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau a meini prawf presennol ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru yn sgil y newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd cefnogaeth i'r syniad o gadw'r trefniadau a meini prawf cymhwysedd presennol oherwydd eu bod wedi hen ennill eu plwyf ac wedi gweithio'n dda ers blynnyddoedd. Roedd llawer yn teimlo eu bod yn darparu fframwaith cadarn i sicrhau ansawdd ac enw da addysg uwch yng Nghymru a'u bod yn gwarchod buddiannau myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Roedd nifer o randdeiliaid o'r farn y

dylai'r Comisiwn fod yn rhan o'r broses o roi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol.

412. Mynegwyd rhai pryderon mewn perthynas â chyflwyno pwerau dirymu. Yn benodol, roedd y rhain yn canolbwyntio ar sut y byddai buddiannau myfyrwyr yn cael eu gwarchod petai'r sefydliad yn colli ei bwerau dyfarnu graddau neu ei statws fel prifysgol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau bod defnyddio ymyriadau rheoleiddiol eraill yn ffordd fwy priodol o fynd i'r afael â phroblemau ansawdd. Roedd peth cefnogaeth ymhlith rhanddeiliaid addysg uwch i ymchwilio i bwerau dyfarnu graddau hyblyg, neu bwerau wedi eu cyfyngu i rai pynciau'n unig.

Cynigion

413. Wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru yn sgil newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU, mae angen ystyried nifer o ffactorau allweddol.
414. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod y cyd-destun polisi yn wahanol yng Nghymru i rannau eraill o'r DU. Yng Nghymru rydym yn symud i gyfeiriad sefydlu sector addysg uwch gydlynol wedi'i chynllunio sy'n gweithredu'n strategol ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na mynd ar drywydd sector sydd wedi'i yrru gan y farchnad fel sydd wedi digwydd mewn mannau eraill.
415. Hefyd, rhaid ystyried newidiadau yng nghyd-destun y rhaglen ddiwygio ehangach ar gyfer AHO yng Nghymru. Mae angen sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i'r trefniadau ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru yn gydnaws a chynigion ehangach ar gyfer AHO ac nad ydynt yn gwanhau'r amddiffyniad ar gyfer myfyrwyr nac yn cael effaith negyddol ar ansawdd addysg uwch yng Nghymru. Mae'r sector yng Nghymru gryn dipyn yn llai nag yn rhannau eraill y DU ac oherwydd hynny mae'r risg bod ei enw da'n cael ei niweidio'n sylweddol oherwydd un sefydliad lawer yn uwch.
416. Yn ymarferol, ychydig o geisiadau a geir am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru. Mae PDGA gan holl sefydliadau addysg uwch Cymru ac maent i gyd wedi cael statws prifysgol, ac mae PDGY gan y mwyafrif ohonynt hefyd. Hyd yma, nid oes unrhyw sefydliad addysg bellach yng Nghymru wedi gwneud cais am PDGS.
417. Yn ddiweddar gwnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori ar y broses a'r meini prawf newydd ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yn Lloegr, ac ar y fframwaith rheoleiddiol cysylltiedig fydd yn cael ei sefydlu o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Rydym yn rhagweld y bydd y trefniadau newydd yn Lloegr yn cael eu rhoi ar waith yn llawn ar ddechrau blwyddyn academiaidd 2019/20. Rydym o'r farn na ellir ystyried yn llawn unrhyw newidiadau y bydd eu hangen o bosibl yn Lloegr mewn ymateb i'r trefniadau newydd hyd nes y bydd manylion y trefniadau hynny'n wybyddus a hyd nes y bydd y prosesau newydd wedi'u cyflwyno'n llawn. Byddai hyn

hefyd yn caniatáu amser i'r diwygiadau AHO ehangach yng Nghymru gael eu hystyried yn drwyadl.

418. Am y rhesymau uchod, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol newid y trefniadau presennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yn sylweddol ar hyn o bryd. O ganlyniad, rydym yn cynnig cadw rôl bresennol y Cyfrin Gyngor mewn perthynas â rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru ac nad oes unrhyw newid yn cael ei wneud i'r meini prawf presennol yn y tymor byr. Mae'n werth nodi bod meini prawf cymhwysedd fel hanes o gyflawni, yn cael eu nodi yn y canllawiau a gyhoeddir gan Llywodraeth Cymru o dan y trefniadau presennol, yn hytrach nag yn cael eu rhagnodi mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn golygu y gellir gwneud unrhyw newidiadau i'r meini prawf presennol yr ystyrir bod eu hangen yn y dyfodol drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, heb fod angen newid deddfwriaeth. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen yn y dyfodol i'r meini prawf ar gyfer rhoi graddau amhenodol yn sgil diwygiadau i drefniadau llywodraethiant, cyllid a rheoleiddio AHO yng Nghymru.
419. Yn unol â'r cynigion a amlinellwyd yn gynharach yn yr adran hon yn ymwneud â'r trefniadau gweithdrefnol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch, rydym yn ystyried bod lle i'r Comisiwn chwarae rôl mwy o ran darparu cyngor ynghylch ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru. Yn benodol, credwn y gallai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gomisiynu cyngor ynghylch ansawdd a chynaliadwyedd ariannol sefydliadau sy'n gwneud cais, ac asesu ceisiadau yn erbyn meini prawf rhagnodedig cyn gwneud argymhelliad i Llywodraeth Cymru ynghylch cymeradwyo neu wrthod ceisiadau ar sail yr asesiadau hynny. O dan y trefniadau presennol, Llywodraeth Cymru sy'n gwneud y gwaith hwn.
420. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i gael ei chynnwys gan y byddai argymhellion y Comisiwn yn gorfod cael eu cymeradwyo gan y Prif Weinidog yn rhinwedd ei swydd fel y Cyfrin Gyngorydd arweiniol ar gyfer materion addysg uwch yng Nghymru. Er y gellid dadlau y bydd hyn yn ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth i'r broses, credwn y byddai'n fanteisiol i'r Comisiwn chwarae'r rôl hon oherwydd byddai'n symleiddio'r gwaith o gomisiynu cyngor ynghylch ceisiadau ac yn gydnaws â swyddogaethau ehangach y Comisiwn mewn perthynas ag ansawdd a sicrwydd ariannol a llywodraethiant. Credwn hefyd fod lle i'r Cyfrin Gyngor ofyn am gyngor yn uniongyrchol i'r Comisiwn.
421. Mae'r diagram isod yn cymharu'r trefniadau gweithdrefnol presennol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch ac ar gyfer ystyried ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru â'r opsiynau sy'n cael eu cynnig yn y bennod hon ar gyfer diwygio'r dull gweithredu.

422. O dan y trefniadau presennol, mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar ran y Cyfrin Gyngor ynghylch ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol. Rydym yn cynnig cadw'r rôl hon.
423. Roedd rhai rhanddeiliaid yn ystyried y dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno pwerau dyfarnu graddau hyblyg yng Nghymru, neu bwerau sydd wedi'u cyfyngu i rai pynciau. Roeddynt yn dadlau y gallai caniatáu i ddarpariaeth arbenigol mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr AHO eraill gael ei chydabod yn ei rhinwedd ei hun ehangu mynediad at addysg uwch drwy gynyddu dewisiadau addysg uwch mewn ardaloedd pellennig a thrwy alluogi dysgwyr i fanteisio ar gyfleoedd yn eu hardaloedd eu hunain. Cafwyd sylwadau hefyd y dylid adolygu cymhwysedd ar gyfer PDGS er mwyn caniatáu i amrywiaeth ehangach o sefydliadau gynig y cymwysterau hyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i drafod y materion hyn gyda rhanddeiliaid, ynghyd â'r materion eraill a nodir yma yn ymwneud â llywodraethiant addysg uwch.
424. Fel rhan o'i gylch gwaith strategol, rydym hefyd yn cynnig bod y Comisiwn yn ystyried y trefniadau partneriaeth presennol ar gyfer cyflwyno addysg uwch gan sefydliadau addysg bellach, ac unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen i wella eu heffeithiolrwydd yn y dyfodol.


Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig, hynny yw na ddylid gwneud newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd?

A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru?

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer darparu addysg uwch mewn addysg bellach fel rhan o'i gylch gwaith strategol ehangach ar gyfer darpariaeth AHO?

Y broses ymgeisio bresennol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu a rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol




* Mae gwaith craffu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn *Ceisiadau i roi pwerau dyfarnu graddau: canllawiau a meini prawf ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru*(2017), yn pennu a yw sefydliad sy'n gwneud cais yn addas i arfer y pwerau y gofynnir amdanynt.

** Wedi'u nodi ar hyn o bryd yn *Applications for the grant of taught degree awarding powers, research degree awarding powers and university title* (2004).

*** Wedi'i amgáu fel atodiad i *Deregulating Higher Education Institutions' governance arrangements* (2006).

Proses ymgeisio arfaethedig ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu a rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol



15. Cefnogi'r Gymraeg

425. Cyhoeddwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, sef y Strategaeth* newydd ar gyfer y Gymraeg, ar 10 Gorffennaf 2017. Mae'n amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
426. Mae Cymraeg 2050 yn gosod y canlynol fel nod penodol:
Datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, waeth pa mor rhugl yw eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.
427. Mae addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn bwysig o ran gwireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd gweithgareddau'r Comisiwn arfaethedig yn chwarae rhan yn hyn. Bydd angen i'r Comisiwn gynnal y ddarpariaeth bresennol ac adeiladu ar gyfer y dyfodol drwy weithio gyda darparwyr AHO i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried a'i chefnogi ar bob lefel. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau i hyn o ran sut y mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig a'i darparu ar draws y sector ôl-16.

Ymatebion i'r Papur Gwyn

428. Roedd y mwyafrif llethol o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn o'r farn y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am y Gymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector AHO. Soniwyd hefyd mewn sawl ymateb am gysylltiad agos rhwng y Comisiwn a Strategaeth Cymraeg 2050. Yn ogystal, pwysleisiwyd eto bod angen i'r Comisiwn gymryd rhan ragweithiol a strategol yn y broses o ddatblygu darpariaeth Gymraeg ac y dylai hyn fod yn ofyniad cyn gynted ag y bydd yn cael ei sefydlu.
429. Roedd gwahaniaeth barn ymhlith yr ymatebwyr ynghylch y syniad o drosglwyddo'r cyfrifoldeb am weithgareddau sy'n cefnogi'r Gymraeg ac yn datblygu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd barn glir gan rai sefydliadau y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am ariannu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac roedd pryderon ynghylch sicrhau cyllideb yn y dyfodol i gynnal y gweithgarwch a systemau cefnogi cysylltiedig. Mae sefyllfa debyg yn bodoli mewn perthynas â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cynigion

430. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau sy'n nodi sut y dylid gweithredu mewn perthynas â'r Gymraeg. Fel corff newydd â chylch gwaith helaeth, bwriad Llywodraeth Cymru yw bod y Comisiwn yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.
431. Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar Fil newydd y Gymraeg ym mis Awst 2017 ac mae'n cynnig cyflwyno Dyletswyddau Cynllunio leithyddol yn lle rhai categorïau o'r safonau. Gallai'r Comisiwn fod yn ddarostyngedig i'r Dyletswyddau Cynllunio leithyddol newydd a bydd hynny'n cael effaith ar y

modd y mae'n ystyried y Gymraeg yn ei weithgareddau o ddydd i ddydd.

432. Mae gan y sector ôl-orfodol rôl hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod pobl ifanc yn cynnal ac yn datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl gadael addysg statudol, er mwyn eu defnyddio wrth eu gwaith yn y dyfodol. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i siaradwyr rhugl ond hefyd i'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu i ddysgwyr newydd ddysgu'r iaith, ynghyd â'r cyfleoedd i'r rheini sy'n dychwelyd at ddysgu Cymraeg a'r rheini nad ydynt yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg gael ailddechrau siarad yr iaith.

433. I gyflawni hyn bydd angen iddynt allu cynllunio ar gyfer datblygu darpariaeth Gymraeg ar draws addysg ôl-orfodol. Gallai hynny gynnwys strategaeth i hybu darpariaeth yn y Gymraeg ac i roi cymorth ariannol ac ymarferol i sefydliadau a darparwyr dysgu eraill i ddatblygu darpariaeth Gymraeg.

434. Rydym yn rhagweld y bydd y Comisiwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru - *Cymraeg 2050* - drwy ei weithgareddau. Yn naturiol, bydd y Gymraeg a datblygu darpariaeth Gymraeg yn cael eu hystyried drwy gydol y broses o ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno y dylid gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i roi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau?

Wrth roi sylw dyledus i'r Gymraeg, a ydych chi'n cytuno y dylid disgwyl i'r Comisiwn ystyried materion fel a ganlyn:

- gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- digonolrwydd y ddarpariaeth addysgol Gymraeg bresennol;
- sut y gall gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
- sut y gellir datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
- hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sector AHO?

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

435. Argymhellodd yr adolygiad diweddar o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol³⁴ y dylai'r Coleg ehangu ei gylch gwaith o addysg uwch yn unig i gynnwys yr holl sector AHO. Mae'r Coleg yn darparu goruchwyliaeth annibynnol, cyfarwyddyd strategol a chefnogaeth i ddatblygu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru. Yn y dyfodol, gallai weithio gyda'r

³⁴ <http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/welshmededuca/review-of-the-activities-of-the-coleg-cymraeg-cenedlaethol/?skip=1&lang=cy>

Comisiwn i sicrhau bod addysg Gymraeg gael ei hymgorffori'n llawn ledled y sector AHO.

436. CCAUC oedd yn ariannu'r Coleg pan gafodd ei sefydlu, ond caiff ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru erbyn hyn. Bydd gweithgarwch presennol y Coleg yn gaffaeliad i'r Comisiwn arfaethedig wrth iddo ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol, a bydd ei berthynas â'r Comisiwn yn hollbwysig i lwyddiant y corff newydd o ran ei ymateb i bolisi iaith Llywodraeth Cymru.

Cwestiwn

Beth yw eich barn ynghylch y berthynas rhwng y Coleg Gymraeg Cenedlaethol a'r Comisiwn yn y dyfodol? Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar y berthynas o ran cyllido'r Coleg a'i weithgareddau gweithredol yn ogystal ag atebolrwydd y Coleg i'r Comisiwn.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

437. Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2015 i ddarparu arweinyddiaeth strategol i'r sector Cymraeg i Oedolion ac i gynllunio a darparu cyllid i ddarparwyr dysgu yn y maes hwn. Mae dwy swyddogaeth ar wahân i'r ganolfan:
- y swyddogaethau strategol a chynllunio gweithredol ar gyfer y rhaglenni a'r gwaith o reoli'r rhwydwaith o ddarparwyr; a datblygu elfennau penodol o'r rhaglen ee Cymraeg yn y teulu, hyfforddiant i diwtoriaid, marchnata cenedlaethol a dysgu anffurfiol, a;
 - dyrannu cyllid i ddarparwyr sy'n eu galluogi i dalu tiwtoriaid; addysgu yn yr ystafell ddosbarth; datblygu'r cwricwlwm; marchnata' asesu/achredu; hyfforddi tiwtoriaid a threfniadau ansawdd.
438. Mae gweithgarwch y Ganolfan o fewn cwmpas y Comisiwn arfaethedig, er bod ei weithgareddau yn digwydd ar wahân ac yn benodol mewn ymateb i'r galw gan unigolion i gael dysgu Cymraeg ac i nodau Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050.

Cwestiwn

Beth yw eich barn ynghylch y berthynas rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Comisiwn yn y dyfodol? Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar y berthynas o ran cyllid a gweithgarwch gweithredol y Ganolfan Genedlaethol a'i hatebolrwydd i'r Comisiwn.

16. Data, ystadegau ac ymchwil

439. I gyflawni ei rôl mewn perthynas â'r sector AHO, sef goruchwyllo ei waith a'i berfformiad, gosod a monitro ei flaenoriaethau strategol a gweithredol, a dosbarthu arian yn unol â'i gyfrifoldebau statudol, bydd angen i'r Comisiwn newydd fynd ati i gasglu a defnyddio data a thystiolaeth arall a gallu dylanwadu ar gyfrifoldebau darparwyr dysgu o ran data, ystadegau ac ymchwil.
440. Bydd gofyn i'r Comisiwn gael y pŵer cyfreithiol i gyflawni'r swyddogaethau hyn a'r gallu a'r seilwaith i ganiatáu iddo gasglu a phrosesu data yn effeithlon ynghylch y canlynol:
- darparwyr. eu cynlluniau, eu gweithgarwch a'u staff;
 - dysgwyr a darpar ddysgwyr, eu cyrsiau a'u gweithgareddau, a'u cyraeddiadau a deilliannau eraill;
 - sefydliadau addysgol ac eraill sy'n ymwneud â gwaith ymchwil, eu gweithgareddau a'u deilliannau.
441. Mae angen i swyddogaethau a rôl y Comisiwn gael eu diffinio'n eglur er mwyn sicrhau bod data personol ond yn cael eu casglu lle bo'u hangen i gyflawni swyddogaethau penodol.
442. Bydd hefyd angen newid y gyfraith bresennol ynghylch cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a chyrff eraill mewn perthynas â phwerau a dyletswyddau'n ymwneud â data, ystadegau ac ymchwil, er mwyn adlewyrchu rôl Llywodraeth Cymru yn y gwaith o drosglwyddo ei asedau gwybodaeth i'r Comisiwn a goruchwyllo a herio'r Comisiwn.
443. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn eisoes wedi awgrymu y dylid gosod dyletswydd ar ddarparwyr i ddarparu cyfraddau o ran ceisiadau gan ddysgwyr a dilyniant dysgwyr yn ôl nodweddion cydraddoldeb penodol.

Data

444. Credwn y dylai'r Comisiwn gael y canlynol:
- dyletswydd i storio, casglu a phrosesu data ynghylch darparwyr ôl-16 (gweithgareddau, cynlluniau, cyllid, staff) a dysgwyr (nodweddion, gweithgareddau, cyrhaeddiad a deilliannau academiaidd);
 - cyfrifoldeb dros ddata'n ymwneud â chyllid ar gyfer gwaith ymchwil a chanlyniadau gwaith ymchwil;
 - y pŵer i ofyn am ddata a chael mynediad at ddata gan sefydliadau allanol eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat lle bo angen er mwyn gwneud ei waith;
 - cyfrifoldeb dros rannu data ag ymchwilwyr ac unigolion rhagnodedig eraill y dylid eu nodi mewn rheoliadau;

- pwerau i roi data i Lywodraeth Cymru fel bo'r angen a phan fo'n rhesymol³⁵;
- pwerau i gysylltu data personol â data perthnasol³⁶ eraill sydd ym meddiant trydydd partïon er mwyn cefnogi ei swyddogaethau mewn perthynas â pherfformiad ac ansawdd, a deilliannau.
- pwerau i gasglu data oddi wrth ddarparwyr dysgu, ac i osod safonau ansawdd ar y data hyn. Dylai fod â dyletswydd i gefnogi systemau gwybodaeth rheoli da (TG a'r diwylliant ynghylch data) ar draws y sector;
- cyfrifoldeb dros hybu rhannu data'n briodol rhwng darparwyr i gefnogi profiad y dysgwyr a'u deilliannau;
- pwerau i rannu data o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol;
- y pŵer i gael data personol (a sensitif) am ddysgwyr oddi wrth ddarparwyr (a sefydliadau dyfarnu), gan gynnwys gwybodaeth am eu nodweddion a'u cyrhaeddiad ac i rannu'r data hyn â darparwyr eraill (a sefydliadau dyfarnu) er mwyn helpu dysgwyr i bontio'n esmwyth ac effeithlon rhwng lleoliadau a darparwyr.

Data a etifeddwyd

- Y Comisiwn ddylai fod yn rheolydd data ar gyfer data a gasglwyd cyn creu'r corff³⁷ yn ymwneud â darparu AHO, gan gynnwys gwaith archifo, cadw cofnodion a gwaredu data.

Ymchwil ac ystadegau

445. Dylai'r Comisiwn:

- gael y pŵer i gomisiynu, cynnal a chyhoeddi gwaith ymchwil (i gefnogi ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau);
- cael y pŵer i gyhoeddi ystadegau swyddogol o dan Ddeddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru (2007) a dylai fod yn gyfrifol am gyhoeddi data ar y sector AHO;
- Bod yn gyfrifol am gydweithredu a chyfathrebu â chyrff eraill yn y DU ynghylch gwaith ymchwil ac ystadegau'n ymwneud â darpariaeth AHO, gan gynnwys gwaith ymchwil cydgysylltiedig a hefyd casglu data (ee ymgysylltu â grwpiau'r Awdurdod Safonau Addysg Uwch).

Cefnogi ansawdd ac effeithiolrwydd

446. Dylai'r Comisiwn:

- gael ei annog i ddatblygu tystiolaeth o addysgu a dysgu effeithiol yn y sector ac i hybu gwelliannau i'r addysgu a'r dysgu ymhlith darparwyr ar sail tystiolaeth (gan efallai ddod yn ganolfan Beth sy'n Gweithio ar gyfer AHO);
- gael rôl yn y gwaith o ddatblygu gallu darparwyr o ran ymchwil.

³⁵ Mae rheoliadau ar gael mewn rhai achosion, sy'n pennu'r sefydliadau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru rannu'r data hyn â nhw, ee Cyngor y Gweithlu Addysg.

³⁶ Data ynghylch cofnodion addysgol myfyrwyr a nodweddion eraill myfyrwyr, lle bo'r gyfraith yn caniatáu hynny.

³⁷ Byddai hyn yn cynnwys data personol ynghylch dysgwyr, eu nodweddion, eu gweithgareddau a'u cyraeddiadau, a data ynghylch darparwyr dysgu, eu staff, eu darpariaeth, eu rheolaeth a'u data ariannol.

Adnoddau a chapasiti

447. Dylai fod gan y Comisiwn staff â sgiliau priodol gan gynnwys aelodau o Wasanaethau Ystadegol, Ymchwil Gymdeithasol, Ymchwil Weithredol ac Economaidd y Llywodraeth, a digon o gapasiti i gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol.
448. Bydd angen newid y gyfraith bresennol er mwyn rhoi'r pwerau a'r dyletswyddau hyn i'r Comisiwn a'r sefydliadau eraill y bydd angen iddo rannu data â nhw.

Cwestiynau

Beth yw eich barn ynghylch rhoi perchenogaeth o'r setiau data sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ar hyn o bryd i'r corff newydd?

A ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar ysgolion uwchradd a darparwyr dysgu eraill a chyrff arholi i rannu data ynghylch nodweddion a chyraeddiadau dysgwr â darparwr dysgu newydd y mae'r dysgwr yn cofrestru ag ef?

A oes unrhyw bwerau, dyletswyddau neu faterion eraill y dylid eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y swyddogaethau hyn i'r corff newydd?

17. Materion yn ymwneud â chyllid myfyrwyr

449. Cydnabu'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn fod rhanddeiliaid o Gymru wedi nodi amrywiaeth eang o fuddiannau a phryderon sy'n deillio o ddiwygiadau Llywodraeth y DU i addysg uwch, a gofynnwyd am sylwadau ynghylch a oes angen newid polisi a deddfwriaeth ar gyfer materion fel y canlynol:
- trefniadau ar gyfer gwarchod myfyrwyr os yw cyrsiau'n dod i ben neu os yw darparwyr yn methu mewn sefydliadau sydd wedi'u dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr;
 - gwelliannau i ehangu mynediad, cadw myfyrwyr a gwella llwyddiant myfyrwyr yn y sector addysg uwch, drwy dryloywder mewn perthynas â cheisiadau i sefydliadau a rhannu data'n ymwneud â thrywydd ceisiadau o derbyn y cais hyd at gynnig lle;
 - moderneiddio'r trefniadau deddfwriaethol a gweithdrefnol ar gyfer llywodraethiant sefydliadol, a diwygiadau posibl i'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau i ddyfarnu graddau a theitl prifysgol;
 - newidiadau i'r trefniadau ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth myfyrwyr.
450. Mae'r materion uchod wedi'u hystyried a chyfeirir atynt yn adrannau perthnasol yr ymgynghoriad hwn. Diwygiad arall sy'n digwydd yn Lloegr a fydd â goblygiadau ar gyfer Cymru yw graddau carlam. Mae'r adran isod yn nodi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru ac yn gofyn barn rhanddeiliaid ynghylch y posibilrwydd y bydd angen diwygio deddfwriaeth.

Graddau carlam

451. Ar hyn o bryd, y llwybr traddodiadol i gael gradd israddedig yw astudio cwrs yn llawn amser am dair neu bedair blynedd. Ychydig o sefydliadau'n unig yn y DU sy'n cynnig cyrsiau gradd llawn amser byrrach, a hynny gan amlaf mewn nifer cyfyngedig o bynciau. Mae graddau carlam, neu raddau trywydd cyflym, yn un o nifer o ddulliau ar gyfer cynnig cyfleoedd mwy hyblyg am addysg uwch er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr.
452. Nid yw'n ymddangos bod diffiniad cyffredinol o radd garlam. Penderfynodd adolygiad o'r llenyddiaeth³⁸, a gynhaliwyd gan Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth ar ran Llywodraeth y DU, ar ddiffiniad dros dro. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ac mae'n cynnwys nifer o elfennau. Mae graddau carlam:

³⁸ Accelerated degrees in Higher Education Literature Review, Pollard, Hadjivasiliou, Swift a Green, y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, Mawrth 2017
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/595637/Accelerated_Degrees_Literature_Review.pdf

- wedi'u strwythuro'n wahanol i raddau traddodiadol;
- yn rhoi'r un nifer o gredydau (360) â gradd tair blynedd;
- yn cynnig yr un nifer o wythnosau addysgu â gradd tair blynedd, ond fe'u hamserlennir mewn modd sy'n golygu y gellir eu cwblhau dros gyfnod byrrach. Maent yn cwtdogi hyd y cwrs yn gyffredinol drwy ddefnyddio cyfnod y gwyliau haf traddodiadol ar gyfer addysgu a dysgu;
- yn lleihau'r cyfnod o astudio'n llawn amser i ddwy flynedd, a chwrs rhan amser i bedair blynedd.

453. Ym mis Mai 2016, cynhaliodd Lywodraeth y DU ymgynghoriad ynghylch graddau carlam³⁹ ochr yn ochr â'i chynigion yn y Papur Gwyn ar gyfer system reoleiddiol newydd i'r sector addysg uwch yn Lloegr. Ystyriodd yr ymgynghoriad y galw am raddau carlam a'r rhwystrau rhag eu darparu. Un canfyddiad allweddol oedd mai'r prif rwystr i sefydliadau rhag darparu cyrsiau carlam oedd natur anhyblyg y strwythur ffioedd a bennir yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i sefydliadau yn Lloegr, y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn bwriadu gwneud rheoliadau i roi cap uwch ar ffioedd ar gyfer cyrsiau carlam. Bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd ffioedd uwch yn ysgogi rhagor o ddarparwyr i gynnig graddau carlam, yn cynyddu'r dewis sydd ar gael ac yn darparu gwell gwerth am arian i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd graddau carlam yn costio llai i fyfyrwyr na gradd gyfatebol o hyd traddodiadol.

454. Yng Nghymru, mae rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn rhagnodi'r uchafswm y caiff sefydliad â chynllun ffioedd a mynediad cymeradwy ei godi am ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser. Ar hyn o bryd, y terfyn ar gyfer cyrsiau o'r fath yw £9,000. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth benodol ar hyn o bryd ar gyfer cyrsiau carlam, ac ni chaiff sefydliadau a reoleiddir godi ffioedd dysgu blyneddol sy'n uwch na'r swm a nodir mewn rheoliadau ar gyfer graddau israddedig o hyd traddodiadol.

455. Bydd angen i'r system ôl-orfodol yng Nghymru ymateb i dueddiadau'r dyfodol a gofynion dysgwyr mwy amrywiol. Golyga hyn fod angen i holl elfennau'r system fod yn fwy hyblyg a gallu addasu i anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gan roi cynnig ar ddulliau newydd o ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel a'u mabwysiadu. Gallai graddau carlam gyfrannu at ddulliau mwy hyblyg o fynd ati i ddysgu ac arwain at lai o ddyled i fyfyrwyr os yw cost cyrsiau o'r fath yn is na graddau tair blynedd traddodiadol. Ni wnaeth Adolygiad Diamond unrhyw argymhellion ynghylch graddau carlam. Fodd bynnag, byddai dull gweithredu sy'n golygu ei bod yn rhatach gweinyddu cyllid myfyrwyr, ac sy'n gostwng costau cyffredinol i fyfyrwyr, yn gydnaws â'r pwyslais yn argymhellion yr Adolygiad. Nododd yr adolygiad o'r llenyddiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU nifer o bryderon a heriau mewn perthynas â graddau carlam. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol: argraff bod ansawdd y cyrsiau yn is na graddau traddodiadol tair blynedd;

³⁹ Canfyddiadau Llywodraeth y DU o *Call for Evidence: Accelerated Courses and Switching University or Degree* Rhagfyr 2016: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/579438/Findings_from_the_Call_for_Evidence_on_Accelerated_Courses_and_Switching_University_or_Degree.pdf

rhwystrau posibl i fyfyrwyr, fel mwy o faich o ran gwaith a llai o amser i fyfyrrio; rhwystrau posibl i ddarparwyr fel pryderon staff ynghylch mwy o lwyth gwaith; a'r argraff ei bod yn ddrutach datblygu a chyflwyno graddau carlam.

456. Yn y cyd-destun hwn, mae gennym ddiddordeb mewn archwilio a yw sefydliadau yng Nghymru'n dymuno cynnig graddau carlam ac a fyddai galw am gyrsiau o'r fath ymhlith dysgwyr a chyflogwyr. Rydym yn cydnabod bod manteision ac anfanteision posibl i'r syniad o gyflwyno newidiadau i'r terfynau ffioedd. Felly, rydym y gofyn barn rhanddeiliaid ar y pwnc hwn ochr yn ochr â'n cynigion ar gyfer diwygio deddfwriaeth yn ehangach.

Cwestiynau

A allai cynyddu nifer y graddau carlam ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru yn well?

A yw'r trefniadau deddfwriaethol presennol, yn enwedig y diffyg terfyn ffioedd ar gyfer cyrsiau carlam, yn cyfyngu ar y gwaith o ddatblygu a chyflwyno graddau carlam yng Nghymru?

Sut y gellid diffinio graddau carlam?

Beth yw eich barn chi am y costau posibl sydd ynghlwm â chyflwyno graddau carlam dwy flynedd? Yn benodol, beth yw'r goblygiadau posibl ar gyfer ffioedd dysgu sy'n daladwy am gyrsiau o'r fath ac ar gyfer cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr cymwys?

Yn eich barn chi, a oes angen ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â graddau carlam?

Dynodi cwrs addysg uwch at ddibenion cymorth i fyfyrwyr

457. Caiff myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ddewis astudio cyrsiau addysg uwch ar lefel israddedig mewn prifysgolion, colegau a darparwyr eraill ledled y DU. Os yw eu cwrs wedi'i ddynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gan Weinidogion Cymru yna mae hawl gan fyfyrwyr cymwys wneud cais am gymorth cynhaliaeth a chymorth ffioedd dysgu ar gyfer eu hastudiaethau.

458. Nodir y cymorth ffioedd sy'n daladwy yn rheoliadau cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru ac mae'n adlewyrchu i ba raddau y rheoleiddir darparwr y cwrs. Ar hyn o bryd, uchafswm y cymorth ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cyrsiau 'sefydliadau addysgol cydnabyddedig' yw £9,000⁴⁰. Uchafswm y cymorth ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cyrsiau darparwyr eraill cyrsiau dynodedig yw £6,165. Mae cymorth cynhaliaeth yn ddibynnol ar brawf modd

⁴⁰ Mae'r terfyn ffioedd hwn yn gymwys i'r rhan fwyaf o gyrsiau llawn amser ond mae rhai eithriadau ee mewn cyrsiau rhyngosod a blynyddoedd Erasmus. Mae'r uchafswm cymorth yn gydnaws â'r terfynau ffioedd sy'n gymwys yn y weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol ac ar hyn o bryd mae'n £9,000 yng Nghymru ond yn £9,250 mewn cyswllt â sefydliadau a reoleiddir yn Lloegr.

ac nid yw'n ddibynnol ar reoleiddio darparwr y cwrs. Diffinnir 'sefydliad addysgol cydnabyddedig' fel:

- (a) sefydliad a reoleiddir yng Nghymru, hynny yw sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC;
- (b) sefydliad a reoleiddir yn Lloegr, hynny yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir drwy grantiau rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr; a
- (c) sefydliad yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gyllid cyhoeddus.

459. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer dynodi cyrsiau yn cyflawni dwy swyddogaeth ar wahân:

- dynodi cyrsiau – mae hwn yn bŵer i Weinidogion Cymru ar hyn o bryd;
- rheoleiddio - ar hyn o bryd defnyddir amrywiaeth o ddulliau i gyflawni hyn ac mae'n dibynnu ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru, CCAUC a chyrrff rheoleiddio eraill.

Swyddogaeth dynodi cyrsiau

460. Mae'r prif Reoliadau Cymorth i Fyfirwyr yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion darparu cymorth i fyfirwyr. Dynodir cyrsiau naill ai gan y Rheoliadau (dynodi awtomatig) neu gan Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau (dynodi penodol).

461. **Dynodi awtomatig:** bydd cyrsiau addysg uwch llawn amser a ddarperir gan sefydliad addysgol cydnabyddedig, ac sy'n bodloni'r amodau a geir yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfirwyr, yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod cyrsiau'r holl brifysgolion yng Nghymru, rhai sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, y rhan fwyaf o brifysgolion yn Lloegr a holl brifysgolion yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfirwyr oddi wrth Lywodraeth Cymru. Ni wneir unrhyw wiriadau ychwanegol gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chysiau o'r fath ac mae trefniadau cyfatebol ar waith ledled y DU ar hyn o bryd.

462. **Dynodi penodol:** Os nad yw cwrs wedi'i ddynodi'n awtomatig, bydd angen iddo gael ei ddynodi'n benodol er mwyn galluogi myfirwyr sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru i wneud cais am gymorth i fyfirwyr. Mae polisi dynodi penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau yn nodi'r meini prawf y mae Llywodraeth Cymru'n eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid dynodi cyrsiau'n benodol at ddibenion cymorth i fyfirwyr. Mae'r polisi'n berthasol i'r darparwyr hynny yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU nad yw eu cyrsiau wedi'u dynodi'n awtomatig. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr y mae eu cyrsiau addysg uwch yn cael eu dynodi'n benodol ar gyfer cymorth i fyfirwyr Llywodraeth Cymru yn ddarparwyr yn Lloegr.

Swyddogaeth reoleiddio

463. Ar hyn o bryd, mae dull dwy haen ar gyfer rheoleiddio darparwyr y dynodir eu cyrsiau ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.
464. **Cyrsiau a ddynodir yn awtomatig:** dibynnir ar y gwaith rheoleiddio a wneir gan y gorff cyllido a/neu rheoleiddio perthnasol ym mhob un o weinyddiaethau'r DU. Yng Nghymru, caiff y gofynion rheoleiddio eu pennu gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ac mae CCAUC yn eu goruchwyllo. Ystyrir bod y gwaith goruchwyllo'n darparu digon o sicrwydd ynghylch ansawdd yr addysg a hyfywedd ariannol y sefydliadau hyn i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Gan ddibynnu ar y drefn reoleiddio ym mhob gweinyddiaeth, mae'n bosibl y bydd terfynau ffioedd a gofynion ynghylch mynediad teg hefyd yn gymwys.
465. **Cyrsiau a ddynodir yn benodol:** mae'r trefniadau gweinyddol a amlinellir ym mholisi Llywodraeth Cymru ar ddynodi cyrsiau penodol, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017, yn darparu'r gofynion mewn perthynas â darparwyr ledled y DU y mae eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi'n benodol. O fis Ebrill 2018 ymlaen, bydd CCAUC yn gweinyddu'r polisi ar ddynodi cyrsiau penodol ac yn darparu cyngor i Weinidogion Cymru i lywio penderfyniadau ar geisiadau i ddynodi cyrsiau. Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i benderfynu p'un a ddylid dynodi cyrsiau ai peidio.
466. Er bod y broses reoleiddio'n wahanol ar gyfer y ddau lwybr dynodi, yn gyffredinol mae'r un egwyddorion craidd yn sail i'r ddau lwybr. Yn benodol, mae Gweinidogion Cymru o'r farn yn dylai sefydliadau y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi awtomatig a darparwyr addysg uwch eraill y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi benodol ddarparu addysg o ansawdd digonol. Dylent hefyd fod yn hyfyw'n ariannol a dylent gyfrannu'n sylweddol ac yn barhaus at fudd y cyhoedd mewn perthynas ag addysg.
467. Gweler ddiagram o'r trefniadau presennol isod:

Y trefniadau presennol ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch

Dynodi cyrsiau ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr Swyddogaeth: Gweinidogion Cymru

Dynodi awtomatig	Dynodi penodol
Dim cais, perthnasol i sefydliadau ledled y DU, gan ddibynnu ar statws 'sefydliad addysgol cydnabyddedig'.	Ceisiadau'n ofynnol (i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd) gan ddarparwyr <u>nad</u> ydynt yn sefydliadau addysgol cydnabyddedig bob tro y cyflwynir cwrs newydd.
Dynodir pob cwrs perthnasol yn awtomatig	Dynodir pob cwrs perthnasol yn unigol
Rheoleiddir gan yr awdurdod perthnasol (CCAUC/HEFCE/ SFC/ DELNI) - yn cynnwys asesiadau ansawdd a sicrwydd ariannol a llywodraethiant ar sail barhaus, a hefyd terfynau ffioedd perthnasol a gofynion mynediad teg lle bo'n berthnasol.	Monitro parhaus – pan fydd ceisiadau newydd yn cael eu cyflwyno rhaid iddynt fodloni meini prawf polisi dynodi penodol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: ansawdd y ddarpariaeth, hyfywedd ariannol, a thystiolaeth o gyfrannu at fudd y cyhoedd.
Pecyn cymorth i fyfyrwyr - Cymorth ffioedd dysgu hyd at uchafswm y ffi sy'n daladwy i'r sefydliad (mae'n amrywio ledled y DU, tua £9,000) - Cymorth cynhaliaeth	Pecyn cymorth i fyfyrwyr - Cymorth ffioedd dysgu o hyd at £6,165 - Gellir codi ffioedd sy'n uwch nag uchafswm y cymorth sydd ar gael. - Cymorth cynhaliaeth

Cynigion

468. Dangosodd y Papur Gwyn ein bod yn cynnig trefnu trosglwyddo rhai o swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru a CCAUC i'r Comisiwn. Bydd angen i'r Comisiwn weithio gydag amrywiaeth o gyrff yng Nghymru a'r DU sy'n cyfrannu at y gwaith o reoleiddio AHO. Mae'r diwygiadau arfaethedig hyn yn gyfle i adolygu a diwygio'r trefniadau presennol ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch yng Nghymru a hefyd i ystyried y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r trefniadau rheoleiddio yn Lloegr.

469. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer dynodi cyrsiau yng Nghymru wedi datblygu gam wrth gam mewn ymateb i newidiadau i'r trefniadau mewn perthynas â chyllid addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr. Nid ydynt yn ffurfio system reoleiddio gydlynol. Rydym yn cynnig y dylai'r egwyddorion a ganlyn ategu unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol:

- symleiddio'r broses o weinyddu trefniadau gymaint ag y bo modd;
- datblygu cydlyniaeth ar gyfer pob categori o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru;
- ystyried y cysylltiadau trawsffiniol er mwyn gwneud y trefniadau dynodi mor syml ac effeithiol â phosibl.

470. Rydym wedi nodi tri opsiwn eang o fewn dull gweithredu cyffredinol a fyddai'n sefydlu un system gyffredinol ar gyfer dynodi cyrsiau. Ym mhob un o'r opsiynau hyn, byddai pob darparwr yng Nghymru sy'n dymuno i'w cyrsiau addysg uwch perthnasol gael eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i reoleiddio gan y Comisiwn. Byddai hefyd yn ofynnol iddynt ofyn i'r Comisiwn gymeradwyo cytundeb rheoleiddio a deilliannau. Yn amodol ar y cytundeb hwnnw, a chydymffurfiaeth parhaus â gofynion rheoleiddiol, byddai eu cyrsiau addysg uwch perthnasol yn cael eu dynodi gan Lywodraeth Cymru at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr.

471. Cynigir bod y broses o ddynodi cyrsiau'n parhau i fod yn swyddogaeth i Weinidogion Cymru, a bod y Comisiwn yn rheoleiddio'r holl ddarparwyr yng Nghymru y mae eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Mae natur y cynnig yn golygu y byddai'n rhaid i bob darparwr o'r fath wneud cais i'r Comisiwn i gymeradwyo cytundeb rheoleiddio a deilliannau, a byddai eu cyrsiau addysg uwch perthnasol yn cael eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo'r cytundeb hwnnw. Byddai'n ofynnol i bob darparwr o'r fath gydymffurfio â gofynion y Comisiwn mewn perthynas ag ansawdd addysg, sicrwydd ariannol, rheolaeth a llywodraethiant, a darparu gwybodaeth a chymorth fel y nodir yn Rhan 1 o'r cytundebau. Cynigir bod dau gategori o ddynodiad, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd:

- **Dynodiad Categori 1:** byddai gofynion rheoleiddiol ychwanegol yn ymwneud â therfynau ffioedd rhagnodedig a mynediad teg yn gymwys, a byddai cymorth i fyfyrwyr yn daladwy hyd at y cap ar ffioedd (£9,000 ar hyn o bryd).
- **Dynodiad Categori 2:** ni fyddai unrhyw gap na gofynion o ran mynediad teg. Byddai'r cymorth i fyfyrwyr yn daladwy hyd at uchafswm a ddiffinnir yn y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr (tua £6,000 ar hyn o bryd).

472. Byddai'r gwahanol lefelau o reoleiddio'n pennu faint o gymorth i fyfyrwyr sy'n daladwy i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau cymwys. Fel sy'n digwydd nawr, byddai swm y cymorth i fyfyrwyr sy'n daladwy'n dibynnu ar i ba raddau y rheoleiddir y darparwr.

473. Er mwyn i ddarparwyr yng Nghymru fod yn gymwys i gael eu cyrsiau wedi'u dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru yn y naill categori neu'r llall, byddai'n ofynnol bod ganddynt gytundeb rheoleiddio a deilliannau cymeradwy ar waith. I fod yn gymwys i wneud cais i gymeradwyo cytundeb rheoleiddio a deilliannau, credwn y dylai darparwyr yng Nghymru fodloni un o'r opsiynau canlynol:

Opsiwn (a): byddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio cael cwrs wedi'i ddynodi yn unrhyw un o'r ddau categori fod yn elusennau

Opsiwn (b): nid yw'n ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio cael cwrs wedi'i ddynodi yn unrhyw un o'r ddau categori fod yn elusennau

Opsiwn (c): byddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio cael dynodiad categori 1 fod yn elusennau (dyma'r sefyllfa bresennol ar gyfer sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf 2015), ond ni fyddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio cael dynodiad categori 2 fod yn elusennau.

Cwestiynau

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r Comisiwn reoleiddio'r holl ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n ceisio cael eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid parhau i ddarparu dau categori ar gyfer dynodi cyrsiau darparwyr addysg uwch yng Nghymru at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Pa un o'r tri opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi a pham?

A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch y tu allan i Gymru fodloni un o'r tri opsiwn hefyd?

A oes unrhyw faterion eraill yr ydych yn credu y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Atodiad A

Nodi ac amlinellu costau a manteision yr opsiynau ar gyfer diwygioaddysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO)

1. Rhagarweiniad

1.1. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi dweud bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Pan fydd cynigion yn cael eu cyflwyno, bydd y Cynulliad Cenedlaethol cyfan, ei Bwyllgor Cyllid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn dymuno craffu'n fanwl arnynt. Bydd ganddynt ddiddordeb arbennig yn yr achos o blaid newid, a byddant am ddeall pam nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer AHO yn caniatáu i ni gyflawni ein blaenoriaethau hanfodol ar gyfer dysgwyr.

1.2. Byddant hefyd yn gofyn am sicrwydd bod ystyriaeth ofalus wedi'i roi i'r ystod ehangaf posibl o opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion dymunol, ac eisiau gwybod sut y gallai pob dull gyflawni blaenoriaethau dysgu ôl-16 ac ymchwil Gweinidogion Cymru.

1.3. Bydd angen iddynt ddeall yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr holl randdeiliaid a sefydliadau y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, a hefyd ystyried manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau i'r grwpiau hyn gan gynnwys yr opsiwn i 'wneud dim' a chadw at y sefyllfa bresennol.

1.4. I sicrhau bod y Cynulliad cyfan, y Pwyllgor Cyllid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd wedi cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer y broses graffu, rhaid i bob cynnig o bwys a gyflwynir iddynt gael ei ategu gan ddogfen fanwl o'r enw Memorandwm Esboniadol. Mae'r Memorandwm yn cynnwys adran o'r enw Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amlinellu'r canlynol:

- amcangyfrifon gorau o'r canlynol:
 - a. y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;
 - b. yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;
 - c. costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;
 - d. dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac
 - e. ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;
- unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol.

1.5. Mae dull cadarn a thrylwyr o gyfrif amcangyfrifon o'r costau a'r manteision yn bwysig ar gyfer deddfwriaeth Cymru. Pwysleisiwyd yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn y dylai'r diwygiadau arfaethedig gael eu costio'n llawn cyn eu gweithredu, a'i bod yn hanfodol cynnal asesiad cadarn o'r effeithiau i nodi sut y bwriedir osgoi dadsefydlogi'r sector.

2. Opsiynau ar gyfer diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

- 2.1 Ar ôl cyhoeddi argymhellion yr Athro Hazelkorn ym mis Mawrth 2016⁴¹, aeth y Gweinidogion ati i ystyried yn ofalus nifer o ffyrdd o'u gweithredu. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r opsiynau gwahanol a ystyriwyd gan y Gweinidogion ym mis Ionawr 2017.

Opsiwn
1. Cadw at y sefyllfa bresennol. Byddai hynny'n golygu cadw'r holl strwythurau a swyddogaethau presennol fel ag y maent.
2a. Cyfuno Mae'r dull gweithredu hwn yn debyg i opsiwn 1 a byddai'n golygu cadw'r strwythurau a'r swyddogaethau presennol. Fodd bynnag, byddai gofyn cryfhau a gwella'r modd y mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni, drwy er enghraifft: • Cydweithio i ddatblygu a gweithredu gweledigaeth strategol glir ar gyfer y sector ôl-orfodol. • Cynyddu'r ffocws ar werthuso, monitro perfformiad a meincnodi rhyngwladol. • Cefnogi datblygiad llwybrau cynnydd/pontio dysgwyr mwy effeithlon a chydlynol, a werthusir drwy dadansoddiad cynhwysfawr o gyrchfannau. • Moderneiddio'r model prentisiaethau ac alinio'n well ag Addysg Bellach ('Llwybrau Sgiliau'). • Datblygu polisi ar gyfer y chweched dosbarth ac ymgymryd ag adolygiadau o'r maes 16-19. • Parhau â'r strategaethau presennol/arfaethedig i wella llywodraethiant ac arweinyddiaeth o fewn y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, ac adeiladu arnynt.
2b. Diwygio CCAUC Defnyddio'r pwerau sydd ar gael i addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau CCAUC.
3. Mabwysiadu'r dull gweithredu a ddatblygwyd yn Lloegr. Mae Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 wedi creu Swyddfa Myfyrwyr fel rheoleiddiwr ar gyfer Addysg Uwch, ac wedi ei gwneud yn haws i sefydliadau ddod yn brifysgolion a dyfarnu graddau.
4a. Canoli, cadw'r holl swyddogaethau'n ymwneud ag Addysg Bellach, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r chweched dosbarth o fewn Llywodraeth Cymru a throsglwyddo holl swyddogaethau CCAUC i Lywodraeth Cymru

⁴¹ <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/reports/review-of-the-oversight-and-regulation-of-post-compulsory-education-and-training-in-wales/?lang=cy>

4b. Canoli, ond gyda chorff ar wahân yn gyfrifol am ymchwil Mae'r opsiwn hwn yn debyg iawn i 4A uchod, ond mae'n cynnwys sefydlu corff ymchwil ar wahân.
5a. Sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol i ymgymryd â'r rhan fwyaf o swyddogaethau CCAUC a chymryd y cyfrifoldeb am reoleiddio a goruchwyllo ar draws y sector AHO, ymhlith pethau eraill
5b. Yr un peth â 5A ond hefyd rhoi'r cyfrifoldeb i'r Awdurdod Addysg Drydyddol am ddatblygu gwybodaeth am y farchnad lafur, am swyddogaethau'n ymwneud â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac am gynghori Llywodraeth Cymru ynghylch y strategaeth ar gyfer AHO yn y dyfodol.
5c. Fel Opsiwn 5B, ond gyda chorff ar wahân i oruchwyllo ymchwil Mae'r opsiwn hwn yn debyg iawn i 5B uchod, ond ei fod yn cynnwys sefydlu corff ymchwil ar wahân.
6a. Sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol ar raddfa fawr i gymryd holl swyddogaethau CCAUC a swyddogaethau eraill ar draws y sector AHO.
6b. Fel Opsiwn 6A, ond gyda chorff ar wahân i oruchwyllo ymchwil Mae'r opsiwn hwn yn debyg iawn i 6a uchod, ond mae'n cynnwys sefydlu corff ymchwil ar wahân.

2.2 Gofynnodd y Gweinidogion i swyddogion fwrw ymlaen ag opsiwn 6a, sef creu un corff i ariannu a rheoleiddio'r sector AHO cyfan. Hynny am eu bod yn teimlo mai dyma'r unig opsiwn a allai ymdrin â holl argymhellion yr Athro Hazelkorn. Cyhoeddwyd cynigion yn adlewyrchu'r opsiwn hwn at ddibenion ymgynghori yn y Papur Gwyn ar 20 Mehefin 2017⁴²

2.3 Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn⁴³ yn dangos cefnogaeth gref i opsiwn 6a.

3 Nodi ac amlinellu costau a manteision yr opsiynau ar gyfer diwygio AHO

3.1 I sicrhau'r amcangyfrifon mwyaf cadarn posibl o gostau a manteision y cynigion, ar gyfer cyfnod o ddeng mlynedd ar ôl gweithredu, mae swyddogion

⁴² <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/system-addysg-hyfforddiant-ol-orfodol-wedii-diwygio>

⁴³ https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/171204-summary-of-responses-cy_0.pdf

yn cymryd nifer o gamau penodol:

Amcangyfrif a chymharu costau ariannol yr opsiynau

- Nodi'r costau presennol i'r pwrs cyhoeddus o ddarparu trefniadau llywodraethiant a rheoleiddio ar gyfer dysgu ôl-16 ac ymchwil. Caiff hyn ei wneud drwy nodi'r swyddogaethau, y cyfrifoldebau a'r gweithgareddau gwahanol sy'n cael eu hysgwyddo ar hyn o bryd gan CCAUC, adrannau gwahanol Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, a chrynhof'r adnoddau staff, adnoddau cyllidebol eraill a chostau seilwaith ehangach mewn fformat hygrych a chymaradwy..
- Nodi'r newidiadau i'r gofynion am adnoddau a fyddai'n deillio o ddiwygio gan gynnwys costau staff, cyllideb grant a chostau seilwaith, o ran y costau trosiannol untro a chostau rheolaidd ar gyfer y corff newydd, ei bartneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Amcangyfrif a chymharu effaith a manteision mwy hirdymor yr opsiynau

- Comisiynu arbenigwyr mewn cynnal dadansoddiad economaidd o ddiwygiadau addysg i gasglu ynghyd a dadansoddi'r dystiolaeth fwyaf cadarn sydd ar gael er mwyn nodi a mesur y costau a'r manteision ehangach i'r sector, ei rhanddeiliaid a phobl Cymru.

Datblygu ein dulliau a'n tybiaethau gyda chymorth rhanddeiliaid ac arbenigwyr

- Ymgysylltu ag adolygwyr cymheiriaid sydd ag arbenigedd mewn asesu costau ar gyfer creu corff cyhoeddus newydd, er mwyn sicrhau bod ein dulliau amcangyfrif a'n tybiaethau'n gadarn.
- Ymgynghori â'r rhanddeiliaid allweddol y bydd costau a manteision y diwygiadau'n effeithio arnynt, er mwyn craffu ar ein dulliau a sicrhau na chaiff effeithiau allweddol posibl eu hepgor.

Adolygu ar ôl gweithredu

- 3.2 Caiff cynigion eu hamlinellu ar gyfer asesu effaith wirioneddol y diwygiadau dros amser. Bydd swyddogion yn datblygu fframwaith i asesu i ba raddau y mae nodau'r diwygiadau'n cael eu cyflawni ac unrhyw effeithiau negyddol neu effeithiau na ragwelwyd sy'n codi dros amser. Rydym yn rhagweld y bydd y corff newydd a Gweinidogion Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldebau penodol mewn perthynas â'r broses adolygu ar ôl gweithredu. Bydd y dulliau adolygu'n cynnwys:
- a. Adroddiadau cyfnodol ar berfformiad gan y corff newydd i Weinidogion Cymru
 - b. Gwerthusiad ffurfiannol o gynnydd y corff newydd o ran datblygu'r systemau sydd eu hangen arno i gyflawni ei swyddogaethau a'u gyfrifoldebau statudol.
 - c. Mesur hyder y rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn y corff newydd fel rheoleiddiwr annibynnol AHO a darpariaeth ymchwil.

- d. Monitro a chynnal gwerthusiad hirdymor o'r effeithiau ehangach ar lefelau cymwysterau a ffactorau economaidd, gan gynnwys sgiliau, cyflogaeth a thwf.
- e. Gwella ein technegau amcangyfrif drwy gymharu'r costau gwirioneddol â'r amcangyfrifon a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

4. Asesu effaith bosibl y cynigion

4 Effaith ar gystadleuaeth yng Nghymru

4.1 Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn deall unrhyw effaith y gallai'r diwygiadau ei chael ar gystadleuaeth deg rhwng busnesau yng Nghymru. Cynhaliwyd ymarfer 'sgrinio'r gystadleuaeth'. Mae'r ymarfer hwn yn nodi'r sectorau y mae'r cynigion yn effeithio arnynt a'r effaith y byddant yn ei chael ar gystadleuaeth.

4.2 Mae'r sefydliadau y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt yn cynnwys y canlynol:

Sector 1: Sefydliadau sy'n ariannu ac yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-16, ac ymchwil

Sector 2: Sefydliadau sy'n darparu addysg a hyfforddiant ôl-16.

Sector 3: Sefydliadau masnachol ac elusennol sy'n cynnal ac yn cymryd rhan mewn ymchwil a ariennir (yn rhannol) yn gyhoeddus.

Sector 4: Darparwyr nwyddau a gwasanaethau i'r sefydliadau uchod.

4.3 Ar hyn o bryd, mae cystadleuaeth yn bodoli rhwng y sefydliadau yn Sectorau 2, 3 a 4.

4.4 Rhagwelir y bydd y Comisiwn newydd yn dylanwadu ar yr hyfforddiant a'r addysgu y bydd sefydliadau yn Sector 2 yn eu cynnig. Byddai, yn gadarnhaol, yn hybu cydweithio rhwng darparwyr ôl-16 ac yn cefnogi creu cyrsiau newydd sy'n ofynnol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd i ddysgwyr. Gallai, yn negyddol, ddod yn ymwybodol o ddarpariaeth nad yw'n bodloni'r safon ofynnol, neu ddyblygu yn y ddarpariaeth, ac felly gofyn i ddarparwr addasu ei gynnig. Gallai wrthod cyllido neu gefnogi darpariaeth yn y pen draw.

4.5 Yn ogystal, gallai'r Comisiwn gyllido neu gefnogi ymchwil gan y sefydliadau yn Sector 3 neu wrthod gwneud hynny. Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar dwf y capasiti ymchwil yng Nghymru. Disgwylir i'r twf hwn gynyddu cyfradd lwyddo sefydliadau ymchwil Cymru o ran ennill cyllid ymchwil cystadleuol.

4.6 Fodd bynnag, mae'r swyddogaethau hyn eisoes o fewn pwerau Llywodraeth Cymru, CCAUC a Chynghorau Ymchwil y DU, ac nid oes disgwyl i'r Bil AHO gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth yn y Sectorau uchod.

Asesiadau effaith eraill

- 4.7 Mae cyfres o asesiadau effaith eraill yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r cynigion yn y Papur Gwyn. Fel yn achos pob cynnig polisi a deddfwriaethol, mae Gweinidogion yn dymuno deall effaith bosibl y diwygiadau arfaethedig ar bob grŵp perthnasol. Y prif reswm dros ddiwygio yw y bydd effeithiau cadarnhaol i unigolion, grwpiau a phobl Cymru yn y pen draw, ac y gallai fod yn cyfle i gynyddu'r effeithiau hyn. Lle mae effeithiau negyddol wedi'u nodi, bydd Gweinidogion Cymru'n chwilio am ffyrdd o'u lleihau. Mae'r asesiadau effaith sy'n mynd rhagddynt yn cynnwys asesiadau gorfodol yn ymwneud â chydaddoldeb, hawliau plant, prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad, yr iaith Gymraeg a phreifatrwydd. Caiff y rhain eu defnyddio i asesu effeithiau'r cynigion cyn y cânt eu gweithredu a gwneud yn siŵr eu bod yn sicrhau'r lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau nawr ac yn yr hirdymor.

5 Cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad technegol

- 5.1 Byddem yn croesawu sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y dull gweithredu rydym yn ei ddefnyddio i asesu effeithiau'r cynigion, a byddem yn ddiolchgar am awgrymiadau ar sut y gallwn wella'r broses hon.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Y Tîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant
Ôl-orfodol

Sefydliad: Llywodraeth Cymru

E-bost: DiwygioPCET@llyw.cymru

Cyfeiriad: Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ

Y Comisiwn

Cwestiwn 1:

A yw'r fframwaith llywodraethiant arfaethedig yn briodol o ystyried cylch gwaith y Comisiwn newydd?

Cwestiwn 2:

A ydych chi'n meddwl y dylai fod yna bwyllgor statudol o fewn fframwaith llywodraethiant statudol y Comisiwn i gefnogi'r Gymraeg a'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

Cwestiwn 3:

A ydych chi'n cytuno y dylid gwneud Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cyngori ar Brentisiaethau Cymru yn rhan o'r Comisiwn i gryfhau cysylltiadau rhwng y Comisiwn a chyflogwyr?

Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

Cwestiwn 4:

A yw'r cyfrifoldebau y bwriedir eu dyrannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn o ran gwaith cynllunio strategol yn briodol?

Cwestiwn 5:

A yw'r cynigion ar gyfer delio â chyllid yn briodol, pe bai Llywodraeth Cymru yn atal ei chymeradwyaeth i'r cynllun strategol? Pa fesurau diogelu neu dros dro y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 6:

Ar wahân i atal cymeradwyaeth i'r cynllun strategol, pa bwerau ymyrryd y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau ac yn boldoni telerau ei gynllun strategol?

Cwestiwn 7:

A fyddai cylch pum mlynedd yn gyfnod priodol ar gyfer cynllun strategol y Comisiwn

neu a ddylid caniatáu elfen o hyblygrwydd?

Y berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu

Cwestiwn 8:

Yn adran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, a oes yna faterion eraill y dylid eu cynnwys? Os felly, beth yw'r rheini? A ddylid cael gwared ag unrhyw faterion? Os felly, pa rai?

Cwestiwn 9:

Rydym yn cydnabod, yng ngoleuni eu rhwymedigaethau cytundebol, na fyddai'n ofynnol i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith fod â statws elusennol er mwyn cael cyllid cyhoeddus. Ond a ddylai fod yn ofynnol i fathau eraill o ddarparwyr dysgu fod â statws elusennol er mwyn cael cyllid o'r fath? Beth fyddai'r manteision a'r anfanteision?

Cwestiwn 10:

A ddylai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau? Os felly, sut gallai fod angen addasu elfen reoleiddio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau i adlewyrchu'r ffaith nad yw Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg yn darparu dysgu?

Cwestiwn 11:

Os na ddylid eu hariannu o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, ym mha amgylchiadau a thrwy ba fecanweithiau y dylid eu hariannu? Pa fecanwaith/fecanweithiau y gellid ei/eu sefydlu i sicrhau defnydd priodol o unrhyw gyllid cyhoeddus y gallai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg ei gael?

Cwestiwn 12:

Pe bai darparwyr dysgu nad oedd ganddynt statws elusennol yn gallu dod i gytundeb rheoleiddio, sut y gallai hynny fod yn wahanol i elfen reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau a ddefnyddir ar gyfer darparwyr dysgu eraill?

Cwestiwn 13:

Ai'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yw'r ffordd orau ymlaen? Beth yw'r manteision a'r anfanteision?

Cwestiwn 14:

Pa bwerau y gallai'r Comisiwn fod ei angen i sicrhau bod darparwyr dysgu ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau?

Cwestiwn 15:

A oes model arall y dylem ei ystyried? Os felly, beth yw'r model hwnnw a beth fyddai'r manteision?

Cwestiwn 16:

Pa wybodaeth am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi sydd â Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gymeradwywyd y dylai'r Comisiwn ei rhyddhau i'r cyhoedd?

Cwestiwn 17:

Unwaith caiff ei chymeradwyo, a ddylai rhan reoleiddio'r Cytundeb fod yn barhaol, neu a ddylid ei hailystyried o bryd i'w gilydd? Os felly, pa mor aml y dylid ei hailystyried? Pa mor aml y dylid ailnegodi elfen ddeilliannau'r cytundeb?

Cwestiwn 18:

Rhowch eich barn am y materion a restrwyd yn adran 'Materion ychwanegol' y papur hwn.

Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido

Cwestiwn 19:

A ydych chi'n cytuno y dylai swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 31, 32, 33, 34, 35 a 36 o'r Ddeddf Dysgu a Medrau ddod i ben, ac y dylai'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hynny neu swyddogaethau tebyg iawn iddynt?

Cwestiwn 20:

A ydych chi'n credu y dylai Gweinidogion Cymru gadw rôl yn y broses o gynllunio, darparu a chyllido addysg a hyfforddiant 16-19 ac ôl-19?

Cwestiwn 21:

A ydych chi'n cytuno y dylid creu'r un pwerau, fwy neu lai, ar gyfer y Comisiwn newydd â'r pwerau o dan adrannau 65 a 66 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ynghyd â'r pwerau yn adrannau 86 ac 87 o Ddeddf Addysg 2005?

Cwestiwn 22:

A ydych chi'n cytuno y dylid disodli adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 â phŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyrannu cyllid i'r Comisiwn ar gyfer pob darpariaeth ôl-16? Oes yna elfennau penodol y dylid ystyried eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys fel rhan o'r pŵer newydd hwn?

Cwestiwn 23:

A ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru neilltuo elfennau penodol o fewn cyfanswm y grant sydd ar gael i'r Comisiwn ar sail y math o ddarpariaeth i'w gyllido?

Cwestiwn 24:

A ydych chi'n cytuno y dylid rhannu'r symiau a neilltuir ar lefel addysg bellach/addysg uwch er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Comisiwn, ond gan gydnabod ein bod yn cynnig y dylai cyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â chyllid addysg bellach gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd? Nid oes cyfatebiaeth mewn perthynas ag addysg uwch.

Cwestiwn 25:

A ydych chi'n cytuno y dylai fod yna bŵer i Weinidogion Cymru gyllido darpariaeth AHO yn uniongyrchol (gan gynnwys addysg uwch), ar ôl rhannu unrhyw gynigion o'r fath i ddechrau â'r Comisiwn, a lle mae budd mawr i'r cyhoedd o wneud hynny?

Cwestiwn 26:

Rydym yn gwybod bod yna ffrydiau cyllid ychwanegol, ar wahân i gyllid craidd. Os ydych yn derbyn cyllid o'r fath, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am y cyllid rydych yn ei gael?

Cwestiwn 27:

A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn yr hyblygrwydd, yn ystod cyfnod trosglwyddo byr, i weithredu gwahanol fodolau cynllunio a chyllido ar draws pob math o ddarparwr ôl-16, gan hyrwyddo ar yr un pryd brosesau alinio a chydgrynhoi wrth i'r Comisiwn aeddfedu?

Cwestiwn 28:

A ddylai fod yna drefniadau trosglwyddo i sicrhau bod cyllid craidd i unrhyw sefydliad yn cael ei ddiogelu i ddechrau? Beth fyddai'n gam diogelu rhesymol?

Cwestiwn 29:

A ydych chi'n cytuno y dylai fod disgwyl i'r Comisiwn adolygu'n rheolaidd wybodaeth am yr ardoll brentisiaethau ac ystyried ffyrdd newydd o ddyrannu cyllid ar draws y system os nad ystyrir bod yr ardoll yn bodloni anghenion cyflogwyr yng Nghymru?

Cwestiwn 30:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn barhau i gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio arlwy darparwyr dysgu?

Cwestiwn 31:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn allu dal yn ôl rhywfaint o'r gyllideb graidd ar gyfer pob sector, i'w ddyrannu ar sail yr argymhellion yn y cynlluniau sgiliau blynyddol?

Cwestiwn 32:

A ydych o'r farn bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system AHO yn ddigonol ac yn briodol?

Cwestiwn 33:

Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system AHO yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

Diogelu buddiannau dysgwyr**Cwestiwn 34:**

A ydych chi'n cytuno y dylai trefniadau diogelu dysgwyr fod yn gydnaws â chyfres gyffredin o egwyddorion, er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y sector AHO?

Cwestiwn 35:

A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a awgrymwyd? A oes yna egwyddorion y dylid eu hepgor neu egwyddorion ychwanegol y dylid eu cynnwys?

Cwestiwn 36:

A ydych chi'n cytuno â'r hyn yr awgrymir ei gynnwys mewn Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr? A oes yna unrhyw beth y dylid ei ychwanegu neu ei hepgor?

Cwestiwn 37:

Pa sancsiynau, os o gwbl, ddylai fod ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â Chynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr?

Cwestiwn 38:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r trefniadau presennol ar gyfer datrys cwynion barhau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion?

Cryfhau llais y dysgwr a'r gynrychiolaeth a roddir iddo

Cwestiwn 39:

A ydych yn cytuno y dylid datblygu egwyddorion a gwerthoedd cyson o ran llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr, ac y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr dysgu weithredu yn unol â'r rhain?

Cwestiwn 40:

A ydych yn cytuno y dylai cynrychiolwyr dysgwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu elfen ddeilliannau'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau?

Cwestiwn 41:

A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer sicrhau llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr? A ydych o'r farn y byddai hyn yn gweithio i bob darparwr dysgu?

Cwestiwn 42:

Os felly, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am sefydlu'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig?

Cwestiwn 43:

A ddylai'r Comisiwn weithio gyda phob darparwr addysgol yng Nghymru i sicrhau bod digon o adnoddau a chefnogaeth i sefydlu cyrff a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr?

Sicrhau a gwella ansawdd

Cwestiwn 44:

A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer y fframwaith ansawdd? A ddylid ychwanegu, ddileu neu newid rhywbeth?

Cwestiwn 45:

Ac eithrio chweched dosbarth ysgolion, a ddylai un corff gael ei ddynodi i gynnal asesiad ansawdd allanol o'r holl ddarpariaeth AHO? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb, ac esboniwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol yr ydych yn eu rhagweld.

Cwestiwn 46:

A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad arfaethedig o wella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

Cwestiwn 47:

A ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig rôl y Comisiwn mewn perthynas â gwella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

Cwestiwn 48:

Sut y gellid teilwra rôl y Comisiwn o ran datblygu'r gweithlu i adlewyrchu anghenion gwahanol sectorau a darparwyr?

Chweched dosbarth**Cwestiwn 49:**

A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill i ysgogi addasiad a reoleiddir o ran chweched dosbarth, ee cau lleoliad penodol, neu a fyddai negodi Rhan II o'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau yn ffordd well o gyflawni hyn?

Cwestiwn 50:

Pa systemau adrodd ddylai fod yn ofynnol gan yr awdurdod lleol er mwyn dangos ei fod yn defnyddio'r cyllid a roddir ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn effeithiol?

Cwestiwn 51:

A yw rôl y Comisiwn pan ddyfernir bod chweched dosbarth yn destun pryder yn briodol, neu a ddylai fod yn wahanol mewn rhyw ffordd?

Cwestiwn 52:

A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill o ran darpariaeth chweched dosbarth?

Cefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru

Cwestiwn 53:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn chwarae rôl ganolog o ran datblygu Prentisiaethau yng Nghymru? Yn benodol, a ddylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i gyhoeddi Llwybrau Prentisiaeth yn ogystal â Thystysgrifau Prentisiaeth?

Cwestiwn 54:

Pa elfennau o'r system brentisiaethau bresennol sy'n gweithio'n dda ac y dylid eu cadw, a lle y gellir ei gwella drwy gael gwared ar gymhlethdod a gofynion statudol beichus?

Cwestiwn 55:

A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r trefniant bod Gweinidogion Cymru'n pennu'r gofynion lefel uchel ar gyfer gweithredu'r system brentisiaethau yn y modd a gynnigir ar hyn o bryd drwy Fanyleb Brentisiaethau Cymru?

Cwestiwn 56:

A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau, neu a oes gennych unrhyw sylwadau am y system brentisiaethau ddiwygiedig rydym wedi ei chynnig?

Ymchwil ac arloesi

Cwestiwn 57:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig cyffredinol a strwythur manwl Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn? Eglurwch pam.

Cwestiwn 58:

A ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru gael cwmpas mor eang o ran cyllid er mwyn gallu cyllido'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd, hyd yn oed os yw ei gwmpas yn fwy cyfyng yn ei weithrediad terfynol, h.y. a ddylai gael hyblygrwydd o'r fath? Eglurwch pam.

Cwestiwn 59:

A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn ac Ymchwil ac Arloesi Cymru, a'r berthynas â'r rheini sy'n derbyn cyllid a'r gymuned ymchwil ac arloesi? Eglurwch pam.

Sicrwydd ariannol a llywodraethiant

Cwestiwn 60:

A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi pwerau statudol penodol i'r Comisiwn newydd mewn perthynas â sicrhau rheolaeth ariannol, cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant darparwyr AHO?

Cwestiwn 61:

A ydych chi'n cytuno y dylai pob darparwr AHO fod yn ddarostyngedig i egwyddorion tebyg o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant? A ddylai'r Comisiwn allu cymhwyso trefniadau a gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau neu gategorïau o ddarparwyr AHO?

Cwestiwn 62:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi'r Comisiwn arfaethedig i gyhoeddi cyfres ffurfiol o ofynion ac amodau yn ogystal â darparu canllawiau i ddarparwyr a chynghor ar arfer da?

Cwestiwn 63:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, ac y dylai'r ddeddfwriaeth bennu fframwaith fras ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant a rhoi disgrisiwn i'r Comisiwn ddatblygu ei ofynion o fewn y fframwaith hwn?

Cwestiwn 64:

Ydych chi'n cytuno:

- a) y dylid rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â darparwyr AHO ac unrhyw bersonau eraill y mae eu hystyried yn briodol wrth ddatblygu ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant?
- b) y dylai Gweinidogion Cymru allu darparu canllawiau i'r Comisiwn ar ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ansawdd a llywodraethiant ac y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn dalu sylw i'r canllawiau hyn?
- c) y byddai'r gofynion uchod yn ddigonol i sicrhau nad yw trefniadau'r Comisiwn ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant yn mynd y tu hwnt i'r cwmpas bwriedig? A oes angen unrhyw fesurau diogelu eraill?

Cwestiwn 65:

A oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon ynghylch y cynnig bod y Comisiwn yn gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr AHO, yn cynnal adolygiadau sicrwydd rheolaidd, ac yn mynd i mewn i eiddo ac edrych ar ddogfennau neu ddeunyddiau, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

Cwestiwn 66:

A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn amrywiaeth o bwerau ymyrryd er mwyn ymdrin â methiant i gydymffurfio â gofynion sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

Cwestiwn 67:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu pwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac y dylid galluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch arfer y pwerau hynny?

Cwestiwn 68:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo rôl Prif Reoleiddiwr Elusennau ar gyfer sefydliadau addysg bellach i'r Comisiwn arfaethedig? Beth yw eich barn ynglŷn â'r cynnig i gadw'r gofyniad presennol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gofrestru â'r Comisiwn Elusennau?

Llywodraethiant Addysg Uwch**Cwestiwn 69:**

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyfrin Gyngor barhau i oruchwylio a chymeradwyo'r diwygiadau hynny i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd?

Cwestiwn 70:

A ydych chi'n ystyried bod y cynnig i ymestyn dull aildosbarthu 2006 yn briodol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch? Os na, pam?

Cwestiwn 71:

A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofynion statudol presennol sy'n gymwys i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch er mwyn gallu ymestyn y dull gweithredu arfaethedig i bob sefydliad addysg uwch?

Cwestiwn 72:

A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried diwygiadau i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch?

Cwestiwn 73:

Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig, a ydych chi'n cytuno â'r canlynol:

- a) dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar y weithdrefn ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu?
- b) dylai'r Comisiwn adolygu rhestr 2006 o faterion budd y cyhoedd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyhoeddi canllawiau ynghylch y materion hynny y bydd y Cyfrin Gyngor yn parhau i'w goruchwylio a'u cymeradwyo?
- c) dylid galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau i'r Comisiwn o ran y materion budd y cyhoedd y dylid parhau i graffu arnynt a'u goruchwylio

Cwestiwn 74:

A ydych chi'n credu y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn diogelu budd y cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru?

Cwestiwn 75:

Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch a ddylai'r trefniant hwn barhau i weithredu yn y dyfodol fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r gorfforaeth addysg uwch dan sylw, neu a ddylid gwneud darpariaeth mai ar argymhelliad y Comisiwn yn unig y gellir arfer y pwerau hyn.

Cwestiwn 76:

Pa opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi, a pham? A oes unrhyw opsiynau eraill y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 77:

O dan ba amodau neu amgylchiadau ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol arfer pwerau diddymu?

Cwestiwn 78:

A ddylai pwerau diddymu fod yn arferadwy ar argymhelliad y Comisiwn yn unig? Os felly, a ddylid ymestyn hyn i'r trefniadau presennol ar gyfer sefydliadau addysg bellach?

Cwestiwn 79:

A ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig, hynny yw na ddylid gwneud newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd?

Cwestiwn 80:

A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru?

Cwestiwn 81:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer darparu addysg uwch mewn addysg bellach fel rhan o'i gylch gwaith strategol ehangach ar gyfer darpariaeth AHO?

Cefnogi'r Gymraeg**Cwestiwn 82:**

A ydych chi'n cytuno y dylid gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i roi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau?

Cwestiwn 83:

Wrth roi sylw dyledus i'r Gymraeg, a ydych chi'n cytuno y dylid disgwyl i'r Comisiwn ystyried materion fel a ganlyn:

- gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- digonolrwydd y ddarpariaeth addysgol Gymraeg bresennol;

- sut y gall gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
- sut y gellir datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
- hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sector AHO?

Cwestiwn 84:

Beth yw eich barn ynghylch y berthynas rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Comisiwn yn y dyfodol? Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar y berthynas o ran cyllido'r Coleg a'i weithgareddau gweithredol yn ogystal ag atebolrwydd y Coleg i'r Comisiwn.

Cwestiwn 85:

Beth yw eich barn ynghylch y berthynas rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Comisiwn yn y dyfodol? Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar y berthynas o ran cyllid a gweithgarwch gweithredol y Ganolfan Genedlaethol a'i hatebolrwydd i'r Comisiwn.

Data, ystadegau ac ymchwil

Cwestiwn 86:

Beth yw eich barn ynghylch rhoi perchenogaeth o'r setiau data sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ar hyn o bryd i'r corff newydd?

Cwestiwn 87:

A ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar ysgolion uwchradd a darparwyr dysgu eraill a chyrrff arholi i rannu data ynghylch nodweddion a chyraeddiadau dysgwyr â darparwr dysgu newydd y mae'r dysgwr yn cofrestru ag ef?

Cwestiwn 88:

A oes unrhyw bwerau, dyletswyddau neu faterion eraill y dylid eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y swyddogaethau hyn i'r corff newydd?

Materion yn ymwneud â chyllid myfyrwyr

Cwestiwn 89:

A allai cynyddu nifer y graddau carlam ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru yn well?

Cwestiwn 90:

A yw'r trefniadau deddfwriaethol presennol, yn enwedig y diffyg terfyn ffioedd ar gyfer cyrsiau carlam, yn cyfyngu ar y gwaith o ddatblygu a chyflwyno graddau carlam yng Nghymru?

Cwestiwn 91:

Sut y gellid diffinio graddau carlam?

Cwestiwn 92:

Beth yw eich barn chi am y costau posibl sydd ynghlwm â chyflwyno graddau carlam dwy flynedd? Yn benodol, beth yw'r goblygiadau posibl ar gyfer ffioedd dysgu sy'n daladwy am gyrsiau o'r fath ac ar gyfer cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr cymwys?

Cwestiwn 93:

Yn eich barn chi, a oes angen ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â graddau carlam?

Cwestiwn 94:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r Comisiwn reoleiddio'r holl ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n ceisio cael eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Cwestiwn 95:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid parhau i ddarparu dau gategori ar gyfer dynodi cyrsiau darparwyr addysg uwch yng Nghymru at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Cwestiwn 96:

Pa un o'r tri opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi a pham? A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch y tu allan i Gymru fodloni un o'r tri opsiwn hefyd?

Cwestiwn 97:

A oes unrhyw faterion eraill yr ydych yn credu y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Cwestiwn 98:

I lywio ein hasesiad o effeith bosibl y cynigion hyn, a ydych yn rhagweld unrhyw effaith benodol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig (o fewn diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010)?

Pa effeithiau ydych chi'n credu y byddai ar yr unigolion hynny? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 99:

Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- i) cael effeithiau positif neu gael effeithiau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 100:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.

